Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil gymdeithasol
38/2015

www.cymru.gov.uk

# Gwerthusiad ffurfiannol o'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid: Adroddiad terfynol

# GWERTHUSIAD FFURFIANNOL O'R FFRAMWAITH YMGYSYLLTU A DATBLYGU IEUENCTID: ADRODDIAD TERFYNOL

ICF International

Arad Research

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
David Roberts
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
Ffôn: 0300 062 5485
E-bost: david.roberts@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru,
5 Awst 2015
ISBN: 978-1-4734-4227-6
© Hawlfraint y Goron 2015

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0, ac eithrio lle y nodir fel arall.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

# Tabl cynnwys

Rhestr Acronymau ........ ii
Crynodeb gweithredol ........ 1
1. Cyflwyniad ........ 16
2. Y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid ........ 27
3. Rheoli a gweithredu'r Fframwaith ........ 50
4. Gweithredu chwe elfen y Fframwaith ........ 68
5. Asesu cynnydd ........ 130
Atodiad A Fframwaith model rhesymeg ........ 143
Atodiad B Astudiaethau achos ........ 159

Rhestr tablau

Tabl 1.1 Ymatebwyr i'r arolwg ........ 22
Tabl 2.1 Crynodeb o'r Polisïau a'r Rhaglenni sy'n gysylltiedig â'r YEPF ........ 33
Tabl 3.1 Ystyried rheolaeth awdurdodau lleol o'r YEPF ........ 55
Tabl 3.2 Ystyried gweithrediad awdurdodau lleol o'r YEPF ........ 63
Tabl 4.1 Ystyried dulliau awdurdodau lleol o weithredu elfen adnabod yn gynnar yr YEPF ........ 78
Tabl 4.2 Ystyried dulliau awdurdodau lleol o weithredu elfen broceriaeth yr YEPF ........ 89
Tabl 4.3 Ystyried dulliau awdurdodau lleol o weithredu elfen olrhain yr YEPF ........ 97
Table 4.44.4 Ystyried dulliau awdurdodau lleol o weithredu elfen darpariaeth yr YEPF ........ 108
Tabl 4.5 Ystyried dulliau awdurdodau lleol o weithredu elfen cyflogadwyedd yr YEPF ........ 116
Tabl 4.6 Ystyried dulliau awdurdodau lleol o weithredu elfen atebolrwydd yr YEPF ........ 119

## Rhestr ffigurau

Ffigur 2.1 Llinell Amser Cynllun Gweithredu'r YEPF 2013-2015 ........ 42
Ffigur 2.2 Rôl Bwrdd y Rhaglen ........ 43
Ffigur 2.3 Rolau a chyfrifoldebau ar gyfer gweithredu'r YEPF ........ 44
Ffigur 2.4 Model ymgysylltiad pum haen Gyrfa Cymru (ar gyfer ôl-16) a dyrannu gweithwyr arweiniol ........ 46

Rhestr Acronymau

| Acronym | Diffiniad |
|---|---|
| **AWS** | Swyddogion Presenoldeb a Lles |
| **BRAVO** | Asesiad Risg a Chanlyniadau Gwerth Ychwanegol Coleg Penybont |
| **BTEC** | Cyngor Addysg Busnes a Thechnoleg |
| **CAHMS** | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed |
| **CAIS** | Gwasanaeth Gwybodaeth Cyngor Alcohol |
| **CAP** | Proses Ymgeisio Gyffredin |
| **CF** | Cymunedau yn Gyntaf |
| **CV** | Curriculum Vitae |
| **CWVYS** | Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol |
| **CWW** | Gyrfaoedd a Byd Gwaith |
| **DWP** | Adran Gwaith a Phensiynau |
| **EAL** | Saesneg fel Iaith Ychwanegol |
| **EI** | Adnabod yn Gynnar |
| **EOTAS** | Derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol |
| **EPCs** | Cydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu |
| **ESF** | Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
| **FE** | Addysg Bellach |
| **FIS** | Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd |
| **FSM** | Prydau Ysgol am Ddim |
| **GCSE** | Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd |
| **GISDA** | Grŵp Ieuenctid Sengl Digartref Arfon |
| **HESA** | Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch |
| **HMRC** | Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi |
| **IAG** | Gwybodaeth, Cyngor neu Arweiniad |
| **ICF** | Cronfa Canol Dinas |
| **ISOS** | ISOS |
| **ISPs** | Protocolau Rhannu Gwybodaeth |
| **JCP** | Canolfan Byd Gwaith |
| **JGW** | Twf Swyddi Cymru |
| **KIT** | Cadw mewn Cysylltiad |
| **LAs** | Awdurdodau Lleol |
| **LLWR** | Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru |
| **LSB** | Bwrdd Gwasanaethau Lleol |
| **MIS** | System Gwybodaeth Reoli |
| **NEET** | Pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant |
| **NTfW** | Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru |
| **PEP** | Llwybrau Blaengar i Feithrin Cysylltiadau |
| **PLASC** | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion |
| **PPG** | Grŵp Llwybrau Cadarnhaol |
| **PRU** | Uned Cyfeirio Disgyblion |
| **RAG** | Coch, Ambr, a Gwyrdd |
| **RPA** | Codi'r oedran cyfranogi |
| **SAO** | Uwch Swyddog Atebol |

| **Acronym** | Diffiniad |
|---|---|
| **SEET** | Cefnogi Ymgysylltiad ag Addysg a Hyfforddiant |
| **SEN** | Anghenion Addysgol Arbennig |
| **SIP** | Cynllun Gwella Ysgol |
| **SMEs** | Busnesau Bach a Chanolig |
| **SRO** | Uwch Berchennog Cyfrifol |
| **STEM** | Hyfforddiant Safonau mewn Gweithgynhyrchu Electroneg |
| **TSWs** | Gweithwyr Cymorth Trosglwyddo |
| **UKCES** | Comisiwn y Deyrnas Unedig dros Gyflogaeth a Sgiliau |
| **VCS** | Gwasanaeth Cymunedol Gwirfoddol |
| **WASPI** | Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru |
| **WBL** | Dysgu Seiliedig ar Waith |
| **WJEC** | Cyd-bwyllgor Addysg Cymru |
| **WLGA** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| **YEPF** | Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid |
| **YMCA** | Coleg Cymunedol YMCA Cymru |
| **YOTs** | Timau Troseddau Ieuenctid |

## Crynodeb gweithredol

### Y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid

Nod y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (YEPF) yw lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Mae chwe elfen i'r Fframwaith, y profwyd eu bod yn effeithiol wrth gynyddu ymgysylltiad a datblygiad ieuenctid o'u gweithredu gyda'i gilydd yn rhan o strategaeth. Dyma'r elfennau: adnabod yn gynnar, gwell broceriaeth a chydgysylltu cymorth; prosesau olrhain a throsglwyddo cryfach ar gyfer pobl ifanc; sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion pobl ifanc; pwyslais ar sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd ar gyfer cyflogaeth ymhlith pobl ifanc; a mwy o atebolrwydd. Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am arwain y broses o weithredu'r Fframwaith, gan weithio'n agos gyda Gyrfa Cymru, gwasanaethau ieuenctid, ysgolion, darparwyr hyfforddiant i bobl ifanc 16 oed a hŷn a phartneriaid eraill.

### Diben yr astudiaeth

Nod y gwerthusiad oedd asesu'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r Fframwaith ac effeithiolrwydd prosesau gweithredu, gan ystyried a yw'r arweiniad anstatudol yn ddigonol i gyflawni uchelgeisiau a thargedau Llywodraeth Cymru ac amlygu gwersi i'w dysgu er mwyn gwella'r arweiniad a'r broses weithredu.

Yn gyfochrog, datblygwyd fframwaith gwerthuso effaith drafft i lywio dull ac amseriad gwerthusiad o effaith yr YEPF.

### Dull

Yn dilyn cam cwmpasu cychwynnol i ddatblygu fframwaith gwerthuso, roedd y gwerthusiad ffurfiannol yn cynnwys:

- mapio cynnydd ym mhob awdurdod lleol ac ar draws Cymru i ddeall sail resymegol, rheolaeth a dull gweithredu cynlluniau awdurdodau lleol; y cynnydd a wnaed hyd yma; a pha dystiolaeth sy'n cael ei defnyddio i fonitro cynnydd a chanlyniadau
- deall pa gamau a systemau sydd wedi bod yn sail i'r cynnydd a wnaed er mwyn cael gwell dealltwriaeth o sut mae awdurdodau lleol a phartneriaid yn cydweithio i gyflawni'r YEPF, yr hyn sy'n gweithio'n dda, a'r heriau a wynebwyd.

Mae’r astudiaeth yn defnyddio’r tasgau ymchwil canlynol:

- adolygu data a dogfennau ynglŷn â’r YEPF. Roedd hyn yn cynnwys: dogfennau rheoli rhaglen mewnol, adroddiadau cynnydd a chynlluniau gweithredu awdurdod lleol; data gwybodaeth reoli; a dogfennau cyhoeddedig fel cynllun gweithredu, amserlen a dogfen ganllaw yr YEPF
- wyth cyfweliad cwmpasu â staff rhaglen Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol er mwyn datblygu dealltwriaeth o sut y cynlluniwyd ac y datblygwyd yr YEPF
- dadansoddi ystadegau swyddogol ar gyflawniad, cyflogaeth a phobl ifanc NEET ym mhob ardal awdurdod lleol er mwyn deall tueddiadau, gwahaniaethau a chynnydd
- cyfweliadau â 162 o aelodau staff gweithredu ardal awdurdod lleol, gan gynnal saith cyfweliad ym mhob awdurdod lleol ar gyfartaledd. Roedd hyn yn cynnwys: 72 rhanddeiliad awdurdod lleol (uwch swyddogion cyfrifol, rheolwyr strategol, rheolwyr gweithredol); 19 cynrychiolydd darparwyr ôl-16; wyth cynrychiolydd ysgolion; 24 cynrychiolydd Gyrfa Cymru; pedwar cynrychiolydd y Ganolfan Byd Gwaith; ac wyth cynrychiolydd y sector gwirfoddol a chymunedol. Tua diwedd yr astudiaeth, cynhaliwyd ailgyfweliad â phob un namyn un o’r Cydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu a gyflogir gan awdurdodau lleol i ddarparu diweddariad ar gynnydd
- cyfweliadau ag 20 rhanddeiliad â diddordeb brwd yn y rhaglen oherwydd eu bod wedi cyfrannu at ei datblygu, goruchwylio’r broses o’i darparu a’i chyflwyno’n ymarferol gydag ystod o awdurdodau lleol
- ymchwil astudiaeth achos mewn wyth awdurdod lleol yn canolbwyntio ar faes penodol o weithredu’r YEPF lle y gwnaed cynnydd cryf ac mewn 3-4 awdurdod lleol yn canolbwyntio ar thema drawsbynciol benodol (bodloni anghenion y Gymraeg, rheoli newid mewn amgylchiadau ariannol anodd). Roedd y rhain yn cynnwys 99 cyfweliad â rhanddeiliaid mewn awdurdodau lleol, darparwyr, Gyrfa Cymru a sefydliadau eraill, ac ymgysylltu â 49 o bobl ifanc a oedd yn fuddiolwyr (mewn chwe astudiaeth achos lle y gellid eu canfod)
- arolwg rhanddeiliaid o’r rhai a gyfrannodd at weithredu’r YEPF i fesur eu canfyddiadau o gyfranogiad a gwelliant mewn trefniadau a systemau ers lansio’r YEPF. Y gyfradd ymateb oedd 34%

- trafodaeth â chyfranogwyr yng nghyfarfodydd rhanbarthol yr YEPF yn ystod mis Rhagfyr 2014 ynglŷn â phrosesau i sefydlu elfennau o'r YEPF yn llwyddiannus.

Er mwyn ystyried cwmpas gwerthusiad o effaith yr YEPF, aseswyd y gwahanol ddulliau, datblygwyd fframwaith gwerthuso ac adolygwyd ffynonellau data i fesur canlyniadau ac effeithiau mewn ymgynghoriad â staff yn Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru ac arweinwyr awdurdodau lleol.

**Canfyddiadau allweddol**

Canfu'r ymchwil fod pob awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd wrth weithredu'r YEPF ers mis Hydref 2013. Roedd llawer o'r cyfweleion wedi canmol yr YEPF fel yr arweiniad gorau/strategaeth orau yn ymwneud â phobl ifanc i'w (l)lunio gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r cyfweleion yn credu bod yr YEPF wedi gwneud gwahaniaeth i gydweithredu rhwng yr holl bartneriaid yn ogystal ag ymgysylltiad arweinwyr y sefydliadau allweddol. Ceir isod ganfyddiadau mewn perthynas â meysydd gweithredu penodol[1].

- Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol wedi cymryd camau i ddatblygu trefniadau llywodraethu strategol effeithiol ar gyfer yr YEPF. Roedd pob awdurdod lleol wedi penodi Uwch Swyddog Atebol ar gyfer yr YEPF. Mae gan y rhan fwyaf grwpiau llywio strategol sy'n cynnwys ystod o bartneriaid mewnol ac allanol perthnasol a arweinir gan Uwch Swyddogion Atebol. Roedd angen i ambell awdurdod lleol gwblhau'r trefniadau llywio strategol yn derfynol ac roeddent naill ai mewn sefyllfa lle nad oedd ganddynt ystod lawn o bartneriaid wedi'u cynrychioli neu nad oeddent (ar adeg yr ymchwil ym mis Chwefror 2015) wedi sefydlu grŵp. Roedd rhai nad oeddent yn cyfarfod yn rheolaidd neu'n aml.
- Er ei bod yn anodd asesu effeithiolrwydd trefniadau llywio'n llawn, ceir tystiolaeth fod grwpiau mwy sefydledig yn gweithredu'n dda: ceir presenoldeb da; ceir enghreifftiau o arweinyddiaeth weithredol gan Uwch Swyddogion Atebol; mae partneriaid yn gweithio'n dda i oruchwylio'r broses weithredu a gwneud cynnydd; a cheir gwelliant o ran rhannu data a gwybodaeth. Ategwyd hyn gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r arolwg rhanddeiliaid.
- Rhwystr allweddol rhag sefydlu a chynnal trefniadau llywodraethu strategol cadarn yw ad-drefnu gwasanaethau awdurdodau lleol yn barhaus o ganlyniad i ostyngiadau mewn cyllid.

[1] Dyma oedd y sefyllfa ar adeg yr ymchwil ym mis Chwefror 2015 – mae Awdurdodau Lleol wedi parhau i wneud cynnydd ar nifer o feysydd ers yr adeg hon.

*Trefniadau gweithredol*

- Roedd pob awdurdod lleol wedi datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer rhoi'r YEPF ar waith ac roeddent wedi'u rhannu â Llywodraeth Cymru. Nid oedd llawer o'r cynlluniau'n cynnwys gwybodaeth benodol am allbynnau a chynhyrchion, cerrig milltir, a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gweithredu. Nid yw awdurdodau lleol ychwaith yn defnyddio methodoleg rheoli prosiect ffurfiol i'w cynorthwyo i fonitro'r broses weithredu. Mae'r ffactorau hyn gyda'i gilydd yn gwneud goruchwyliaeth strategol yn anodd.
- Roedd pob awdurdod lleol wedi penodi Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu i gydlynu'r broses o gyflawni'r cynllun gweithredu. Mae'r rhan fwyaf o randdeiliaid yn credu bod y rhain wedi gwneud gwahaniaeth arwyddocaol. Mae llawer o awdurdodau lleol wedi ymsefydlu swyddogaethau'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu mewn dwy rôl neu fwy i gydnabod ei gyfrifoldebau pellgyrhaeddol. Mewn rhai, caiff Cydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu eu hymestyn i gyflawni rolau gweithredol yn ogystal â strategol.
- Mewn rhai awdurdodau lleol, mae'r trefniadau i ddatblygu'r rhan fwyaf o elfennau'r YEPF yn eglur gyda threfniadau partneriaeth wedi'u sefydlu i gyrraedd datrysiadau ymarferol. Mewn eraill, mae'r trefniadau'n llai datblygedig. Mae'n ymddangos mai ychydig iawn o awdurdodau lleol sydd â threfniadau datblygu sy'n ymdrin â phob elfen a ddylai fod yn symud ymlaen.
- Roedd gan bron hanner yr awdurdodau lleol Brotocolau Rhannu Gwybodaeth ar waith a hwyluswyd gan y ffaith bod yr YEPF wedi'i sefydlu. Roedd yr holl rai eraill yn parhau i'w datblygu. Mae gan rai o'r rhain drefniadau lleoli gyda Gyrfa Cymru, sy'n caniatáu i ddata pum haen gael ei rannu â chyswllt a enwyd heb y Protocol Rhannu Gwybodaeth. Roedd partneriaid mewn awdurdodau lleol a chanddynt Brotocolau Rhannu Gwybodaeth a threfniadau lleoli yn gadarnhaol iawn ynglŷn â gallu rhannu gwybodaeth ac yn credu bod hyn yn cefnogi gwelliant o ran adnabod yn gynnar ac olrhain.

*Adnabod yn gynnar*

- Roedd gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol system adnabod yn gynnar a oedd eisoes yn bodoli ar gyfer pobl ifanc yn yr ysgol (iau nag 16 oed) yr oedd angen ei datblygu, neu roeddent wedi datblygu a phrofi system ers lansio'r YEPF.

- Er bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi canolbwyntio ar adnabod yn gynnar, mae'r gwaith hwn ar ei hôl hi mewn nifer o awdurdodau lleol. Ym mis Chwefror 2015, roedd 20 awdurdod lleol wedi datblygu cynlluniau; roedd dau heb wneud hynny.
- Mae dau ar bymtheg o'r 20 awdurdod lleol wedi dechrau gweithredu eu systemau. Mae sawl un yn ymestyn eu systemau i gynnwys plant ym Mlynyddoedd 9 a 10.
- Mae'n ymddangos bod awdurdodau lleol sydd wedi datblygu system newydd wedi mabwysiadu proses ddatblygu gadarn, sy'n cynnwys ymgynghori ac adborth gan ystod o bartneriaid, gan gynnwys ysgolion. Mae partneriaid yn gwerthfawrogi'r system newydd ac yn credu ei bod yn ddefnyddiol. Mae rhanddeiliaid wedi adrodd am welliannau ers mis Hydref 2013.
- Yr her allweddol mewn perthynas â systemau adnabod yn gynnar cyn 16 oed yw sicrhau bod pob ysgol yn defnyddio'r system yn gyson ac yn darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol. Roedd problemau technegol, fel diffyg llwyfan gwybodaeth reoli unigol ar gyfer ysgolion a'r awdurdod lleol, wedi cyfrannu at oedi mewn rhai awdurdodau lleol.
- Yn gyffredinol, roedd prosesau ar gyfer adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio yn llai datblygedig ar gyfer y grŵp oedran 16-18 na'r grŵp iau nag 16 oed, ond roedd cynnydd arwyddocaol wedi'i wneud ers canol 2014.
- Roedd tri awdurdod lleol ar ddeg wedi datblygu cynlluniau ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed ac mae 10 ohonynt yn eu gweithredu; nid oedd gan y gweddill gynlluniau ym mis Chwefror 2015.
- Roedd derbyn hysbysiad systematig gan yr holl ddarparwyr ôl-16 ynglŷn â phobl ifanc sy'n ymddieithrio o gwrs neu'n tynnu'n ôl yn ffurfiol yn heriol i lawer o awdurdodau lleol a staff Gyrfa Cymru. Roedd Gyrfa Cymru wedi defnyddio cyfarfodydd adolygu partneriaeth blynyddol yn effeithiol fel dull o wella prosesau.

*Broceriaeth*

- Roedd tua dwy ran o dair o awdurdodau lleol wedi datblygu cynlluniau a threfniadau ar gyfer gwaith arweiniol. O ran plant iau nag 16 oed, roedd 12 awdurdod lleol wedi gweithredu'r rhain ac roedd tri wedi cytuno ar gynlluniau ar gyfer gwaith arweiniol newydd/wedi'i gryfhau. O ran pobl ifanc 16-18 oed, roedd 13 awdurdod lleol wedi gweithredu eu cynlluniau

ac roedd 3 wedi cytuno ar gynlluniau. Mewn tri o'r awdurdodau lleol eraill, roedd trefniadau cymharol gadarn eisoes ar waith ar gyfer pobl ifanc iau nag 16 oed a oedd i barhau. Nid oedd cynnydd wedi'i wneud yn y gweddill.

- O ran pobl ifanc iau nag 16 oed, mae rhai awdurdodau lleol yn mabwysiadu paneli ysgol fel fforwm i neilltuo gweithiwr arweiniol ac adolygu cynnydd, tra bod gan eraill fforymau ardal neu awdurdod lleol. Yn achos pobl ifanc 16-18 oed, mae llawer o awdurdodau lleol yn defnyddio grwpiau ymarferwyr amlasiantaeth ar lefel awdurdod lleol neu is-awdurdod lleol. Yn gyffredinol, nid oedd awdurdodau lleol wedi llwyr ddatblygu cynlluniau ar gyfer rheoli achosion ac, at ei gilydd, nid oedd hyfforddiant wedi'i gynnal ar gyfer gweithwyr arweiniol.
- Ceir ystod o heriau wrth weithredu gwaith arweiniol, gan gynnwys: oedi wrth sefydlu Protocolau Rhannu Gwybodaeth, sy'n atal broceriaeth effeithiol; anawsterau wrth gyfleu'r neges bod gwaith arweiniol eisoes yn digwydd ac nad yw'n ddull newydd; y bwlch rhwng disodli adnoddau Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer gwaith arweiniol yn ystod cyfnodau pan oedd cyllidebau'n cael eu lleihau; heriau wrth sefydlu a chyfleu proses eglur ar gyfer adnabod yn gynnar a broceriaeth; ac anawsterau wrth annog yr holl bartneriaid i gymryd rhan mewn grwpiau gweithredol er mwyn hwyluso broceriaeth. Roedd yr awdurdodau lleol a oedd wedi gweithredu trefniadau ar gyfer gwaith arweiniol wedi goresgyn y rhan fwyaf o'r rhain.

*Olrhain*

- Yn gyffredinol, roedd awdurdodau lleol a chanddynt system adnabod yn gynnar a arweiniwyd gan ddata ar gyfer pobl ifanc yn yr ysgol iau nag 16 oed wedi sefydlu prosesau ar gyfer dilyn ac adolygu bob tymor o leiaf. Roedd 14 awdurdod lleol o leiaf wedi sefydlu hyn.
- Roedd enghreifftiau o ymdrechion ar lefel leol i gryfhau olrhain ar yr adeg trosglwyddo. Roedd y rhain yn cynnwys: defnyddio grwpiau ymarferwyr i wella rhannu gwybodaeth rhwng darparwyr cyn ac ôl-16; neilltuo tiwtoriaid o fewn colegau i weithredu fel cyswllt ag ysgolion penodol; defnyddio gweithiwr arweiniol cyn-16 oed i barhau i ddarparu cymorth yn ystod y tymor cyntaf mewn darpariaeth ôl-16.
- Roedd enghreifftiau hefyd o awdurdodau lleol yn cryfhau eu prosesau ar gyfer adnabod pobl ifanc Haen 1, fel defnyddio gweithwyr ieuenctid datgysylltiedig i ymweld ag aelwydydd i gael gwybod am statws person

ifanc. Roedd grwpiau ymarferwyr amlasiantaeth awdurdod lleol yn cael eu defnyddio hefyd i adnabod pobl ifanc yn Haen 1.

- Yn gyffredinol, roedd llai o Brotocolau Rhannu Gwybodaeth ôl-16 ar waith ac felly roedd awdurdodau lleol a phartneriaid wedi'i chael hi'n fwy heriol olrhain y grŵp oedran 16-18. Ar y cyfan, roedd awdurdodau lleol a phartneriaid yn gadarnhaol iawn ynglŷn â derbyn data pum haen misol gan Gyrfa Cymru, hyd yn oed pan oedd hyn ar gael mewn fformat cyfansymiol, dienw yn unig. Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod hyn yn welliant mawr.
- Roedd pryderon yn parhau nad oedd rhai ysgolion/colegau/darparwyr dysgu seiliedig ar waith yn darparu gwybodaeth amserol a chyson i alluogi olrhain. Nid oedd y colegau wedi datblygu system adrodd gyffredin.
- Mewn awdurdodau lleol lle'r oedd Protocolau Rhannu Gwybodaeth wedi'u sefydlu, roedd enghreifftiau o olrhain pobl ifanc 16-18 oed yn fisol gan grwpiau ymarferwyr amlasiantaeth, a oedd yn ymddangos fel petai'n gweithio'n dda i atal ymddieithrio a darparu cymorth ychwanegol lle'r oedd ei angen.
- Ychydig o awdurdodau lleol oedd wedi cymryd unrhyw gamau i wella'r broses o olrhain a darparu cymorth ar gyfer pobl ifanc 19 oed a hŷn a'u trosglwyddo i gymorth arall gan y Ganolfan Byd Gwaith.

*Darpariaeth*

- Roedd pob awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd wrth fapio darpariaeth yn erbyn y model pum haen yn unol ag arweiniad gan Lywodraeth Cymru. Yn y rhan fwyaf o achosion, y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu a arweiniodd y broses o gydlynu'r gweithgarwch hwn a chysylltu â phartneriaid. Ym mhob awdurdod lleol, roedd map darpariaeth drafft wedi'i lunio a oedd yn gymharol gynhwysfawr ym marn rhanddeiliaid.
- Er bod sawl awdurdod lleol a phartner yn gadarnhaol ynglŷn â'r wybodaeth yr oeddent wedi'i chael o'r ymarfer, roedd yn ymddangos y bu dryswch mewn rhai awdurdodau lleol ynglŷn â'r broses a'r diben. Roedd llawer o awdurdodau lleol wedi wynebu heriau wrth gael gwybodaeth gywir ac amserol gan yr holl ddarparwyr.
- Ychydig iawn o enghreifftiau a gafwyd o awdurdodau lleol a gynhaliodd yr ymarfer mapio darpariaeth ochr yn ochr â dadansoddiad o

wybodaeth am y farchnad lafur. O ganlyniad, ychydig o enghreifftiau a gafwyd o ddadansoddiad systematig o'r ddarpariaeth o gymharu ag anghenion pobl ifanc a chyflogwyr.

- Adroddodd sawl awdurdod lleol eu bod wedi amlygu bylchau yn y ddarpariaeth trwy'r ymarfer mapio darpariaeth. Angen cyffredin a amlygwyd ar draws sawl awdurdod lleol oedd diffyg darpariaeth Haen 2, a hynny ynghyd â dyblygu darpariaeth Haen 3 mewn rhai achosion.
- Roedd enghreifftiau o fyrddau strategol YEPF yn ymateb i fapiau darpariaeth a grwpiau gweithredol yn gweithio i ddod o hyd i ddarpariaeth a cheisio llenwi bylchau. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, nid oedd yn ymddangos bod unrhyw gynlluniau eglur ar waith ar gyfer sut i fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth a amlygwyd trwy'r ymarfer mapio a sut y bydd y mapiau'n cael eu diweddaru.
- O ran y Broses Ymgeisio Gyffredin, y prif rwystr rhag gweithredu yw sicrhau ymrwymiad ysgolion. Adroddodd staff awdurdodau lleol, partneriaid ac ysgolion nad yw llawer o ysgolion yn credu bod gwerth i'r cais ar-lein i fodloni'r Warant Ieuenctid.

*Cyflogadwyedd*

- Nid yw awdurdodau lleol wedi canolbwyntio ar y maes hwn o'r YEPF ar y cyfan, felly ychydig iawn o gamau newydd a gymerwyd ers mis Hydref 2013 o ganlyniad i'r YEPF. Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol a'u partneriaid yn cytuno nad oedd yr elfen hon o'r YEPF wedi'i datblygu'n ddigonol ym mis Chwefror 2015.
- Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi cynnwys Twf Swyddi Cymru, Sgiliau Gwaith a darpariaeth cyflogadwyedd arall yn eu map darpariaeth ac yn bwriadu sicrhau bod yr holl weithwyr arweiniol yn ymwybodol o gyfleoedd dilyniant sydd ar gael trwy'r rhaglenni hyn.
- Roedd llawer o awdurdodau lleol wedi cyfyngu eu cynlluniau gweithredu YEPF i amcanion i gynyddu nifer y cyfleoedd am leoliadau gwaith, prentisiaethau a chyfleoedd dysgu seiliedig ar waith eraill a gynigir gan gyflogwyr y sector cyhoeddus. Mae'r cwmpas gweithgarwch hwn braidd yn gyfyngedig. Mewn rhai awdurdodau lleol, roedd trafodaethau wedi'u cynnal i ddatblygu ystod ehangach o weithgareddau a defnyddio'r map darpariaeth i gyfrannu at gynlluniau prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

- Nid oedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn ceisio sicrhau bod pobl ifanc mewn cyflogaeth heb hyfforddiant yn cael eu holrhain a'u cynorthwyo i ymgymryd ag addysg a hyfforddiant.
- Er nad oedd unrhyw brosiectau cyflogadwyedd newydd wedi'u datblygu o dan yr YEPF yn gyffredinol, rhoddodd awdurdodau lleol a phartneriaid enghreifftiau o fentrau presennol sy'n rhoi gwybodaeth i bobl ifanc am yrfaoedd a chyfleoedd profiad gwaith, y byddant yn eu cynnal neu'n ceisio eu hymestyn.

*Atebolrwydd*

- Yn unol â'r cynllun gweithredu cenedlaethol, roedd pob awdurdod lleol wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd â Llywodraeth Cymru i drafod cynnydd wrth roi eu cynllun gweithredu YEPF ar waith. Bu cyfathrebu mynych a rheolaidd rhwng cyfarfodydd hefyd.
- Roedd pob awdurdod lleol wedi dechrau derbyn data misol gan Gyrfa Cymru ar nifer y bobl ifanc 16-18 oed ym mhob un o haenau'r model pum haen. Caiff y data hwn ei ddadansoddi a'i gyflwyno i grwpiau llywio strategol mewn nifer gynyddol o awdurdodau lleol i hwyluso'r broses o fonitro cynnydd wrth gynyddu cyfran y bobl ifanc 16-18 oed sydd yn haenau 4 a 5.
- Ychydig o awdurdodau lleol oedd wedi gosod unrhyw dargedau lleol ar gyfer lleihau nifer y bobl NEET. Roedd hyn yn gyffredinol oherwydd nad oedd y systemau data wedi'u sefydlu i osod meincnodau a thargedau ar gyfer y rhai 16-18 oed.

*Cyfranogiad pobl ifanc wrth ddatblygu a chyflwyno'r YEPF*

- Nid oedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi ymgynghori â phobl ifanc ar yr YEPF eto. Roeddent o'r farn bod angen i'r broses weithredu symud ymlaen ymhellach cyn y gellir cynnal ymgynghoriad ystyrlon.

*Y cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru*

- Ar y cyfan, roedd awdurdodau lleol a phartneriaid o'r farn bod y cyfathrebu, y cyfleoedd rhwydweithio a'r cymorth a ddarparwyd gan dîm rhaglen YEPF Llywodraeth Cymru yn amserol ac yn ddefnyddiol. Roedd yr unig bryder yn ymwneud â'r arweiniad ar fapio darpariaeth.

- Croesawyd y grant a'i estyniad hyd at 2015/16, ac roedd wedi galluogi awdurdodau lleol i weithredu'r YEPF, gan gynnwys ariannu Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu.

**Mesur effaith**

- O asesu dulliau posibl o gynnal gwerthusiad gyda sefyllfa wrthffeithiol, ni fyddai dull lled-arbrofol yn briodol oherwydd ni fyddai'n bosibl sefydlu grŵp cymharu yng Nghymru nac mewn man arall.
- Mae'n bosibl dadansoddi tueddiadau lle mae data dangosyddion ar gael cyn i'r YEPF gael ei lansio ac yn parhau i gael ei gasglu yn ystod y rhaglen (dros bum mlynedd) ac i fesur y pellter a deithiwyd (dull cyn ac ar ôl) lle mae dangosyddion ar gael fel llinell sylfaen a thrwy gydol cyfnod y rhaglen a thu hwnt.
- O ran y dangosyddion y mae eu hangen i werthuso'r YEPF i fesur ei lwyddiant (ar gyfer allbynnau yn ogystal â chanlyniadau ac effeithiau), gellir mesur llawer gan ddefnyddio data eilaidd a reolir gan Lywodraeth Cymru a chyrff cenedlaethol eraill (gan gynnwys Gyrfa Cymru, yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, yr Adran Gwaith a Phensiynau, a Chomisiwn y Deyrnas Unedig dros Gyflogaeth a Sgiliau). Byddai'n rhaid casglu data o gronfa ddata gwybodaeth am gleientiaid Gyrfa Cymru, sef IO, ar gyfnodau penodol gan ei bod yn gronfa ddata fyw.
- I rai, byddai hyn yn golygu: casglu data gan awdurdodau lleol yn eu cynlluniau gweithredu YEPF y byddai angen ei ddilysu gan werthuswyr mewn rhai achosion trwy ymchwil ansoddol; cysylltu data (megis rhwng y gronfa ddata IO a data cyflogaeth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi gan ddefnyddio rhifau yswiriant gwladol; neu'r gronfa ddata IO a data ar ddisgyblion ysgol a'r rhai hynny sy'n mynychu sefydliadau darparwyr ôl-16); ymchwil uniongyrchol atodol yn arolygu pobl ifanc a rhanddeiliaid.
- Os cymerir camau yn ystod gweddill 2015 a rhan gyntaf 2016 i lenwi bylchau, byddai hyn yn cryfhau gwerthusiad o effaith y gellid ei amseru i gael ei gynnal o ddiwedd 2016 i ganol 2017 i gasglu canlyniadau tymor canolig a thymor hwy disgwyliedig yr YEPF.

**Casgliadau**

Yn seiliedig ar y dystiolaeth hon, mae'n amlwg bod camau gweithredu yn yr YEPF wedi cael eu datblygu ac wrthi'n cael eu datblygu gan yr awdurdodau lleol hynny sy'n canolbwyntio ar leihau nifer a chyfran y bobl ifanc sy'n NEET yn 16 oed fel sylfaen ar gyfer lleihau'r niferoedd hŷn sy'n NEET. Gwneir hyn

trwy adnabod yn gynnar, broceriaeth ac olrhain a dechrau mynd i'r afael â sut y gallant leihau nifer o bobl sy'n dod yn NEET yn 17 a 18 oed trwy ddarpariaeth, arweiniad ar ddewisiadau, adnabod yn gynnar a broceriaeth, ac olrhain. Nid ydynt eto'n mynd i'r afael yn glir â sut y byddant yn cynyddu cyflogadwyedd a sgiliau parod am waith mewn ysgolion a darparwyr ôl-16 er mwyn darparu sylfaen gadarn ar gyfer pobl ifanc pan fyddant yn cwblhau addysg a hyfforddiant fel y gallant leihau nifer y rhai sy'n NEET yn 19-24 oed.

Mae'n amlwg hefyd bod awdurdodau lleol wedi gwneud cynnydd ar y cyfan ers i'r YEPF gael ei lansio, a bod rhanddeiliaid wedi sylwi ar hyn. I lawer o awdurdodau lleol, mae hyn wedi arwain at newid sylweddol. Er na chyflawnwyd nifer o'r cerrig milltir yn ystod y graddfeydd amser a osodwyd, roedd ychydig dros hanner yr awdurdodau lleol wedi sefydlu systemau adnabod yn gynnar, broceriaeth ac olrhain ar gyfer pobl ifanc iau nag 16 oed ac 16-18 oed, tra bod gan y rhan fwyaf o rai eraill rai o'r rhain. Mae'n achos pryder bod nifer fach o awdurdodau lleol heb wneud cynnydd o'r fath a'u bod wedi methu â sefydlu trefniadau llywio strategol a Phrotocolau Rhannu Gwybodaeth. Mae diffyg Protocolau Rhannu Gwybodaeth, grwpiau strategol a gweithredol effeithiol, cydweithrediad ac ymgysylltiad ysgolion a cholegau, a systemau data darparwyr ôl-16 yn amlwg yn gysylltiedig â methiant awdurdodau lleol i sefydlu systemau adnabod yn gynnar ac olrhain.

Er bod y cymorth a'r arweiniad a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru wedi galluogi cynnydd ar y cyfan, nid oedd hynny'n wir am rai gweithgareddau a arweiniwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys:

- datblygu'r ffurflen ymgeisio gyffredin a'r broses ymgeisio gyffredin
- datblygu'r arolwg cyrchfan i gasglu gwybodaeth am gyrchfannau pobl ifanc 17 a 18 oed mewn colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith
- cyflymder datblygu prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer cyfnod rhaglen 2014-20.

Gan ei bod yn ymddangos bod llawer o'r rhwystrau rhag cynnydd yn gysylltiedig â'r graddau yr oedd awdurdodau lleol a'u partneriaid wedi blaenoriaethu a datblygu gweithgareddau a fyddai'n gweithredu'r YEPF, gallai pwysau ychwanegol fod yn fwy effeithiol na throi'r YEPF yn ofyniad statudol pryd y gallai newidiadau i'r fframwaith atebolrwydd ar gyfer ysgolion a cholegau (defnyddio canlyniadau cyrchfan) wneud rhywfaint o wahaniaeth i gymhellion. Yn ddiweddarach, pan fydd y llywodraeth yn canolbwyntio llai ar y rhaglen a phan na fydd cyllid grant ar gyfer Cydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu, er enghraifft, gallai arweiniad statudol sicrhau'r cynnydd a wnaed.

**Argymhellion**

*Rheoli'r YEPF gan awdurdodau lleol*

Dylai tîm y rhaglen:

- fonitro cynnydd o ran trefniadau llywodraethu strategol yn ofalus yn yr awdurdodau lleol hynny lle nad ydynt wedi'u sefydlu eto. Os oes angen, dylai arweinwyr y rhaglen drafod unrhyw rwystrau gydag Uwch Swyddogion Atebol a darparu cymorth i'w goresgyn
- sicrhau bod cyfarfodydd un i un yn cael eu cynnal ag Uwch Swyddogion Atebol yn rhan o'r cyfarfodydd adolygu chwemisol gydag awdurdodau lleol. Dylai hyn sicrhau bod yr YEPF yn parhau i fod yn flaenoriaeth i uwch reolwyr, a'u bod yn ymwneud â darparu arweinyddiaeth strategol ac yn cymryd camau i symud ymlaen i'w weithredu
- cynnal adolygiadau'n gynt yn yr awdurdodau lleol lle mae cynnydd ar adnabod yn gynnar, broceriaeth ac olrhain ymhell y tu ôl i'r amserlen, cynghori Uwch Swyddogion Atebol a Chydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu bod yn rhaid i gynlluniau gweithredu ymdrin â datblygu a gweithredu pob elfen o'r YEPF dros ddwy i dair blynedd, cael eu hadnewyddu, bod ar ffurf sy'n gallu galluogi monitro strategol, a chynnwys canlyniadau a thargedau a fyddai'n sicrhau craffu ac atebolrwydd lefel uwch o'r cynllun gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid.

*Gweithredu'r YEPF gan awdurdodau lleol*

Dylai tîm y rhaglen:

- barhau i weithio'n agos gyda staff yn adran Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru er mwyn sicrhau bod Protocolau Rhannu Gwybodaeth yn cael eu cymeradwyo cyn gynted â phosibl. Os amlygir unrhyw gamgymeriadau neu broblemau cyffredin mewn Protocolau Rhannu Gwybodaeth drafft, dylid rhannu'r rhain ag awdurdodau lleol sydd wrthi'n llunio Protocolau Rhannu Gwybodaeth fel y gallant osgoi'r un camgymeriadau ac y gellir cyflymu'r broses
- amlygu hyfforddiant a chymorth perthnasol ar gyfer awdurdodau lleol ar fethodoleg rheoli prosiect os nad yw hyn ar gael iddynt. Dylai hyn arwain at well cynlluniau gweithredu sy'n amlygu llwybr allweddol, cerrig milltir eglur a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cyflawni. Dylai hyn helpu awdurdodau lleol i fonitro eu cynnydd eu hunain a rheoli risgiau

- datblygu canllawiau ar elfen gyflogadwyedd y fframwaith a fyddai'n galluogi awdurdodau lleol a phartneriaid i ddatblygu ymatebon mwy cydlynol i ofynion y Fframwaith
- parhau i weithio'n agos ac yn gydweithrediadol â phartneriaid cenedlaethol fel Colegau Cymru, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a Chyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol. Dylai'r partneriaid hyn barhau i annog eu haelodau a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli i gyfrannu'n llawn at weithredu'r YEPF. Cyn belled ag y bo'n bosibl, dylai gweithredu'r YEPF fod yn eitem flaenoriaeth mewn cyfarfodydd lleol a rhanbarthol
- yn ystod 2015/16, sefydlu sut mae awdurdodau lleol yn bwriadu datblygu a chefnogi unrhyw weithgareddau gweithredu sy'n weddill (gan gynnwys yr adnoddau staffio ar gyfer yr YEPF) er mwyn sicrhau y bodlonir targedau'r Llywodraeth ac asesu a fyddai arweiniad statudol yn lleihau risg methiant ymhellach.

*Gweithredu'r chwe elfen*

Cyn belled ag y bo'n bosibl, dylai tîm y rhaglen geisio darparu cymorth wedi'i deilwra i gynorthwyo awdurdodau lleol mewn perthynas â phob un o'r chwe elfen. Mae cynnydd ac anghenion awdurdodau lleol yn amrywio. Yn hytrach nag arweiniad a chymorth mwy cyffredinol, mae dull mwy penodol yn debygol o fod yn fwy defnyddiol ac effeithiol ar y cam hwn. Gellid darparu hyn trwy fonitro detholus a chyfarfodydd amlach â swyddog cyswllt, ond hefyd trwy gynnig broceru cymorth/arweiniad gan awdurdodau lleol eraill.

Dylai tîm y rhaglen:

(a) Adnabod yn gynnar

- Sicrhau bod awdurdodau lleol nad oes ganddynt systemau canolog, safonedig ar gyfer adnabod yn gynnar cyn-16 ac ôl-16 yn canolbwyntio ar hyn fel blaenoriaeth.
- Sicrhau bod awdurdodau lleol, ochr yn ochr â Gyrfa Cymru, yn gweithio tuag at annog yr holl ysgolion, colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith i ddarparu gwybodaeth gyson i fonitro'r holl rai 16-18 oed.

(b) Broceru ac olrhain

- Sicrhau bod awdurdodau lleol nad oes ganddynt Brotocolau Rhannu Gwybodaeth yn sefydlu'r rhain erbyn diwedd mis Mehefin 2015.

- Defnyddio gweithgorau rhanbarthol i ganolbwyntio ar amlygu a rhannu gwersi o froceriaeth a chreu a defnyddio swyddogion arweiniol.
- Annog awdurdodau lleol trwy ysgolion a darparwyr ôl-16 eraill i ddarparu cymorth trosglwyddo i bobl ifanc 16 oed.
- Amlygu sut y gall Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru gynorthwyo'r broses drosglwyddo'n well yn 19 oed a pha un a all y Ganolfan Byd Gwaith gynorthwyo'r rhai hynny sy'n hŷn na 19 oed.

(c) Darpariaeth

- Datblygu arweiniad arfer gorau ar y ffordd fwyaf effeithiol o ddadansoddi, diweddaru a defnyddio'r wybodaeth a gesglir. Dylai hyn, er enghraifft, ddarparu arweiniad ar asesu'r ddarpariaeth yn erbyn tystiolaeth o anghenion pobl ifanc; dadansoddi'r ddarpariaeth yng nghyd-destun anghenion y farchnad lafur leol; a chymryd camau i lenwi bylchau a dileu dyblygu.
- Parhau â'i ymdrechion i gynnwys ysgolion yn yr YEPF ac yn enwedig i sicrhau ymrwymiad i ddefnyddio'r broses ymgeisio ar-lein sy'n sail i'r broses ymgeisio gyffredin i fodloni'r Warant Ieuenctid. Er enghraifft, dylid cynnal mwy o gyfarfodydd â phenaethiaid ysgolion a rhoi cyflwyniadau ychwanegol iddynt. Mae newidiadau diweddar i fesurau atebolrwydd ysgolion yng Nghyfnod Allweddol 4 a gynlluniwyd i 'ailgydbwyso'r pwyslais gormodol sydd wedi ymddangos ar y radd C mewn TGAU' yn gyfrwng posibl i sicrhau ymrwymiad gan fod pobl ifanc iau nag 16 oed sydd yn haen 4 yn grŵp targed posibl ar gyfer y ddwy fenter bolisi. Dylid gwneud y cysylltiadau hyn mewn unrhyw drafodaethau â phenaethiaid.

(ch) Cyflogadwyedd

- Defnyddio'r gweithgorau rhanbarthol fel fforwm i rannu arfer da mewn perthynas â gwella cyflogadwyedd a sgiliau parod am waith mewn ysgolion a darparwyr ôl-16 a bodloni anghenion pobl ifanc sydd mewn cyflogaeth heb hyfforddiant. Gallai hyn fod o Gymru ac o wledydd eraill y Deyrnas Unedig. Dylid cynorthwyo awdurdodau lleol i amlygu cyfleoedd a heriau i weithredu dulliau tebyg yn eu cyd-destunau eu hunain.
- Gellir defnyddio'r bwletin (a chyflwyniadau gweithgorau rhanbarthol) sy'n seiliedig ar yr adroddiad hwn i ddatblygu negeseuon ar gyfer

awdurdodau lleol ynglŷn ag elfennau sydd ar goll yn eu cynlluniau a chyflymu cynnydd.

*Paratoadau ar gyfer asesiad o'r effaith*

Dylai tîm y rhaglen a chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru:

- Gymryd camau i wella'r data a gesglir gan awdurdodau lleol mewn cynlluniau gweithredu YEPF a'r data yr adroddir arno ar gyfer monitro.
- Sefydlu'r data i'w gasglu o gronfa ddata IO Gyrfa Cymru.
- Ystyried yr ymarferion cysylltu data y gellid eu cynnal.
- Cynllunio ar gyfer gwerthusiad terfynol o'r effaith a fydd yn cynnwys rhywfaint o ymchwil uniongyrchol ac ymchwil ansoddol i gadarnhau'r cynnydd a wnaed gan awdurdodau lleol rhwng diwedd 2016 a chanol 2017.

# 1. Cyflwyniad

## Diben yr astudiaeth

1.1 Nod y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (YEPF) yw lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Mae chwe elfen i'r Fframwaith, y profwyd eu bod yn effeithiol wrth gynyddu ymgysylltiad a datblygiad ieuenctid o'u gweithredu gyda'i gilydd yn rhan o strategaeth.[2] Dyma'r elfennau: adnabod yn gynnar, gwell broceriaeth a chydgysylltu cymorth; prosesau olrhain a throsglwyddo cryfach ar gyfer pobl ifanc; sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion pobl ifanc; pwyslais ar sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd ar gyfer cyflogaeth ymhlith pobl ifanc; a mwy o atebolrwydd. Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am arwain y broses o weithredu'r Fframwaith, gan weithio'n agos gyda Gyrfa Cymru, gwasanaethau ieuenctid, ysgolion, darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 a phartneriaid eraill.

1.2 Penodwyd ICF ac Arad Research i gynnal gwerthusiad ffurfiannol o'r YEPF er mwyn asesu cynllun, effeithiolrwydd ac effaith gychwynnol y rhaglen. Roedd y gwerthusiad yn canolbwyntio ar broses yn bennaf. Ei nod oedd asesu'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r Fframwaith gyda'r bwriad o ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd i wella arweiniad a gweithredu.

1.3 I gyflawni hyn, amcanion y gwerthusiad ffurfiannol oedd:

- asesu sail resymegol cynlluniau gweithredu YEPF lleol a pha un a ydynt yn mynd i'r afael â phroblemau allweddol mewn ardaloedd lleol o ran cyflawniad, cyflogaeth a chyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant
- amlygu sut yr oedd awdurdodau lleol yn rheoli'r broses o weithredu'r Fframwaith, gan gynnwys arweinyddiaeth strategol a gweithredol, ac asesu effeithiolrwydd y prosesau hyn
- amlygu sut yr oedd awdurdodau lleol yn gweithredu pob elfen ac asesu effeithiolrwydd trefniadau gweithredol, gan gynnwys gwaith partneriaeth
- amlygu'r hyn sy'n gweithio'n dda o ran rheoli a gweithredu'r Fframwaith a gwaith partneriaeth
- amlygu unrhyw rwystrau a wynebwyd a sut y'u goresgynnwyd
- mapio'r cynnydd a wnaed gan bob awdurdod lleol ar bob un o'r elfennau ac asesu a yw'r disgwyliadau tymor byr a thymor canolig a

---

[2] J Nelson ac L O'Donnell, Approaches to supporting young people not in education, employment or training, y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (NFER), 2012

osodwyd yn y cynllun gweithredu cenedlaethol yn debygol o gael eu cyflawni a'r rhwystrau rhag eu cyflawni

- casglu safbwyntiau awdurdodau lleol a'u partneriaid ar ddefnyddioldeb yr arweiniad a'r cymorth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill o ran eu galluogi i wneud cynnydd ar bob elfen o'r Fframwaith a sut y gellid eu gwella
- ystyried a yw arweiniad anstatudol yn ddigonol i gyflawni uchelgeisiau a thargedau Llywodraeth Cymru.

1.4 Yn gyfochrog â'r gwerthusiad ffurfiannol o'r broses, mae fframwaith gwerthuso effaith drafft wedi'i ddatblygu er mwyn llywio'r data y mae angen ei gasglu i fodloni anghenion asesiad o'r effaith yn y dyfodol. Cyflwynir hyn mewn adroddiad ar wahân ac mae'r goblygiadau a'r argymhellion wedi'u cynnwys yn y casgliadau i'r adroddiad hwn.

**Methodoleg**

*Cam 1: Dechrau a chwmpasu cychwynnol (Gorffennaf 2014)*

1.5 Diben yr ymchwil dechreuol a chwmpasu cychwynnol oedd datblygu dealltwriaeth o sut mae'r rhaglen yn gweithio a'r disgwyliadau cyffredinol ym mhob awdurdod lleol. Gwnaethom gynnal:

- adolygiad cychwynnol o ddata a dogfennau ynglŷn â'r YEPF. Roedd hyn yn cynnwys: dogfennau rheoli rhaglen mewnol fel cofnodion cyfarfodydd bwrdd y rhaglen; adroddiadau cynnydd a chynlluniau gweithredu awdurdodau lleol; data gwybodaeth reoli; a dogfennau cyhoeddedig fel cynllun gweithredu, amserlen a dogfen ganllaw gysylltiedig yr YEPF
- wyth cyfweliad cwmpasu â staff rhaglen Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol i ddatblygu ein dealltwriaeth o sut y cynlluniwyd ac y datblygwyd yr YEPF a'r data ansoddol a meintiol a oedd ar gael i lywio'r gwerthusiad. Roedd y cyfweleion yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol, Gyrfa Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Colegau Cymru, Uwch Berchennog Cyfrifol a chadeirydd Bwrdd Rhaglen yr YEPF, Pennaeth y Gangen Ymgysylltu ag Ieuenctid a'r arweinwyr ar gyfer broceriaeth a darparu yn nhîm y rhaglen.

1.6 Defnyddiwyd y wybodaeth hon i ddatblygu fframwaith i asesu cynnydd yn systematig ar draws pob awdurdod lleol. Cyflwynir y fframwaith cynnydd yn Atodiad 1.

*Cam 2 – Mapio cynnydd (canol Gorffennaf 2014 i ganol Medi 2014)*

1.7 Yna gwnaethom gynnal y tasgau ymchwil canlynol:

*Tasg 2.1 – Adolygu dogfennau'n fanwl*

1.8 Gwnaethom adolygu cynlluniau gweithredu, adroddiadau a chofnodion awdurdodau lleol o gyfarfodydd â staff Llywodraeth Cymru, a gwybodaeth reoli a ddarparwyd gan dîm y rhaglen YEPF. Gwnaethom dynnu a chofnodi gwybodaeth am:

- y dystiolaeth wrth wraidd y sail resymegol dros flaenoriaethau a phwyslais y cynllun
- y camau a gyflawnwyd mewn unrhyw elfen cyn i'r cynllun ddechrau
- y gweithgareddau a gynlluniwyd a'u graddfeydd amser yn erbyn disgwyliadau
- y camau a gyflawnwyd ers i'r cynllun ddechrau a'r dystiolaeth o gyflawniad.

1.9 Casglwyd y wybodaeth yn systematig mewn templed fel y gellid cymharu ar draws awdurdodau lleol.

*Tasg 2.2 – Adolygu data cyd-destunol*

1.10 Gwnaethom ddefnyddio ystadegau swyddogol i gasglu a dadansoddi data cymharol allweddol ar gyflawniad, cyflogaeth a phobl ifanc NEET ym mhob ardal awdurdod lleol er mwyn deall tueddiadau a gwahaniaethau. Roedd hyn wedi cynorthwyo'r cyfwelwyr i ddeall y cyd-destun lleol, y sefyllfa sylfaenol a'r cyfeiriad. Roedd yn cynnwys data yn ystod y pum mlynedd diwethaf ar:

- nifer y bobl ifanc sy'n trosglwyddo i gyflogaeth
- lefelau cyrhaeddiad a gyflawnwyd gan bobl ifanc 16 a 19 oed
- cyrchfannau pobl ifanc 16 a 18 oed
- nifer/canran y bobl ifanc sy'n NEET o'r amcangyfrifon swyddogol a data cyrchfan Gyrfa Cymru

*Tasg 2.3 – Cyfweld staff gweithredu mewn ardaloedd awdurdodau lleol*

1.11 Gwnaethom gyfweld aelodau staff allweddol ym mhob ardal awdurdod lleol sy'n rheoli'r broses o gyflawni'r rhaglen. Gofynnwyd iddynt roi safbwynt ar gynnydd hyd yma, y newidiadau sydd wedi'u gwneud a sut mae'r trefniadau ar gyfer gwahanol elfennau'n gweithio.

1.12 Ein nod oedd cyfweld o leiaf chwe unigolyn ym mhob awdurdod lleol, gan gynnwys: y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu, yr uwch swyddog cyfrifol, a'r aelodau staff arweiniol yn Gyrfa Cymru, y sector addysg a hyfforddiant, cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Ieuenctid, a'r trydydd sector sy'n gweithio ar y rhaglen. Cynhaliwyd saith cyfweliad ym mhob awdurdod lleol ar gyfartaledd a chyfwelwyd 162 o randdeiliaid (uwch swyddogion atebol, Cydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu, rheolwyr strategol, rheolwyr gweithredol); 19 cynrychiolydd darparwyr ôl-16; wyth cynrychiolydd ysgolion; 24 cynrychiolydd Gyrfa Cymru; pedwar cynrychiolydd y Ganolfan Byd Gwaith; ac wyth cynrychiolydd y sector gwirfoddol a chymunedol.

1.13 Roedd y cyfweliadau'n ymdrin â'r canlynol:

- sut mae cynllun gweithredu'r Fframwaith wedi esblygu o'r ddealltwriaeth gychwynnol o'u sefyllfa o ran yr YEPF a'r heriau i'w hwynebu
- y cynnydd a wnaed tuag at gwblhau'r camau a'r canlyniadau i'w cyflawni yn y cynllun (o leiaf y rhai hynny i'w cyflawni erbyn diwedd 2014) ynghyd â gwelliannau; heriau; rhwystrau a chyflawniadau
- y trefniadau rheoli a sefydlwyd i gyflawni'r cynllun, gan gynnwys ymgysylltiad partneriaid a'u cyfranogiad gweithredol
- y trefniadau monitro i adolygu'r broses o gyflawni'r cynllun a'r data sy'n cael ei ddefnyddio/sydd i'w ddefnyddio i ddangos tystiolaeth o gynnydd a chyflawni targedau/canlyniadau
- y prosesau a ddilynwyd i ymgysylltu â phartneriaid perthnasol, cydweithio, a rhannu data, a pha mor dda y maent yn gweithio
- gwerth a pherthnasedd yr arweiniad a'r cymorth a ddarparwyd.

1.14 Gwnaethom hefyd gasglu tystiolaeth ddogfennol fel dogfennau cynllunio mewnol, adroddiadau, mapiau llinell sylfaen ac adolygiadau darpariaeth.

*Tasg 2.4 – Cyfweld rhanddeiliaid*

1.15 Cynhaliwyd cyfweliadau ffôn ag 11 rhanddeiliaid â diddordeb brwd yn y rhaglen oherwydd eu bod wedi cyfrannu at ei datblygu, goruchwylio'r broses o'i darparu a'i chyflwyno'n ymarferol gydag ystod o awdurdodau lleol. Roedd y rhain yn cynnwys cynrychiolwyr Gyrfa Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, cyngor sgiliau sector, y Ganolfan Byd Gwaith, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, Estyn, Cyngor Celfyddydau Cymru, Ymddiriedolaeth y Tywysog, Consortiwm Addysg Rhanbarthol y De-orllewin

a'r Canolbarth ac arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer polisi cyflogaeth a Chronfa Gymdeithasol Ewrop.

1.16 Roedd y cyfweliadau hyn yn archwilio dealltwriaeth a chanfyddiadau o'r canlynol:

- eu rôl yn y rhaglen a'u cyfraniadau at gymorth ac arweiniad i awdurdodau lleol ac unrhyw un o'r partneriaid allweddol yn lleol
- rheolaeth ac arweinyddiaeth y rhaglen o fewn awdurdodau lleol
- trefniadau gweithredol, cydweithredu a chydweithio rhwng partneriaid allweddol
- y cymorth a'r arweiniad a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru
- cynnydd ar bob elfen (lle y bo'n berthnasol i'r rôl)
- heriau a oresgynnwyd ac unrhyw rwystrau y mae angen mynd i'r afael â hwy'n genedlaethol
- rhannu a chysylltu gwybodaeth ac unrhyw rwystrau rhag gwneud hyn.

*Cam 3 – Deall cynnydd (Hydref 2014 i Chwefror 2015)*

1.17 Diben cam olaf y gwerthusiad oedd deall yn fanylach sut yr oedd awdurdodau lleol a phartneriaid yn cydweithio ar bob un o elfennau'r YEPF. Ei nod oedd deall beth sy'n gweithio'n effeithiol ac i ba raddau y mae'r rhaglen yn mynd i'r afael â rhai o'r problemau canfyddedig o ran ymgysylltu a datblygu ieuenctid. Cafwyd diweddariad ar gynnydd ers Cam 2 yr ymchwil hefyd.

1.18 Cynhaliwyd y tasgau ymchwil canlynol:

*Tasg 3.1 – Ymchwil astudiaeth achos*

1.19 Gwnaethom ddatblygu wyth astudiaeth achos awdurdod lleol a dwy astudiaeth achos thematig. Roedd tri phrif ddiben i'r astudiaethau achos, sef:

- triongli'r dystiolaeth a gasglwyd yng Ngham 2 trwy ymgysylltu ag ystod ehangach o gyfweleion
- darparu gwybodaeth ychwanegol am y camau a gymerwyd gan awdurdodau lleol a'u partneriaid o ran elfennau penodol o'r YEPF
- dysgu am yr hyn sy'n galluogi cynnydd a sut y goresgynnwyd heriau er mwyn darparu gwersi i'w dysgu i awdurdodau lleol eraill

1.20 O ganlyniad, gwnaethom ddewis elfennau o'r Fframwaith i'w harchwilio'n fanylach yn yr astudiaethau achos lle'r oedd awdurdodau lleol wedi gwneud cynnydd a fyddai'n ddefnyddiol i eraill. Yr elfennau a ddewiswyd oedd:

adnabod yn gynnar a broceriaeth cyn 16 oed; adnabod yn gynnar a broceriaeth ôl-16; mapio'r ddarpariaeth; a chyflogadwyedd. Roedd yr astudiaethau achos thematig yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg mewn perthynas â'r YEPF a chyflawni'r YEPF mewn hinsawdd ariannol heriol.

1.21 Roedd yr holl astudiaethau achos yn archwilio'r camau a gymerwyd gan yr awdurdod(au) lleol ers lansio'r YEPF o gymharu â'r sefyllfa flaenorol, beth oedd wedi galluogi cynnydd, beth fu'r heriau a sut y'u goresgynnwyd. Roeddent hefyd yn ceisio pennu pa wahaniaeth yr oedd y camau wedi'i wneud i weithio mewn partneriaeth ac ymgysylltiad a datblygiad pobl ifanc mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

1.22 Ein nod oedd cyfweld naw rhanddeiliad fesul astudiaeth achos a, lle y bo'n berthnasol ac yn briodol, cynnwys safbwyntiau hyd at 12 person ifanc. Cynhaliwyd 10 cyfweliad â rhanddeiliaid fesul astudiaeth achos ar gyfartaledd a chyfwelwyd cyfanswm o 99 o randdeiliaid, wyneb yn wyneb gan mwyaf. Roedd hyn yn cynnwys: 45 aelod o staff awdurdodau lleol (gan gynnwys rheolwyr a staff gweithredol ym meysydd addysg, gwaith ieuenctid a thai); naw aelod o staff ysgol; 19 cynrychiolydd darparwyr ôl-16; saith cynrychiolydd sefydliadau'r sector gwirfoddol a chymunedol (yn y sector ieuenctid yn bennaf ond hefyd yn y sector tai); a 10 gweithiwr Gyrfa Cymru. Cyfwelwyd 49 person ifanc hefyd mewn chwe astudiaeth achos lle'r oedd yn briodol eu cynnwys fel buddiolwyr.

*Tasg 3.2 – Arolwg rhanddeiliaid*

1.23 Amcan yr arolwg oedd casglu gwybodaeth am ganfyddiadau o arweinyddiaeth a rheolaeth, gwaith partneriaeth a gwerth ychwanegol strategol gan randdeiliaid awdurdod lleol sy'n ymwneud â'r YEPF. Amcan eilaidd yr arolwg oedd profi a yw arolwg rhanddeiliaid yn ddull dichonadwy a phriodol i'w gynnwys mewn unrhyw werthusiad o effaith yr YEPF yn y dyfodol; ac, os ydyw, byddai'n darparu llinell sylfaen.

1.24 Lluniwyd yr arolwg i gymryd rhwng 10 ac 20 munud i'w gwblhau ac fe'i cynhaliwyd ar-lein gan ddefnyddio meddalwedd SNAP. Fe'i hagorwyd am gyfnod o dair wythnos. Anfonwyd tair neges atgoffa yn ystod y cyfnod hwn. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau ac ymatebion caeëdig (rhai gyda graddfeydd Likert).

1.25 Gofynnwyd i Gydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu roi enwau a chyfeiriadau e-bost aelodau grwpiau strategol a gweithredol yn ogystal ag unrhyw randdeiliaid allweddol eraill. Gwnaethom adolygu'r rhestrau i asesu a oeddent

yn ymddangos yn gynhwysfawr a gwelwyd mai ychydig o awdurdodau lleol oedd wedi cynnwys partneriaid yn y sectorau gwirfoddol a chymunedol. Er mwyn helpu i sicrhau bod safbwynt y sector gwirfoddol a chymunedol yn cael ei gynnwys, anfonodd Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol ddolen i'r arolwg at ei aelodau.

1.26 Dosbarthwyd yr arolwg i 579 o randdeiliaid a derbyniwyd 199 o ymatebion, sef cyfradd ymateb o 34 y cant. Dangosir y mathau o randdeiliaid a ymatebodd i'r arolwg yn Nhabl 1.1. Roedd bron hanner yr ymatebwyr yn staff awdurdodau lleol, roedd oddeutu pumed ran yn staff darparwyr ôl-16, ac roedd oddeutu un o bob chwech yn gweithio i Gyrfa Cymru neu sefydliad yn y sector gwirfoddol a chymunedol.

**Tabl 1.1 Ymatebwyr i'r arolwg**

| **Math o randdeiliad** | **Nifer yr ymatebwyr** | **% yr ymatebwyr** |
|---|---|---|
| Awdurdod Lleol | 96 | 48 |
| Darparwr ôl-16 | 38 | 19 |
| Sefydliad yn y sector gwirfoddol a chymunedol | 29 | 15 |
| Gyrfa Cymru | 29 | 15 |
| Ysgol | 15 | 8 |
| Y Ganolfan Byd Gwaith | 5 | 3 |
| Cyflogwr | 2 | 1 |
| Consortiwm addysg rhanbarthol | 1 | 1 |
| Arall | 3 | 2 |

Ffynhonnell: Arolwg rhanddeiliaid
Sylfaen = arolygwyd pob rhanddeiliad (199)
Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Nodwch y math o sefydliad rydych chi'n gweithio ynddo'. Gofynnwyd iddynt roi tic wrth ymyl pob un oedd yn berthnasol.

1.27 O ran y 96 ymatebwr o awdurdodau lleol, roedd y rhan fwyaf yn gweithio mewn gwasanaethau ieuenctid (48 y cant) neu addysg (43 y cant). O ran yr ymatebwyr a oedd yn gweithio i ddarparwyr ôl-16, roedd 16 yn gweithio mewn colegau, roedd 17 yn gweithio i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith ac roedd pump yn gweithio i fath arall o ddarparwr. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o'r sector gwirfoddol a chymunedol yn gweithio ym maes gwaith ieuenctid gwirfoddol (59 y cant), a'r gweddill yn bennaf ym maes iechyd, tai a chynghorau gwirfoddol y sir. O ran y 15 ymatebwr o ysgolion, roedd dau yn gweithio mewn ysgol arbennig a dau yn gweithio mewn Uned Cyfeirio Disgyblion.

1.28 Dywedodd tri ar ddeg o'r ymatebwyr (saith y cant) eu bod yn gweithio i ddau fath gwahanol o sefydliad, tra bod dau ymatebwr wedi dweud eu bod yn

gweithio i fwy na dau sefydliad. Dywedodd bron i bumed o'r ymatebwyr (17 y cant; 33 unigolyn) eu bod yn gweithio gyda phob awdurdod lleol.

1.29 Mae'r arolwg wedi darparu llinell sylfaen o ganfyddiadau o'r trefniadau a oedd ar waith cyn yr YEPF a sut yr oeddent ym mis Chwefror 2015. Er ei bod yn bosibl na fydd ymateb i arolwg yn y dyfodol o'r un grŵp o randdeiliaid yn darparu sampl gymaradwy, fe allai ddarparu tystiolaeth feintiol o'r cynnydd a wnaed wrth ddatblygu'r Fframwaith lle y mae'n anodd dod i gasgliadau o dystiolaeth ansoddol mewn nifer gymharol fach o gyfweliadau.

*Tasg 3.3 – Cyfweliadau dilynol â Chydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu*

1.30 Cynhaliwyd cyfweliadau ffôn dilynol byr â Chydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu i gael diweddariad ar gynnydd wrth weithredu chwe maes yr YEPF ers Cam 2 yr ymchwil[3]. O ran awdurdodau lleol a gymerodd ran yn yr ymchwil astudiaeth achos, cafwyd y diweddariad ar yr un pryd â'r ymchwil astudiaeth achos wyneb yn wyneb lle'r oedd yn bosibl. Roedd y cyfweliadau'n canolbwyntio ar ddeall cynnydd yn ystod y pedwar mis diwethaf yn erbyn y cerrig milltir allweddol yn y cynllun gweithredu cenedlaethol.

*Tasg 3.4 – Dadansoddi data a dogfennau a ddiweddarwyd*

1.31 Gwnaethom adolygu:

- dogfennau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i ategu'r broses o weithredu'r YEPF, fel canllawiau newydd i awdurdodau lleol ar feysydd penodol o'r YEPF
- gwybodaeth reoli a ddarparwyd gan dîm rhaglen yr YEPF
- cynlluniau gweithredu awdurdodau lleol a ddiweddarwyd, lle'r oeddent ar gael.

*Tasg 3.5 – Cyfweld rhanddeiliaid*

1.32 Cynhaliwyd cyfweliadau ffôn â naw rhanddeiliad. Staff Llywodraeth Cymru oedd y rhain yn bennaf a oedd yn gyfrifol am gydgysylltu a chyflawni elfennau o'r YEPF a chanddynt gyfrifoldeb am gamau penodol a restrwyd yn y cynllun gweithredu cenedlaethol. Gwnaethom hefyd siarad ag arweinwyr meysydd polisi cysylltiedig fel Bagloriaeth Cymru, cynrychiolydd Gyrfa Cymru a Cholegau Cymru.

[3] Nid oedd yn bosibl trefnu cyfweliad yng Nghaerffili oherwydd salwch staff.

1.33 Roedd y cyfweliadau'n archwilio dealltwriaeth a chanfyddiadau o'r canlynol:

- cynnydd wrth weithredu'r YEPF
- rheolaeth ac arweinyddiaeth y rhaglen mewn awdurdodau lleol
- trefniadau gweithredol, cydweithredu a chydweithio rhwng partneriaid allweddol
- y cymorth a'r arweiniad a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

1.34 Ym mis Rhagfyr 2014, gwnaethom hefyd hwyluso gweithdai mewn cyfarfodydd rhanbarthol YEPF. Roedd y rhain yn cynnwys y Cydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu, staff Gyrfa Cymru a chynrychiolwyr partneriaid allweddol fel ysgolion, darparwyr ôl-16 a sefydliadau'r sector gwirfoddol a chymunedol. Roedd y gweithdai'n cynorthwyo'r mynychwyr i fyfyrio ar sut y gallent wneud cynnydd ychwanegol o ran meysydd adnabod yn gynnar a broceriaeth ôl-16 a chyflogadwyedd y Fframwaith. Rhoddodd trafodaethau'r gweithdy wybodaeth ychwanegol am brosesau YEPF mewn ardaloedd awdurdod lleol. Rydym wedi defnyddio'r dystiolaeth ansoddol hon yn yr adroddiad lle y bo'n briodol.

**Cyfyngiadau'r fethodoleg**

1.35 Mae rhai mân gyfyngiadau'n berthnasol i'r dadansoddiad o ganlyniad i'r ymchwil a gwblhawyd, sef:

- cynlluniwyd saith cyfweliad ar gyfartaledd ym mhob awdurdod lleol yn ystod Cam 2. Nid yw hyn yn triongli a chadarnhau safbwyntiau'n ddigonol ar lefel awdurdod lleol i allu dod i unrhyw gasgliadau ynglŷn ag effeithiolrwydd prosesau mewn awdurdodau lleol unigol[4]. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn un o amcanion allweddol yr astudiaeth
- roedd yr astudiaeth achos thematig ar y Gymraeg yn cynnwys tri awdurdod lleol a chanddynt gyfran gymharol uchel o siaradwyr Cymraeg. Y bwriad gwreiddiol oedd i'r astudiaeth achos gynnwys o leiaf ddau awdurdod lleol a chanddynt niferoedd cymharol uchel o bobl ifanc a oedd yn cael eu haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ond nad oeddent yn dod o aelwydydd Cymraeg eu hiaith. Cysylltwyd â thri awdurdod lleol a oedd yn dod o fewn y categori hwn i ofyn iddynt gymryd rhan yn yr astudiaeth achos a'u gwahodd i drafod yr

[4] Hyd yn oed ar gyfer yr awdurdodau lleol hynny a gymerodd ran mewn astudiaeth achos yng Ngham 3 yr ymchwil, nid yw nifer ac ystod y cyfweliadau a gynhaliwyd ar draws Cam 2 a 3 yn darparu digon o dystiolaeth i wneud cymariaethau a dod i gasgliadau am berfformiad awdurdodau lleol.

hyn a oedd wedi galluogi cynnydd a'r heriau yr oeddent wedi'u hwynebu. Gwnaethant wrthod cymryd rhan oherwydd nid oeddent yn credu eu bod wedi cymryd digon o gamau i awdurdodau lleol eraill allu dysgu ohonynt. Gan fod yr astudiaeth achos yn adlewyrchu profiadau awdurdodau lleol a chanddynt niferoedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn unig, mae'n bosibl na fydd modd trosglwyddo'r hyn a ddysgwyd o'u profiadau i gyd-destunau awdurdodau lleol a chanddynt lai o siaradwyr Cymraeg

- ar gyfer yr arolwg rhanddeiliaid, gwnaethom ofyn i awdurdodau lleol anfon manylion cyswllt aelodau grwpiau strategol a gweithredol yr oeddent wedi'u sefydlu i gefnogi'r broses o weithredu'r YEPF a rhanddeiliaid allweddol eraill. Defnyddiwyd y dull hwn er mwyn sicrhau bod yr arolwg yn cyrraedd pobl briodol a chanddynt wybodaeth am brosesau YEPF awdurdodau lleol. Oherwydd bod awdurdodau lleol yn diffinio pwy yw eu rhanddeiliaid allweddol, mae sefydliadau nad ydynt yn ymwneud llawer â'r YEPF nac yn gwybod llawer amdano yn annhebygol o fod wedi cael dolen i'r arolwg. O ganlyniad, ni ellir cyffredinoli safbwyntiau'r 199 o ymatebwyr i'r boblogaeth sefydliadau rhanddeiliaid posibl

- mae nifer yr ymatebion i'r arolwg gan wahanol fathau o randdeiliaid yn golygu mai dadansoddiad cyfyngedig y gellir ei gynnal o is-grwpiau ac na allwn ddod i gasgliadau cadarn am safbwyntiau gwahanol fathau o randdeiliaid. Lle yr adroddir ar ymatebion data is-grŵp, rhoddir y niferoedd ochr yn ochr â chanran yr ymatebion. Mae ymatebion rhanddeiliaid hefyd yn awgrymu ei bod yn bosibl nad yw llawer ohonynt yn ymwybodol o'r holl weithgareddau sydd wedi'u datblygu a pha rai nad ydynt wedi'u datblygu. Er enghraifft, roedd cyfran gymharol uchel o ymatebwyr yn teimlo bod cynnydd wedi'i wneud mewn rhai meysydd ers lansio'r YEPF er nad yw hyn yn wir yn gyffredinol. Ymdrinnir â'r canlyniadau hyn â rhywfaint o ofal.

1.36 Mae'r cwestiynau ymchwil ar gyfer yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar ddeall y prosesau sydd ar waith ar lefel awdurdod lleol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r tasgau ymchwil wedi canolbwyntio ar ddeall y camau a gymerwyd gan staff awdurdod lleol a'u partneriaid a'u safbwyntiau ar gynnydd. Er hynny, mae'r cynllun gweithredu YEPF cenedlaethol yn cynnwys camau gweithredu ar gyfer Llywodraeth Cymru a phartneriaid cenedlaethol. Er mwyn rhoi darlun cyflawn o'r camau a gymerwyd o ganlyniad i'r YEPF, gwnaethom gynnal cyfweliadau â staff Llywodraeth Cymru i gael gwybodaeth am y camau hyn (adroddir arnynt yn Nhabl 5.7, 'Crynodeb o gynnydd yn erbyn cerrig milltir

allweddol’). Fodd bynnag, nid oedd o fewn cwmpas yr astudiaeth hon i asesu’r prosesau sy’n gysylltiedig â’r camau cenedlaethol hyn.

**Strwythur yr adroddiad**

1.37 Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi’i strwythuro fel a ganlyn:

- mae pennod 2 yn rhoi trosolwg lefel uchel o’r YEPF, gan amlinellu rolau, cyfrifoldebau a threfniadau darparu bwriadedig
- mae pennod 3 yn dadansoddi cyd-destunau awdurdodau lleol, gan ystyried tueddiadau mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn ystod y pum mlynedd cyn cyflwyno’r YEPF yn ogystal â chynnydd yr oedd awdurdodau lleol eisoes wedi’i wneud mewn perthynas â’r YEPF
- mae pennod 4 yn cyflwyno canfyddiadau ynglŷn â’r prosesau ar gyfer rheoli a gweithredu’r YEPF
- mae pennod 5 yn cyflwyno canfyddiadau ynglŷn â gweithredu chwe elfen yr YEPF, gan gynnwys crynodeb o gynnydd yn erbyn cerrig milltir allweddol
- mae pennod 6 yn dod i gasgliadau ynglŷn ag effeithiolrwydd prosesau ar gyfer rheoli a gweithredu’r YEPF.

## 2. Y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid

2.1 Yn yr adran hon, rhoddwn drosolwg o'r YEPF. Dechreuwn drwy ddisgrifio amcanion polisi a strategaeth Llywodraeth Cymru y bwriedir i'r YEPF gyfrannu atynt, a'r sefyllfa pan lansiwyd yr YEPF. Yna crynhown: sut y datblygwyd y fframwaith; ei nodau a'i amcanion allweddol; graddfeydd amser disgwyliedig ar gyfer gweithredu; sut y caiff ei reoli a'i gyflawni; a'i drefniadau monitro. Defnyddiwn gyfweliadau â rhanddeiliaid, dogfennau polisi a dogfennau rheoli rhaglen mewnol.

2.2 Mae'r adran hon yn darparu trosolwg lefel uchel o rolau, cyfrifoldebau a threfniadau darparu bwriadedig, tra bod adrannau dilynol yn disgrifio a dadansoddi'n fanylach yr hyn sy'n digwydd yn ymarferol ac yn cyflwyno safbwyntiau rhanddeiliaid ar gynnydd o ran gweithredu.

**Sail resymegol: pobl ifanc mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth**

2.3 Sefydlwyd disgwyliadau a chymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer dilyniant a datblygiad pobl ifanc gyntaf yn 2000 trwy'r strategaeth Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc yng Nghymru. Roedd y strategaeth hon yn amlinellu'r ymrwymiad i gynorthwyo pob person ifanc yng Nghymru i fanteisio i'r eithaf ar ei botensial mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Dilynwyd Ymestyn Hawliau yn 2011 trwy gyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid. Roedd y cynllun gweithredu hwn yn cyd-fynd ag egwyddorion Ymestyn Hawliau ac yn amlinellu 18 cam gweithredu i leihau nifer o bobl ifanc sy'n NEET, yn ymwneud â gwella darpariaeth, sicrhau broceriaeth gref o ran cymorth ar gyfer pobl ifanc, atebolrwydd ar bob lefel o'r system, a sicrhau bod pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio yn gallu cael eu hadnabod yn gynnar.

2.4 Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (IEPF) yn ychwanegu at waith a wnaed yn rhan o'r mentrau polisi blaenorol hyn. Mae'n parhau i fod yn ymrwymedig i egwyddorion Ymestyn Hawliau, sef cynorthwyo pob person ifanc i fanteisio i'r eithaf ar ei botensial, yn ogystal â datblygu'r sylfeini ymarfer effeithiol a gyflwynwyd yn y Cynllun Gweithredu. Mae Cynllun Gweithredu'r YEPF, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2013, yn rhoi arweiniad anstatudol ar sut i weithredu dulliau wedi'u targedu o ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid mewn ardaloedd lleol er mwyn cynyddu cyfran y bobl ifanc sy'n trosglwyddo'n llwyddiannus o addysg orfodol i addysg bellach a hyfforddiant.

2.5 Mae'r YEPF hefyd yn bwydo i bolisi ehangach Llywodraeth Cymru sy'n ceisio lleihau tlodi yng Nghymru. Yn arbennig, mae'n cyfrannu'n sylweddol at ddau

o’r ymrwymiadau allweddol yn y ‘Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2012-2016’:

- lleihau nifer y bobl 16 i 18 oed sy’n NEET i 9 y cant erbyn 2017
- lleihau cyfran y bobl ifanc 19 i 24 oed sy’n NEET yng Nghymru yn berthynol i’r Deyrnas Unedig gyfan erbyn 2017.

2.6 Oherwydd bod cyfran y bobl ifanc sy’n NEET wedi amrywio rhwng 10 y cant a 13 y cant ers cyfnod hir, hyd yn oed pan oedd yr economi’n gwneud yn dda, ystyrir bod y targed o leihau cyfran y bobl ifanc 16-18 oed sy’n NEET i 9 y cant yn un uchelgeisiol a ddylai helpu i leihau canran y bobl ifanc 19-24 oed sy’n NEET.

2.7 Mae cyfran y bobl ifanc sy’n NEET, yn enwedig y rhai hynny sy’n 19-24 oed, yn gryf o dan ddylanwad hinsawdd economaidd ehangach y Deyrnas Unedig, y mae llawer ohono y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru. Mae’r ymrwymiad i leihau nifer y bobl ifanc 19-24 oed sy’n NEET yn berthynol i’r Deyrnas Unedig gyfan wedi’i gynllunio i ystyried hyn.

2.8 Mae’r YEPF hefyd wedi’i integreiddio ag ystod o fentrau polisi eraill yn ymwneud ag addysg, sgiliau, pobl ifanc a thlodi. Crynhoir y rhain yn Nhabl 2.1 ar y dudalen nesaf ynghyd â lle a sut y maent yn ymwneud â’r YEPF.

2.9 Mae hyn yn dangos:

- y disgwylir i gyflawniadau rhai o’r rhain gael effaith gadarnhaol ar weithredu’r YEPF. Yn arbennig, dylai’r camau gweithredu polisi mewn perthynas â’r cynlluniau Teuluoedd yn Gyntaf ac Ailysgrifennu’r Dyfodol godi cyrhaeddiad mewn addysg orfodol, yn enwedig o ran sgiliau hanfodol. Disgwylir i’r camau gweithredu a fydd yn codi o’r adolygiad o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed[5], ynghyd â datblygu cymhwyster Bagloriaeth Cymru newydd ar gyfer disgyblion sy’n dilyn rhaglen alwedigaethol mewn coleg neu gyda darparwr arall (a ddisgwylir erbyn 2015), ddarparu rhaglen ddysgu gytbwys tuag at gymhwyster Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (VET) cychwynnol. Dylai’r camau gweithredu polisi yn ymwneud â Twf Swyddi Cymru a Phrentisiaethau gynyddu’r cyfleoedd i bobl ifanc drosglwyddo’n effeithiol i hyfforddiant a chyflogaeth
- y bydd yr YEPF ei hun yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at alluogi pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd, fel prentisiaethau a hyfforddeiaethau, a

---

[5] Llywodraeth Cymru (2012), Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru, Adroddiad terfynol ac argymhellion

chyflawni'r Warant Ieuenctid ac uchelgeisiau i fodloni amcanion cydraddoldeb

- y dylid gwneud cysylltiadau mewn ardaloedd awdurdod lleol â gwella ysgolion, rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf, cynlluniau gweithredu Teuluoedd yn Gyntaf, datblygu'r cwricwlwm gyrfaoedd a byd gwaith, a Twf Swyddi Cymru, ymhlith polisïau eraill sy'n cael eu datblygu ar lawr gwlad.

2.10 Yn yr adran hon, disgrifiwn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth pobl ifanc yng Nghymru ar lefel genedlaethol ac awdurdod lleol. Amlygwn dueddiadau mewn dangosyddion allweddol dros bum mlynedd cyn cyflwyno'r YEPF. Mae hyn yn defnyddio data cyhoeddedig ar: gyfranogiad pobl ifanc 16-28 oed mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth; cyrhaeddiad ar lefel 2 yn 15 oed; a chyrchfannau disgyblion Blwyddyn 11 o ysgolion. Bwriedir i hyn roi dealltwriaeth o'r gwahaniaethau rhwng cyd-destunau awdurdodau lleol, y llinell sylfaen pan ddechreuwyd gweithredu'r Fframwaith, unrhyw dueddiadau y gellir eu canfod, a'r dystiolaeth y disgwylir iddi fod yn sail i gynlluniau gweithredu awdurdodau lleol.

**Y sefyllfa yn 2013**

*Cyrhaeddiad*

2.11 Yn 2012/13, roedd mwy na hanner y bobl ifanc (52.7 y cant) ar ddiwedd cyfnod addysg orfodol yng Nghymru wedi cyflawni'r trothwy lefel 2 (gradd C o leiaf mewn pum pwnc gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a mathemateg). Mae hyn yn amrywio o oddeutu dwy ran o bump mewn ysgolion ym Merthyr Tudful a Blaenau Gwent (38.7 y cant yn y ddau) i fwy na 60 y cant mewn ysgolion yn Sir y Fflint a Cheredigion. Mae'r lefelau cyrhaeddiad yn is nag yn Lloegr, er enghraifft, lle mae 63% yn cyflawni Gradd C o leiaf mewn pum pwnc gan gynnwys Saesneg a mathemateg.

2.12 Ceir gwahaniaeth mawr hefyd rhwng cyrhaeddiad bechgyn o gymharu â merched a rhwng plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys i'w cael. Er enghraifft, 26 y cant yn unig o'r rhai a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a gyrhaeddodd y trothwy lefel 2 o gymharu â 59 y cant o'r rhai nad oeddent yn gymwys i'w cael[6].

[6] StatsCymru, Cyflawniad academaidd a hawl i brydau ysgol am ddim, 28 Ionawr 2015

2.13 Er bod cyrhaeddiad cyffredinol yn 15 oed wedi gwella at ei gilydd[7], mae gwelliant yn digwydd yn arafach nag yn Lloegr[8]. Mae'r bwlch mewn cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi ymestyn eto ar ôl sawl blwyddyn o leihau[9]. Rhwng 2009 a 2013, bu cynnydd 5.7 pwynt canran yn y rhai a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a gyrhaeddodd y trothwy lefel 2, tra bu cynnydd 6.4 pwynt canran o ran y rhai nad oeddent yn gymwys.

*Cyfranogiad mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth*

2.14 Roedd y prif fesur o bobl ifanc sy'n NEET a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod 10.5 y cant o'r rhai 16-18 oed yn NEET ar ddiwedd 2013 (dros dro)[10]. Mae'r data hwn yn dangos bod gwrywod yn fwy tebygol o fod yn NEET na benywod (12 y cant o gymharu â 9 y cant). Roedd data chwarterol yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, sy'n llai cadarn yn ystadegol oherwydd maint y sampl, yn dangos bod 11.9 y cant yn NEET yn chwarter olaf 2013. Roedd hefyd yn dangos bod y gyfran sy'n NEET yn 16 oed, sef oddeutu 4 y cant, yn cynyddu i oddeutu 11 y cant yn 17 oed ac i fwy na 19 y cant yn 18 oed. Mae cyfran uwch o'r rhai 16 i 18 oed sydd ag anabledd yn NEET (ychydig o dan 20 y cant).

2.15 Ymhlith y rhai 19-24 oed, roedd y prif ddata'n dangos bod mwy nag 21 y cant yn NEET ar ddiwedd 2013. Roedd y data hwn hefyd yn dangos bod benywod yn fwy tebygol o fod yn NEET ar yr oedran hwn na gwrywod (23 y cant o gymharu ag 20 y cant). Mae data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn awgrymu bod y gyfran yn cynyddu o bron i 18 y cant yn 19 oed i fwy na 22 y cant o 20-23 oed, gan ostwng ychydig yn 24 oed. O ran y rhai 19-24 oed sy'n anabl, mae dros 40 y cant yn NEET.

2.16 Roedd data cyrchfan Gyrfa Cymru ar gyfer Blwyddyn 11 yn dangos yr adroddir bod 3.7 y cant o bobl ifanc (16 oed yn 2013) yn NEET[11]. Roedd hyn yn amrywio o ychydig o dan 2 y cant mewn dau awdurdod lleol (Ceredigion a Merthyr Tudful) i fwy na 4 y cant mewn chwe awdurdod lleol (Caerdydd oedd â'r ganran uchaf, sef 4.9 y cant).

---

[7] StatsCymru, Cyflawniad arholiadau disgyblion 15 oed yn ôl blwyddyn, SCHS0002: Canlyniadau arholiadau CA4, 2002/03 – 2012/13 [lawrlwythwyd 25 Hydref 2014]
[8] Papur Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Llythrennedd a Rhifedd yng Nghymru, Mehefin 2013
[9] Bwletin Ystadegol SB 3/2014 Cyflawniad a hawl i brydau ysgol am ddim yng Nghymru, 2013
[10] StatsCymru, Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, SR 15 Ebrill 2014. Mae'r prif ystadegyn wedi'i seilio ar ffynonellau data addysg yn ogystal â'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS) oherwydd ystyrir bod hynny'n fwy cywir na'r APS ar ei ben ei hun.
[11] Mae hyn yn defnyddio Bwletin Ystadegol SB 61/2014. Cymerir y ciplun ar 31 Hydref

2.17 Mae'r ystadegau cyhoeddedig[12] yn dangos y bu cynnydd wrth gynyddu nifer y bobl ifanc 16-18 oed sy'n ymwneud â rhyw fath o addysg a hyfforddiant o 75 y cant yn 2007 i 82 y cant yn 2013. Ar yr un pryd, mae'r prif ystadegyn o gyfran y rhai sy'n NEET wedi gostwng o'i frig o 12.4 y cant yn 2008 a 2009 i 10.5 y cant yn 2013. O ran y rhai 19-24 oed, roedd y prif ystadegau'n dangos bod y cyfrannau sy'n NEET wedi cynyddu'n sylweddol rhwng 2008 a 2010, gan gyrraedd brig yng nghanol 2012, a'u bod wedi gostwng ers hynny.

2.18 Mae data cyrchfan Gyrfa Cymru, yn seiliedig ar nifer y bobl ifanc sy'n gadael blwyddyn 11 mewn ysgolion yn unig, yn dangos y bu gostyngiad cyson yng nghyfran y bobl ifanc sy'n NEET yn 16 oed o 5.7 y cant yn 2009 i 3.7 y cant yn 2013.

2.19 Mae'r un data ar gyfer awdurdodau lleol yn dangos amrywiad sylweddol mewn tueddiadau ac amrywiadau o ran nifer a chyfran y bobl ifanc sy'n NEET yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, roedd pob awdurdod lleol namyn un wedi profi gostyngiad rhwng 2009 a 2013 yn y rhai sy'n NEET yn 16 oed. Er bod gan 12 awdurdod lleol 5 y cant neu fwy yn 2009 (Casnewydd oedd â'r lefel uchaf, sef mwy na 9 y cant), roedd pob un islaw'r lefel hon yn 2012. Roedd gan y rhan fwyaf gyfran is yn 2013 nag yn 2011 hefyd (16 o 22).

*Heriau ar gyfer yr YEPF*

2.20 Mae'r data'n awgrymu, ar ddechrau'r rhaglen genedlaethol:

- er y bu gwelliant ledled Cymru, bod bron hanner y bobl ifanc wedi methu â chyflawni Lefel 2 (gradd C o leiaf mewn pum pwnc gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg). Mae'r tangyflawniad hwn mewn pynciau craidd yn parhau i fod yn broblem fawr mewn llawer o ardaloedd ac mae'n rhaid ei bod yn effeithio ar y cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth ac addysg bellach sydd ar gael i bobl ifanc 16 a 18 oed
- bod nifer y rhai 16 oed sy'n NEET wedi bod yn gostwng. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â strategaethau NEET yn ogystal â'r gwelliant yn y farchnad lafur
- bod cyfran uwch o lawer o'r rhai 17-24 oed yn NEET, yn enwedig pobl ifanc 20-23 oed, na'r rhai 16 oed. Er bod y niferoedd hyn yn dechrau gostwng, maent yn dal i fod yn uchel iawn ac yn awgrymu bod llawer ohonynt yn bobl ifanc sydd wedi symud ymlaen i chweched dosbarthiadau ysgolion ac addysg bellach ond nad ydynt wedi dod o

[12] Cyhoeddiad Ystadegol Llywodraeth Cymru 113/2014, Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur (diwedd blwyddyn 2012 a 2013 (dros dro)) Gorffennaf 2014

hyd i gyflogaeth gydag addysg a hyfforddiant ar ôl cwblhau cyrsiau neu eu bod wedi tynnu'n ôl o'r cyrsiau.

2.21 Felly, mae'n ymddangos mai'r heriau ar gyfer gweithredu'r YEPF yn y rhan fwyaf o ardaloedd awdurdod lleol yw:

- parhau i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET yn 16 oed gyda llawer llai o wahaniaethau rhwng awdurdodau lleol
- cynyddu cymwyseddau a lefelau cyrhaeddiad pobl ifanc i gyfateb i anghenion y farchnad lafur a gofynion dilyniant addysg a hyfforddiant
- lleihau cyfraddau tynnu'n ôl mewn addysg a hyfforddiant ôl-16
- mynd i'r afael â'r lefelau uwch o lawer o bobl ifanc 17 oed a hŷn sy'n NEET a gwrthdroi'r cyfrannau cynyddol rhwng 17 ac 20 oed
- lleihau unrhyw wahaniaethau economaidd-gymdeithasol a demograffig.

**Datblygiad yr YEPF**

2.22 Roedd Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn cyflwyno dyletswydd statudol i ehangu dewis a darparu gwasanaethau cynorthwyo dysgwyr i bob person ifanc 14-19 oed. Credir bod hyn yn helpu i annog pobl ifanc i aros mewn addysg a lleihau'r nifer sy'n gadael yr ysgol yn gynnar. Roedd y Mesur hwn yn cynnwys cyflwyno llwybrau dysgu unigol; dewis ehangach o gyrsiau a mwy o hyblygrwydd; dysgu ehangach o amgylch y 'Craidd Dysgu'; a gwell cymorth i ddysgwyr (gan gynnwys mynediad at hyfforddwr dysgu, cymorth personol, a chyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd). Mae'r llywodraeth wedi ymgynghori ar newidiadau i'r Mesur hwn yn ddiweddar. O 2014/15 ymlaen, bydd yn ofynnol i ddarparwyr ddatblygu rhaglenni maes dysgu er mwyn sicrhau bod addysg 14-19 gyflenwol a chynhwysfawr yn cael ei chynnig[13.]

2.23 Disgwylir i'r YEPF weithio ochr yn ochr â'r mesurau hyn i helpu pobl ifanc i drosglwyddo'n well o addysg orfodol i addysg bellach, hyfforddiant a gwaith. Er bod Llwybrau Dysgu 14-19 yn canolbwyntio ar yr holl bobl ifanc, mae'r YEPF wedi'i dargedu llawer mwy tuag at bobl ifanc sy'n NEET neu sydd mewn perygl o fod yn NEET. Mae'n cynnig arweiniad anstatudol i awdurdodau lleol ar sut i wella ymgysylltiad a datblygiad y bobl ifanc hyn.

[13] Llywodraeth Cymru (2013), Polisi Llwybrau Dysgu 14-19: y ffordd ymlaen

**Tabl 2.1 Crynodeb o'r Polisïau a'r Rhaglenni sy'n gysylltiedig â'r YEPF**

| **Polisi** | **Disgrifiad** | **Elfennau'r YEPF sy'n gysylltiedig â'r polisi** |
|---|---|---|
| Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2012-2016 | Mae'n gosod y targedau ar gyfer yr YEPF: Lleihau nifer y bobl ifanc 16 i 18 oed sy'n NEET i 9 y cant erbyn 2017;<br>lleihau cyfran y bobl ifanc 19 i 24 oed sy'n NEET yng Nghymru yn berthynol i'r Deyrnas Unedig gyfan erbyn 2017. | • Pob un. |
| Yr Amcanion Cydraddoldeb a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol | Mae Amcanion Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru wedi'u datblygu i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus a chyflogaeth yn deg, yn hygyrch ac yn ymatebol i anghenion pobl, a bod cymunedau'n gynhwysol. Maent yn cyd-fynd â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac yn cydblethu'n agos ag amcanion y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Un cam gweithredu penodol yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw: 'sicrhau y caiff tystiolaeth ei chynhyrchu a'i dadansoddi am grwpiau gwarchodedig o fewn cyrsiau sgiliau sylfaenol i oedolion a chyfraddau llwyddo. Defnyddio gwaith dadansoddi i lunio camau gweithredu i fynd i'r afael â materion sy'n codi e.e. rhwystrau a thangynrychiolaeth ymhlith y rhai â nodweddion gwarchodedig'. | • Darpariaeth – disgwylir y gallai'r gwaith mapio darpariaeth a wneir gan awdurdodau lleol yn rhan o'r YEPF gefnogi'r cam gweithredu hwn trwy amlygu bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer grwpiau penodol o bobl ifanc y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. |
| Strategaeth y Gymraeg a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg | Mae'r strategaethau hyn yn cefnogi uchelgais i 'gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd pob dydd'. | • Pob un – disgwylir i ardaloedd lleol ystyried pwysigrwydd anghenion ieithyddol pobl ifanc wrth weithredu'r fframwaith. |
| Y strategaeth plant sy'n derbyn gofal | Yn dilyn adolygiad gan Swyddfa Archwilio Cymru o gyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi strategaeth ar gyfer gwella'r canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal, a fydd yn cyd-fynd yn agos â'r YEPF. | • Pob un. |

| Polisi | | Disgrifiad | Elfennau'r YEPF sy'n gysylltiedig â'r polisi |
|---|---|---|---|
| Plant a Theuluoedd | Y Warant Ieuenctid | Cynnig, derbyn a chychwyn lle addas mewn addysg neu hyfforddiant ar gyfer unrhyw unigolyn sy'n trosglwyddo o addysg orfodol am y tro cyntaf, yn 16 oed. Caiff ei chyflwyno'n llawn o 2015 ymlaen. Mae llawer o'r YEPF yn ychwanegu at arfer presennol tra bod y Warant Ieuenctid yn gynnig newydd i bobl ifanc trwy'r fframwaith (er ei bod yn ychwanegu at warant o le dysgu seiliedig ar waith, sydd wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn). | • Darpariaeth (mae'r Warant Ieuenctid yn flaenoriaeth allweddol yn elfen Darpariaeth y fframwaith).<br>• Cyflogadwyedd. |
| | Teuluoedd yn Gyntaf | Teuluoedd yn Gyntaf: Darperir cyllid i awdurdodau lleol i wella canlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae pob awdurdod lleol wedi datblygu Cynllun Gweithredu Teuluoedd yn Gyntaf sy'n amlinellu sut y bydd yn gweithredu'r rhaglen yn lleol. Egwyddorion allweddol y cymorth a ddarperir yw bod yn rhaid iddo: ganolbwyntio ar y teulu cyfan; bod wedi'i deilwra i amgylchiadau teuluoedd unigol; bod wedi'i gydgysylltu'n dda ar draws gwasanaethau; bod yn rhagweithiol; a bod yn ddwys. Mae gan y rhaglen ddau ganlyniad y gall yr YEPF gyfrannu atynt:<br>• bod plant, pobl ifanc a theuluoedd, sydd mewn tlodi neu mewn perygl o fod mewn tlodi, yn cyflawni eu potensial<br>• bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn iach ac yn mwynhau lles. | • Adnabod yn gynnar.<br>• Broceriaeth a chydgysylltiad (gallai gweithwyr allweddol o'r rhaglenni hyn weithredu fel gweithwyr arweiniol yr YEPF hefyd; gallai gweithwyr arweiniol yr YEPF ddarparu llwybr dilyniant h.y. pan fydd teulu'n gadael cymorth gan weithiwr allweddol Teuluoedd yn Gyntaf, gallai gweithiwr arweiniol yr YEPF gymryd drosodd a darparu cymorth sy'n canolbwyntio ar addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer y person ifanc). |

| Polisi | | Disgrifiad | Elfennau'r YEPF sy'n gysylltiedig â'r polisi |
|---|---|---|---|
| | Cymunedau yn Gyntaf | Rhaglen trechu tlodi Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Ei nod yw lleihau'r bylchau economaidd, addysg/sgiliau ac iechyd rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a mwy cefnog yng Nghymru. | • Darpariaeth. |
| | Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol 2014-2018 | Strategaeth newydd (2014) sy'n ceisio codi statws gwaith ieuenctid fel gwasanaeth a galwedigaeth. Ei nod yw sicrhau bod pobl ifanc yng Nghymru yn parhau i gael mynediad at gyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol amrywiol. Mae'r canlyniadau strategol o ddarpariaeth gwaith ieuenctid a restrir yn y strategaeth yn cynnwys: Defnyddio darpariaeth mynediad agored yn effeithiol i ennyn diddordeb a chyfeirio pobl ifanc y mae angen cymorth mwy penodol arnynt; a, bod darpariaeth gwaith ieuenctid yn rhyngweithio'n effeithiol â darparwyr addysg ffurfiol i gefnogi canlyniadau cadarnhaol i bobl ifanc a gostyngiad parhaus yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth. | • Darpariaeth.<br>• Broceriaeth – gweithwyr ieuenctid yw un o'r ystod o weithwyr proffesiynol sy'n gallu ymgymryd â rôl gweithiwr arweiniol. |
| Addysg a Sgiliau | Bagloriaeth Cymru | Bydd Bagloriaeth Cymru ar ei newydd wedd yn cael ei chyflwyno o fis Medi 2015 ymlaen, yn dilyn argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed yng Nghymru (2012). Fe'i cynlluniwyd i fod yn gymhwyster mwy trwyadl sydd â mwy o bwyslais ar lythrennedd, rhifedd a chyflogadwyedd. Mae'r cymhwyster yn cynnwys 'Her Menter a Chyflogadwyedd', a luniwyd mewn partneriaeth â Chyd-bwyllgor Addysg Cymru a chyflogwyr. Er nad yw cyflwyno Bagloriaeth Cymru yn ofyniad statudol, bydd yn un o'r mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru o 2018 ymlaen, a bydd yn fesur perfformiad ôl-16 o 2017 ymlaen.<br><br>Roedd yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed yng Nghymru (2012) hefyd yn argymell datblygu'r mesurau cyrchfan darparwr y mae'r YEPF yn annog awdurdodau lleol i'w defnyddio i olrhain cynnydd pobl ifanc. | • Darpariaeth.<br>• Cyflogadwyedd.<br>• Olrhain.<br>• Atebolrwydd. |
| | Ailysgrifennu'r Dyfodol: codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru | Rhaglen newydd a luniwyd i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Mae'r rhaglen yn nodi camau gweithredu ar gyfer Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, y consortia gwella addysg ac ysgolion er mwyn sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn gallu cyflawni ei botensial llawn ni waeth beth fo'i gefndir teuluol ac incwm ei rieni. Elfen allweddol o'r rhaglen yw'r Grant Amddifadedd Disgyblion i | • Pob un. |

| Polisi | | Disgrifiad | Elfennau'r YEPF sy'n gysylltiedig â'r polisi |
|---|---|---|---|
| | | ysgolion, y bwriedir iddo ariannu ymyriadau a rhaglenni sy'n mynd i'r afael ag anfantais. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys cyllid ar gyfer ysgolion i gyflwyno'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol. | |
| | Twf Swyddi Cymru | Rhaglen sy'n rhoi'r cyfle i bobl ifanc ddi-waith gael swydd am 6 mis, a delir ar yr isafswm cyflog cenedlaethol neu'n uwch na hynny am 25 awr yr wythnos o leiaf. Mae'r data cyrchfan cynnar yn gadarnhaol ar gyfer Twf Swyddi Cymru; bydd yr YEPF yn ceisio ychwanegu at y llwyddiant hwn (Cynllun Gweithredu 2013 yr YEPF) a bydd angen iddo integreiddio'n effeithiol â Twf Swyddi Cymru, gan ddefnyddio darpariaeth Twf Swyddi Cymru i gynnig cyfleoedd dilyniant i bobl ifanc. | • Cyflogadwyedd. |
| | Llwybrau i Brentisiaethau /Rhaglen Recriwtiaid Ifanc | Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymestyn ei chymorth ar gyfer prentisiaethau trwy ddarparu: 5,650 o leoedd prentisiaeth ychwanegol; cymhorthdal cyflog uwch; taliadau untro i ficrofusnesau a busnesau bach i'w hannog i dderbyn prentisiaid; £3.4 miliwn i gefnogi hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a STEM (Cynllun Gweithredu 2013 yr YEPF). Mae'r rhaglen Recriwtiaid Ifanc yn rhoi cymhorthdal cyflog i ficrofusnesau a busnesau bach sy'n derbyn prentis. | • Cyflogadwyedd. |
| | Rhaglen hyfforddeiaethau | Mae hyfforddeiaethau ar gael i bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed. Mae'r rhaglen yn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl ifanc i gael swydd neu symud ymlaen i ddysgu pellach ar lefel uwch, fel prentisiaeth neu ddarpariaeth addysg bellach arall. Mae hyfforddeiaethau ar gael ar dair lefel (ymgysylltu, cymhwyster lefel a phont i gyflogaeth). Nid oes cyfyngiad amser iddynt felly gall dysgwyr ddatblygu ar eu cyflymder eu hunain. | • Cyflogadwyedd. |
| | Gyrfaoedd a Byd Gwaith | Mae Gyrfaoedd a Byd Gwaith yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol ar gyfer pob person ifanc 11-16 oed, ac mae'n manylu ar yr amrywiol ffyrdd y cyflwynir pobl ifanc i waith. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu gofynion y fframwaith sy'n ymwneud â phrofiad sy'n canolbwyntio ar waith erbyn mis Mawrth 2014, yn rhan o'i gwaith ar ymgysylltu â chyflogwyr (Cynllun Gweithredu 2013 yr YEPF). | • Cyflogadwyedd. |
| | Rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2014- | Y rownd nesaf o gyllid strwythurol Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae Cynllun Gweithredu'r YEPF yn amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i sicrhau bod y rhaglenni hyn yn cyd-fynd â'r YEPF, ac yn cynnwys y systemau adnabod ac olrhain a'r mapiau darpariaeth sydd | • Pob un. |

| Polisi | | Disgrifiad | Elfennau'r YEPF sy'n gysylltiedig â'r polisi |
|---|---|---|---|
| | 2020 | newydd eu datblygu. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn debygol o geisio cyllid gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn y dyfodol i gefnogi'r rhaglen Gyrfaoedd a Byd Gwaith. | |
| | Cymwys am Oes – cynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru[14] | Nod y cynllun hwn yw y dylai pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru elwa ar addysgu a dysgu rhagorol. I gefnogi hyn, mae'n cyflwyno pedwar amcan strategol ar gyfer addysg i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru hyd at 2020: 1) Gweithlu proffesiynol rhagorol gydag addysgeg gref wedi'i seilio ar ddealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio 2) Cwricwlwm sy'n ddeniadol ac yn atyniadol i blant a phobl ifanc ac sy'n datblygu eu gallu i gymhwyso gwybodaeth a sgiliau yn annibynnol 3) Pobl ifanc yn ennill cymwysterau sy'n cael eu parchu'n genedlaethol ac yn rhyngwladol ac sy'n gweithredu fel pasbort credadwy i'w haddysg a'u cyflogaeth yn y dyfodol 4) Arweinwyr addysg ar bob lefel yn cydweithio mewn system hunanwella, gan helpu a herio ei gilydd er mwyn codi safonau ym mhob ysgol. | • Pob un. |
| | Her Ysgolion Cymru | Cyhoeddwyd Her Ysgolion Cymru ym mis Chwefror 2014, ac enwyd y 40 ysgol Llwybrau Llwyddiant ar 1 Mai. Mae'r ysgolion hyn yn cael adnoddau ac arbenigedd ychwanegol i gynnal rhaglen o welliant cyflym, cynaliadwy. Bydd cynghorydd a chanddo hanes profedig o wella ysgolion yn cael ei neilltuo i bob ysgol Llwybrau Llwyddiant. | • Pob un – dylai'r holl ysgolion sy'n cymryd rhan fod yn cyfrannu i ryw raddau at weithredu'r YEPF. |

Ffynhonnell: Adolygiad o ddogfennau polisi a chyfweliadau cwmpasu

[14] Sylwer y cyhoeddwyd y cynllun hwn tra bod yr adroddiad hwn yn cael ei gwblhau'n derfynol (h.y. ar ôl y prif gyfnod ymchwil desg a gwaith maes)

2.24 Penodwyd ymgynghoriaeth, sef Partneriaeth ISOS, gan Lywodraeth Cymru i gefnogi datblygiad y Fframwaith. Roedd staff ISOS wedi hwyluso gweithdai gyda rhanddeiliaid mewnol i alluogi trafodaethau ynglŷn â strwythur a chynnwys y fframwaith; amlygu'r hyn a ddysgwyd o gynyddu'r oedran cyfranogiad yn Lloegr; ac adolygu tystiolaeth ehangach o ymarfer effeithiol mewn perthynas ag ymgysylltu a datblygu pobl ifanc. Roedd canfyddiadau o waith ISOS wedi llywio papur Bwrdd Polisi Gweinidogol.

2.25 Pan oedd amlinelliad sylfaenol y fframwaith wedi'i ddatblygu, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru cais am fynegiadau o ddiddordeb gan awdurdodau lleol i dreialu'r fframwaith drafft a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i'w ddatblygu ymhellach. Gwirfoddolodd wyth awdurdod lleol: Caerdydd, Caerffili, Abertawe, Wrecsam, Powys, Rhondda Cynon Taf, Blaenau Gwent a Merthyr Tudful. Ystyriwyd bod rhai'n cynnig enghreifftiau o ymarfer effeithiol mewn rhai meysydd o'r fframwaith, ac roedd pob un yn barod i dreialu dulliau newydd. Dewisodd pob awdurdod lleol elfennau penodol o'r fframwaith drafft i'w rhoi ar waith. Ymdriniwyd â holl elfennau'r fframwaith ar draws yr wyth safle peilot.

2.26 Yn ystod cyfnod treialu'r YEPF, cynhaliwyd gweithdai fel bod yr awdurdodau lleol peilot yn gallu rhannu eu profiadau a'r hyn a ddysgwyd. Cynhaliwyd cyfarfodydd ym mis Mawrth 2013 hefyd i hysbysu awdurdodau lleol nad oeddent wedi cymryd rhan yn y treialon a rhanddeiliaid ehangach (fel Gyrfa Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Ganolfan Byd Gwaith) ynglŷn â chynnydd ac i geisio eu barn ar y fframwaith.

2.27 Roedd gweithdy dilynol yn ceisio dwyn ynghyd grŵp ehangach o randdeiliaid er mwyn eu cyflwyno i'r fframwaith, rhoi gwybod iddynt am gynnydd y treialon a chael eu barn ar yr YEPF. Roedd y rhai a fynychodd o'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol yn cynnwys cynrychiolwyr Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, YMCA Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Estyn, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol, Cyngor Celfyddydau Cymru, Promo Cymru, Barnardo's, Colegau Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac Ymddiriedolaeth y Tywysog.

2.28 Cynhwyswyd pobl ifanc wrth ddatblygu'r fframwaith trwy broses 'Sgwrs Go Iawn' Llywodraeth Cymru. Proses yw hon a ddefnyddir i ddod â phobl ifanc, arweinwyr busnes a rhanddeiliaid eraill at ei gilydd i drafod

mater penodol. Cynhaliwyd digwyddiad ym mis Mehefin 2013 i gael barn ac adborth ar sut i atal pobl ifanc rhag mynd yn NEET. Casglwyd adborth ar adnabod yn gynnar, broceriaeth, darpariaeth a chyflogadwyedd. Pwysleisiodd pobl ifanc fod llawer o wahanol resymau dros ymddieithrio yn gyffredinol, a bod cyllid a materion ariannol yn arbennig o bwysig. Codwyd materion ynglŷn â chyngor gyrfaoedd a symud i waith; roedd pobl ifanc yn aml yn teimlo nad oeddent yn cael gwybod am gwmpas llawn y ddarpariaeth (brif ffrwd a heb fod yn brif ffrwd) a oedd ar gael (ysgolion: 'nid oes ots ganddynt i ble mae pobl ifanc yn mynd cyn belled â'u bod yn mynd i rywle'). Dywedwyd nad oedd profiad gwaith yn ystyrlon iawn yn aml. O ran broceriaeth, pwysleisiodd pobl ifanc nad yw pobl bob amser yn ceisio cymorth, gan eu bod yn pryderu am fod yn faich; pan fyddant yn ceisio cymorth, byddant yn mynd at gyfoedion yn aml.

**Nodau ac amcanion**

2.29 Prif nod yr YEPF yw cyfrannu at dargedau yn y cynllun Trechu Tlodi:

- lleihau nifer y bobl 16 i 18 oed sy'n NEET i 9 y cant erbyn 2017
- lleihau cyfran y bobl ifanc 19 i 24 oed sy'n NEET yng Nghymru yn berthynol i'r Deyrnas Unedig gyfan erbyn 2017.

2.30 I gyflawni hyn, mae gan yr YEPF y blaenoriaethau canlynol:

- gwella canlyniadau i bobl ifanc 17 a 18 oed
- lleihau ymhellach nifer y bobl ifanc 16 oed sy'n NEET mewn rhai ardaloedd – ceir amrywiadau mawr o hyd mewn perfformiad awdurdodau lleol
- cynnal gwelliannau ymhlith pobl ifanc 16 i 18 oed er mwyn cyflawni gostyngiad yn y bobl ifanc 19 i 24 sy'n NEET hefyd
- sicrhau bod yr holl bobl ifanc yn cael eu cynorthwyo trwy addysg a hyfforddiant beth bynnag fo'u cyrchfan bwriadedig
- cefnogi gwell ymgysylltiad a dilyniant i'r holl bobl ifanc a chyfrannu at gyfraddau cyflawniad a sgiliau cyflogadwyedd uwch yn 16 a 19 oed (Cynllun Gweithredu'r YEPF, 2013).

2.31 Bwriedir i'r YEPF hefyd sefydlu dull newydd tuag at weithredu. Ei nod yw sicrhau bod arfer da presennol yn cael ei ddeall a'i weithredu'n fwy cyson ym mhob rhan o Gymru. Yn ganolog i gyflawni hyn yw

cydgysylltu cyfrifoldebau'n effeithiol rhwng rhanddeiliaid allweddol, a ddiffinnir yn y Cynllun Gweithredu fel Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Gyrfa Cymru, y Gwasanaeth Ieuenctid, ysgolion a darparwyr ôl-16.

2.32 Nid oes unrhyw gyllid penodol wedi'i ddyrannu er mwyn sefydlu darpariaeth i gyflawni amcanion y fframwaith. Yn hytrach, bwriedir i ffynonellau presennol o gyllid a ddyrannwyd i awdurdodau lleol, ysgolion, colegau, Gyrfa Cymru ac eraill gael eu hailgyfeirio i amcanion strategol y fframwaith.

2.33 Mae'r YEPF wedi'i seilio ar chwe chonglfaen y bwriedir iddynt gyfrannu at well canlyniadau i bobl ifanc:

- **adnabod yn gynnar**: Adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio
- **broceriaeth**: Broceru a chydgysylltu cymorth yn well
- **olrhain**: Prosesau gwell ar gyfer olrhain a throsglwyddo pobl ifanc trwy'r system
- **darpariaeth**: Sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion pobl ifanc
- **cyflogadwyedd**: Cryfhau sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd ar gyfer cyflogaeth
- **atebolrwydd**: Mwy o atebolrwydd ar gyfer gwell canlyniadau i bobl ifanc.

**Targedau allbwn a chanlyniad**

2.34 Y tu hwnt i'r targedau Trechu Tlodi lefel uchel, nid oes gan yr YEPF unrhyw dargedau ffurfiol. Yn yr un modd, nid oes targedau allbwn a chanlyniad penodol wedi'u sefydlu ar gyfer awdurdodau lleol unigol ynglŷn â lleihau nifer y bobl ifanc 16 i 18 oed a 19 i 24 oed sy'n NEET. Mae hyn yn rhannol oherwydd nad oes data llinell sylfaen ar gael i lywio prosesau gosod targedau neu fesur targedau hyd nes y bydd data cyrchfan ar gael ar adeg benodol mewn amser ar gyfer pob person ifanc 17 a 18 oed (nid dim ond y rhai sy'n gadael yr ysgol yn 16 oed)[15]. Mae hefyd yn rhannol oherwydd na fydd cyrchfannau yr

[15] Mae proses weithredu'r YEPF yn cynnwys carreg filltir ar gyfer Llywodraeth Cymru i amlinellu cynigion manwl ar gyfer datblygu mesurau cyrchfan. Mae'r gwaith hwn yn mynd

adroddir arnynt o reidrwydd yn cael eu cynnal ac ni fyddai hyn yn mesur maes posibl o lwyddiant yr YEPF, sef lleihau'r amser y mae pobl ifanc yn NEET a chynnal cyrchfannau.

2.35 Er nad oes targedau allbwn penodol ar gyfer awdurdodau lleol, mae Cynllun Gweithredu'r YEPF yn cynnwys cerrig milltir allweddol i'w cyflawni gan awdurdodau lleol, Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y Fframwaith yn cael ei weithredu'n llwyddiannus. Y raddfa amser ar gyfer gweithredu'r YEPF yw dwy flynedd, o fis Hydref 2013 i fis Hydref 2015. Cyflwynir cerrig milltir i'w cyflawni yn ystod y cyfnod hwn mewn llinell amser sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu (0 isod).


2.36 Mae hyn yn cynnwys bod pob awdurdod lleol:

- yn gweithredu dull newydd o adnabod yn gynnar o fis Medi 2014 ymlaen sy'n uno systemau olrhain ysgolion ac awdurdodau lleol
- yn gweithredu eu cynigion ar gyfer gweithwyr arweiniol o fis Medi 2014 ymlaen
- yn cynhyrchu map llinell sylfaen o'r ddarpariaeth i bobl ifanc 16-24 oed erbyn mis Mawrth 2014
- yn barod i weithredu'r Warant Ieuenctid o fis Medi 2015 ymlaen.

---

rhagddo (gweler yr adran 'Atebolrwydd' yn Nhabl 5.1, 'Crynodeb o gynnydd yn erbyn cerrig milltir allweddol').

Ffigur 2.1 Llinell Amser Cynllun Gweithredu'r YEPF 2013-2015




Ffynhonnell: Llinell Amser Cynllun Gweithredu'r YEPF 2013-2015 (Llywodraeth Cymru, 2013)

## Rheoli a chyflwyno'r YEPF

*Rheoli'r YEPF*

2.37 **Llywodraethu**: Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO) yr YEPF yw'r Dirprwy Gyfarwyddwr Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Mae Bwrdd Rhaglen wedi'i sefydlu i gynorthwyo'r SRO trwy oruchwylio a llywodraethu'r YEPF yn strategol. Mae'r SRO yn gweithredu fel cadeirydd Bwrdd y Rhaglen. Amlinellir cylch gorchwyl Bwrdd y Rhaglen yn Ffigur 2.2 isod:

**Ffigur 2.2 Rôl Bwrdd y Rhaglen**

Diben y Bwrdd yw rhoi cyfeiriad a chyfrannu at gyflawni canlyniadau strategol a buddiannau'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Mae'n cymeradwyo'r holl brif gynlluniau, dogfennau allweddol a gwyriadau mawr o'r Rhaglen.

Yn benodol, mae'r Bwrdd yn rhoi gwybodaeth, cyngor a sicrwydd ar:

- sut y cefnogir y broses o gyflwyno'r rhaglen trwy feysydd polisi ar draws Llywodraeth Cymru/yr Adran Addysg a Sgiliau
- materion a risgiau strategol a thrawsbynciol sy'n effeithio ar y rhaglen
- amlygu a rheoli cyd-ddibyniaeth
- cyfathrebu
- cyllid ac adnoddau
- digonolrwydd ac uniondeb trefniadau llywodraethu
- cyflawni allbynnau a buddiannau a amlygwyd yn nogfennau'r rhaglen.

Ffynhonnell: Bwrdd y Rhaglen Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid: Cylch Gorchwyl Drafft

2.38 Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Bwrdd y Rhaglen ym mis Gorffennaf 2013. Yn ystod cyfnod cynnar cam gweithredu'r YEPF, cynhaliwyd cyfarfodydd Bwrdd y Rhaglen bob deufis. Ers hynny, mae cyfarfodydd wedi'u cynnal yn llai rheolaidd er bod 'adroddiadau uchafbwyntiau' cynnydd misol wedi'u rhoi i aelodau'n barhaus. Rhanddeiliaid mewnol allweddol ar draws Llywodraeth Cymru yw aelodau'r Bwrdd sy'n gyfrifol am bolisi plant a theuluoedd, ieuenctid, cyflogadwyedd a sgiliau, a gwrthdlodi. Nid yw rhanddeiliaid allanol yn cael eu cynrychioli ar Fwrdd y Rhaglen.

2.39 **Rheoli**: Y Pennaeth Ymgysylltu Ieuenctid sy'n gyfrifol am weithredu'r YEPF yn gyffredinol. Yn ogystal, ceir arweinydd gweithredu ar gyfer pob elfen o'r YEPF:

- mae'r Pennaeth Ymgysylltu Ieuenctid hefyd yn gyfrifol am oruchwylio adnabod yn gynnar, olrhain ac atebolrwydd
- mae'r Pennaeth Cymorth a Chanllawiau Ieuenctid yn gyfrifol am oruchwylio broceriaeth ac ef yw'r pwynt cyswllt allweddol ar gyfer Gyrfa Cymru

- mae'r Pennaeth Cyflogaeth Ieuenctid yn gyfrifol am oruchwylio darpariaeth, gan gynnwys datblygu'r Warant Ieuenctid a chyflogadwyedd.

*Cyflwyno'r YEPF*

2.40 Mae Cynllun Gweithredu'r YEPF yn amlinellu sut y bwriedir i'r Fframwaith gael ei gyflwyno yn ystod y cyfnod 2013 i 2015. Mae'n gosod allan rolau a chyfrifoldebau gwahanol randdeiliaid yn y broses weithredu (Ffigur 2.3 isod). Mae'n pwysleisio bod cydgysylltu a gwaith partneriaeth effeithiol rhwng y rhanddeiliaid hyn yn ganolog i weithredu'r Fframwaith yn llwyddiannus.

**Ffigur 2.3 Rolau a chyfrifoldebau ar gyfer gweithredu'r YEPF**

Rôl **Llywodraeth Cymru** wrth weithredu'r Fframwaith yw amlinellu safonau a disgwyliadau eglur, cynorthwyo ALlau i ddatblygu eu cynlluniau a chefnogi'r broses o'u gweithredu trwy eu helpu i ddysgu o arfer effeithiol ledled Cymru, ar yr un pryd â dal awdurdodau lleol a darparwyr i gyfrif am y canlyniadau a gyflawnwyd.

**Awdurdodau Lleol** sydd â'r cyfrifoldeb strategol arweiniol am weithredu'r Fframwaith. Dylent neilltuo'r cyfrifoldeb am weithredu'r Fframwaith i uwch arweinydd yn yr awdurdod lleol. Yn ogystal, dylent ddatblygu rôl Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu i ddarparu arweinyddiaeth weithredol, ac i weithio'n agos gyda Gyrfa Cymru a darparwyr.

Dylai **Gyrfa Cymru** helpu i ddod â mwy o gysondeb i weithredu'r Fframwaith ledled Cymru ac mae ganddo rôl bwysig wrth gefnogi trefniadau broceriaeth newydd ac wrth weithredu'r systemau data ac olrhain.

Dylai'r **Gwasanaeth Ieuenctid** fod mewn sefyllfa dda i gyflawni'r rôl gweithiwr arweiniol ar gyfer rhai o'r bobl ifanc yr amlygwyd bod ganddynt yr angen mwyaf am gymorth. Mae'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol (a lansiwyd ym mis Mawrth 2014) yn lleoli'r rôl hon yng nghyd-destun ehangach Gwasanaethau Ieuenctid.

Mae **ysgolion** yn gyfrifol am sicrhau bod y bobl ifanc iawn wedi cael eu hamlygu ac am olrhain y cynnydd a wneir gan bobl ifanc. Byddant yn cynorthwyo pobl ifanc i ddefnyddio'r broses ymgeisio gyffredin ac yn sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd priodol ar gael. Bydd ysgolion yn cael eu dal i gyfrif gan Fesurau Cyrchfan Ôl-16 sy'n cael eu datblygu.

Mae gan ddarparwyr **ôl-16** gyfrifoldeb allweddol i amlygu pobl ifanc 16-24 oed

| |
|---|
| sydd mewn perygl o dynnu’n ôl, a darparu cymorth er mwyn cynnal eu hymgysylltiad. Bydd angen iddynt roi gwybod i Gyrfa Cymru os bydd pobl ifanc yn tynnu’n ôl o addysg a hyfforddiant. Maent hwy, ynghyd ag ysgolion ac awdurdodau lleol, yn allweddol i sicrhau bod cymysgedd a chydbwysedd priodol o ddarpariaeth wedi’i sefydlu ym mhob ardal hefyd. |

Ffynhonnell: Y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid – Cynllun Gweithredu, 2013

2.41 Disgwylir i’r holl randdeiliaid ddefnyddio model pum haen Gyrfa Cymru ar gyfer ymgysylltu ag ieuenctid wrth weithredu’r Fframwaith. Mae’r model pum haen yn ffordd o asesu datblygiad ac ymgysylltiad pobl ifanc dros 16 oed mewn addysg a hyfforddiant – o’r rhai hynny sy’n ymgysylltu’n dda nad oes angen unrhyw gymorth ychwanegol wedi’i dargedu arnynt i’r rhai hynny sy’n ddi-waith ac sy’n cael eu hatal rhag ymgysylltu gan amryw rwystrau. Bwriedir i’r haen y bernir bod person ifanc ynddi bennu’r cymorth ychwanegol y bydd yn ei dderbyn a ffurf bosibl y cymorth hwnnw (gweler Ffigur 2.4 isod). Yn hollbwysig, mae’r dyraniad i haen benodol yn pennu a neilltuir gweithiwr arweiniol i berson ifanc ai peidio.

**Ffigur 2.4 Model ymgysylltiad pum haen Gyrfa Cymru (ar gyfer ôl-16) a dyrannu gweithwyr arweiniol**

| Haen | Grŵp cleientiaid | Gweithiwr arweiniol |
|---|---|---|
| **Haen 5**<br><br>**Pobl Ifanc mewn Addysg Bellach, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (EET)** | • Cynnal addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (EET).<br>• Gweithio neu astudio'n rhan-amser dros 16 awr.<br>• Gwaith gwirfoddol. | Bernir nad oes angen gweithiwr arweiniol gan fod y person ifanc eisoes yn ymgysylltu ac ystyrir nad yw mewn perygl o ymddieithrio. |
| **Haen 4**<br><br>**Pobl Ifanc sydd mewn perygl o dynnu'n ôl o EET** | • Y rhai hynny sy'n ymwneud â llai nag 16 awr o EET.<br>• Y rhai hynny yr amlygwyd eu bod mewn perygl o ymddieithrio cyn 16 oed a/neu y barnwyd eu bod mewn perygl o beidio â throsglwyddo'n gadarnhaol ac sydd mewn addysg bellach, chweched dosbarth neu hyfforddiant.<br>• Y rhai hynny y mae darparwyr EET (neu eu hunain) wedi rhoi gwybod i Gyrfa Cymru eu bod mewn perygl o dynnu'n ôl o EET. | Bydd neilltuo gweithiwr arweiniol yn dibynnu ar lefel y risg.<br><br>• Risg isel a chanolig – systemau bugeiliol y darparwr a/neu neilltuo hyfforddwr dysgu fel gweithiwr arweiniol.<br>• Risg uchel – gellid neilltuo gweithiwr arweiniol iddo o'r Gwasanaeth Ieuenctid neu Gyrfa Cymru neu, os yw Cymunedau yn Gyntaf yn gysylltiedig, bydd y Tîm o Amgylch y Teulu yn penderfynu ar neilltuo gweithiwr arweiniol. |
| **Haen 3**<br><br>**Pobl ifanc 16 a 17 oed ddi-waith sy'n hysbys i Gyrfa Cymru** | • Yn ymgysylltu â GC a/neu y gwyddys eu bod yn cymryd camau pendant i geisio EET, naill ai'n barod i ddechrau EET, neu yr aseswyd bod angen cymorth rheoli gyrfa neu sgiliau cyflogadwyedd arnynt i ddechrau EET.<br>• Dylai'r haen hon hefyd gynnwys y rhai hynny sy'n hysbys i GC, sy'n cymryd camau pendant i geisio EET ond nad oes angen cymorth uwch GC arnynt h.y. yn cael cymorth trwy GC.com, yn aros am ddyddiad dechrau coleg ac ati. | • Gweithiwr arweiniol wedi'i amlygu ar gyfer 100% o'r garfan.<br>• Gyrfa Cymru fydd yn darparu'r gweithiwr arweiniol mewn bron pob achos. |
| **Haen 2**<br><br>**Pobl ifanc 16 a 17 oed ddi-waith, sy'n hysbys i Gyrfa Cymru, nad ydynt ar gael ar gyfer EET** | • Person ifanc nad yw ar gael ar gyfer EET/ nad yw'n gallu ceisio EET (salwch, gofalwr ifanc, beichiogrwydd, yn y ddalfa).<br>• Pobl ifanc â rhwystrau sylweddol neu luosog sydd angen cymorth personol dwys. | • Gweithiwr arweiniol wedi'i amlygu ar gyfer 100% o'r garfan.<br>• Y Gwasanaeth Ieuenctid fydd yn darparu'r gweithiwr arweiniol mewn bron pob achos. |
| **Haen 1**<br><br>**Statws anhysbys wrth adael gwasanaethau Gyrfa Cymru** | • Pobl ifanc sy'n anhysbys i Gyrfa Cymru. | • Pan fydd unigolion yn cael eu hamlygu, fe'u gosodir mewn haen briodol a neilltuir gweithiwr arweiniol iddynt yn unol â hynny. |

Ffynhonnell: Llinell Amser Cynllun Gweithredu YEPF 2013-2015 (Llywodraeth Cymru, 2013)

2.42 O ran rôl Llywodraeth Cymru wrth osod safonau a disgwyliadau eglur, mae hyn wedi cael ei chyflawni trwy:

- **swyddogion cyswllt**: Ceir naw aelod o staff polisi Llywodraeth Cymru sy'n swyddogion cyswllt ar gyfer y 22 awdurdod lleol. Eu rôl yw cyfarfod ag arweinydd a Chydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu'r awdurdod lleol i drafod cynnydd a darparu cymorth fel y bo'r angen. Ystyrir bod y rôl hon yn debyg i 'gyfaill beirniadol'
- **cyhoeddi dogfennau canllaw anstatudol** i helpu'r broses weithredu. Hyd yma, ceir canllawiau ar adnabod yn gynnar a chanllawiau drafft ar gyflawni'r Warant Ieuenctid. Mae canllawiau hefyd wedi'u cyhoeddi ar gyfer aelodau Gweithgorau Rhanbarthol ar y swyddogaeth gweithiwr arweiniol a cheir canllawiau ar fapio'r ddarpariaeth
- **Gweithgorau Rhanbarthol**: Mae Gweithgorau Rhanbarthol wedi'u sefydlu gan dîm y rhaglen. Diben y rhain yw hwyluso cyfnewid gwybodaeth ac arfer da rhwng awdurdodau lleol a rhoi cyfle iddynt ddysgu oddi wrth ei gilydd. Gwahoddir rhanddeiliaid o awdurdodau lleol, y sector ôl-16, ysgolion, Gyrfa Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r sector gwirfoddol a chymunedol i fynychu. Mae'r gweithdai hefyd yn caniatáu i dîm y rhaglen fonitro cynnydd ac amlygu unrhyw feysydd lle y gallai fod angen cymorth ychwanegol ar awdurdodau lleol. Bwriedir i'r Gweithgorau Rhanbarthol barhau i gael eu cynnal ar ôl diwedd swyddogol cam gweithredu'r YEPF ym mis Hydref 2015. Mae tîm y rhaglen yn ystyried a fyddai'n fwy priodol defnyddio dull sydd wedi'i deilwra ychydig yn fwy, sy'n cynnig mwy o ryddid i ganolbwyntio ar wahanol faterion ym mhob rhanbarth, petai'r mynychwyr yn dymuno hynny.

2.43 Derbyniodd awdurdodau lleol daliad grant o £50,000 gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau'r cam gweithredu i gyflawni cerrig milltir gweithredu cynnar. Ni osodwyd unrhyw ofynion ar awdurdodau lleol o ran sut i wario'r arian hwn. Cafodd y ffordd y defnyddiwyd yr arian ei monitro trwy'r cyfarfodydd rhwng swyddogion cyswllt a staff yr awdurdodau lleol. Dyfarnwyd £50,000 ychwanegol i awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2015 i gefnogi gweithrediad parhaus. Ni fwriedir i'r grant hwn fod yn barhaol, ond yn hytrach i gynorthwyo awdurdodau lleol i barhau â'r gwaith a wnaed hyd yma a darparu 'dilyniant o ran adnodd' (llythyr grant). Un o amodau'r grant yw bod yn rhaid i awdurdodau lleol

ddarparu adroddiad cynnydd ysgrifenedig byr ar eu cynllun gweithredu (gweler Ffigur 2.3 isod).

2.44 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni swyddogaeth wrth gydgysylltu trefniadau partneriaeth. Er nad oes grŵp llywio na chyfeiriad swyddogol i ddwyn y rhanddeiliaid allanol ynghyd, mae gan yr arweinwyr gweithredu ar gyfer pob elfen o'r fframwaith gyfrifoldeb am y partneriaethau hyn. Er enghraifft, ceir arweinwyr dynodedig ar gyfer:

- **y sector gwirfoddol a chymunedol** – i ddeall rôl y sector gwirfoddol wrth gyflawni'r YEPF a hwyluso ei gyfranogiad. I gefnogi'r gwaith hwn, mae Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol wedi cael ei gomisiynu i gynnal gwaith ymchwil cwmpasu gyda'r sector gwaith ieuenctid gwirfoddol er mwyn deall sut y caiff ei gynnwys mewn gweithredu'r YEPF ar hyn o bryd. Bydd y prosiect yn arwain at ddiffiniad eglur o rolau a chyfrifoldebau'r sector wrth weithredu'r YEPF
- **pobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid** – i sicrhau bod yr YEPF yn cefnogi canlyniadau addysgol pobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid. Mae arolwg o'r 15 Tîm Troseddau Ieuenctid wedi'i gynnal i fesur y ddealltwriaeth bresennol o'r YEPF a llywio camau gweithredu yn y dyfodol. Mae'n debygol y bydd y tîm YEPF yn cyhoeddi canllawiau i ddarparwyr ôl-16 a Thimau Troseddau Ieuenctid ar sut y dylent weithio gyda Chydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu, ac i roi cyngor ar sut y dylid ymdrin â diogelu. Mae gwaith wedi'i gynllunio hefyd i gynyddu ymwybyddiaeth o'r YEPF ymhlith gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc mewn llety diogel.

2.45 Mae trefniadau partneriaeth wedi'u sefydlu hefyd gyda Gyrfa Cymru, Colegau Cymru, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

2.46 Mae'r tîm polisi YEPF wedi gweithio gyda chydweithwyr mewn meysydd polisi eraill hefyd. Yn ogystal â'r trafodaethau a gynhelir yng nghyfarfodydd Bwrdd y Rhaglen, bu trafodaethau parhaus â staff mewn meysydd polisi eraill er mwyn sicrhau bod cysylltiadau'n cael eu gwneud rhwng polisïau. Er enghraifft, mae canllawiau i ysgolion ar y Grant Amddifadedd Disgyblion yn cynnwys cyfeiriadau eglur at yr YEPF. Mae Cydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu hefyd wedi cael canllawiau ar sut y dylent weithio gydag ysgolion i'w hannog i

ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn effeithiol ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio.

*Trefniadau monitro*

2.47 Gofynnwyd i awdurdodau lleol gyflwyno cynllun gweithredu i Lywodraeth Cymru yn manylu ar sut yr oeddent yn bwriadu gweithredu'r YEPF. Cyflwynwyd y rhain ym mis Mawrth 2014. Darparwyd templed a oedd yn rhestru camau gweithredu allweddol o Gynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ac yn gofyn am wybodaeth am yr hyn yr oedd awdurdodau lleol yn ei wneud ar hyn o bryd mewn perthynas â'r cam gweithredu; beth oedd yr heriau; a sut yr oeddent yn mynd i ddatblygu'r gwaith. Gofynnwyd i awdurdodau lleol ddarparu diweddariad ysgrifenedig ar gynnydd o ran y cynllun gweithredu ym mis Mawrth 2015.

2.48 **Bwriedir i swyddogion cyswllt gyfarfod ag arweinwyr awdurdodau lleol bob chwe mis** a thrafod cynnydd o ran y cynllun gweithredu. Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn fel y cynlluniwyd. Datblygwyd rhestr wirio o gwestiynau i swyddogion cyswllt eu defnyddio wrth ymweld ag awdurdodau lleol. Mae swyddogion cyswllt yn llunio nodyn cyfarfod gyda gwybodaeth ansoddol am gynnydd, materion sy'n codi, risgiau a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

2.49 **Mae Gyrfa Cymru hefyd yn cyflawni swyddogaeth wrth ddarparu data i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru** i gefnogi'r prosesau gweithredu a monitro. Mae'n darparu:

- adroddiadau misol i awdurdodau lleol, sef crynodebau un dudalen yn seiliedig ar giplun o nifer y bobl ifanc ym mhob haen o fodel pum haen Gyrfa Cymru ar ddiwedd pob mis
- adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru ar statws y garfan 16 i 18 oed lawn yn erbyn y model ymgysylltu pum haen.

## 3. Rheoli a gweithredu'r Fframwaith

3.1 Yn yr adran hon, cyflwynwn ganfyddiadau ynglŷn â sut mae awdurdodau lleol yn rheoli a chydgysylltu'r broses o weithredu'r YEPF ac ystyriwn beth sy'n gweithio'n dda a beth yw'r heriau. Defnyddiwn gyfweliadau â staff awdurdodau lleol a phartneriaid, deunydd dogfennol ategol, cyfweliadau â rhanddeiliaid a chanfyddiadau o'r arolwg. Crynhoir negeseuon allweddol ar ddiwedd yr adran.

### Trefniadau rheolaeth strategol

*Yr hyn sydd wedi'i sefydlu*

3.2 Ers lansio'r YEPF ym mis Hydref 2013, mae pob awdurdod lleol wedi penodi Uwch Swyddog Atebol (SAO). Mewn tua hanner yr awdurdodau lleol, pennaeth gwasanaeth yw hwn (addysg, ieuenctid neu ddysgu gydol oes), ac mewn eraill rhoddwyd y cyfrifoldeb am yr YEPF ar lefel uwch gyda'r prif weithredwr neu'r dirprwy brif weithredwr (dau awdurdod lleol) neu gyfarwyddwr sy'n goruchwylio grŵp o wasanaethau (tua thraean o awdurdodau lleol). Roedd un awdurdod lleol, sef Abertawe, wedi penodi uwch hyrwyddwr prosiect allanol hefyd ar gyfer yr YEPF, sef prifathro coleg, oherwydd rôl ganolog darparwyr ôl-16. Mae'r hyrwyddwr prosiect yn gweithio ochr yn ochr â'r ddau noddwr prosiect o'r awdurdod lleol, sef y Pennaeth Tlodi a'r Rheolwr Ymyrraeth Gynnar.

3.3 Mewn bron pob awdurdod lleol (20), mae grŵp llywio strategol wedi'i sefydlu a arweinir gan yr SAO i oruchwylio'r broses o gyflawni'r YEPF. Cadeirir y grŵp hwn gan yr SAO neu, mewn rhai achosion, dirprwyir y cyfrifoldeb i uwch reolwr arall neu'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu. Yn nodweddiadol, mae aelodau'r grŵp strategol yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid o fewn yr awdurdod lleol (addysg, timau troseddau ieuenctid, gwasanaethau ieuenctid) a chynrychiolydd colegau, cynrychiolydd ysgolion a Gyrfa Cymru. Mae gan o leiaf chwarter yr awdurdodau lleol aelodaeth ehangach sy'n cynnwys, er enghraifft, cynrychiolwyr o'r sector tai, adfywio economaidd, y Ganolfan Byd Gwaith a'r sector gwirfoddol a chymunedol.

3.4 Roedd gan bron pob awdurdod lleol strategaeth NEET cyn i'r YEPF gael ei gyflwyno ac roedd y grŵp llywio a oedd eisoes yn bodoli ar gyfer y strategaeth wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb ar gyfer yr YEPF. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae aelodaeth y grŵp strategol wedi aros yr un fath, er bod tua un rhan o bump o awdurdodau lleol wedi dweud

eu bod wedi recriwtio aelodau newydd neu'n ystyried gwneud hynny. Adlewyrchir hyn yng nghanfyddiadau'r arolwg rhanddeiliaid sy'n dangos mwy o gyfranogiad mewn grwpiau llywio strategol ymhlith rhanddeiliaid. Cyn lansio'r YEPF yn 2013, roedd dros hanner yr ymatebwyr yn aelodau o grŵp llywio strategol NEET neu ymgysylltu a datblygu ieuenctid (52%, sef 98 o 188 o ymatebwyr), o gymharu â dros ddwy ran o dair ers cyflwyno'r YEPF (71%, sef 132 o 186 o ymatebwyr).

3.5 Roedd enghreifftiau o aelodau newydd sydd wedi ymuno â grwpiau strategol yn cynnwys y Ganolfan Byd Gwaith a sefydliadau'r sector gwirfoddol a chymunedol. Yn yr un modd, mae fformat grwpiau strategol sydd eisoes yn bodoli wedi'i addasu mewn rhai achosion i adlewyrchu'r YEPF. Er enghraifft, adroddodd tua un rhan o bump fod yr agenda ar gyfer cyfarfodydd strategol bellach wedi'i seilio ar chwe elfen yr YEPF er mwyn galluogi monitro a goruchwylio agosach.

3.6 Er bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi addasu dulliau llywio blaenorol neu sefydlu grwpiau llywio newydd yn ddiweddar, roedd dau awdurdod lleol nad oeddent wedi cwblhau trefniadau llywio'n derfynol. Yn yr awdurdodau lleol hyn, roedd grŵp rheoli mewnol yr awdurdod lleol yn goruchwylio gwaith y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu, ond roedd trefniadau llywodraethu strategol tymor hwy yn dal i gael eu cwmpasu ac roedd dewisiadau'n dal i gael eu hystyried.

3.7 Roedd tua un rhan o bump o awdurdodau lleol yn adolygu a diwygio strategaethau NEET presennol a'u cynlluniau gweithredu cysylltiedig o ganlyniad i'r YEPF er mwyn cynnwys canllawiau arfer gorau yn ogystal ag amcanion a cherrig milltir ychwanegol. Mewn dau achos arall, roedd yr YEPF wedi sbarduno gwaith mwy sylweddol i ailysgrifennu strategaethau presennol neu gyfuno dwy strategaeth neu fwy yn ymwneud â gwasanaethau cymorth i bobl ifanc. Roedd un awdurdod lleol nad oedd ganddo strategaeth NEET yn flaenorol ac roedd yn ysgrifennu strategaeth a chynllun gweithredu i ymateb i ofynion yr YEPF.

3.8 Mewn tua chwarter yr awdurdodau lleol, roedd yr amcan o leihau nifer y bobl ifanc 16 i 18 oed sy'n NEET a chyfran y bobl ifanc 19 i 24 oed sy'n NEET wedi'i gynnwys fel blaenoriaeth yn y Cynllun Integredig Sengl. Yn yr awdurdodau lleol hyn, mae trefniadau llywodraethu'n cysylltu grŵp strategol yr YEPF yn eglur â grŵp partneriaeth lefel uchel, fel y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau, sy'n gyfrifol am gyflawni Cynllun

Integredig Sengl y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. O ganlyniad, ceir craffu gan aelodau etholedig ac uwch aelodau staff yr awdurdod lleol.

3.9 Yn gyffredinol, roedd eisoes gan wasanaethau addysg awdurdod lleol a oedd yn ddarostyngedig i fesurau arbennig neu a oedd wedi cael eu rhyddhau ohonynt yn ddiweddar (pedwar awdurdod lleol) bwyslais ar leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET cyn yr YEPF o ganlyniad i argymhellion gan Estyn i'r awdurdodau lleol wneud gwelliannau yn y maes hwn. O ganlyniad, yn yr awdurdodau lleol hyn, mae grŵp strategol yr YEPF yn adrodd i fyrddau adfer neu wella, sy'n helpu i sicrhau bod yr YEPF yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth leol.

3.10 Roedd yn ymddangos bod y rhan fwyaf o grwpiau strategol yn monitro cyflawniad y dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer lleihau nifer a chyfran y bobl ifanc sy'n NEET yn 16-18 a 19-24 oed. Nid oedd unrhyw rai wedi datblygu dangosyddion perfformiad allweddol ychwanegol. Mae nifer o grwpiau strategol yn derbyn data cyfanredol Gyrfa Cymru ar nifer y bobl ifanc sydd ym mhob haen o'r model pum haen. I rai awdurdodau lleol, roedd derbyn y data hwn yn ddatblygiad newydd a ysgogwyd gan yr YEPF. Mae tri awdurdod lleol o leiaf yn derbyn gwybodaeth reoli fanylach. Mae hyn yn cynnwys data misol ar gyrchfannau'r garfan Blwyddyn 11 (a ddiffinnir gan y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)) dros ddwy flynedd, sy'n dangos symudiad rhwng haenau. Mae'r data ar gael ar lefel darparwr.

*Yr hyn sy'n gweithio'n dda*

3.11 Mae'r arolwg rhanddeiliaid yn dangos gwelliannau o ran arweinyddiaeth yr agenda ymgysylltu a datblygu ieuenctid gan awdurdodau lleol. Canfu'r canlynol:

- bod dros bedair rhan o bump o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod arweinyddiaeth effeithiol o'r agenda YEPF gan yr awdurdod lleol ar ôl cyflwyno'r YEPF (84 y cant; 163 o 193 o ymatebwyr). Mae hyn 21 pwynt canran yn uwch nag a nododd yr ymatebwyr ym mis Hydref 2013 (lle'r oedd 63 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, sef 124 unigolyn o 197)
- y bu'r cynnydd mwyaf yn nifer yr ymatebwyr a oedd yn cytuno'n gryf â'r datganiad, a gynyddodd o bron i un rhan o chwech cyn cyflwyno'r Fframwaith (17 y cant, 34 rhanddeiliad), gan nesáu at

bron i hanner ar ôl i'r Fframwaith gael ei gyflwyno (47 y cant, 91 rhanddeiliad)

- bod cyfran yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r datganiad wedi gostwng o un rhan o bump (20 y cant, 40 rhanddeiliad) i ychydig o dan un rhan o ddeg (7 y cant, 13 rhanddeiliad) ar ôl cyflwyno'r Fframwaith.

3.12 Roedd staff Gyrfa Cymru yn arbennig o gadarnhaol ynglŷn ag arweinyddiaeth yr YEPF gan yr awdurdod lleol. Roedd bron pob aelod o staff Gyrfa Cymru a ymatebodd i'r arolwg yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod arweinyddiaeth effeithiol o'r agenda ymgysylltu a datblygu ieuenctid gan yr awdurdod lleol (27 o 29 o ymatebwyr, 93 y cant).

3.13 Mae'r canfyddiadau o gyfweliadau manylach â staff awdurdodau lleol a phartneriaid yn awgrymu, yn gyffredinol, nad yw'r YEPF wedi bod yn rhan o gylch gorchwyl grwpiau llywio newydd a'r grwpiau hynny a adnewyddwyd neu a ailddynodwyd am gyfnod digon hir i allu gwneud asesiad llawn o effeithiolrwydd y trefniadau llywio. Roedd rhai grwpiau wedi cyfarfod dwy neu dair gwaith yn unig erbyn mis Chwefror 2015.

3.14 Er hynny, mae'r arolwg rhanddeiliaid yn darparu tystiolaeth gynnar fod grwpiau strategol yn gweithredu'n well. Bu cynnydd 22 pwynt canran yng nghyfran y rhanddeiliaid a oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod grŵp strategol a oedd yn llywio gwasanaethau a mentrau'n ymwneud ag ymgysylltu a datblygu ieuenctid yn effeithiol rhwng lansio'r YEPF a'r arolwg (61 y cant, 120 o 196 o ymatebwyr cyn yr YEPF; 83 y cant, 160 o 192 ar ôl yr YEPF).

3.15 Roedd cyfweliadau â staff awdurdodau lleol a phartneriaid yn cefnogi hyn ac yn dangos bod presenoldeb mewn cyfarfodydd grwpiau llywio'n dda yn gyffredinol a bod Uwch Swyddogion Atebol yn arwain grwpiau llywio'n gryf mewn rhai awdurdodau lleol, ond nid pob un. Mae adolygiad o gylch gorchwyl yn dangos aelodaeth gymharol gynhwysfawr o ystod o randdeiliaid perthnasol a chanddynt gyfrifoldebau priodol. Adroddodd staff a phartneriaid mewn bron pob awdurdod lleol fod yr YEPF wedi rhoi 'mwy o ffocws' i grwpiau strategol.

3.16 Mae'r arolwg rhanddeiliaid yn awgrymu gwelliant penodol mewn gwaith partneriaeth rhwng partneriaid strategol allweddol. Roedd cynnydd 32 pwynt canran yng nghyfran y rhanddeiliaid a oedd naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno bod yr holl bartneriaid strategol allweddol yn gweithio ar y cyd i gefnogi ymgysylltu a datblygu ieuenctid cyn lansio'r YEPF o

gymharu ag ers lansio’r YEPF (o 51 y cant cyn yr YEPF, 99 rhanddeiliad o 195; i 83 y cant ar ôl yr YEPF, 160 rhanddeiliad o 194). Cynrychiolwyr sefydliadau’r sector gwirfoddol oedd y lleiaf cadarnhaol ynglŷn â gwaith partneriaeth strategol, er bod y mwyafrif yn dal i gytuno’n gryf neu gytuno bod yr holl bartneriaid strategol allweddol yn gweithio ar y cyd (72 y cant). Adroddodd staff awdurdodau lleol a phartneriaid yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol hefyd fod yr YEPF yn helpu i sicrhau cyfrifoldeb a rennir am gyflawni canlyniadau allweddol: ‘Bellach, lle yr amlygir bod person ifanc mewn perygl o fod yn NEET, rydym ni’n dweud ‘Beth ydym ni i gyd yn mynd i’w wneud yn ei gylch?’ yn hytrach na gweithio’n annibynnol ar ein gilydd’, (cyfweliad ag aelod o staff awdurdod lleol).

3.17 Adroddodd cyfweleion mewn sawl awdurdod lleol hefyd fod rhannu gwybodaeth a data rhwng partneriaid strategol wedi gwella o ganlyniad i’r YEPF. Mae hyn yn helpu i wella atebolrwydd a gweithredu dull strategol o amlygu problemau a mynd i’r afael â hwy. Dywedodd un cyfwelai: ‘roedd y wybodaeth flaenorol a oedd gennym yn annigonol i gael trosolwg corfforaethol strategol. Mae’r YEPF wedi rhoi ysgogiad ac wedi helpu i symud gwaith partneriaeth yn ei flaen’ (cyfweliad ag aelod o staff Gyrfa Cymru).

*Heriau*

3.18 Er bod aelodaeth grwpiau llywio strategol yn ymddangos yn gynhwysfawr yn gyffredinol, roedd bron hanner yr awdurdodau lleol wedi adrodd am fylchau. Nid yw hyn oherwydd bod rhai sefydliadau rhanddeiliaid yn methu ag ymgysylltu ar draws pob awdurdod lleol, ond yn hytrach oherwydd bod rhai awdurdodau lleol yn profi heriau wrth ymgysylltu â phartneriaid strategol penodol o ganlyniad i amgylchiadau lleol, fel y ffaith nad oes gan y sefydliad yr adnoddau i gymryd rhan neu nad yw’n argyhoeddedig ynglŷn â’r buddiannau. Mae’n ymddangos bod Uwch Swyddogion Atebol a Chydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu yn ymwybodol o’r materion hyn at ei gilydd ac yn ceisio eu datrys.

3.19 Hyd yma, mae monitro’n canolbwyntio’n bennaf ar y camau gweithredu mewn cynlluniau lleol (seiliedig ar brosesau) yn hytrach na chynnydd tuag at unrhyw dargedau lleol ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc sy’n NEET (yn gyffredinol, unrhyw is-grŵp/grŵp oedran, ysgolion penodol) neu’r cyfnod y mae pobl ifanc yn NEET.

3.20 Roedd yn ymddangos nad oedd grwpiau strategol wedi gwneud cysylltiadau penodol â pholisïau yn ymwneud â’r Gymraeg (er

enghraifft, Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg). Er ei bod yn amlwg bod timau YEPF yn deall bod yn rhaid bodloni anghenion pobl ifanc Cymraeg eu hiaith, nid oedd unrhyw enghreifftiau o arweinwyr strategol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg yn cael eu cynrychioli yng ngrwpiau strategol yr YEPF neu'n cyfrannu at drafodaethau strategol ynglŷn â chynllunio a gweithredu.

3.21 Adroddodd sawl awdurdod lleol fod eu gwasanaethau wedi cael eu hailstrwythuro o ganlyniad i ostyngiadau mewn cyllid. Mewn rhai achosion, roedd hyn wedi achosi oedi wrth ddatblygu trefniadau llywodraethu, lleihau amlder cyfarfodydd a chyfranogiad, ac arwain at newidiadau mewn presenoldeb. Mae llawer o awdurdodau lleol yn pryderu y bydd newidiadau parhaus i staff yn effeithio ar eu gallu i ffurfio'r partneriaethau cryf, cynaliadwy sy'n ofynnol i weithredu'r YEPF.

3.22 Mae Tabl 3.1 yn amlinellu'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg ym mis Chwefror 2015 o'r cyfweliadau ag awdurdodau lleol a phartneriaid ym mhob un o'r 22 ardal awdurdod lleol.

**Tabl 3.1 Ystyried rheolaeth awdurdodau lleol o'r YEPF**

| Disgwyliad | Yr hyn sy'n gweithio'n dda | Heriau |
|---|---|---|
| Uwch Swyddog Atebol wedi'i benodi | Mae pob awdurdod lleol wedi penodi Uwch Swyddog Atebol ar lefel ddigon uchel.<br><br>Ceir enghraifft o un awdurdod lleol sydd wedi penodi hyrwyddwr allanol hefyd (prifathro coleg). | Nid yw pob Uwch Swyddog Atebol yn arwain grwpiau llywio strategol. |
| Grŵp llywio strategol wedi'i sefydlu ac yn gweithredu (mae rhanddeiliaid mewnol ac allanol allweddol yn aelodau o'r grŵp ac yn mynychu; mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal; ceir arweinyddiaeth weithredol gan Uwch Swyddogion Atebol). | Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi sefydlu grŵp llywio strategol neu mae grŵp strategol sydd eisoes yn bodoli wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb am yr YEPF.<br><br>Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod grwpiau strategol yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid | Mae rhai awdurdodau lleol nad ydynt wedi cwblhau trefniadau strategol yn derfynol eto; nid yw rhai grwpiau strategol yn cyfarfod yn rheolaidd nac yn aml.<br><br>Er bod aelodaeth grwpiau llywio |

| Disgwyliad | Yr hyn sy'n gweithio'n dda | Heriau |
|---|---|---|
| | disgwyliedig.<br><br>Mae cylch gorchwyl grwpiau strategol wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r YEPF yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol.<br><br>Mae rhai awdurdodau lleol yn cynnwys amcan i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET yn eu Cynllun Integredig Sengl. Mae hyn yn sicrhau bod yr YEPF yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth ac yn destun craffu.<br><br>Mae trefniadau ar waith mewn awdurdodau lleol sy'n ddarostyngedig i fesurau arbennig i grŵp strategol yr YEPF adrodd i fyrddau gwella lleol. Unwaith eto, mae hyn yn sicrhau bod yr YEPF yn flaenoriaeth.<br><br>Mae partneriaid yn gwerthfawrogi trefniadau llywio wedi'u hadnewyddu neu drefniadau llywio newydd, ac maent yn credu eu bod yn hyrwyddo cyfrifoldeb a rennir ar gyfer canlyniadau pobl ifanc ac yn cefnogi'r YEPF; mae llawer o randdeiliaid yn credu eu bod wedi gwella. | strategol yn ymddangos yn gynhwysfawr yn gyffredinol, mae rhai awdurdodau lleol wedi adrodd am fylchau.<br><br>Ceir pryderon y gallai ad-drefnu staff yn barhaus effeithio ar lywodraethu (cyfranogiad gweithredol, parhad).<br><br>Mae monitro'n canolbwyntio ar gamau gweithredu'r broses yn hytrach na thargedau sy'n mesur cynnydd tuag at nodau'r rhaglen. |

| Disgwyliad | Yr hyn sy’n gweithio’n dda | Heriau |
|---|---|---|
| Mae’r Uwch Swyddog Atebol yn cyflawni rôl weithredol wrth reoli’r fframwaith yn strategol | Mae enghreifftiau’n dod i’r amlwg o arweinyddiaeth gref a gweithredol o grwpiau llywio strategol gan Uwch Swyddogion Atebol. | Nid yw cyfraniad ac arweinyddiaeth weithredol gan Uwch Swyddogion Atebol yn amlwg ym mhob awdurdod lleol. |

**Trefniadau gweithredol**

*Yr hyn sydd wedi’i sefydlu*

3.23 Roedd pob awdurdod lleol wedi datblygu cynllun gweithredu YEPF, gan ddefnyddio’r templed a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y templed yn gofyn i awdurdodau lleol ddatgan beth yr oeddent eisoes yn ei wneud, beth oedd yr heriau ac yna rhestru camau gweithredu newydd yr oeddent yn ymrwymedig i’w gweithredu. Yn gyffredinol, nid yw’n ymddangos bod unrhyw awdurdodau lleol wedi mabwysiadu dull rheoli prosiect ffurfiol o ddatblygu a chyflawni cynlluniau gweithredu. Mae lefel y manylion yn y cynlluniau gweithredu’n amrywio. Dwy enghraifft yn unig oedd o gynlluniau prosiect a oedd yn dangos yr allbynnau a’r cynhyrchion allweddol, y cerrig milltir, y gweithgareddau a’r adnoddau sy’n ofynnol i weithredu’r YEPF. Ni chyfeirir at y gyd-ddibyniaeth rhwng camau gweithredu yn y cynlluniau gweithredu at ei gilydd ychwaith.

3.24 Er mwyn mynd i’r afael â’r heriau hyn a chyflawni’r ychydig dargedau a osodwyd, byddem felly’n disgwyl i gynlluniau gweithredu gydbwyso gweithgareddau i leihau’r problemau a wynebir gan bobl ifanc 16 oed, a ddylai leihau’r cyfrannau sy’n NEET yn 16-18 oed yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, â gweithgareddau i leihau’r niferoedd 17 oed a hŷn sy’n NEET ar hyn o bryd. Byddem hefyd yn disgwyl i gynlluniau gweithredu adlewyrchu’r rôl y gall partneriaid ei chyflawni yn hyn o beth trwy ddarparu addysg a hyfforddiant ac annog cyflogwyr i ddarparu cyflogaeth gydag addysg a hyfforddiant i bobl ifanc.

3.25 Nid ydym wedi adolygu pob cynllun gweithredu’n fanwl o ran y sefyllfa leol a thueddiadau, ond mae’r cynlluniau a’r camau gweithredu yr

ymgymerir â hwy gan awdurdodau lleol a'u partneriaid strategol yn awgrymu:

- eu bod yn canolbwyntio ar leihau nifer a chyfran y bobl ifanc sy'n NEET yn 16 oed fel sylfaen ar gyfer lleihau'r niferoedd hŷn sy'n NEET
- eu bod yn dechrau mynd i'r afael â sut y gallant leihau nifer y bobl ifanc sy'n dod yn NEET yn 17 a 18 oed
- eu bod yn cydnabod nad yw'r gostyngiad tymor hir yn fater o adnabod yn gynnar ac olrhain yn unig, a'i fod hefyd yn ymwneud â sicrhau bod darpariaeth addas ar gael yn ogystal â chymorth i wneud dewisiadau y tu hwnt i gyrchfannau addysg a hyfforddiant ôl-16 cychwynnol
- nad ydynt eto'n mynd i'r afael yn eglur â sut y bydd yr awdurdod lleol a'i bartneriaid strategol yn cynyddu lefelau sgiliau cyflogadwyedd mewn ysgolion a sefydliadau darparwyr ôl-16 er mwyn darparu sylfaen gadarn i bobl ifanc.

3.26 Roedd pob awdurdod lleol wedi penodi Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu i gydgysylltu'r broses o gyflawni'r cynllun gweithredu. Mewn rhai achosion, penodwyd arweinwyr NEET blaenorol. Ym mis Chwefror 2015, roedd Cydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu wedi bod yn eu swyddi am gyfnodau yn amrywio o bedwar mis i ymhell dros flwyddyn. Ceir gwahaniaethau hefyd rhwng awdurdodau lleol o ran sut y sefydlwyd rôl a swyddogaethau'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu. Roedd o leiaf draean o awdurdodau lleol o'r farn bod cyfrifoldebau'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu fel y'u disgrifir yn y cynllun gweithredu cenedlaethol yn rhy eang i un unigolyn ('mae'n ormod i un unigolyn ei wneud', uwch reolwr awdurdod lleol). O ganlyniad, maent wedi ymsefydlu'r swyddogaethau mewn gwahanol rolau. Er enghraifft:

- mae rheolwr strategol yn gyfrifol am feithrin a chynnal perthnasoedd strategol rhwng partneriaid a hwyluso rhannu data
- mae rheolwr gwasanaeth yn goruchwylio, neu bydd yn goruchwylio, llwythi achosion gweithwyr arweiniol ac yn goruchwylio'r broses gwneud penderfyniadau mewn perthynas â phobl ifanc unigol yr amlygir eu bod mewn perygl.

3.27 Roedd awdurdodau lleol eraill wedi penodi un Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu yn unig, a oedd yn gyfrifol am bob elfen. Mae

pedwar awdurdod lleol o leiaf o'r farn bod rhannu data rhwng partneriaid a meddu ar y capasiti i ddadansoddi data'n effeithiol yn hollbwysig i weithredu'r YEPF. Maent wedi penodi swyddog data, naill ai'n rhan-amser neu'n llawn amser, sy'n gyfrifol am ddadansoddi'r holl ddata cysylltiedig â'r YEPF a gweithio gyda phartneriaid ar faterion data.

3.28 Mae'r cyfrifoldeb am y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu yn amrywio rhwng awdurdodau lleol. Mae'r rhan fwyaf wedi lleoli'r rôl o fewn gwasanaethau ieuenctid neu addysg, ond mewn un awdurdod lleol mae'r rôl o fewn adfywio economaidd ac yn un arall mae'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu yn adrodd yn uniongyrchol i uwch reolwr neu gyfarwyddwr sy'n goruchwylio grŵp o wasanaethau i annog cydweithredu.

3.29 Mae Cydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu yn gyfrifol am gydgysylltu partneriaid i gyflawni'r YEPF a chytuno ar brotocolau ar gyfer gweithio ar y cyd. Mae tua hanner yr awdurdodau lleol wedi amlygu grwpiau gweithredol sydd eisoes yn bodoli i ymgymryd â'r cyfrifoldeb am hyn (e.e. grwpiau Cadw mewn Cysylltiad sydd eisoes yn bodoli[16)]. Mewn tua un rhan o bump o awdurdodau lleol yn unig, adroddwyd bod grwpiau gorchwyl a gorffen neu weithgorau wedi'u sefydlu i ddatblygu agweddau penodol ar yr YEPF. Er enghraifft:

- roedd Sir Benfro wedi sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen ar wahân ar gyfer elfen mapio darpariaeth yr YEPF ac ar gyfer adnabod yn gynnar, olrhain a broceriaeth ôl-16
- roedd Sir Benfro, Sir y Fflint a Wrecsam wedi defnyddio grwpiau gorchwyl a gorffen i gefnogi datblygiad Protocolau Rhannu Gwybodaeth
- roedd Blaenau Gwent a Bro Morgannwg wedi sefydlu gweithgorau i ddatblygu eu hoffer adnabod yn gynnar cyn 16 oed.

3.30 Mewn llawer o awdurdodau lleol, mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ac yn dibynnu ar anghenion a blaenoriaethau. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae'r trefniadau i ddatblygu elfennau o'r YEPF, megis ar gyfer

[16] Roedd *strategaeth Ymestyn Hawliau* Llywodraeth Cymru (gweler 2.1) yn mynnu bod pob awdurdod lleol yn sefydlu trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth am bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio a threfniadau ar gyfer cadw mewn cysylltiad â phobl ifanc. Yn rhan o hyn, sefydlodd llawer o awdurdodau lleol grwpiau gweithredol amlasiantaethol o'r enw grwpiau 'Cadw mewn Cysylltiad'.

adnabod yn gynnar a broceriaeth gan swyddogion arweiniol, yn eglur ac wedi hwyluso gwaith partneriaeth i gyflawni datrysiadau ymarferol, tra nad ydynt wedi'u sefydlu'n dda mewn eraill. Mae'n ymddangos mai ychydig iawn o awdurdodau lleol sydd â threfniadau ar gyfer datblygu sy'n ymdrin â phob elfen a ddylai fod yn symud ymlaen.

3.31 Er mwyn cefnogi'r broses weithredu, mae awdurdodau lleol wedi sefydlu nifer gynyddol o Brotocolau Rhannu Gwybodaeth (ISP) rhwng adrannau awdurdodau lleol, Gyrfa Cymru a phartneriaid darparu eraill fel ysgolion, colegau a sefydliadau'r sector gwirfoddol. Roedd gan ychydig yn llai na hanner yr awdurdodau lleol (10) ISP ar waith a gymeradwyir gan Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI). Roedd gan bob un o'r awdurdodau lleol eraill (12) ISP a oedd wedi'i gofrestru gyda WASPI fel un a oedd yn cael ei ddatblygu. Mae'r Protocolau Rhannu Gwybodaeth hyn yn atodol i Gytundeb Cymru ac yn gytundeb rhwng sefydliadau partner i rannu gwybodaeth i gefnogi'r broses o gyflawni'r YEPF. Maent yn manylu ar 'y dibenion penodol ar gyfer rhannu a'r wybodaeth bersonol sy'n cael ei rhannu, y gweithdrefnau gweithredol sy'n ofynnol, prosesau caniatâd, a chyfiawnhad cyfreithiol'[17].

3.32 Er bod ISP cadarn yn ddelfrydol yn y tymor canolig, mae tua thraean o'r awdurdodau lleol nad oes ganddynt ISP wedi sefydlu trefniadau eraill gyda Gyrfa Cymru i'w galluogi i gael mynediad at gronfa ddata IO Gyrfa Cymru. Mae hyn yn golygu y gellir rhannu gwybodaeth am unigolion a enwyd sydd mewn perygl, sy'n hollbwysig ar gyfer prosesau adnabod yn gynnar, broceriaeth ac olrhain effeithiol. Er enghraifft, mae gan rai awdurdodau lleol gytundeb lleoli gyda Gyrfa Cymru, sy'n caniatáu i unigolyn a enwyd, fel y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu, dderbyn gwybodaeth. Mewn tri awdurdod lleol o leiaf, mae aelod o staff wedi'i secondio i Gyrfa Cymru ac felly maent yn derbyn hawliau mynediad at ddata gweithiwr Gyrfa Cymru. Ategir hyn gan gytundeb lleoli.

3.33 Mewn o leiaf un rhan o bump o awdurdodau lleol, ceir rhwydweithiau ymarferwyr hefyd sy'n cyfarfod dwy neu dair gwaith y flwyddyn. Grwpiau mawr yw'r rhain ag aelodaeth eang o bob sefydliad sy'n cynorthwyo a gweithio gyda phobl ifanc ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae timau YEPF wedi defnyddio'r cyfarfodydd rhwydwaith hyn i rannu gwybodaeth a cheisio barn ar yr

---

[17] Protocol Rhannu Gwybodaeth ar gyfer YEPF Sir Gaerfyrddin-Sir Benfro, Gorffennaf 2014.

YEPF. Ystyrir eu bod yn ‘fodd defnyddiol o ymgynghori’n ehangach’ neu’n ‘fesur o’r hyn sy’n digwydd ar y rheng flaen’.

3.34 Er mwyn mynd i’r afael â’r heriau hyn a chyflawni’r ychydig dargedau a osodwyd, byddem felly’n disgwyl i gynlluniau gweithredu gydbwyso gweithgareddau i leihau’r problemau a wynebir gan bobl ifanc 16 oed, a ddylai leihau’r cyfrannau sy’n NEET yn 16-18 oed yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, â gweithgareddau i leihau’r niferoedd 17 oed a hŷn sy’n NEET ar hyn o bryd. Byddem hefyd yn disgwyl i gynlluniau gweithredu adlewyrchu’r rôl y gall partneriaid ei chyflawni yn hyn o beth trwy ddarparu addysg a hyfforddiant ac annog cyflogwyr i ddarparu cyflogaeth gydag addysg a hyfforddiant i bobl ifanc.

*Yr hyn sy’n gweithio’n dda*

3.35 Ceir tystiolaeth fod partneriaid yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gwerthfawrogi rôl y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu. Maent yn gweld manteision bod â dau bwynt cyswllt dynodedig sy’n gyfrifol am gydgysylltu partneriaid a hwyluso rhannu gwybodaeth. Roedd awdurdodau lleol nad oedd ganddynt rôl debyg yn flaenorol wedi sylwi ar y gwahaniaeth y mae’r rôl Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu yn ei wneud wrth symud y cynllun gweithredu yn ei flaen.

3.36 Mewn awdurdodau lleol sydd â swyddog gwybodaeth reoli neu ddadansoddwr data dynodedig, mae partneriaid a staff awdurdod lleol yn gwerthfawrogi’r rôl hon ac yn ei hystyried yn ffactor llwyddiant allweddol i weithredu’r YEPF.

3.37 Adroddodd awdurdodau lleol sydd wedi lleoli’r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu y tu allan i adran maes gwasanaeth penodol fod hyn wedi helpu i osgoi tyndra rhwng adrannau a chynorthwyo i sicrhau bod yr YEPF yn aros yn flaenoriaeth drawsbynciol ar gyfer clwstwr o wasanaethau yn hytrach na chyfrifoldeb un maes gwasanaeth.

3.38 Mae’n ymddangos bod grwpiau gorchwyl a gorffen i ddatblygu Protocolau Rhannu Gwybodaeth wedi gweithio’n dda. Er y bu’r broses yn anodd i rai awdurdodau lleol oherwydd ei bod yn anghyfarwydd, maent wedi gallu cydweithio i ddatblygu Protocol Rhannu Gwybodaeth drafft a gyflwynwyd i WASPI i’w gymeradwyo. Dywedodd sawl partner fod yr YEPF wedi cyflymu’r broses o gwblhau Protocolau Rhannu Gwybodaeth yn derfynol ac roeddent yn gadarnhaol ynglŷn â’r cynnydd a wnaed.

*Heriau*

3.39 Mae'n cymryd amser i sefydlu trefniadau gweithredol effeithiol ac mae angen arweinyddiaeth gan yr Uwch Swyddog Atebol a'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu. Mae'n amlwg bod trefniadau gweithredol yn llai datblygedig mewn awdurdodau lleol lle mae'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu newydd ei benodi'n ddiweddar. Hyd yn oed mewn awdurdodau lleol lle'r oedd Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu wedi bod yn ei swydd am gyfnod hwy, mae'r broses sefydlu protocolau a systemau gweithio mewn partneriaeth yn ailadroddol – caiff modelau eu treialu, eu hadolygu a'u mireinio – ac fe all sawl mis fynd heibio cyn i broses derfynol gael ei chytuno rhwng partneriaid.

3.40 Y brif her wrth sefydlu grwpiau gweithredol a grwpiau gorchwyl a gorffen yw sicrhau cyfranogiad a chyfraniad gweithredol gan yr holl staff allweddol mewn sefydliadau partner. Yn arbennig:

- mae'r ymrwymiad i ddatblygu cynlluniau gweithredu YEPF lleol a threfniadau partneriaeth wedi bod yn amrywiol ymhlith ysgolion ôl-16, colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith
- nid yw protocolau gweithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Byd Gwaith wedi'u sefydlu'n dda ym mhob awdurdod lleol
- nid yw cyflogwyr wedi'u hymgysylltu'n dda yn gyffredinol.

3.41 Er bod Protocol Rhannu Gwybodaeth neu ddull arall o rannu gwybodaeth, yn enwedig â Gyrfa Cymru, wedi'i sefydlu mewn sawl awdurdod lleol, nid yw hyn yn wir am bob un, er bod hynny'n hollbwysig ar gyfer broceriaeth ac olrhain effeithiol. Lle mae un unigolyn yn gyfrifol am swyddogaethau'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu, adroddodd awdurdodau lleol ei bod yn anodd cyflawni cyfrifoldebau strategol a gweithredol.

3.42 Adroddodd dros hanner yr awdurdodau lleol eu bod wedi defnyddio'r grant £50,000 gan Lywodraeth Cymru i benodi Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu, ond nid oedd pob un wedi amlygu arian i gynnal y swydd y tu hwnt i fis Mawrth 2016.

3.43 Mae tabl 3.2 yn amlinellu'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg ym mis Chwefror 2015 o'r cyfweliadau ag awdurdodau lleol a phartneriaid ym mhob un o'r 22 ardal awdurdod lleol.

**Tabl 3.2 Ystyried gweithrediad awdurdodau lleol o'r YEPF**

| Disgwyliad | Yr hyn sy'n gweithio'n dda | Heriau |
|---|---|---|
| Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu (EPC) yn ei swydd neu drefniadau eraill ar waith. | Mae pob awdurdod lleol wedi penodi EPC ac, at ei gilydd, mae partneriaid yn gwerthfawrogi'r rôl a gallu deiliaid y swydd i symud ymlaen i ddatblygu datrysiadau. Mae'r rhan fwyaf o randdeiliaid yn credu eu bod yn gwneud gwahaniaeth.<br><br>Mae rhai awdurdodau lleol wedi ymsefydlu swyddogaethau'r EPC mewn dwy neu dair rôl, gan rannu cyfrifoldebau strategol a gweithredol.<br><br>Mae gan rai awdurdodau lleol swyddog data amser llawn neu ran-amser i gynorthwyo'r EPC, a werthfawrogir yn fawr gan bartneriaid a staff awdurdod lleol.<br><br>Yn gyffredinol, ystyrir bod yr EPC yn gweithio ar draws strwythurau trefniadaethol mewnol ac allanol. | Mae rôl yr EPC yn hollbwysig i symud yr YEPF yn ei flaen; mae'n bosibl na fydd cynnydd yn cael ei wneud hebddi.<br><br>Yn aml, disgwylir i Gydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu gyflawni rolau gweithredu a datblygu gweithredol strategol sy'n eu hymestyn yn sylweddol. |
| Awdurdodau lleol yn datblygu cynllun gweithredu sy'n dynodi cyfrifoldebau'n eglur. | Mae pob awdurdod lleol wedi datblygu cynllun gweithredu YEPF, a rannwyd â Llywodraeth Cymru. | Nid yw cynlluniau gweithredu'n dangos allbynnau a chynhyrchion allweddol, cerrig milltir, gweithgareddau a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gweithredu na'r gyd-ddibyniaeth rhwng |

| Disgwyliad | Yr hyn sy’n gweithio’n dda | Heriau |
|---|---|---|
| | | camau gweithredu. Mae hyn yn risg allweddol o ran gweithredu. |
| Mae trefniadau i ddatblygu gweithrediad pob elfen o’r YEPF ar waith, fel gweithgorau a grwpiau gorchwyl a gorffen. | Mae gan rai awdurdodau lleol y rhain ynghyd â threfniadau gweithio ar y cyd dwyochrog ag unigolion mewn gwasanaethau eraill er mwyn symud gwaith datblygu yn ei flaen. | Prin y mae gan awdurdodau lleol drefniadau datblygu sy’n ymdrin â phob elfen a ddylai fod yn symud ymlaen.<br><br>Ychydig o enghreifftiau a gafwyd o ddefnyddio grwpiau gorchwyl a gorffen ar gyfer agweddau penodol ar yr YEPF.<br><br>Ni ddefnyddiwyd dull rheoli prosiect o gyflawni cynlluniau gweithredu yn gyffredinol. Mae’n rhaid bod hyn yn ei gwneud yn anodd i Gydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu a’r grwpiau llywio strategol fonitro cynnydd a deall cynlluniau wrth gefn. |
| Mae’r EPC yn arwain ar ddatblygu trefniadau partneriaeth â Gyrfa Cymru, darparwyr hyfforddiant ôl-16, partneriaid y trydydd sector. | Ar y cyfan, mae Cydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu yn cydgysylltu aelodaeth grwpiau yn weithredol er mwyn datblygu trefniadau a grwpiau gweithredol newydd.<br><br>Mae perthnasoedd cryf ar waith yn gyffredinol â Gyrfa Cymru a rhannau mewnol awdurdodau lleol (gwasanaethau ieuenctid, | Llwyddiant cymysg wrth ymgysylltu â’r holl bartneriaid allanol. |

| Disgwyliad | Yr hyn sy'n gweithio'n dda | Heriau |
|---|---|---|
| | 14-19). | |
| Mae'r awdurdod lleol yn arwain wrth sicrhau bod trefniadau rhannu data priodol ar waith. | Mae nifer gynyddol o Brotocolau Rhannu Gwybodaeth ar waith rhwng awdurdodau lleol, Gyrfa Cymru a phartneriaid darparu eraill fel ysgolion, colegau a sefydliadau'r sector gwirfoddol (mae gan ddeg awdurdod lleol Brotocol Rhannu Gwybodaeth ôl-16 ar waith, ac mae bron pob un o'r lleill yn y broses o ddatblygu un).<br><br>Mae gan rai awdurdodau lleol gytundebau lleoli â Gyrfa Cymru, sy'n caniatáu ar gyfer rhannu data pum haen.<br><br>Mae'r YEPF wedi cyflymu'r broses o gwblhau'n derfynol rhai Protocolau Rhannu Gwybodaeth a oedd wedi bod yn cael eu datblygu ers amser hir. | Mae pob un o'r 12 awdurdod lleol sy'n weddill yn datblygu Protocol Rhannu Gwybodaeth ac wedi'i gofrestru. |

## Negeseuon allweddol

| Trefniadau rheolaeth strategol |
|---|
| • Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol wedi datblygu trefniadau llywodraethu strategol da ar gyfer yr YEPF. Roedd pob awdurdod lleol wedi penodi Uwch Swyddog Atebol ar gyfer yr YEPF ac roedd gan y rhan fwyaf grwpiau llywio strategol a oedd yn cynnwys ystod o bartneriaid mewnol ac allanol perthnasol. Ond nid oedd rhai awdurdodau lleol wedi cwblhau trefniadau llywio strategol, ac roeddent mewn sefyllfa lle nad oedd ystod lawn o bartneriaid wedi'u cynrychioli |

neu lle nad oeddent wedi sefydlu grŵp (dau awdurdod lleol)

- Er ei bod yn rhy gynnar i asesu effeithiolrwydd trefniadau llywio'n llawn, ceir tystiolaeth fod grwpiau strategol mwy sefydledig yn gweithredu'n dda: mae presenoldeb yn dda; ceir enghreifftiau o arweinyddiaeth weithredol gan Uwch Swyddogion Atebol; roedd partneriaid yn gweithio'n dda i oruchwylio'r broses weithredu; ac roedd gwelliant o ran rhannu data a gwybodaeth
- Mae'r ymatebion i'r arolwg rhanddeiliaid yn dangos bod aelodaeth a chyfranogiad wedi cynyddu ers mis Hydref 2013, a bod y rhan fwyaf yn cytuno bod cydweithredu ac arweinyddiaeth effeithiol o'r agenda wedi gwella
- Ystyriwyd mai rhwystr allweddol rhag sefydlu a chynnal trefniadau llywodraethu strategol cadarn oedd ad-drefnu parhaus gwasanaethau awdurdod lleol a'r rhai hynny yn y sectorau preifat a gwirfoddol a gynorthwyir gan grant awdurdod lleol, o ganlyniad i ostyngiadau mewn cyllid.

**Trefniadau gweithredol**

- Roedd pob awdurdod lleol wedi datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer rhoi'r YEPF ar waith ac wedi'u rhannu â Llywodraeth Cymru. Nid yw'r rhan fwyaf o'r cynlluniau'n cynnwys gwybodaeth benodol am allbynnau a chynhyrchion, cerrig milltir, gweithgareddau a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gweithredu. Nid oedd yn ymddangos bod unrhyw awdurdodau lleol yn defnyddio methodoleg rheoli prosiect ffurfiol i oruchwylio a monitro'r broses weithredu
- Roedd pob awdurdod lleol wedi penodi EPC i gydgysylltu'r broses o gyflawni'r cynllun gweithredu, er bod rhai wedi'u penodi'n ddiweddar yn unig. Roedd o leiaf draean o awdurdodau lleol wedi ymsefydlu swyddogaethau'r EPC ar draws sawl gwahanol rôl i gydnabod cyfrifoldebau pellgyrhaeddol EPC. Yn gyffredinol, mae partneriaid yn gwerthfawrogi rôl yr EPC ac yn credu ei bod wedi arwain at newid sylweddol
- Mewn rhai awdurdodau lleol, roedd y trefniadau i ddatblygu elfennau o'r YEPF yn eglur ac wedi hwyluso gwaith partneriaeth i gyflawni datrysiadau ymarferol, ond nid oeddent wedi'u sefydlu'n dda mewn awdurdodau lleol eraill. Roedd yn ymddangos mai ychydig iawn o awdurdodau lleol oedd â threfniadau sy'n ymdrin â phob elfen a ddylai fod yn symud ymlaen
- Roedd gan ychydig yn llai na hanner yr awdurdodau lleol (10) Brotocolau Rhannu Gwybodaeth ar waith a gymeradwywyd gan

WASPI. Roedd gan rai o'r rhai hynny nad oedd ganddynt Brotocol Rhannu Gwybodaeth gytundeb lleoli â Gyrfa Cymru, a oedd yn caniatáu ar gyfer rhannu data pum haen â chyswllt a enwyd. Roedd partneriaid mewn awdurdodau lleol a chanddynt Brotocolau Rhannu Gwybodaeth a chytundebau lleoli yn gadarnhaol iawn ynglŷn â gallu rhannu gwybodaeth ac yn credu bod hynny'n cefnogi gwelliant o ran adnabod yn gynnar ac olrhain. Mae awdurdodau lleol nad oes ganddynt y trefniadau hyn yn wynebu anawsterau wrth weithredu'r YEPF

- Roedd dros hanner yr awdurdodau lleol wedi defnyddio'r grantiau £50,000 gan Lywodraeth Cymru i benodi'r EPC, ond nid oedd pob un ohonynt wedi amlygu arian i gynnal y swydd hon.

# 4. Gweithredu chwe elfen y Fframwaith

4.1 Yn yr adran hon, cyflwynwn ganfyddiadau ynglŷn â sut mae awdurdodau lleol yn gweithredu chwe elfen yr YEPF: adnabod yn gynnar, broceriaeth, olrhain, darpariaeth, cyflogadwyedd ac atebolrwydd. Yn yr un modd â'r adran flaenorol, defnyddiwn gyfweliadau â staff awdurdodau lleol a phartneriaid, deunydd dogfennol ategol a chyfweliadau â rhanddeiliaid. Crynhoir negeseuon allweddol ar ddiwedd yr adran.

**Adnabod yn gynnar**

*Yr hyn sy'n digwydd*

4.2 Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi canolbwyntio ar yr elfen hon o'r YEPF yn bennaf. Roedd camau gweithredu mewn perthynas â'r elfen hon ar gyfer pobl ifanc iau nag 16 oed wedi'u datblygu'n gymharol dda yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, ond nid pob un.

*(a) Cyn-16*

4.3 Roedd gan oddeutu traean yr awdurdodau lleol system adnabod yn gynnar ar waith cyn i'r YEPF gael ei gyflwyno, a oedd yn cael ei defnyddio gyda myfyrwyr Blwyddyn 10 ac 11 ac a oedd wedi'i sefydlu'n gymharol dda. Mae'r systemau hyn i gyd yn dilyn canllawiau arfer gorau ac yn cael eu harwain gan ddata, ond ceir cyfraniad gan ymarferwyr. O ran sawl awdurdod lleol, mae'r YEPF wedi darparu'r sbardun i ymestyn defnydd yr offeryn i fyfyrwyr iau fel bod adnabod yn digwydd yn gynharach. Roedd awdurdod lleol arall a oedd eisoes wedi sefydlu system adnabod yn gynnar cyn-16 wedi defnyddio'r YEPF fel cyfle i adolygu ei fodel presennol er mwyn sicrhau ei fod yn adnabod pobl ifanc mewn perygl yn effeithiol, ac yna'i addasu.

4.4 Nid oedd system gyson, safonedig ar waith mewn dros draean yr awdurdodau lleol, ac roeddent wedi dechrau gweithio ar hyn ers lansio'r YEPF neu ychydig cyn hynny. Roedd pob un o'r awdurdodau lleol hyn eisoes yn cydnabod yr angen i gyflwyno system safonedig ac mae'r YEPF wedi helpu i sbarduno'r gwaith hwn. Yn ôl un awdurdod lleol, roedd hyn yn debyg i'r 'YEPF yn gwthio wrth ddrws agored'. Yn nodweddiadol, yn yr awdurdodau lleol hyn, roedd adnabod yn gynnar yn digwydd mewn ysgolion yn flaenorol, ond roedd ysgolion yn defnyddio mesurau a chategorïau risg gwahanol ac nid oedd unrhyw

brotocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid. Roedd rhai o'r awdurdodau lleol hyn wedi dechrau ystyried modelau posibl ond nid oedd y rhain wedi'u profi cyn cyflwyno'r YEPF.

4.5 Yn gyffredinol, roedd awdurdodau lleol a oedd wedi datblygu system adnabod yn gynnar newydd ers lansio'r YEPF wedi disgrifio proses drylwyr ar gyfer datblygu a phrofi modelau newydd. Roedd pob un yn cynnwys y rhan fwyaf o'r elfennau canlynol:

- dilyn canllawiau arfer gorau a thystiolaeth ymchwil er mwyn sicrhau bod dangosyddion craidd ymddygiad, cyrhaeddiad a phresenoldeb yn amlwg yn eu model. Roedd llawer wedi defnyddio'r hyn a ddysgwyd gan awdurdodau lleol eraill a oedd eisoes wedi bod trwy'r broses
- gweithio ar y cyd ag ysgolion a phartneriaid eraill mewn gweithgorau neu grwpiau gorchwyl a gorffen priodol, gan geisio eu barn ar bennu'r trothwyon risg a sut y dylai'r broses gyfathrebu rhwng ysgolion a'r awdurdod lleol weithio
- cysylltu eu system adnabod yn gynnar â'r model pum haen
- ceisio adborth ar fodelau a systemau drafft gan bartneriaid
- profi eu model gan ddefnyddio data hanesyddol i asesu a fyddai'r model wedi bod yn effeithiol wrth amlygu pobl ifanc a ddaeth yn NEET ar ôl gadael yr ysgol
- treialu'r system newydd mewn un neu ddwy ysgol, a ddewiswyd yn ofalus oherwydd bod ganddynt nifer uchel o ymadawyr Blwyddyn 11 sy'n mynd yn NEET neu oherwydd cefnogaeth gref gan bennaeth a oedd yn fodlon cyfrannu at gynllun peilot, neu ei chyflwyno'n raddol i bob ysgol
- mireinio'r model yn seiliedig ar adborth a chanlyniadau cynlluniau peilot trwy addasu pwysoliadau, ychwanegu neu ddileu dangosyddion risg a newid cyflwyniad adroddiadau i'w gwneud yn fwy defnyddiadwy.

4.6 Mae'n ymddangos bod yr holl systemau a oedd eisoes ar waith neu a oedd wedi'u datblygu yn defnyddio dangosyddion craidd ymddygiad, cyrhaeddiad a phresenoldeb. Roedd ystod eang o ddangosyddion ychwanegol yn cael eu defnyddio hefyd, gan gynnwys: statws Prydau Ysgol am Ddim, statws derbyn gofal, pa un a oedd person ifanc yn derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS), newid ysgol sawl gwaith,

anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion Saesneg fel Iaith Ychwanegol (EAL). Mae nifer y dangosyddion ychwanegol a ddefnyddir yn amrywio rhwng awdurdodau lleol. Mae'r rhan fwyaf o'r systemau'n defnyddio system goleuadau traffig i gategoreiddio risg hefyd.

4.7 Roedd rhai awdurdodau lleol wedi llunio mapiau proses neu ysgrifennu canllawiau i ysgolion er mwyn eu cynorthwyo i ddefnyddio'r system adnabod yn gynnar a chyfrannu ati.

**Adnabod yn gynnar cyn-16: Merthyr Tudful a Bro Morgannwg**

Cyn lansio'r YEPF, nid oedd unrhyw strwythurau cydgysylltiedig ar waith i adnabod pobl ifanc iau nag 16 oed a oedd mewn perygl o fynd yn NEET ym Merthyr Tudful a Bro Morgannwg. Roedd gan ysgolion eu prosesau mewnol eu hunain ar gyfer adnabod yn gynnar ond nid oedd gwybodaeth yn cael ei rhannu o reidrwydd â'r awdurdod lleol na rhanddeiliaid eraill.

Roedd y ddau awdurdod lleol wedi sefydlu gweithgorau bach i ddatblygu'r offeryn trwy amlygu dangosyddion, sefydlu pwysoliadau i adlewyrchu eu pwysigrwydd a diffinio trothwyon ar gyfer ymyriadau. Yn rhan o'r broses hon, ystyriwyd tystiolaeth amrywiol gan gynnwys llenyddiaeth ymchwil, dysgu o awdurdodau lleol eraill a chanllawiau gan Lywodraeth Cymru.

Allbwn y ddau fodel yw graddfa coch, ambr a gwyrdd (RAG) ar gyfer pob disgybl, lle mae coch yn dynodi disgyblion y mae angen cymorth dwys arnynt, ambr yn dynodi'r rhai hynny y mae angen rhywfaint o gymorth ac arsylwi ychwanegol arnynt, a gwyrdd yn dynodi nad oes angen cymryd unrhyw gamau ychwanegol.

Ym Merthyr Tudful, archwilir gwybodaeth o'r offeryn adnabod yn gynnar bob mis gan grŵp gweithredol NEET newydd. Yn y grwpiau hyn, caiff pobl ifanc yr amlygir bod perygl mawr iddynt ymddieithrio (h.y. y rhai hynny â statws coch yn y raddfa RAG) eu neilltuo i weithiwr arweiniol a chytunir ar froceru cymorth ychwanegol. Ym Mro Morgannwg, mae paneli amlasiantaethol sydd wedi'u lleoli mewn ysgolion yn cyfarfod unwaith y tymor ac yn cyflawni'r rôl hon.

Er bod y ddau awdurdod lleol eisoes wedi dechrau gwaith cwmpasu a datblygu ar gyfer eu systemau adnabod yn gynnar cyn-16 cyn yr YEPF, mae cyflwyno'r fframwaith cenedlaethol wedi helpu i sicrhau ymrwymiad partneriaid a gwneud yn siwr y rhoddir blaenoriaeth i gwblhau'r gwaith yn derfynol.

Cyflwynir astudiaeth achos lawn o adnabod yn gynnar cyn-16 a broceriaeth ym Mro Morgannwg a Merthyr Tudful yn Atodiad 2.

4.8 Roedd dau awdurdod lleol yng ngogledd Cymru nad oeddent wedi gwneud llawer o gynnydd wrth ddatblygu system adnabod yn gynnar safonedig. Roedd systemau lefel ysgol ar waith ar gyfer monitro ymddygiad, presenoldeb a chyrhaeddiad ac roedd cyfathrebu rheolaidd rhwng yr awdurdod lleol ac ysgolion, ond nid oedd y dull yn gyson nac ar waith ym mhob ysgol. Roedd y diffyg cynnydd yn rhannol o ganlyniad i oedi wrth benodi Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu. Ers i Gydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu gael eu penodi yn yr ardaloedd hyn, roeddent yn cyfrannu at gyfarfodydd Cydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu rhanbarthol i gynllunio datblygiad dull cyson o adnabod yn gynnar cyn-16 ar draws gogledd Cymru.

4.9 Dangosodd yr arolwg rhanddeiliaid gynnydd mawr yng nghyfran y rhai a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr awdurdod lleol yr oeddent yn gweithio ynddo/gydag ef yn cydgysylltu prosesau adnabod yn gynnar cyn-16 yn effeithiol, gan gynyddu o 45 y cant cyn yr YEPF i 79 y cant ar ôl cyflwyno'r YEPF (cynnydd o 63 i 113 unigolyn). Dangosodd hefyd:

- fod nifer yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr awdurdod lleol yn datgan yn eglur pwy oedd yn gyfrifol am wahanol elfennau'r broses adnabod yn gynnar cyn-16 wedi cynyddu o 62 i 110 (o 44 y cant o ymatebwyr i 77 y cant)
- bod 78 y cant o'r ymatebwyr i'r arolwg (109 unigolyn) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y partneriaid iawn yn cymryd rhan mewn prosesau adnabod yn gynnar cyn-16 ar ôl cyflwyno'r YEPF, o gymharu â 40 y cant (57 unigolyn) cyn yr YEPF
- at ei gilydd, bod ychydig dros hanner yr ymatebwyr yn credu bod gwahanol agweddau ar y broses adnabod yn gynnar wedi gwella ers mis Hydref 2013.

*(b) 16-18*

4.10 Yn gyffredinol, roedd prosesau ar gyfer adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio yn llai datblygedig ar gyfer y grŵp oedran 16-18 na'r rhai cyn-16. Roedd rhai o'r awdurdodau lleol hynny nad oedd ganddynt system gyson, safonedig ar gyfer adnabod yn gynnar cyn-16 cyn yr YEPF wedi penderfynu canolbwyntio ar hyn cyn adnabod yn gynnar ôl-16 (o leiaf dri o naw awdurdod lleol).

4.11 Er bod llawer o awdurdodau lleol wedi gweithio ar wella prosesau cyn-16 yn gyntaf, ers mis Medi 2014 (h.y. blwyddyn i'r cam gweithredu) bu

mwy o bwyslais ar drefniadau ar gyfer adnabod yn gynnar ôl-16. Roedd dros hanner yr awdurdodau lleol wedi gwneud rhywfaint o waith mewn perthynas â gwella adnabod yn gynnar ôl-16 ac roedd rhai wedi sefydlu systemau yn cynnwys partneriaid. O ran pedwar awdurdod, roedd yr YEPF wedi sicrhau bod arfer da a oedd eisoes yn bodoli yn parhau ac yn dal i fod yn flaenoriaeth. Roedd prosesau wedi parhau i gael eu monitro o ran effeithiolrwydd ac roedd unrhyw addasiadau angenrheidiol wedi'u gwneud.

**Adnabod yn gynnar ôl-16: Torfaen**

Yn Nhorfaen, mae aelod penodol o staff yn gyfrifol am ddiweddaru a dadansoddi'r data pum haen – elfen allweddol o adnabod yn gynnar pobl ifanc hŷn nag 16 oed sydd mewn perygl o ymddieithrio. Sefydlwyd y broses ganlynol cyn yr YEPF ac mae wedi parhau a chael ei ffurfioli ers cyflwyno'r YEPF:

- Ionawr: gofynnir i ysgolion roi data i'r awdurdod lleol ar gyrchfannau bwriadedig pobl ifanc ym Mlynyddoedd 11, 12 a 13 trwy lenwi ffurflen syml. Ystyrir bod y ffurflen hon yn fesur dros dro hyd nes bod y Broses Ymgeisio Gyffredin ar waith. Cesglir data a sicrheir ei fod ar gael i'r holl randdeiliaid erbyn mis Ebrill/Mai. Mae hyn yn caniatáu i'r awdurdod lleol, ysgolion a Gyrfa Cymru amlygu pobl ifanc y mae angen cymorth, gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd ychwanegol arnynt wrth drosglwyddo i ddarpariaeth ôl-16
- Mehefin: mae'n ofynnol i bob ysgol roi gwybodaeth wedi'i diweddaru i'r awdurdod lleol am gyrchfannau arfaethedig pobl ifanc ym Mlwyddyn 11
- Medi: mae'n ofynnol i ysgolion ddiweddaru'r rhestr hon yn seiliedig ar gofrestriadau go iawn
- diwedd Hydref: cynhelir arolwg cyrchfan Gyrfa Cymru; a
- Hydref ymlaen: cynhelir trafodaethau misol o leiaf â darparwyr ôl-16 (ysgolion, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a cholegau) i amlygu a thrafod pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio neu sydd mewn perygl o ymddieithrio.

O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae rhanddeiliaid yn cytuno bod olrhain a monitro cynnydd pobl ifanc wedi gwella.

Cyflwynir astudiaeth achos lawn o adnabod yn gynnar ôl-16 a broceriaeth yn Atodiad 2.

4.12 Mewn tair ardal awdurdod lleol o leiaf, roedd Gyrfa Cymru wedi defnyddio eu cytundebau partneriaeth â cholegau i negodi a gwella prosesau rhannu gwybodaeth am bobl ifanc a oedd wedi ymddieithrio. Yn un o'r ardaloedd hyn, roedd y coleg eisoes yn rhoi rhestrau misol i Gyrfa Cymru o bobl ifanc yr oedd eu presenoldeb eisoes wedi llithro neu a oedd wedi tynnu'n ôl o gwrs. Canfu Gyrfa Cymru fod mis o oedi yn rhy hir mewn rhai achosion ac yn eu hatal rhag ymyrryd yn brydlon cyn i berson ifanc ymddieithrio hyd yn oed ymhellach. Yn ystod adolygiad blynyddol y cytundeb partneriaeth, cytunwyd yn lle hynny y byddai rhestrau wythnosol yn cael eu darparu yn ystod tymor cyntaf y flwyddyn; yna rhestr bythefnosol tuag adeg y Nadolig; a rhestrau misol yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mewn dau awdurdod lleol arall, lle nad oedd prosesau rhannu gwybodaeth wedi'u sefydlu, defnyddiwyd y cyfarfodydd adolygu cytundeb partneriaeth i geisio cael trafodaethau agored ag uwch reolwyr mewn colegau ynglŷn â sut y gellid eu cynorthwyo i ddarparu gwybodaeth fwy amserol.

4.13 Roedd rheolwyr Gyrfa Cymru mewn rhai ardaloedd wedi adolygu trefniadau ar gyfer cydleoli cynghorwyr Gyrfa Cymru mewn colegau. Maent yn cydnabod bod staff 'sy'n rhagweithiol iawn yn gallu ffurfio perthnasoedd gweithio cadarnhaol ag ystod eang o staff coleg oherwydd nid dim ond eu sgiliau cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd sy'n bwysig' (cyfweliad ag aelod o staff Gyrfa Cymru).

4.14 Roedd rhai awdurdodau lleol (lle'r oedd Protocolau Rhannu Gwybodaeth newydd wedi'u rhoi ar waith) wedi sefydlu grwpiau ymarferwyr amlasiantaethol i wella prosesau adnabod yn gynnar ar gyfer pobl ifanc ôl-16 oed. Roeddent yn darparu fforwm rheolaidd i'r holl ddarparwyr ôl-16 a phartneriaid eraill i roi diweddariadau i Gyrfa Cymru am bobl ifanc yr oeddent wedi gweithio gyda hwy ac, yn benodol, i roi gwybod i Gyrfa Cymru am bobl ifanc a oedd mewn perygl o ymddieithrio. Yn gyffredinol, roedd y grwpiau hyn yn y camau datblygu cynnar.

4.15 Roedd tystiolaeth fod rhai colegau wedi datblygu eu systemau eu hunain ar gyfer amlygu pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio. Roedd y rhain wedi'u sefydlu cyn yr YEPF yn gyffredinol; ni adroddwyd am unrhyw systemau newydd. Mae enghreifftiau'n cynnwys system BRAVO Coleg Penybont, sef system a arweinir gan ddata sy'n defnyddio dangosyddion fel oriau teithio, oriau gwaith rhan-amser,

canlyniadau profion sgiliau sylfaenol a chymwysterau mynediad, ac yn cynhyrchu rhestr yn awtomatig o bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio. Mae staff cymorth myfyrwyr/bugeiliol yn adolygu'r rhestr a'i diwygio yn sgil eu gwybodaeth eu hunain am fyfyrwyr unigol. Enghraifft arall yw Coleg Gŵyr, lle y cynhyrchir rhestr fisol o fyfyrwyr y mae eu presenoldeb wedi gostwng islaw 60 y cant a'r rhai sydd wedi tynnu'n ôl yn ffurfiol o gwrs. Rhennir y rhestr hon â Gyrfa Cymru a gweithwyr cymorth myfyrwyr y coleg. Dangosodd cyfweliadau â rhanddeiliaid fod colegau hefyd yn defnyddio Cynlluniau Dysgu Unigol i olrhain pobl ifanc unigol, er nad yw'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu ag awdurdodau lleol.

4.16 Mae'r arolwg rhanddeiliaid yn dangos bod llawer mwy o ymatebwyr yn credu bod y broses adnabod yn gynnar ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed yn well nag ydoedd cyn yr YEPF. Ers cyflwyno'r YEPF, roedd 84 y cant o 150 o ymatebwyr (126 unigolyn) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr awdurdod lleol yn cydgysylltu prosesau adnabod yn gynnar yn effeithiol ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed, o gymharu â 45 y cant (68 unigolyn) cyn cyflwyno'r YEPF. Mae hyn yn cynnwys cynnydd mawr yng nghanran yr unigolion sy'n cytuno'n gryf â'r datganiad o 13 y cant i 29 y cant.

4.17 Mae hefyd yn dangos:

- bod 74 y cant o 151 o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr holl bartneriaid iawn yn cymryd rhan mewn prosesau adnabod yn gynnar ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed (o gymharu â 40 y cant fesul 149 o ymatebwyr cyn yr YEPF)
- o ran dau gwestiwn ("Mae'r awdurdod lleol yn cydgysylltu prosesau adnabod yn gynnar yn effeithiol" ac "mae'r holl bartneriaid iawn yn cymryd rhan mewn prosesau adnabod yn gynnar"), roedd ychydig yn llai na hanner yr ymatebwyr wedi rhoi'r un radd i'r broses ers cyflwyno'r YEPF, tra bod ychydig yn fwy na hanner wedi adrodd ei bod yn well.

*Yr hyn sy'n gweithio'n dda*

*(a) Cyn-16*

- Mae'n ymddangos bod gwersi a phrofiadau wedi'u rhannu'n dda rhwng awdurdodau lleol. Ceir sawl enghraifft o awdurdodau lleol yr oedd eisoes ganddynt system adnabod yn gynnar ar waith yn rhannu eu modelau ac yn dysgu o'r broses gydag awdurdodau

lleol eraill a oedd yn dechrau gweithio yn y maes hwn. Mae hyn wedi helpu i 'osgoi ailddyfeisio'r olwyn a dysgu gan bobl eraill' (cyfweliad â Chydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu).

- Mae'n ymddangos bod ysgolion wedi'u cynnwys yn effeithiol mewn datblygu offer adnabod yn gynnar. Roedd yr holl ysgolion a gyfwelwyd o'r farn eu bod wedi cael cyfle i wneud sylwadau ar offer drafft, rhannu eu barn ar bennu trothwyon risg a rhoi gwybodaeth am sefyllfaoedd pobl ifanc i ategu tystiolaeth o'r data. Roeddent yn deall gwerth cael system adnabod yn gynnar safonedig, a arweinir gan ddata, ac yn adrodd eu bod yn ymrwymedig i'w defnyddio.

- Mewn awdurdodau lleol lle'r oedd system adnabod yn gynnar newydd wedi'i datblygu, roedd ysgolion a phartneriaid eraill yn canmol arweinyddiaeth ragweithiol awdurdodau lleol wrth gydgysylltu'r broses ar y cyfan. Lle y cynhyrchwyd arweiniad ysgrifenedig a mapiau proses gan awdurdodau lleol, roedd ysgolion o'r farn bod y rhain yn ddefnyddiol at ei gilydd.

- Mae awdurdodau lleol, ysgolion a phartneriaid yn croesawu'r hyblygrwydd i gynnwys dangosyddion ychwanegol yn eu systemau adnabod yn gynnar sy'n berthnasol i'w cyd-destunau lleol

- Mae'r rhan fwyaf o randdeiliaid yn credu bod y broses wedi gwella ers cyflwyno'r YEPF ac mae bron pedwar o bob pump yn credu ei bod yn cael ei chydgysylltu'n dda.

*(b) 16-18*

- Yn gyffredinol, roedd hi'n rhy gynnar asesu effeithiolrwydd dulliau newydd a diwygiedig i ddarparwyr ôl-16 roi diweddariadau i Gyrfa Cymru am bobl ifanc a oedd wedi ymddieithrio neu mewn perygl o wneud hynny, ond mae partneriaid o'r farn bod y ffaith bod y dulliau hynny wedi'u sefydlu mewn tua hanner yr awdurdodau lleol yn gynnydd da.

*Heriau*

*(a) Cyn-16*

4.18 Er bod yr ysgolion a gyfwelwyd yn gadarnhaol ynglŷn â'u rôl wrth ddatblygu systemau adnabod yn gynnar, dywedodd awdurdodau lleol a phartneriaid mai'r her yw sicrhau bod yr holl ysgolion yn ymrwymedig i gymryd rhan yn y broses adnabod yn gynnar. Roedd sylwadau nodweddiadol yn cynnwys: 'Rwy'n amau bod prosesau mor gadarn ag y dylent fod. Nid yw pob ysgol yn cael eu cynrychioli bob amser' (Dirprwy Bennaeth, y de-ddwyrain). Yn nodweddiadol, roedd ysgolion lle y ceir pennaeth neu uwch aelod o staff sy'n hyrwyddwr yn ymgysylltu mwy.

4.19 Adroddodd ychydig yn llai nag un rhan o bump o'r awdurdodau lleol eu bod yn wynebu heriau technegol wrth weithredu system adnabod yn gynnar gan nad oedd platfform gwybodaeth reoli unigol ar waith ar gyfer ysgolion a'r awdurdod lleol. Roedd rhai awdurdodau lleol yn y broses o brynu platfformau newydd i oresgyn hyn. Yn y cyfamser, roedd data am ymddygiad, presenoldeb a chyrhaeddiad yn cael ei adolygu a'i ddadansoddi â llaw, sy'n cymryd llawer o amser.

4.20 Adroddodd awdurdodau lleol mwy o faint a chanddynt fwy o ysgolion yn eu hardaloedd nad oedd rheoli proses adnabod yn gynnar ganolog yn ymarferol. Byddai'n cymryd gormod o amser i gyfarfod ag ysgolion bob tymor i drafod canlyniadau'r dadansoddiad data adnabod yn gynnar. I oresgyn hyn, roedd awdurdodau lleol yn annog ysgolion i gymryd cyfrifoldeb dros y broses adnabod yn gynnar.

4.21 Roedd gan rai awdurdodau lleol systemau adnabod yn gynnar a oedd yn bodloni meini prawf arfer gorau ond, dros amser, gwnaed llai o ddefnydd ohonynt o ganlyniad i newidiadau staff. Pan oedd aelod allweddol o staff yn yr awdurdod lleol, fel dadansoddwr data, yn symud ymlaen neu pan gollwyd y swydd, roedd y broses wedi dychwelyd i ddull llai systematig sy'n dibynnu mwy ar ddeallusrwydd ymarferwyr na chyfuniad o ddata a deallusrwydd ymarferwyr.

4.22 Roedd y dull rhanbarthol cydgysylltiedig yng ngogledd Cymru yn cymryd cyfnod hwy i'w ddatblygu oherwydd yr angen i adolygu prosesau presennol yn gyfochrog a chyflawni consensws ar draws grŵp eang o randdeiliaid. Os caiff ei gweithredu a'i chyflwyno'n effeithiol, dylai'r system ranbarthol ddarparu cysondeb a chydlyniant ar draws sawl awdurdod lleol, a fyddai o fudd i weithwyr proffesiynol a

phobl ifanc. Fodd bynnag, ym mis Chwefror 2015, roedd yn ymddangos bod y gwaith cynllunio a datblygu ar gam cymharol gynnar.

*(b)16-18*

4.23 Er ei bod yn ymddangos bod gan rai darparwyr ôl-16 eu systemau eu hunain ar gyfer adnabod yn gynnar, nid oedd cyfathrebu â'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu a Gyrfa Cymru yn digwydd yn gyson ym mhob awdurdod lleol pan oedd person ifanc wedi ymddieithrio neu mewn perygl mawr o ymddieithrio. Adroddodd cyfweleion Gyrfa Cymru mewn sawl awdurdod lleol fod y wybodaeth yr oeddent yn ei derbyn cyn yr YEPF am bobl ifanc a oedd wedi symud o Haen 5 i Haen 4 neu Haen 2 naill ai'n 'rhy hwyr neu wedi'i darparu ar sail ad hoc'. Disgwyliwyd i'r grwpiau ymarferwyr amlasiantaethol helpu i wella prosesau rhannu gwybodaeth. Y disgwyliad oedd y byddai'r cyfarfodydd hyn yn hwyluso cyfnewid gwybodaeth rhwng colegau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith, Gyrfa Cymru a'r awdurdod lleol. Yn seiliedig ar y wybodaeth a rennir, dylai Gyrfa Cymru allu adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio yn gyflymach.

4.24 Disgrifiodd staff awdurdodau lleol a Gyrfa Cymru brofiadau cymysg o weithio gyda darparwyr dysgu seiliedig ar waith. Roedd rhai yn ei chael hi'n haws sefydlu perthnasoedd gweithio cadarnhaol â darparwyr dysgu seiliedig ar waith oherwydd eu bod yn tueddu i fod yn sefydliadau bach gydag un neu ddau bwynt cyswllt yn unig. Roedd eraill o'r farn bod newidiadau i gontractau dysgu seiliedig ar waith wedi rhoi mwy o bwyslais ar gyflawni cymhwyster Lefel 2 neu 3, sy'n golygu bod rhai darparwyr yn llai parod i ymrwymo amser ac adnoddau i gynorthwyo pobl ifanc sy'n gweithio ar lefelau is. Adroddodd rhai awdurdodau lleol hefyd (o leiaf dri) eu bod wedi sylwi bod darparwyr dysgu seiliedig ar waith o dan fwy o bwysau o ganlyniad i ostyngiadau yn eu contractau cyllido ac felly nad oeddent yn gallu ymateb i geisiadau am wybodaeth am fyfyrwyr a oedd mewn perygl na chynnal cyfweliadau a chofrestru dysgwyr newydd mor gyflym.

4.25 Yn gyffredinol, adroddodd colegau a darparwyr mawr dysgu seiliedig ar waith sy'n gweithio gyda sawl awdurdod lleol y gallai fod yn heriol bodloni gofynion sawl gwahanol system adnabod yn gynnar (a broceriaeth ac olrhain). Roedd colegau mwy o faint wedi neilltuo arweinwyr gwahanol ar gyfer pob awdurdod lleol ac, er y credwyd bod hyn yn gweithio'n dda, roedd yn rhoi pwysau ar adnoddau. Dywedodd darparwyr mai'r prif heriau oedd amser i fynychu nifer o gyfarfodydd

grŵp llywio a gweithredol a deall y gwahaniaethau yn y dulliau a ddefnyddir gan bob awdurdod lleol.

*Crynodeb*

| **Carreg Filltir 1: Mawrth 2014 – awdurdodau lleol i ddatblygu dull arfaethedig o adnabod yn gynnar** |
|---|
| **Cynnydd yn erbyn y garreg filltir:** mae 20 awdurdod lleol wedi datblygu cynigion adnabod yn gynnar ar gyfer pobl ifanc cyn-16 oed; nid yw'n eglur pryd y bydd y ddau awdurdod lleol sy'n weddill yn datblygu cynigion.<br><br>Mae o leiaf 13 awdurdod lleol wedi datblygu cynigion adnabod yn gynnar ar gyfer y grŵp ôl-16, ac mae hyn ar waith mewn rhai awdurdodau lleol eraill. |

| **Carreg Filltir 2: Medi 2014 – gweithredu dull newydd o adnabod yn gynnar ledled Cymru** |
|---|
| **Cynnydd yn erbyn y garreg filltir:** roedd 17 awdurdod lleol wedi gweithredu dull newydd o adnabod yn gynnar cyn-16 o fis Medi 2014 ymlaen.<br><br>Mae o leiaf 10 awdurdod lleol wedi gweithredu system well ar gyfer adnabod yn gynnar ôl-16 (roedd rhai awdurdodau lleol wedi gwneud hyn ym mis Medi 2014; fe'i gweithredwyd yn gynnar yn 2015 mewn awdurdodau lleol eraill). |

**Tabl 4.1 Ystyried dulliau awdurdodau lleol o weithredu elfen adnabod yn gynnar yr YEPF**

| **Disgwyliad** | **Yr hyn sy'n gweithio'n dda** | **Heriau** |
|---|---|---|
| **Defnyddio tystiolaeth** wrth ddatblygu cynigion. | **Cyn ac ôl-16**<br>Roedd y systemau a oedd ar waith cyn yr YEPF yn ymddangos fel petaent yn dilyn canllawiau arfer da.<br><br>Roedd rhai awdurdodau lleol nad oedd ganddynt system wedi datblygu un ac wedi gwneud defnydd da o dystiolaeth, gan gynnwys y canllawiau | **Ôl-16**<br>Nid yw rhai awdurdodau lleol wedi cymryd camau i ddatblygu cynlluniau ar gyfer adnabod yn gynnar ôl-16. |

| Disgwyliad | Yr hyn sy'n gweithio'n dda | Heriau |
|---|---|---|
| | gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Rhennir systemau a modelau'n dda rhwng awdurdodau lleol. | |
| **Cwmpasu**: datblygu system sy'n gysylltiedig â'r model pum haen.<br><br>Ymgynghori â phartneriaid allweddol ar y system. | **Cyn-16**<br>Enghreifftiau o ysgolion a phartneriaid eraill yn cael eu cynnwys yn effeithiol mewn datblygu offer newydd ar gyfer adnabod yn gynnar.<br><br>Mae rhai awdurdodau lleol yr oedd eisoes ganddynt system adnabod yn gynnar ar waith cyn yr YEPF ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 11 yn ymestyn y defnydd o'r offeryn i Flynyddoedd 9 a 10.<br><br>Roedd ysgolion a phartneriaid eraill yn canmol arweinyddiaeth ragweithiol Cydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu mewn sawl ardal sydd wedi datblygu offeryn newydd.<br><br>**Ôl-16**<br>Mae rhai awdurdodau lleol wedi cryfhau neu ffurfioli systemau presennol ar gyfer | **Ôl-16**<br>Nid yw rhai awdurdodau lleol wedi datblygu cynlluniau ar gyfer adnabod yn gynnar ôl-16. |

| Disgwyliad | Yr hyn sy'n gweithio'n dda | Heriau |
|---|---|---|
| | adnabod yn gynnar i gysylltu â'r model 5 haen. | |
| **Datblygu system adnabod yn gynnar:**<br>Mae'r holl bartneriaid yn cytuno ar ffactorau risg, dangosyddion a throthwyon.<br><br>Defnyddir yr holl ddangosyddion craidd.<br><br>Cynnal treialon.<br><br>Casglu adborth.<br><br>Addasu yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd. | **Cyn-16**<br><br>Ar y cyfan, roedd awdurdodau lleol a oedd wedi datblygu system adnabod yn gynnar yn disgrifio proses drylwyr ar gyfer datblygu a phrofi modelau.<br><br>Mae'n ymddangos bod yr holl systemau blaenorol neu newydd a arweinir gan ddata yn defnyddio dangosyddion craidd.<br><br>Mae awdurdodau lleol yn gwerthfawrogi hyblygrwydd i ddefnyddio dangosyddion ychwanegol i weddu i amgylchiadau a blaenoriaethau lleol.<br><br>Mireinio'r offeryn yn seiliedig ar adborth gan bartneriaid.<br><br>**16-18**<br>Mewn rhai ardaloedd awdurdod lleol, mae Gyrfa Cymru wedi defnyddio cytundebau partneriaeth â cholegau | **Cyn-16**<br><br>Nid yw rhai awdurdodau lleol wedi datblygu system adnabod yn gynnar.<br><br>**16-18**<br>Nid yw'r prosesau ar gyfer adnabod pobl ifanc 16-18 oed wedi'u datblygu cystal â'r rhai ar gyfer y grŵp oedran cyn-16, ac nid yw rhai awdurdodau lleol wedi canolbwyntio ar hyn eto.<br><br>Ychydig o enghreifftiau a gafwyd o ddarparwyr ôl-16 a chanddynt systemau mewnol cadarn ar gyfer |

| Disgwyliad | Yr hyn sy'n gweithio'n dda | Heriau |
|---|---|---|
| | i negodi a gwella prosesau rhannu gwybodaeth ac mae wedi adolygu staffio er mwyn sicrhau bod colegau'n cael eu cynorthwyo'n dda.<br><br>Ceir rhai enghreifftiau o golegau sy'n defnyddio eu systemau mewnol eu hunain ar gyfer adnabod yn gynnar. | adnabod yn gynnar. |
| **Cyflwyno:** Mae'r holl bartneriaid yn defnyddio'r system yn gyson cyn-16.<br><br>Mae'r holl ddarparwyr ôl-16 yn rhoi gwybodaeth i Gyrfa Cymru. | **Cyn-16**<br>Mae systemau adnabod yn gynnar ar gyfer y grŵp oedran cyn-16 wedi'u datblygu'n eithaf da ac yn cael eu defnyddio i amlygu'r rhai sydd mewn perygl. Mae 17 awdurdod lleol yn defnyddio'r rhain bellach.<br><br>**Ôl-16**<br>Mae 10 awdurdod lleol wedi dechrau defnyddio data pum haen misol i wella prosesau adnabod yn gynnar ar gyfer pobl ifanc sy'n hŷn nag 16 oed. | **Cyn-16**<br>Mae rhai ysgolion yn fwy ymrwymedig nag eraill i gymryd rhan yn y broses adnabod yn gynnar – ni chaiff ei defnyddio'n gyson ar draws pob ysgol eto.<br><br>Mewn rhai awdurdodau lleol, nid yw systemau adnabod yn gynnar a oedd ar waith yn flaenorol yn cael eu defnyddio oherwydd newid mewn staff.<br><br>**Ôl-16**<br>Nid yw darparwyr ôl-16 yn rhoi gwybod i awdurdodau lleol a Gyrfa Cymru yn systematig am bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio.<br><br>Nid yw darparwyr ôl-16 |

| Disgwyliad | Yr hyn sy'n gweithio'n dda | Heriau |
|---|---|---|
| | | yn cymryd rhan yn gyfartal mewn fforymau amlasiantaethol a gynlluniwyd i rannu gwybodaeth am bobl ifanc hŷn nag 16 oed sydd mewn perygl o ymddieithrio. |
| **Monitro a gwerthuso:** Gan y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu a'r grŵp llywio.<br><br>Adborth parhaus gan bartneriaid. | Ceir enghreifftiau o grwpiau strategol yn monitro prosesau adnabod a chymorth cyn ac ôl-16. | |

**Broceriaeth**

*Yr hyn sy'n digwydd*

4.26 Roedd gwaith arweiniol yn digwydd ym mhob awdurdod lleol cyn cyflwyno'r YEPF i ryw raddau ac ar ryw ffurf. Rhoddodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol enghreifftiau o waith arweiniol yn rhan o ddull Tîm o Amgylch y Teulu yn y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf; amryw brosiectau is-ranbarthol Cronfa Gymdeithasol Ewrop, fel Pre-Vent a Lift, a oedd, hyd at 2013, yn darparu staff a gwirfoddolwyr mewn ysgolion a gwasanaethau ieuenctid i gynorthwyo'r rhai hynny yr oeddent mewn perygl o fod yn NEET yn ogystal â'r rhai hynny yr oeddent eisoes yn NEET; ac ymdrechion ar lefel ysgol a choleg i roi cymorth ychwanegol i bobl ifanc yr amlygwyd eu bod mewn perygl. Er bod dull gwaith arweiniol yn cael ei ddefnyddio, nododd awdurdodau lleol nad oedd y derminoleg hon o reidrwydd yn cael ei defnyddio gan yr awdurdod lleol a darparwyr.

4.27 Ers cyflwyno'r YEPF, roedd tua un rhan o bump o awdurdodau lleol wedi cydnabod nad oeddent yn llwyr ddeall cwmpas a graddau'r gwaith arweiniol a oedd yn digwydd. I fynd i'r afael â hyn, roeddent wedi ymgymryd ag ymarferion cwmpasu i fapio pa sefydliadau a gwasanaethau oedd yn ymgymryd â rôl gweithiwr arweiniol ar hyn o

bryd a pha sefydliadau oedd â’r sgiliau, yr adnoddau a’r galluoedd i wneud hynny. Mewn rhai achosion, gwnaed hyn yn rhan o’r ymarfer mapio darpariaeth (gweler isod), tra cynhaliwyd ymarfer ar wahân mewn eraill. Cafwyd un enghraifft o awdurdod lleol yn defnyddio cyllid Teuluoedd yn Gyntaf i gomisiynu ymgynghorydd allanol, annibynnol i adolygu a dadansoddi arferion gwaith arweiniol parhaus. Roedd rhan o’r ymarfer hwn hefyd wedi dadansoddi tystiolaeth ymchwil gyfredol ar gryfderau a gwendidau gwahanol ddulliau gwaith arweiniol. Mae’r math hwn o ymarfer ymchwil a chwmpasu yn cynrychioli dull mwy strategol o sefydlu gwaith arweiniol o dan yr YEPF, sy’n ceisio deall cysylltiadau rhwng gwasanaethau. Adroddodd staff awdurdodau lleol y gallai canfyddiadau ymarferion cwmpasu i fapio gwaith arweiniol presennol arwain at ad-drefnu gwasanaethau presennol.

4.28 Roedd cynlluniau a threfniadau ar gyfer gwaith arweiniol yn cael eu datblygu mewn sawl awdurdod lleol. Roedd yr holl gyfweleion yn cydnabod bod cynnig cyson o waith arweiniol a broceriaeth yn elfen allweddol o’r YEPF.

4.29 Roedd gwaith arweiniol ar gyfer pobl ifanc iau nag 16 oed wedi’i ddatblygu’n gymharol dda. Roedd dros hanner yr awdurdodau lleol (13) yn gweithredu ffurf newydd neu fwy cadarn o waith arweiniol o fis Medi 2014 ymlaen.

4.30 O ran awdurdodau lleol a oedd wedi datblygu a chyflwyno system adnabod yn gynnar newydd ar gyfer pobl ifanc iau nag 16 oed ers lansio’r YEPF, roedd data o’r system newydd yn sail i froceriaeth. Mae paneli amlasiantaethol yn derbyn data o’r system adnabod yn gynnar ac yn ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau am neilltuo gweithiwr arweiniol a broceru cymorth ychwanegol. Mewn dau awdurdod lleol, adolygwyd dulliau presennol o neilltuo gweithwyr arweiniol cyn-16 a broceru cymorth. Er enghraifft, yn un o’r rhain, roedd aelodaeth paneli amlasiantaethol mewn ysgolion wedi’i hymestyn ac mewn un arall roedd prosesau wedi’u symleiddio.

4.31 Yn yr holl awdurdodau lleol eraill, roedd rhyw fath o waith arweiniol a broceriaeth eisoes wedi’i sefydlu ar gyfer y grŵp oedran cyn-16, a fydd yn parhau.

4.32 Dangosodd yr arolwg rhanddeiliaid fod tri chwarter (75 y cant o 113 o ymatebwyr) yn cytuno neu’n cytuno’n gryf bod yr awdurdod lleol yn cydgysylltu prosesau ar gyfer broceriaeth cyn-16 yn effeithiol, o

gymharu â dwy ran o bump (40 y cant o 112 o ymatebwyr) cyn yr YEPF, sef cynnydd 34 pwynt canran.

4.33 Roedd cynnydd arwyddocaol hefyd yng nghanran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr awdurdod lleol wedi datgan yn eglur sut y dylai gweithwyr arweiniol (neu swyddogaeth debyg) gael eu neilltuo i bobl ifanc iau nag 16 oed. Cyn yr YEPF, roedd 37 y cant o 113 o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, o gymharu â 69 y cant o 114 o ymatebwyr ar ôl cyflwyno'r Fframwaith, sef cynnydd 32 pwynt canran.

4.34 Yn gyffredinol, roedd llai o gynnydd o ran gwaith arweiniol ar gyfer pobl ifanc hŷn nag 16 oed yn ystod blwyddyn gyntaf cam gweithredu'r YEPF, ond roedd wedi cyflymu ers hynny. Rhwng mis Hydref 2013 a mis Medi 2014, roedd tua thraean yr awdurdodau lleol (7) wedi gweithredu trefniadau newydd neu gryfach ar gyfer y grŵp oedran hwn. Rhwng mis Medi 2014 a mis Chwefror 2015, roedd saith awdurdod lleol arall wedi cyflwyno trefniadau newydd. O ganlyniad, ym mis Chwefror 2015, roedd bron dwy ran o dair o'r awdurdodau lleol wedi gwneud rhai newidiadau i'r trefniadau ar gyfer gwaith arweiniol ôl-16. Mewn tri o'r rhain o leiaf, roedd y broses weithredu ar gam mireinio cymharol gynnar ac felly disgwyliwyd iddi gael ei haddasu yn ystod y misoedd i ddod.

4.35 Yn yr awdurdodau lleol a oedd yn weddill (8), er bod gwaith cwmpasu rhagarweiniol wedi cael ei wneud, roedd yn ymddangos y rhoddwyd pwyslais ar elfennau eraill yr YEPF a'i bod yn debygol y byddai gwaith arweiniol ar ei ffurf bresennol yn parhau yn y tymor byr, hyd nes bod cynlluniau manylach yn cael eu cynhyrchu ar gyfer datblygu. Yn yr awdurdodau lleol hyn, roedd cryfderau ac anfanteision gwahanol fodelau gweithredol yn cael eu pwyso a'u mesur mewn cyfarfodydd cynllunio strategol a thrwy ymgynghori â phartneriaid.

4.36 Er gwaethaf y cynnydd cymharol arafach o ran broceriaeth ôl-16, dangosodd yr arolwg rhanddeiliaid fod bron pedair rhan o bump (79 y cant o 138 o ymatebwyr) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr awdurdod lleol yn datgan yn eglur sut y dylai gweithwyr arweiniol (neu swyddogaeth debyg) gael eu neilltuo i bobl ifanc 16-18 oed o gymharu â 38 y cant o 137 o ymatebwyr cyn cyflwyno'r Fframwaith, sef cynnydd 41 pwynt canran. Yn yr un modd, roedd bron pedair rhan o bump (79 y cant o 139 o ymatebwyr) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr awdurdod lleol yn cydgysylltu prosesau broceriaeth ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed yn effeithiol ers yr YEPF, o gymharu â 41 y cant o 137 o

ymatebwyr cyn cyflwyno'r Fframwaith, sef cynnydd 38 pwynt canran. O ran y ddau gwestiwn, roedd nifer yr unigolion a oedd yn cytuno'n gryf â'r datganiad wedi cynyddu'n sylweddol (o saith i 31 unigolyn ac o naw i 29 unigolyn, yn ôl eu trefn) ers cyflwyno'r Fframwaith.

4.37 Roedd amrywiol fodelau broceriaeth yn dod i'r amlwg, fel y disgrifir yn y blwch isod.

**O ran pobl ifanc iau nag 16 oed**, mewn rhai awdurdodau lleol mae gweithwyr ieuenctid a ariennir gan y gwasanaeth ieuenctid neu hyfforddwyr dysgu'n gyfrifol am fod yn weithiwr arweiniol. Ceir sawl enghraifft o weithwyr ieuenctid wedi'u lleoli mewn ysgolion (sydd hefyd yn gweithio gyda phobl ifanc ôl-16) sydd eisoes yn gyfrifol, neu y byddant yn gyfrifol, am fod yn weithiwr arweiniol a broceru cymorth ychwanegol ar gyfer pobl ifanc yr amlygwyd eu bod mewn perygl o ymddieithrio (er enghraifft, Sir Benfro, Abertawe, Bro Morgannwg, Blaenau Gwent, Rhondda Cynon Taf, Caerffili a Phen-y-bont ar Ogwr). Yn nodweddiadol, mae paneli lefel ysgol sy'n dwyn ynghyd yr ystod o wasanaethau sy'n gweithio gydag ysgol wedi'u cynllunio (neu byddant yn parhau) i fod y fforwm ar gyfer rhannu gwybodaeth a rhoi adborth i'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu. Mewn achosion lle nad oes gan ysgol weithiwr ieuenctid dynodedig, ceir enghreifftiau lle y bydd gweithiwr arweiniol arall wedi'i leoli mewn ysgol yn cael ei amlygu, er enghraifft, aelod o'r staff bugeiliol. Mae rhai awdurdodau lleol (er enghraifft Torfaen, Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent, Rhondda Cynon Taf) wedi llunio arweiniad ysgrifenedig neu fapiau proses ar gyfer ysgolion i'w helpu i ddeall y broses fwriadedig.

**O ran pobl ifanc 16-18 oed yn Haenau 1 a 2,** mae llawer o awdurdodau lleol yn defnyddio grwpiau ymarferwyr amlasiantaethol fel fforwm i neilltuo gweithiwr arweiniol a monitro cynnydd. Mewn sawl awdurdod lleol, roedd grŵp ymarferwyr amlasiantaethol eisoes yn bodoli (er enghraifft, grwpiau Cadw mewn Cysylltiad) ac fe'i haddaswyd at ddibenion yr YEPF. Y bwriad yw y bydd ymarferwyr yn rhannu eu gwybodaeth am anghenion pobl ifanc a'r cymorth y maent yn ei ddarparu, ac y bydd y partneriaid yn cydweithio i negodi ac amlygu'r gweithiwr arweiniol mwyaf priodol. Mae rhai awdurdodau lleol yn archwilio posibilrwydd is-grwpiau llai (er enghraifft, Bro Morgannwg); yng Nghaerdydd, mae grwpiau cymdogaeth wedi'u sefydlu sy'n ymdrin â gwahanol ardaloedd daearyddol yr awdurdod lleol. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw'n ymddangos bod proses atgyfeirio ffurfiol i'r grŵp ymarferwyr amlasiantaethol. Os yw person ifanc yn Haen 1 neu 2, caiff ei atgyfeirio'n awtomatig i'r grŵp. Os yw yn Haen 4 ac yn bodloni trothwy risg penodol yn y system adnabod yn gynnar, caiff ei atgyfeirio i'r grŵp. Ceir o leiaf ddwy enghraifft o ffurflen atgyfeirio'n cael ei datblygu sy'n casglu gwybodaeth am anghenion person ifanc ac yn cael ei hadolygu gan 'Brif weithiwr arweiniol' cyn atgyfeiriad ffurfiol i'r grŵp.

4.38 Yn gyffredinol, nid oedd yn ymddangos bod awdurdodau lleol wedi datblygu cynlluniau ar gyfer rheoli achosion yn llawn (pryd y dylai cymorth gweithiwr arweiniol gael ei dynnu'n ôl; strategaethau ymadael; llwythi achosion priodol ar gyfer gweithwyr arweiniol; prosesau ar gyfer asesu effeithiolrwydd gwaith arweiniol ac unrhyw ddarpariaeth a frocerwyd ar gyfer person ifanc; a'r fformat mwyaf priodol i weithwyr arweiniol roi adborth i Gydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu).

4.39 Roedd yn ymddangos bod rhai awdurdodau lleol, ond nid pob un, yn gallu cynnig gweithiwr arweiniol a oedd yn siarad Cymraeg i bobl ifanc os oeddent yn dymuno. Roedd gan Sir Benfro, er enghraifft, bedwar gweithiwr ieuenctid yn y gwasanaeth ieuenctid ac roedd un o'r rhain yn siarad Cymraeg ac yn meddu ar sgiliau gwaith arweiniol. Mewn llawer o awdurdodau lleol, roedd cynghorwyr Gyrfa Cymru a oedd yn siarad Cymraeg a allai ymgymryd â rôl gweithiwr arweiniol.

4.40 Roedd o leiaf dri awdurdod lleol yn datblygu neu'n darparu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr arweiniol. Yn gyffredinol, roedd awdurdodau lleol yn awyddus i gryfhau a chytuno ar eu cynlluniau rhwng partneriaid ac roedd ganddynt syniad mwy eglur o sut y byddai gwaith arweiniol yn gweithio, cyn canolbwyntio ar anghenion hyfforddiant a datblygiad. Adroddodd rhai awdurdodau lleol fod hyn yn debygol o fod yn faes gwaith yn ystod 2015.

*Yr hyn sy'n gweithio'n dda*

- Ystyriwyd bod y dull a ddefnyddiwyd gan sawl awdurdod lleol o neilltuo gweithiwr ieuenctid a oedd wedi'i leoli mewn ysgol i bobl ifanc yn yr ysgol yr amlygwyd eu bod mewn perygl o ymddieithrio yn gweithio'n dda gan ei fod yn 'darparu parhad ar gyfer person ifanc oherwydd ei fod yn debygol o adnabod y gweithiwr ieuenctid' (cyfweliad ag aelod o staff Gwasanaeth Ieuenctid awdurdod lleol) cyn iddo ddod yn weithiwr arweiniol 'swyddogol'.
- Adroddodd rhai awdurdodau lleol a oedd yn cymryd rhan mewn prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop a oedd yn defnyddio gweithwyr arweiniol fod arferion effeithiol o'r prosiectau hyn wedi llywio eu gwaith wrth gwmpasu a datblygu rôl y gweithiwr arweiniol o dan yr YEPF.
- Roedd awdurdodau lleol a oedd wedi gwneud cynnydd wedi addasu rolau aelodau staff presennol neu greu rolau newydd ac

wedi mynd i'r afael â heriau yn ymwneud â chyllid, mapio prosesau a diffinio cyfrifoldebau rhwng y partneriaid.

*Heriau*

4.41 Yn gyffredinol, gwaith arweiniol oedd yr elfen o'r YEPF yr oedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gweithio i geisio ei weithredu'n ymarferol. Amlygodd yr ymchwil rai heriau:

- Er mwyn i waith arweiniol a broceriaeth gael eu rhoi ar waith, mae'n rhaid cael Protocolau Rhannu Gwybodaeth cadarn rhwng partneriaid. Ceir tystiolaeth fod oedi wrth gymeradwyo Protocolau Rhannu Gwybodaeth mewn rhai awdurdodau lleol wedi atal cynnydd o ran gwaith arweiniol. Er bod gwaith cwmpasu a datblygu cynlluniau wedi gallu parhau, nid oedd y partneriaid wedi gallu dod ynghyd i adolygu achosion unigol, neilltuo gweithwyr arweiniol a broceru pecyn cymorth
- Yn gyffredinol, roedd Cydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu ac arweinwyr strategol mewn awdurdodau lleol yn deall nad yw gofyniad gwaith arweiniol yr YEPF yn bwriadu i rôl newydd gael ei chreu (er y gallai olygu bod angen ailddynodi staff i gyflawni rôl newydd). Roeddent yn cydnabod bod llawer o ymarferwyr eisoes yn ymgymryd â chyfrifoldebau gweithiwr allweddol. Fodd bynnag, yr her oedd sicrhau bod hyn yn cael ei ddeall yn ehangach. Dywedasant fod 'llawer o wasanaethau'n ofni ein bod yn gofyn iddynt dderbyn mwy o waith heb gyllid ychwanegol'
- ar hyn o bryd, mewn awdurdodau lleol yn ardal gydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), mae llawer o waith arweiniol a broceriaeth ôl-16 wedi cael eu hariannu trwy brosiectau'r ESF neu wrthi'n cael eu hariannu trwyddynt. Mae'r rownd bresennol o gyllid ESF wedi dod i ben at ei gilydd, ac er bod enghreifftiau o awdurdodau lleol yn ailddyrannu cyllid i ddarparu staff a allai fod yn weithwyr arweiniol (ar gyfer darpariaeth cyn ac ôl-16), nid yw eraill wedi gwneud hyn ac maent yn pryderu y bydd bwlch yn ymddangos
- gan fod llawer o awdurdodau lleol yn dal i fod yn y broses o ddatblygu eu cynlluniau ar gyfer gweithwyr arweiniol, roedd rhywfaint o ddryswch ymhlith partneriaid ynglŷn â'u rôl a sut y bydd gwaith arweiniol yn gweithredu yn ymarferol

- nid oedd yn ymddangos bod awdurdodau lleol wedi cynnwys ystod lawn o bartneriaid yn y broses gwaith arweiniol a'r grwpiau ymarferwyr amlasiantaethol yr oeddent wedi'u treialu. Adroddwyd bod cyfranogiad ysgolion, colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith yn amrywiol ac, yn yr un modd, adroddodd rhai ardaloedd nad oeddent wedi sefydlu trefniadau gweithio'n llawn gyda sefydliadau'r sector gwirfoddol a chymunedol
- mewn dau awdurdod lleol, dywedodd rhanddeiliaid fod rhywfaint o dyndra rhwng Gyrfa Cymru a'r awdurdod lleol pan oedd Gyrfa Cymru o'r farn nad oedd person ifanc a gategoreiddiwyd yn Haen 3 yn barod i ymgysylltu ag addysg a hyfforddiant a'i fod wedi'i ailgategoreiddio i Haen 2 o ganlyniad. Mae dyrannu i haenau yn arwain at oblygiadau adnoddau ar gyfer sefydliadau a gall negodi fod yn broses sensitif. Fodd bynnag, dywedodd rhanddeiliaid fod grŵp ymarferwyr yn fforwm tryloyw ar gyfer trafodaethau o'r fath gyda chyfraniad gan ystod eang o sefydliadau sy'n helpu i ddod i benderfyniad teg a gwrthrychol.
- roedd tua thraean yr awdurdodau lleol yn cael dadleuon ar lefel strategol ynglŷn ag a ddylai gweithwyr arweiniol ganolbwyntio ar froceru cymorth ychwanegol mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn unig neu a ddylai fod pwyslais ar fynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol, iechyd ac ariannol ehangach person ifanc. Wrth wneud y penderfyniad hwn, dywedodd rhai aelodau staff awdurdod lleol fod angen ystyried a oes gan staff y sgiliau sy'n ofynnol i froceru cymorth ehangach neu a ellid cynyddu eu sgiliau'n effeithiol.

*Crynodeb*

| |
|---|
| **Carreg Filltir 3: Gorffennaf 2014 – awdurdodau lleol yn cytuno ar gynigion ar gyfer neilltuo gweithwyr arweiniol â rhanddeiliaid**<br><br>**Cynnydd yn erbyn y garreg filltir**: mae 15 awdurdod lleol wedi cytuno ar gynigion ynglŷn â gweithwyr arweiniol ar gyfer pobl ifanc iau nag 16 oed; mae 16 awdurdod lleol wedi cytuno ar gynigion ar gyfer ôl-16. Nid yw'n eglur pryd y bydd yr awdurdodau lleol sy'n weddill yn cytuno ar gynigion. |

| |
|---|
| **Carreg Filltir 4: Medi 2014 – awdurdodau lleol yn gweithredu cynigion ar gyfer gweithwyr arweiniol**<br><br>**Cynnydd yn erbyn y garreg filltir**: mae 13 awdurdod lleol wedi gweithredu gwaith arweiniol ar gyfer pobl ifanc iau nag 16 oed o fis Medi 2014 ymlaen. Mae 14 awdurdod lleol wedi gweithredu gwaith arweiniol ar gyfer ôl-16 (mae hanner y rhain wedi gwneud hynny ers mis Medi 2014). O'r 14 awdurdod lleol sydd wedi gweithredu trefniadau broceriaeth newydd ôl-16, mae 3 o leiaf yng nghamau cynnar y broses weithredu ac yn disgwyl mireinio/addasu gweithdrefnau yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf. |

**Tabl 4.2 Ystyried dulliau awdurdodau lleol o weithredu elfen broceriaeth yr YEPF**

| Disgwyliad | Yr hyn sy'n gweithio'n dda | Heriau |
|---|---|---|
| **Dylunio a chynllunio cychwynnol:**<br><br>Bod awdurdodau lleol yn adolygu adnoddau a dulliau presennol y gellid eu defnyddio i gynorthwyo gweithwyr arweiniol, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid lleol.<br><br>Bod tystiolaeth yn cael ei defnyddio o arferion gwaith arweiniol effeithiol o gyd-destunau eraill.<br><br>Bod y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu yn arwain gwaith cwmpasu trefniadau ar gyfer rhannu data rhwng gwahanol bartneriaid darparu.<br><br>Bod awdurdodau lleol a Gyrfa Cymru yn datblygu cynlluniau cychwynnol ar | Mae rhai awdurdodau lleol wedi cynnal ymarfer cwmpasu i fapio arferion gwaith arweiniol presennol (cyn ac ôl-16).<br><br>Mae rhai awdurdodau lleol wedi addasu trefniadau staffio i ddarparu ar gyfer gweithwyr arweiniol mewn lleoliadau cyn ac ôl-16.<br><br>Mae rhai awdurdodau lleol wedi profi cynlluniau yn ystod 2014 i'w cyflwyno yn 2015.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o randdeiliaid yn credu bod trefniadau sydd wedi'u cydgysylltu'n well yn cael eu datblygu gan | Mewn 6 awdurdod lleol, nid oes gan yr awdurdod lleol a Gyrfa Cymru gynllun cychwynnol ar gyfer gwaith arweiniol ôl-16; mewn 7 awdurdod lleol, nid oes cynllun cytunedig ar gyfer gwaith arweiniol cyn-16. |

| Disgwyliad | Yr hyn sy'n gweithio'n dda | Heriau |
|---|---|---|
| gyfer sut y bydd gweithwyr arweiniol yn cael eu hamlygu a'u neilltuo. | awdurdodau lleol. | |
| **Datblygiad a hyfforddiant**<br><br>Bod awdurdodau lleol yn datblygu cynllun gweithredu sy'n dynodi cyfrifoldebau'n eglur.<br><br>Bod awdurdodau lleol yn amlygu gofynion hyfforddiant a datblygiad ar gyfer gweithwyr arweiniol; sefydlu darpariaeth addas; a darparu hyfforddiant.<br><br>Bod prosesau eglur ar gyfer neilltuo gweithwyr arweiniol wedi'u cytuno rhwng yr holl randdeiliaid. Rheolir y broses gan y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu.<br><br>Bod prosesau eglur ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth a data rhwng partneriaid darparu a bod yr holl randdeiliaid yn deall eu rôl.<br><br>Bod protocol eglur ar gyfer sut mae gwybodaeth o'r elfen adnabod yn gynnar yn llywio'r broses neilltuo gweithiwr arweiniol. | **Cyn-16**<br>Mae'n ymddangos bod yr holl bartneriaid yn deall y prosesau ar gyfer neilltuo gweithiwr arweiniol i bobl ifanc cyn-16 at ei gilydd. Ceir enghreifftiau o fapiau proses ac arweiniad ysgrifenedig i ategu hyn.<br><br>Mae newidiadau'n cael eu profi'n aml cyn eu gweithredu'n llawn.<br><br>**Ôl-16**<br><br>Mewn rhai awdurdodau lleol, defnyddiwyd yr hyn a ddysgwyd o brosiectau ESF blaenorol i ddatblygu'r model ar gyfer neilltuo gweithiwr arweiniol a diffinio'r rôl.<br><br>Mae protocolau'n cael eu profi gyda gweithwyr arweiniol. | **Cyn-16 ac ôl-16**<br>Mae awdurdodau lleol yn ymwybodol y bydd angen hyfforddi gweithwyr arweiniol ond nid yw anghenion wedi'u hamlygu eto ac nid yw darpariaeth hyfforddiant wedi'i datblygu.<br><br>Yn gyffredinol, nid yw awdurdodau lleol wedi datblygu cynlluniau ar gyfer rheoli achosion.<br><br>Mae oedi wrth gymeradwyo Protocolau Rhannu Gwybodaeth yn rhwystro gwaith arweiniol a broceriaeth yn yr awdurdodau lleol sy'n weddill.<br><br>Nid yw'r ystod lawn o bartneriaid yn cymryd rhan yn y broses gwaith arweiniol eto mewn rhai awdurdodau lleol.<br><br>Nid yw'n amlwg bod pob awdurdod lleol yn gallu cynnig gwaith arweiniol a broceriaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. |

| Disgwyliad | Yr hyn sy'n gweithio'n dda | Heriau |
| --- | --- | --- |
| | | Mae llawer o waith arweiniol ôl-16 wedi'i ariannu trwy'r ESF. Mae rhai awdurdodau lleol yn cael trafferth diwygio gyda chyllid grant ac awdurdod lleol. |
| **Gweithredu a mireinio**<br>Bod asesiad systematig yn cael ei gynnal o ba un a yw awdurdodau lleol yn cyflawni'r buddiannau disgwyliedig.<br><br>Bod gweithwyr arweiniol a'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu yn casglu data systematig am anghenion pobl ifanc.<br><br>Bod y broses yn cael ei haddasu yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o'r cam gweithredu cynnar (pob rhanddeiliad).<br><br>Bod gwaith partneriaeth yn parhau a safbwyntiau'r holl randdeiliaid yn cael eu hystyried, gan gynnwys pobl ifanc.<br><br>Bod yr hyn a ddysgwyd yn cael ei rannu rhwng awdurdodau lleol. | **Cyn-16**<br><br>Mae 13 awdurdod lleol yn gweithredu gwaith arweiniol bellach<br><br>**Ôl-16**<br><br>Mae math newydd o waith arweiniol sy'n deillio o'r YEPF yn cael ei roi ar waith mewn 14 awdurdod lleol.<br><br>Disgwylir i grwpiau llywio oruchwylio cynnydd o ran gweithredu ac asesu a yw'r buddiannau disgwyliedig yn cael eu cyflawni. | **Cyn-16**<br>Nid yw pob ysgol yn cymryd rhan yn gyfartal mewn paneli amlasiantaethol.<br><br>**Ôl-16**<br><br>Ychydig o enghreifftiau a gafwyd o ddysgu rhwng awdurdodau lleol hyd yma.<br><br>Ychydig o enghreifftiau o sut y bydd data am anghenion pobl ifanc yn cael ei gasglu'n systematig.<br><br>Nid yw'r holl ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith yn cymryd rhan. |
| **Darparu'n barhaus**<br><br>Bod system genedlaethol o weithwyr arweiniol wedi'i | | Nid yw gwaith arweiniol wedi'i sefydlu eto fel system genedlaethol. |

| Disgwyliad | Yr hyn sy'n gweithio'n dda | Heriau |
|---|---|---|
| sefydlu ac yn gweithio'n effeithiol. | | |

**Olrhain**

*Yr hyn sy'n digwydd*

*(a) Cyn-16*

4.42 Mewn awdurdodau lleol lle nad oedd system adnabod yn gynnar safonedig a arweinir gan ddata wedi'i chyflwyno (tua thraean ohonynt), nid oedd cyfarfodydd adolygu cynnydd seiliedig ar ddata wedi cael eu cynnal. Er hynny, roedd tystiolaeth mewn rhai o'r achosion hyn fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal o leiaf unwaith y tymor rhwng y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu, staff ysgol a phartneriaid eraill, fel y gallai ymarferwyr rannu gwybodaeth ac asesu ar y cyd a oedd sefyllfa pobl ifanc yn gwella.

4.43 Yn gyffredinol, roedd yn ymddangos bod gan awdurdodau lleol ac ysgolion yr oedd eisoes ganddynt systemau adnabod yn gynnar cadarn a oedd wedi'u sefydlu'n dda, brosesau da ar waith ar gyfer olrhain, yn gysylltiedig â'u systemau adnabod yn gynnar a'u grwpiau amlasiantaethol. Er enghraifft, yng Nghasnewydd, mae paneli lles sydd wedi'u lleoli mewn ysgolion yn cyfarfod o leiaf unwaith y pythefnos i adolygu cynnydd. Yn yr un modd, ym Mlaenau Gwent, mae'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu yn cydgysylltu cyfarfodydd adolygu rheolaidd ac mae data o'r system adnabod yn gynnar yn bwydo i'r rhain. Mae Merthyr Tudful wedi sefydlu cyfarfodydd tymhorol dilynol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 9 yr amlygwyd eu bod mewn perygl a chyfarfodydd misol ag ysgolion i olrhain cynnydd disgyblion ym Mlwyddyn 11.

4.44 Dangosodd yr arolwg rhanddeiliaid fod bron pedair rhan o bump o'r ymatebwyr (79 y cant) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr awdurdod lleol yn cydgysylltu prosesau'n effeithiol ar gyfer olrhain cynnydd pobl ifanc iau nag 16 oed sydd mewn perygl o ymddieithrio, o gymharu â 46 y cant yn unig cyn yr YEPF. Roedd nifer yr unigolion a oedd yn cytuno'n gryf â'r datganiad wedi treblu bron o 13 y cant i 37 y cant. Roedd ychydig dros dri chwarter (76 y cant o 132 o ymatebwyr) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr awdurdod lleol yn hwyluso rhannu

gwybodaeth rhwng partneriaid perthnasol er mwyn sicrhau bod cynnydd pobl ifanc iau nag 16 oed sydd mewn perygl o ymddieithrio yn cael ei olrhain yn effeithiol ers cyflwyno'r Fframwaith, o gymharu â llai na hanner (46 y cant o 131 o unigolion) cyn i'r Fframwaith gael ei gyflwyno.

*(b) Trosglwyddo*

4.45 Roedd enghreifftiau o gamau gweithredu a ddatblygwyd yn dda i gryfhau olrhain yn ystod trosglwyddo mewn o leiaf chwarter yr awdurdodau lleol. Er enghraifft:

- roedd grwpiau ymarferwyr amlasiantaethol yn cael eu defnyddio fel fforwm i rannu gwybodaeth rhwng darparwyr cyn-16 ac ôl-16 ynglŷn â phobl ifanc yr amlygwyd eu bod mewn perygl o ymddieithrio
- mae rhai awdurdodau lleol yn rhannu data o'r offeryn adnabod yn gynnar gyda cholegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith (lle mae Protocol Rhannu Gwybodaeth wedi'i sefydlu) fel bod darparwyr ôl-16 yn ymwybodol o bobl ifanc sy'n ymuno â'u sefydliad sydd mewn perygl. Yn Abertawe, mae'r broses hon wedi'i chryfhau yn sgil y ffaith bod tiwtor o Goleg Gŵyr wedi'i neilltuo i bob ysgol fel y gellir rhannu gwybodaeth rhwng staff ysgol a staff y coleg
- mewn rhai awdurdodau lleol, fel Merthyr Tudful, roedd y gweithwyr arweiniol a neilltuwyd i bobl ifanc tra'u bod yn yr ysgol yn parhau i fod yn weithwyr arweiniol ar eu cyfer ar ôl iddynt drosglwyddo i ddarpariaeth ôl-16 hyd at fis Rhagfyr.

4.46 Yn yr awdurdodau lleol eraill, nid oedd olrhain yn ystod trosglwyddo wedi bod yn flaenoriaeth, er y cydnabyddir yr angen i adolygu a chryfhau prosesau.

*(c) 16-18*

4.47 Yn gyffredinol, roedd llai o Brotocolau Rhannu Gwybodaeth ôl-16 wedi'u cwblhau'n derfynol, ac felly adroddodd awdurdodau lleol ei bod yn fwy anodd iddynt olrhain y grŵp oedran 16-18 na'r grŵp cyn-16. Ym mis Medi 2014, mewn mwy na thraean yr awdurdodau lleol (wyth), roedd absenoldeb Protocol Rhannu Gwybodaeth rhwng Gyrfa Cymru a'r awdurdod lleol yn atal data am bobl ifanc unigol rhag cael ei rannu.

Ers hynny, mae Protocol Rhannu Gwybodaeth o leiaf dri o'r awdurdodau lleol hyn wedi'i gymeradwyo gan WASPI ac roeddent yn y broses o sicrhau bod partneriaid allweddol yn ymrwymo iddo. Roedd olrhain mwy cadarn gan ddefnyddio data pum haen a enwyd wedi dechrau'n ddiweddar iawn (ar yr adeg ysgrifennu ym mis Ebrill 2015) neu bwriadwyd iddo ddechrau yn ystod hanner cyntaf 2015. Roedd Protocolau Rhannu Gwybodaeth yn cael eu datblygu ym mhob un o'r awdurdodau lleol eraill.

4.48 Adroddodd rhai awdurdodau lleol eu bod wedi llwyddo i sefydlu Protocol Rhannu Gwybodaeth rhwng partneriaid gweithredol ers lansio'r YEPF, ond nad oeddent wedi edrych y tu hwnt i hyn i asesu sut y gellid gwella prosesau olrhain pobl ifanc 16, 17 a 18 oed.

4.49 Mewn rhai awdurdodau lleol lle'r oedd Protocolau Rhannu Gwybodaeth ar waith, roedd enghreifftiau o olrhain yn fisol pobl ifanc 16 oed a oedd yn gadael Blwyddyn 11 am ddwy flynedd. Er enghraifft, yn Abertawe, mae'r tîm strategaeth KIT yn olrhain, yn fisol, cyrchfannau carfan Blwyddyn 11 (a ddiffiniwyd yn ôl y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion) gan ddefnyddio data pum haen. Mae proses debyg ar waith yn Nhorfaen.

4.50 O ran amlygu pobl ifanc yn Haen 1, roedd enghreifftiau o awdurdodau lleol yn defnyddio gweithwyr ieuenctid datgysylltiedig i ymweld ag aelwydydd i gael gwybod am sefyllfa person ifanc sydd wedi ymddieithrio o wasanaethau (Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, er enghraifft). Mewn awdurdodau lleol eraill, mae cyfnewid gwybodaeth rhwng gweithwyr proffesiynol mewn grwpiau ymarferwyr amlasiantaethol yn cyflawni swyddogaeth bwysig wrth amlygu pobl ifanc yn Haen 1 rhwng 16 a 18 oed (er enghraifft, Bro Morgannwg). Yn Abertawe, cynhelir cyfarfodydd wythnosol rhwng y gweithiwr ieuenctid sy'n gyfrifol am amlygu pobl ifanc yn Haen 1 sy'n anhysbys a chynghorydd Gyrfa Cymru er mwyn hwyluso rhannu gwybodaeth. Mewn rhai awdurdodau lleol, fel Blaenau Gwent, mae grŵp strategol yr YEPF wedi dangos nad oes proses systematig ar gyfer amlygu pobl ifanc 'anhysbys' yn Haen 1 ac mae'n ceisio llenwi'r bwlch hwn.

4.51 Mae'r arolwg rhanddeiliaid yn dangos bod mwy na phedair rhan o bump (84 y cant o 146 o ymatebwyr) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr awdurdod lleol yn cydgysylltu prosesau'n effeithiol ar gyfer olrhain cynnydd pobl ifanc 16-18 oed sydd mewn perygl o ymddieithrio ar ôl cyflwyno'r YEPF, o gymharu â 45 y cant o 146 o ymatebwyr cyn yr YEPF.

*(ch) 18+*

4.52 Nid oedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi blaenoriaethu olrhain pobl ifanc wrth drosglwyddo i gyngor a chymorth ôl-19. Er hynny, ceir rhai enghreifftiau o gamau a gymerwyd i geisio gwella olrhain a chymorth ar gyfer y grŵp oedran hwn. Mae'n ymddangos bod atgyfeiriadau cymharol dda o'r Ganolfan Byd Gwaith i Gyrfa Cymru (gyda chaniatâd person ifanc i rannu gwybodaeth) mewn oddeutu un rhan o bump o awdurdodau lleol. Er enghraifft:

- yn Abertawe, mae cynghorwyr Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith wedi'u cydleoli yn y prif ganolfannau fel y gellir gwneud atgyfeiriad ar unwaith (a adwaenir fel 'trosglwyddiad cynnes') a sicrhau na fydd person ifanc yn methu'r sesiwn gyfarwyddyd ddilynol. Yn ogystal, mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn cyflwyno data dienw ar nifer yr hawlwyr newydd 18-24 oed ar lefel ward i grŵp llywio'r YEPF er mwyn llywio'r broses gwneud penderfyniadau a chynllunio
- ym Merthyr Tudful, mae ffurflen wedi'i datblygu er mwyn helpu cynghorwyr y Ganolfan Byd Gwaith i gael caniatâd gan bobl ifanc yn fwy systematig i rannu eu gwybodaeth
- yng Ngheredigion, ceir gweithiwr arweiniol dynodedig ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed sydd mewn perygl o ymddieithrio. Mae'r aelod hwn o staff yn gweithio'n agos gyda'r Ganolfan Byd Gwaith er mwyn sicrhau bod y bobl ifanc y maent yn gwybod bod angen cymorth ychwanegol arnynt yn cael eu hamlygu.

4.53 Mae'r arolwg rhanddeiliaid yn dangos bod ychydig dros draean o'r ymatebwyr (36 y cant o 146 o ymatebwyr) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr awdurdod lleol yn cydgysylltu prosesau'n effeithiol ar gyfer olrhain cynnydd pobl ifanc 19+ oed sydd mewn perygl o ymddieithrio ar ôl cyflwyno'r YEPF, o gymharu â 21 y cant cyn yr YEPF. Roedd 8 y cant yn cytuno'n gryf.

*Yr hyn sy'n gweithio'n dda*

4.54 Roedd awdurdodau lleol a phartneriaid yn gadarnhaol iawn ynglŷn â derbyn data pum haen misol gan Gyrfa Cymru. Ystyrir bod hyn yn welliant mawr mewn gwaith partneriaeth ac fe'i croesewir yn eang, yn enwedig mewn awdurdodau lleol lle mae Protocolau Rhannu Gwybodaeth yn caniatáu i ddata a enwyd ar unigolion gael ei rannu.

Mae awdurdodau lleol sydd wedi sefydlu proses o olrhain carfan ôl-16 gan ddefnyddio data pum haen o'r farn bod hyn yn ffordd systematig a defnyddiol o fonitro cynnydd. Dywedodd un Uwch Swyddog Atebol: 'yn flaenorol, un o'r rhwystrau allweddol oedd rhannu gwybodaeth am bobl ifanc. Nid oedd hyn ar waith. Mae'r Protocol Rhannu Gwybodaeth wedi bod gennym ers yr ychydig fisoedd diwethaf yn unig, ond rydym eisoes yn gweld gwelliant mawr o ganlyniad' (cyfweliad ag Uwch Swyddog Atebol). Roedd y farn hon yn un gyffredin ymhlith staff awdurdodau lleol. Mae dadansoddi data wedi'i ddatgrynhoi yn ôl darparwr yn caniatáu i grwpiau llywio a grwpiau ymarferwyr amlasiantaethol wybod yn union lle mae person ifanc wedi ymddieithrio a chael sgyrsiau â rhanddeiliaid perthnasol. Roedd rhanddeiliaid yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r broses hon at ei gilydd.

4.55 Adroddodd rhai awdurdodau lleol fod y ffaith bod ystod eang o sefydliadau'n cael eu cynrychioli mewn grwpiau gweithredol wedi bod yn ddefnyddiol ar gyfer amlygu pobl ifanc yn Haen 1 nad oeddent yn hysbys yn flaenorol.

*Heriau*

4.56 Crybwyllodd rhai awdurdodau lleol na allant rannu gwybodaeth yn gyfreithlon ag awdurdodau lleol eraill am berson ifanc sydd wedi symud o'r ardal oherwydd nid oedd awdurdodau lleol cyfagos yn rhan o Brotocolau Rhannu Gwybodaeth ac nid oedd systemau eraill ar gyfer rhannu gwybodaeth wedi'u sefydlu. Adroddwyd bod staff Gyrfa Cymru sy'n gweithio mewn gwahanol ardaloedd yn gallu rhannu gwybodaeth rhyngddynt, sy'n helpu i ryw raddau, ond roedd awdurdodau lleol o'r farn y byddai'n fwy defnyddiol petai Protocolau Rhannu Gwybodaeth rhyng-awdurdod lleol ar waith.

4.57 O ran olrhain pobl ifanc 18-24 oed, mae staff y Ganolfan Byd Gwaith yn ceisio cael caniatâd yn uniongyrchol gan bobl ifanc i rannu gwybodaeth gyda Gyrfa Cymru, ond adroddwyd bod hyn yn gallu cymryd llawer o amser. Os nad yw pobl ifanc yn mynychu apwyntiadau yn y Ganolfan Byd Gwaith, fe all fod yn anodd iawn cysylltu â hwy i geisio caniatâd.

*Crynodeb*

| **Carreg Filltir 5: O fis Medi 2013 ymlaen – Mae Gyrfa Cymru yn rhoi gwybodaeth i awdurdodau lleol yn fisol**<br><br>**Cynnydd yn erbyn y garreg filltir:** CYFLAWNWYD. Mae pob awdurdod lleol yn derbyn data pum haen misol. |
|---|

| **Carreg Filltir 6 : O fis Medi 2013 ymlaen – Mae darparwyr ôl-16 yn hysbysu Gyrfa Cymru yn rheolaidd am y rhai sy'n tynnu'n ôl**<br><br>**Cynnydd yn erbyn y garreg filltir**: Mae hyn yn mynd rhagddo ym mhob awdurdod lleol, ond nid oedd unrhyw un ohonynt wedi adrodd eu bod yn cael hysbysiadau cyson ac amserol gan bob darparwr ôl-16. Nid yw'n bosibl dweud pryd y disgwylir cyflawni hyn. |
|---|

| **Carreg Filltir 7: O fis Medi 2014 ymlaen – Mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn uno systemau olrhain ac adnabod yn gynnar ar lefel ysgol**<br><br>**Cynnydd yn erbyn y garreg filltir:** Mae o leiaf 14 awdurdod lleol wedi cyflawni hyn. Yn yr awdurdodau lleol sy'n weddill, mae o leiaf 3 yn debygol o gyflawni'r garreg filltir hon yn ystod 2015. Nid yw'n eglur pryd y bydd hyn yn cael ei gyflawni mewn 6 awdurdod lleol. |
|---|

### Tabl 4.3 Ystyried dulliau awdurdodau lleol o weithredu elfen olrhain yr YEPF

| Disgwyliad | Yr hyn sy'n gweithio'n dda | Heriau |
|---|---|---|
| **Dylunio a chynllunio cychwynnol**<br><br>Bod awdurdodau lleol yn adolygu tystiolaeth o arfer effeithiol (fel enghreifftiau o adolygiad yr Uned Safonau Ysgolion a Chyflawni).<br><br>Bod awdurdodau lleol a phartneriaid yn archwilio | **Cyn-16**<br>Mae'n ymddangos bod ysgolion a chanddynt systemau adnabod yn gynnar a sefydlwyd yn dda hefyd yn gweithredu systemau da ar gyfer monitro unwaith y tymor (o leiaf).<br><br>Ceir tystiolaeth fod | **Cyn-16**<br>Nid oes prosesau ar gyfer amlygu pobl ifanc sydd yn Haen 1 ond sy'n 'anhysbys' (a amlygwyd gan rai awdurdodau lleol trwy fapio'r ddarpariaeth). |

| Disgwyliad | Yr hyn sy'n gweithio'n dda | Heriau |
|---|---|---|
| ffyrdd o olrhain pobl ifanc 'anhysbys' sy'n NEET – gan gynnwys rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodau lleol, sefydliadau'r sectorau gwirfoddol a chymunedol a chyrff eraill. Defnyddio enghreifftiau o arfer da. | prosesau i amlygu pobl ifanc 'anhysbys' sy'n NEET yn gwella; defnyddio gweithwyr ieuenctid datgysylltiedig ar gyfer allgymorth rhagweithiol; rhannu gwybodaeth mewn grwpiau gweithredol; rhannu gwybodaeth yn dda rhwng Gyrfa Cymru a gwasanaethau ieuenctid. | |
| **Datblygu a phrofi**<br><br>Bod awdurdodau lleol yn cynorthwyo ysgolion i adolygu eu systemau olrhain lefel ysgol ac ymsefydlu arfer da.<br><br>Bod arweinyddiaeth strategol gref gan benaethiaid/ prifathrawon/ uwch dimau rheoli.<br><br>Bod y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu yn datblygu trefniadau gweithio ag ysgolion e.e. cyfarfod tymhorol i asesu a yw pobl ifanc yr amlygwyd eu bod mewn perygl yn gwneud cynnydd; prosesau ar gyfer casglu data lefel ysgol gan ysgolion; prosesau ar gyfer dadansoddi ac asesu data | **Cyn-16**<br>Ceir nifer o enghreifftiau o Gydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu yn cynorthwyo ysgolion i wella systemau olrhain lefel ysgol.<br><br>Mae trefniadau gweithio gydag ysgolion yn cael eu datblygu mewn nifer o awdurdodau lleol, gyda'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu yn arwain y broses gydgysylltu.<br><br>Mae rhai awdurdodau lleol wedi canolbwyntio ar ddatblygu gwell prosesau olrhain wrth drosglwyddo o ddarpariaeth cyn-16 i ôl-16 ac mae prosesau newydd wedi'u rhoi ar waith. | **Cyn-16**<br>Arweinyddiaeth ac ymrwymiad anghyson gan ysgolion.<br><br>Nid yw proses olrhain wedi'i sefydlu eto lle mae system adnabod yn gynnar yn dal i fod ar gam cynnar.<br><br>**Ôl-16**<br>Mae diffyg Protocolau Rhannu Gwybodaeth yn atal datblygu a phrofi prosesau olrhain ôl-16.<br><br>Gall awdurdodau lleol nad oes ganddynt Brotocolau Rhannu Gwybodaeth dderbyn data dienw, cyfanredol yn unig. |

| Disgwyliad | Yr hyn sy’n gweithio’n dda | Heriau |
|---|---|---|
| lefel ysgol. | **Ôl-16**<br>Defnyddio data pum haen Gyrfa Cymru i ddatblygu systemau.<br><br>Ysgolion yn olrhain Blynyddoedd 12 a 13; mae rhai colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith yn defnyddio systemau adnabod yn gynnar i adrodd ar y rhai sy’n tynnu’n ôl a’r rhai sydd mewn perygl. | Nid yw pob darparwr ôl-16 yn ymwneud â datblygu a phrofi systemau. |
| **Gweithredu a mireinio**<br>Bod treialon wedi’u sefydlu ar gyfer unrhyw brosesau newydd.<br><br>Bod prosesau’n cael eu haddasu yn seiliedig ar unrhyw wersi a ddysgwyd o dreialon/camau gweithredu cynnar.<br><br>Yr ymgynghorir yn barhaus â’r holl randdeiliaid er mwyn iddynt gyfrannu safbwyntiau a phrofiadau. Bod ysgolion yn cael y cyfle i gyfrannu’r hyn a ddysgwyd.<br><br>Bod awdurdodau lleol yn rhannu’r hyn a ddysgwyd. | **Cyn ac ôl-16**<br><br>Mae nifer o awdurdodau lleol yn treialu a gweithredu prosesau ar gyfer rhannu gwybodaeth a data pum haen mewn grwpiau gweithredol er mwyn olrhain ac adolygu camau gweithredu gan weithwyr arweiniol.<br><br>Mae’r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn disgwyl addasu prosesau wrth iddynt ddysgu o hyn. | **Cyn ac ôl-16** |
| | | |

| Disgwyliad | Yr hyn sy'n gweithio'n dda | Heriau |
|---|---|---|
| **Darpariaeth barhaus**<br>Bod ysgolion yn rhoi data olrhain rheolaidd i'r awdurdod lleol, yn gysylltiedig â system adnabod yn gynnar.<br><br>Bod ysgolion, awdurdodau lleol ac unrhyw randdeiliaid perthnasol eraill yn cyfarfod yn rheolaidd (o leiaf unwaith y tymor) i asesu cynnydd.<br><br>Bod data olrhain yn cael ei ddefnyddio gan athrawon i ddarparu addysgu gwahaniaethol/wedi'i deilwra i'r unigolyn ar gyfer dysgwyr.<br><br>Bod darparwyr ôl-16 yn rhoi diweddariadau rheolaidd i Gyrfa Cymru ar bresenoldeb pobl ifanc.<br><br>Bod data'r Broses Ymgeisio Gyffredin yn cael ei ddadansoddi er mwyn amlygu pobl ifanc y mae angen cymorth ychwanegol arnynt wrth drosglwyddo o addysg cyn-16 i ôl-16.<br><br>Bod pobl ifanc ôl-18 yn cael eu holrhain yn barhaus – cysylltiadau rhwng Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith. | **Cyn-16**<br>Mae hyn yn dod yn sefydledig mewn 13 awdurdod lleol.<br><br>Ceir enghreifftiau o gymorth ac addysgu gwahaniaethol/wedi'u teilwra i'r unigolyn ar gyfer pobl ifanc yr amlygwyd eu bod mewn perygl o ymddieithrio.<br><br>**Ôl-16**<br>Mae awdurdodau lleol a phartneriaid yn gwerthfawrogi adroddiadau misol gan Gyrfa Cymru – ystyrir bod hyn yn welliant mawr. | **Cyn-16**<br>Nid yw pob ysgol ym mhob awdurdod lleol yn rhoi gwybodaeth gyson a rheolaidd i awdurdodau lleol, ac nid yw cyfarfodydd amlasiantaethol rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng yr holl randdeiliaid ar gyfer disgyblion ym mhob ysgol.<br><br>**Ôl-16**<br>Ceir tystiolaeth nad yw pob darparwr ôl-16 yn rhoi diweddariadau amserol i Gyrfa Cymru.<br><br>Nid yw data'r Broses Ymgeisio Gyffredin ar gael eto.<br><br>Ar y cyfan, nid yw pobl ifanc ôl-18 yn cael eu holrhain wrth iddynt drosglwyddo o gymorth Gyrfa Cymru i gymorth y Ganolfan Byd Gwaith.<br><br>Nid yw adroddiadau chwarterol gan Gyrfa Cymru mewn fformat terfynol, defnyddiadwy |

| Disgwyliad | Yr hyn sy'n gweithio'n dda | Heriau |
|---|---|---|
| Bod Gyrfa Cymru yn rhoi adroddiadau chwarterol i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru ar statws pobl ifanc yn erbyn y model pum haen. | | eto. |

**Darpariaeth**

*Yr hyn sy'n digwydd*

4.58 Roedd pob awdurdod lleol wedi dechrau'r broses o fapio'r ddarpariaeth yn erbyn y model pum haen gan ddilyn arweiniad gan Lywodraeth Cymru. Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi canolbwyntio ar ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc hyd at 19 oed, ond roedd rhai enghreifftiau o awdurdodau lleol a oedd wedi cynnwys darpariaeth ar gyfer pobl ifanc 19-24 oed (Sir Benfro, er enghraifft). Yn y rhan fwyaf o achosion, y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu oedd yn arwain y broses o gydgysylltu'r gweithgarwch hwn a chysylltu â phartneriaid. Lle'r oedd grwpiau strategol ar waith, roeddent hwy'n goruchwylio'r broses, yn hwyluso cyfranogiad partneriaid darparu yn y broses ac yn adolygu canlyniadau'r ymarfer mapio. Ym mhob awdurdod lleol, roedd map darpariaeth wedi'i gynhyrchu ac yn cael ei adolygu, ac mae darparwyr yn gwirio'r wybodaeth i weld a yw'n gywir. Roedd gan o leiaf un rhan o bump o awdurdodau lleol fap darpariaeth o ryw fath eisoes. Yn rhan o'u cynllun gweithredu YEPF, roeddent wedi adolygu a diweddaru eu cynllun presennol.

4.59 Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod y broses ar gyfer datblygu'r map darpariaeth wedi cynnwys ystod eang o bartneriaid darparu ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Yn nodweddiadol, roedd awdurdodau lleol wedi dosbarthu templed a gofyn i ddarparwyr ei gwblhau gyda gwybodaeth am y gwasanaethau cymorth a ddarperir ganddynt. Roedd awdurdodau lleol yn hyderus ar y cyfan fod mwyafrif y darparwyr a'r holl rai allweddol wedi'u cynnwys.

4.60 Roedd rhai awdurdodau lleol wedi sicrhau bod y map darpariaeth ar gael fel cyfeirlyfr ar-lein ar gyfer ymarferwyr a'r cyhoedd (Blaenau Gwent a Bro Morgannwg, er enghraifft). Bwriedir i'r cyfeirlyfr sicrhau

bod gan weithwyr arweiniol wybodaeth dda am y ddarpariaeth sydd ar gael er mwyn eu helpu i froceru pecyn cymorth ar gyfer pobl ifanc. Yn ogystal, bwriedir iddo fod yn adnodd ar gyfer rhieni a phobl ifanc i'w helpu i fod yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael. Roedd awdurdodau lleol eraill yn gweithio ar wella fformat eu map/cyfeirlyfr darpariaeth er mwyn ei wneud yn haws i'w ddefnyddio. Roedd rhai'n archwilio'r posibilrwydd o gyfuno eu map darpariaeth YEPF newydd â'u cronfa ddata Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd bresennol.

4.61 Mae'r arolwg rhanddeiliaid yn dangos bod 84 y cant o ymatebwyr (151 o 180 o ymatebwyr) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr awdurdod lleol wedi gweithio'n effeithiol gyda'r holl randdeiliaid allweddol i fapio'r ddarpariaeth sydd ar gael. Roedd tua dwy ran o dair (66 y cant o 178 o ymatebwyr) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr awdurdod lleol wedi dadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd yn rhan o unrhyw ymarfer mapio darpariaeth yn effeithiol ar ôl cyflwyno'r YEPF. Roedd mwy na dwy ran o dair (69 y cant o 179 o unigolion) hefyd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod gan yr awdurdod lleol fforwm priodol ar gyfer gwneud penderfyniadau am sut y dylid addasu'r ddarpariaeth i fodloni anghenion pobl ifanc yn well.

4.62 Ychydig iawn o enghreifftiau sydd o awdurdodau lleol a gynhaliodd yr ymarfer mapio darpariaeth ochr yn ochr â dadansoddiad o wybodaeth am y farchnad lafur er mwyn llywio adolygiad o ddarpariaeth (bylchau, gorgyflenwad). Roedd Sir Benfro wedi defnyddio'r dull mwy strategol hwn i lywio eu dealltwriaeth o fylchau (gweler y blwch isod).

**Mapio'r ddarpariaeth: Sir Benfro**

Yn Sir Benfro, o ganlyniad i'r YEPF, mae mapiau blaenorol o'r ddarpariaeth ôl-16 wedi'u diweddaru a'u hymestyn i gynnwys prentisiaethau, hyfforddeiaethau a darpariaeth dysgu seiliedig ar waith fasnachol. Ystyrir bod yr YEPF wedi sbarduno'r gwaith hwn.

Rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2014, arweiniodd y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu broses gadarn ar gyfer mapio'r ddarpariaeth:

- dosbarthwyd map darpariaeth drafft trwy rwydweithiau a grwpiau partneriaeth a oedd eisoes yn bodoli. Roedd hwn wedi'i seilio ar ddata a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i ddarparwyr. Cymerodd ystod lawn o bartneriaid ran yn y broses, gan gynnwys colegau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a darparwyr yn y sector gwirfoddol a chymunedol

- cynhaliwyd gweithdai â darparwyr ôl-16 i drafod a mireinio'r wybodaeth gychwynnol a ddarparwyd
- cynhyrchwyd map darpariaeth terfynol, cytunedig ar gyfer pob darparwr.

Yna arweiniodd yr awdurdod lleol y broses o ddadansoddi'r mapiau i amlygu achosion o ddyblygu a bylchau yn y ddarpariaeth bresennol. Cymharwyd hyn â gwybodaeth a data am y farchnad lafur leol gan y Bartneriaeth Ddysgu Ranbarthol yn ogystal â gwybodaeth am anghenion pobl ifanc o gronfa ddata Gyrfa Cymru a gwybodaeth ansoddol gan staff derbyn darparwyr.

Cyflwynwyd y canfyddiadau allweddol a'r casgliadau mewn adroddiad. Rhoddwyd yr adroddiad hwn i ddarparwyr a phartneriaid i gytuno ar y canfyddiadau a chymeradwyo'r adroddiad.

Dyma brif fanteision mapio darpariaeth YEPF:

- mae darparwyr dysgu seiliedig ar waith wedi addasu eu darpariaeth i lenwi bylchau a amlygwyd mewn perthynas â darpariaeth lefel mynediad a lefel 1, darpariaeth garddwriaeth a darpariaeth â dyddiadau dechrau treigl. Mae'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu wedi arwain a chydgysylltu'r trafodaethau hyn, sy'n parhau
- mae gwybodaeth o'r ymarfer mapio darpariaeth yn cael ei defnyddio i lywio cynigion rhanbarthol i Gronfa Gymdeithasol Ewrop
- sicrhawyd bod y wybodaeth a gasglwyd ar gael yn electronig i sefydliadau partner allweddol. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, bod gwybodaeth gyfredol ar gael i staff gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd Gyrfa Cymru ar gyfer eu trafodaethau â phobl ifanc. Mae rhanddeiliaid o'r farn bod: 'plant a phobl ifanc bellach yn fwy ymwybodol o'u dewisiadau a'u hopsiynau nag erioed o'r blaen'.

Mae rhanddeiliaid o'r farn bod gwaith partneriaeth a chydweithredu cryf wedi bod yn allweddol i fapio'r ddarpariaeth yn effeithiol. Mae'r YEPF wedi helpu i gryfhau a gwella partneriaethau a rhwydweithiau presennol, yr adroddir eu bod wedi 'mynd o nerth i nerth' ers cyflwyno'r YEPF.

Cyflwynir astudiaeth achos lawn o fapio'r ddarpariaeth yn Sir Benfro yn Atodiad 2.

4.63 Dim ond un enghraifft a gafwyd o ddadansoddi'r ddarpariaeth yn systematig o gymharu ag anghenion pobl ifanc neu gyflogwyr. Er bod awdurdodau lleol yn gwybod faint o bobl ifanc oedd ym mhob un o

haenau'r model pum haen ac felly'n gallu asesu faint o ddarpariaeth oedd ei hangen, ychydig oedd wedi casglu neu ddadansoddi data neu dystiolaeth ynglŷn ag anghenion pobl ifanc ym mhob haen er mwyn llywio penderfyniadau am unrhyw newidiadau yr oedd angen eu gwneud i'r cynnig cyffredinol yn eu hardal[18].

4.64 Yn gyffredinol, nid oedd awdurdodau lleol wedi cwblhau ymarfer mapio llawn o lwybrau atgyfeirio a dilyniant hyd at ddarpariaeth. Y cam cyntaf fu casglu gwybodaeth am yr holl ddarparwyr a sicrhau ei bod yn gywir; y cam nesaf fydd dadansoddi a deall llwybrau dilyniant.

4.65 Adroddodd sawl awdurdod lleol eu bod wedi amlygu bylchau yn y ddarpariaeth yn seiliedig ar brofiad a gwybodaeth a gasglwyd trwy'r ymarfer mapio darpariaeth. Angen cyffredin a amlygwyd mewn sawl awdurdod lleol oedd diffyg darpariaeth Haen 2, a hynny, mewn rhai achosion, ynghyd â dyblygu darpariaeth Haen 3, fel cymorth i ysgrifennu CV a chymorth gyda sgiliau cyfweliad. Roedd rhai awdurdodau lleol hefyd wedi amlygu'r angen am:

- fwy o gymorth a darpariaeth ar gyfer pobl ifanc hŷn na 18 oed (er enghraifft, Ynys Môn, Gwynedd a Bro Morgannwg)
- darparwyr penodol sy'n gyfrifol am amlygu ac ymgysylltu â phobl ifanc yn Haen 1 nad ydynt yn hysbys i wasanaethau (Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot)
- mwy o gyfleoedd ar gyfer lleoliadau gwaith a phrofiad gwaith i bobl ifanc cyn-16 ac ôl-16 (Gwynedd ac Ynys Môn)
- trefniadau gwell ar gyfer cydgysylltu darpariaeth a gomisiynwyd ar lefel genedlaethol. Rhoddodd rhai awdurdodau enghreifftiau o ddarpariaeth a gomisiynwyd yn genedlaethol a oedd wedi arwain at ddyblygu darpariaeth leol. Roeddent eisoes yn ymwybodol o hyn, ond roedd yr ymarfer mapio darpariaeth wedi'i amlygu'n glir iawn
- yn aml, disgrifiodd awdurdodau mwy gwledig broblem gyffredin yn ymwneud â darpariaeth dysgu seiliedig ar waith annigonol o ganlyniad i boblogaethau gwasgaredig, sy'n golygu nad yw cynnig dysgu amrywiol yn ymarferol i ddarparwyr (Gwynedd, Ynys Môn, Powys).

[18] Dylai hyn fwydo i drefniadau partneriaeth a chynllunio 14-19.

4.66 Adroddodd o leiaf ddwy ran o dair o'r awdurdodau lleol eu bod wedi ystyried y ddarpariaeth sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yn eu hymarfer mapio; nid adroddwyd am unrhyw fylchau yn y maes hwn.

4.67 Er bod mapiau darpariaeth ar ffurf ddrafft o hyd yn bennaf, roedd enghreifftiau'n dod i'r amlwg o fyrddau strategol yr YEPF yn ymateb ac yn ceisio llenwi bylchau yn y ddarpariaeth. Er enghraifft, ym Mlaenau Gwent, roedd bwrdd strategol yr YEPF yn trafod cynigion ar y cyd posibl ar gyfer cyllid ac ym Mro Morgannwg, roedd tîm yr YEPF wedi cysylltu â darparwyr newydd i geisio llenwi bylchau yn y ddarpariaeth a oedd ar gael. Yn Abertawe, lle yr amlygwyd bwlch yn y ddarpariaeth Haen 2, roedd y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu wedi gweithio'n agos gyda darparwyr dysgu seiliedig ar waith a'r coleg lleol i ddatblygu cwrs blasu galwedigaethol newydd ar gyfer pobl ifanc er mwyn helpu i'w hymgysylltu a chefnogi penderfyniadau gwell. Adroddodd rhai awdurdodau lleol eu bod wedi cynnal trafodaethau cychwynnol â cholegau ynglŷn â dyddiadau dechrau ar adegau heblaw mis Medi. Roeddent yn cydnabod yr heriau a wynebai colegau wrth gynnig hyn ac yn ceisio datblygu datrysiadau. Roedd rhai awdurdodau lleol wedi cydnabod, yn rhannol o ganlyniad i'r ymarfer mapio darpariaeth, yr angen am gydgomisiynu mwy strategol (er enghraifft, Conwy a Sir Ddinbych). Roeddent yn archwilio sut y gellid cyflawni hyn yn y tymor hwy.

4.68 Fodd bynnag, mewn o leiaf draean o achosion, nid yw'n ymddangos bod unrhyw gynlluniau eglur ar waith ar gyfer mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth a amlygwyd trwy'r ymarfer mapio. Roedd rhai awdurdodau lleol yn cydnabod rôl bosibl y grŵp strategol yn hyn o beth, ond nid oedd llawer o gynnydd wedi'i wneud wrth ddatblygu trefniadau gweithredol.

4.69 O ran y Broses Ymgeisio Gyffredin a'r Warant Ieuenctid, roedd gan un awdurdod lleol, sef Abertawe, ei Warant ei hun ar waith, a ategwyd gan brosbectws darpariaeth Haen 4 a Haen 5 a phroses ymgeisio ar-lein ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 11. Nid oedd hyn ar waith yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraill. Wrth baratoi ar gyfer y Broses Ymgeisio Gyffredin, roedd rhai Cydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu a rheolwyr Gyrfa Cymru wedi bod yn cyfarfod ag ysgolion i hyrwyddo'r Broses Ymgeisio Gyffredin a'r Warant Ieuenctid. Mae'r trafodaethau hyn yn ceisio ychwanegu at y cyflwyniadau cychwynnol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i ysgolion. Nid oedd y rhan fwyaf wedi dechrau

darparu hyfforddiant ffurfiol ar y Broses Ymgeisio Gyffredin, ond roeddent yn bwriadu gwneud hynny yn ystod 2015.

*Yr hyn sy'n gweithio'n dda*

- roedd sawl awdurdod lleol yn gadarnhaol ynglŷn â'r wybodaeth a gawsant trwy'r ymarfer mapio darpariaeth. Yn ogystal ag amlygu bylchau a dyblygu, roeddent o'r farn eu bod wedi cael gwybodaeth werthfawr am y ddarpariaeth sydd ar gael yn y sector gwirfoddol a chymunedol, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc yn Haen 2
- adroddodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol fod y gwaith mapio darpariaeth yn llywio gwaith rhanbarthol i amlygu cyfleoedd i ddefnyddio cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop i dreialu dulliau newydd a llenwi bylchau mewn darpariaeth prif ffrwd.

*Heriau*

*(a) Mapio'r ddarpariaeth*

4.70 Roedd yn ymddangos nad oedd rhai awdurdodau lleol wedi llwyr ddeall diben yr ymarfer mapio darpariaeth. Nid oeddent yn sicr sut oedd y map darpariaeth yn gysylltiedig â'r Broses Ymgeisio Gyffredin a pha haenau darpariaeth y dylid eu cynnwys yn y map.

4.71 Roedd llawer o awdurdodau lleol, yn enwedig y rhai hynny nad oeddent wedi cynhyrchu map ffurfiol o'r ddarpariaeth yn flaenorol, o'r farn bod y broses yn feichus ac yn eithaf heriol. Cawsant anhawster arbennig wrth fapio darpariaeth Haen 2. Adroddodd rhai am gyfraddau ymateb isel gan ddarparwyr i geisiadau am wybodaeth. Roedd awdurdodau lleol wedi priodoli hyn yn rhannol i'r ffaith bod yn rhaid iddynt gysylltu â darparwyr yn ystod cyfnodau arholi. Adroddodd eraill fod darparwyr wedi rhoi gwybodaeth anghyflawn neu anghywir iddynt. O ran mapio yn erbyn y pum haen, adroddodd rhai awdurdodau lleol fod asesiad darparwyr o ba haen yr oeddent yn gweithio ynddi yn wahanol i asesiad yr awdurdod lleol weithiau.

4.72 O ystyried yr heriau yr oeddent yn eu hwynebu wrth ddatblygu'r map darpariaeth, roedd o leiaf chwarter yr awdurdodau lleol yn pryderu sut y byddai'r map darpariaeth yn cael ei gadw'n gyfredol ac roedd llawer yn ansicr sut y gallent ei ddefnyddio'n effeithiol. Roeddent yn cydnabod bod angen amdano oherwydd bod llawer o wasanaethau cymorth

ieuenctid yn cael eu hariannu trwy grantiau cymharol dymor byr, sy'n golygu y bydd y ddarpariaeth yn newid o flwyddyn i flwyddyn. Bydd gostyngiadau mewn cyllid grant awdurdod lleol ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid gwirfoddol yn effeithio ar sefydlogrwydd a pharhauster y ddarpariaeth hefyd.

4.73 Nid oedd rhai awdurdodau lleol o'r farn bod y templed a'r fformat ar gyfer y map darpariaeth a awgrymwyd yn yr arweiniad gan Lywodraeth Cymru yn briodol. Nid oeddent yn credu bod y map darpariaeth terfynol yn rhwydd i'w ddefnyddio.

*(b) Y Broses Ymgeisio Gyffredin*

4.74 Adroddodd staff awdurdodau lleol, partneriaid ac ysgolion nad oedd llawer o ysgolion yn gweld gwerth yn ffurflen gais ar-lein y Broses Ymgeisio Gyffredin ac nad oeddent wedi ymrwymo i'w defnyddio eto. Roedd rhai o'r farn nad oedd y cyflwyniad cychwynnol gan Lywodraeth Cymru wedi ateb eu cwestiynau'n ddigonol a bod pryderon yn parhau mewn ysgolion ynglŷn â'r broses, sut y bydd yn gweithio'n ymarferol, a pha un a fydd y dechnoleg yn gweithio'n effeithiol. Roedd llawer o randdeiliaid hefyd o'r farn bod ysgolion yn pryderu am fwy o gystadleuaeth â darparwyr ôl-16 o ganlyniad i'r Broses Ymgeisio Gyffredin. Dywedodd rhai cynrychiolwyr ysgolion eu bod yn pryderu y bydd angen llawer o gymorth ar fyfyrwyr i ddefnyddio'r ffurflen gais ar-lein ac na fydd adnoddau ar gael ar gyfer hyn. Roedd yn ymddangos bod rhai awdurdodau lleol yn gweithio'n galed i ateb cwestiynau ysgolion ac esbonio'r buddion, er bod eraill yn ymddangos fel petaent yn llai rhagweithiol.

4.75 Mae'n ymddangos bod darparwyr dysgu seiliedig ar waith yn cefnogi'r prosbectws a'r broses ymgeisio ar-lein mewn egwyddor, ond roeddent hwy a rhanddeiliaid eraill yn pryderu na fydd fersiwn gyntaf y prosbectws yn cynnwys darpariaeth dysgu seiliedig ar waith. Byddai'n well ganddynt petai cwmpas llawn y ddarpariaeth yn cael ei gynrychioli o'r cychwyn cyntaf.

*Crynodeb*

| |
|---|
| **Carreg Filltir 8: Mawrth 2014 – Awdurdodau lleol yn cynhyrchu map llinell sylfaen o'r ddarpariaeth yn erbyn y model pum haen**<br><br>**Cynnydd yn erbyn y garreg filltir**: CYFLAWNWYD. Mae gan bob awdurdod lleol fap llinell sylfaen o'r ddarpariaeth yn erbyn y model pum haen. |

| |
|---|
| **Carreg Filltir 9: Mawrth 2014 – Awdurdodau lleol yn ymgysylltu â darparwyr hyfforddeiaethau**<br><br>**Cynnydd yn erbyn y garreg filltir**: Mae hyn yn mynd rhagddo ym mhob awdurdod lleol ond nid yw'n eglur pryd y caiff ei gyflawni. |
| **Carreg Filltir 10: Cyflwyno'r Warant Ieuenctid yn llawn yn genedlaethol erbyn 2015**<br><br>**Cynnydd yn erbyn y garreg filltir**: Oedi – nid yw'n debygol o gael ei gyflawni erbyn 2015. Mae pob awdurdod lleol wedi adrodd am anawsterau wrth ymgysylltu ag ysgolion ac nid oes gan yr un ohonynt gynlluniau eglur ar waith ar gyfer darparu'r Warant Ieuenctid. |

### 4.4Tabl 4.4 Ystyried dulliau awdurdodau lleol o weithredu elfen darpariaeth yr YEPF

| Disgwyliad | Yr hyn sy'n gweithio'n dda | Heriau |
|---|---|---|
| **Dylunio a chynllunio cychwynnol**<br>Bod arweinyddiaeth gan y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu.<br><br>Yr ymgynghorir â'r holl randdeiliaid allweddol i gytuno ar y dull gorau o fapio.<br><br>Bod awdurdodau lleol yn defnyddio data a gasglwyd yn systematig / gwybodaeth o'r broses adnabod yn gynnar a broceriaeth i sefydlu beth yw anghenion pobl ifanc. | Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae Cydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu wedi arwain gwaith mapio darpariaeth, gyda grwpiau strategol yn goruchwylio'r broses.<br><br>Yn gyffredinol, ymgynghorwyd yn systematig â rhanddeiliaid ar ofynion a diben. | Nid yw'n ymddangos bod rhai awdurdodau lleol wedi llwyr ddeall diben ac ymarferoldebau yr ymarfer mapio darpariaeth. |
| **Datblygu a phrofi**<br>Bod awdurdodau lleol yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol yn llwyddiannus mewn ymarfer mapio (ar draws yr awdurdod lleol, y trydydd sector a'r sector | Mae ystod eang o randdeiliaid o'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol wedi cyfrannu at ymarferion mapio darpariaeth ac | Yn gyffredinol, nid yw awdurdodau lleol wedi cynnal yr ymarfer mapio darpariaeth ochr yn ochr â dadansoddiad o wybodaeth am y |

| Disgwyliad | Yr hyn sy’n gweithio’n dda | Heriau |
|---|---|---|
| preifat) a’u bod yn darparu gwybodaeth am y ddarpariaeth bresennol (graddfa, natur, defnydd, lleoliad daearyddol, darparwr, tystiolaeth o ganlyniadau ac effeithiolrwydd). Bod gwybodaeth yn cael ei chofnodi’n systematig.<br><br>Bod awdurdodau lleol yn mapio’r ddarpariaeth leol yn erbyn model pum haen Gyrfa Cymru ac yn erbyn data am anghenion lleol.<br><br>Bod llwybrau dilyniant a dulliau atgyfeirio rhwng haenau wedi’u diffinio. Bod y map darpariaeth llinell sylfaen hwn yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.<br><br>Bod tystiolaeth o’r ymarfer mapio’n cael ei dadansoddi i amlygu bylchau, dyblygu, ac anghenion heb eu bodloni.<br><br>Bod ymwybyddiaeth ysgolion o’r broses Gwarant Ieuenctid yn cael ei chynyddu. | mae gwybodaeth gan bartneriaid wedi’i chofnodi’n systematig yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol.<br><br>Mae’r ddarpariaeth wedi’i mapio yn erbyn y model pum haen.<br><br>Mae gan bob awdurdod lleol fap darpariaeth drafft a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae sawl awdurdod lleol wedi amlygu bylchau yn y ddarpariaeth trwy’r ymarfer mapio darpariaeth yn ogystal â dyblygu. | farchnad lafur.<br><br>Yn gyffredinol, nid yw awdurdodau lleol wedi cynnal ymgynghoriad â phobl ifanc ynglŷn ag anghenion.<br><br>Nid oes ymarfer mapio llawn wedi’i gynnal o atgyfeirio a llwybrau dilyniant eto.<br><br>Mae rhai awdurdodau lleol, ond nid pob un, wedi ystyried y ddarpariaeth sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yn eu hymarfer mapio.<br><br>Yn gyffredinol, nid yw awdurdodau lleol wedi dadansoddi canfyddiadau eu map darpariaeth yn systematig eto yn erbyn tystiolaeth o anghenion pobl ifanc/y farchnad lafur.<br><br>Nid yw llawer o ysgolion o’r farn bod gwerth i’r broses ymgeisio ar-lein sy’n sail i’r Broses Ymgeisio Gyffredin a’r Warant Ieuenctid ac nid ydynt yn ymrwymedig i gynyddu ymwybyddiaeth o’r Warant Ieuenctid. |

| Disgwyliad | Yr hyn sy'n gweithio'n dda | Heriau |
|---|---|---|
| **Gweithredu a mireinio**<br>Bod awdurdodau lleol yn gweithio  gyda rhwydweithiau 14-19 i addasu'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau cynnig mwy cytbwys i bobl ifanc. Bod darpariaeth newydd yn cael ei chomisiynu i lenwi bylchau; bod darpariaeth ddyblyg yn cael ei datgomisiynu.<br><br>Bod awdurdodau lleol yn perswadio a dylanwadu ar golegau addysg bellach, darparwyr dysgu seiliedig ar waith, chweched dosbarthiadau ysgolion a darparwyr y trydydd sector i addasu'r ddarpariaeth.<br><br>Bod awdurdodau lleol yn addasu dulliau a throthwyon atgyfeirio fel y bo'r angen.<br><br>Bod awdurdodau lleol yn gweithio gyda rhwydweithiau 14-19 i gydgrynhoi mapio lleol i lefel ranbarthol er mwyn caniatáu ar gyfer dadansoddi anghenion yn ehangach.<br><br>Bod ysgolion yn cynorthwyo pobl ifanc i gwblhau ceisiadau ar-lein. | Mae enghreifftiau'n dod i'r amlwg o grwpiau strategol yn ymateb er mwyn llenwi bylchau a amlygwyd yn y ddarpariaeth ac ychwanegu at waith gan grwpiau 14-19 a arweinir gan awdurdodau lleol.<br><br>Ceir enghreifftiau o fapiau darpariaeth yn bwydo i gynlluniau rhanbarthol ar gyfer cynigion i Gronfa Gymdeithasol Ewrop. | Mewn llawer o awdurdodau lleol, nid oes cynlluniau eglur ar gyfer sut y bydd bylchau a amlygwyd yn cael eu llenwi a'r dulliau ar gyfer defnyddio'r mapiau darpariaeth yn effeithiol a'u diweddaru fel sail i'r Prosbectws.<br><br>Mae cynnydd o ran y Broses Ymgeisio Gyffredin wedi'i oedi. |
| | | |

| Disgwyliad | Yr hyn sy'n gweithio'n dda | Heriau |
|---|---|---|
| **Darpariaeth barhaus**<br>Bod awdurdodau lleol yn monitro a gwerthuso a yw'r ddarpariaeth yn parhau i fodloni anghenion neu a yw anghenion pobl ifanc wedi newid.<br><br>Bod y map darpariaeth llinell sylfaen yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol.<br><br>Bod Prosbectws y Warant Ieuenctid o'r holl ddarpariaeth ar gael i rieni a phobl ifanc. Bod pobl ifanc yn cwblhau eu ceisiadau ar-lein.<br><br>Bod data o'r Broses Ymgeisio Gyffredin yn cael ei ddadansoddi a bod cymorth wedi'i dargedu yn cael ei gynnig i bobl ifanc nad ydynt wedi derbyn cynnig addas. | Ni chyrhaeddwyd y cam hwn eto. | |

### Cyflogadwyedd

*Yr hyn sy'n digwydd*

4.76 Yn gyffredinol, nid yw awdurdodau lleol wedi bod yn canolbwyntio ar y maes hwn o'r YEPF ac ychydig o gamau gweithredu a gymerwyd ers mis Hydref 2013 a oedd yn cyd-fynd â'r YEPF. Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol a'u partneriaid yn cytuno bod yr elfen hon o'r YEPF heb ei datblygu digon pan ofynnwyd iddynt oherwydd y canolbwyntiwyd ar brosesau ar gyfer adnabod yn gynnar, broceriaeth ac olrhain a datblygu'r map darpariaeth. Roedd y rhan fwyaf yn ymwybodol o weithgareddau mewn ysgolion, colegau, a'r gwasanaethau ieuenctid i

wella proses drosglwyddo pobl ifanc i gyflogaeth a’r angen i adolygu a threfnu’r rhain i ganolbwyntio ar bobl sy’n dod yn NEET.

4.77 Roedd yn ymddangos bod trefniadau llywodraethu strategol ar gyfer y rhan hon o’r fframwaith yn llai datblygedig nag ar gyfer rhannau eraill hefyd. Roedd grwpiau partner eisoes yn bodoli yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol a oedd yn ceisio gwella ymgysylltiad cyflogwyr â sgiliau a hyfforddiant ac arwain ymagwedd strategol tuag at gyflogadwyedd a sgiliau sy’n canolbwyntio ar ddechreuwyr yn ogystal â’r gweithlu presennol. Mewn rhai awdurdodau lleol, ond nid pob un, roedd aelod o’r grŵp strategol cyflogadwyedd a sgiliau’n cymryd rhan yng ngrŵp strategol yr YEPF. Mewn achosion eraill, roedd arweinydd strategol ar gyfer yr YEPF yn cymryd rhan yn y grŵp strategol cyflogadwyedd a sgiliau, sef y grŵp a fydd yn gyfrifol am gamau gweithredu cyflogadwyedd yr YEPF. Mewn o leiaf draean o’r awdurdodau lleol, nid oedd trefniadau strategol wedi’u sefydlu ar gyfer yr elfen hon o’r YEPF.

4.78 Er nad oedd trefniadau llywodraethu strategol wedi’u sefydlu’n dda yn gyffredinol, roedd awdurdodau lleol yn ystyried elfen cyflogadwyedd yr YEPF yn eu gwaith i ryw raddau. Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi cynnwys Twf Swyddi Cymru, Sgiliau Gwaith a darpariaeth cyflogadwyedd arall yn eu map darpariaeth ac yn bwriadu sicrhau bod yr holl weithwyr arweiniol yn ymwybodol o’r cyfleoedd dilyniant sydd ar gael trwy’r rhaglenni hyn. Fodd bynnag, ychydig o awdurdodau lleol oedd yn gallu dangos y byddai dadansoddiad o’r map darpariaeth yn cynnwys asesiad o ba un a yw’r ddarpariaeth leol yn cyd-fynd ag anghenion y farchnad lafur.

4.79 Roedd llawer o awdurdodau lleol wedi cynnwys amcan yn eu cynllun gweithredu YEPF i gynyddu nifer y cyfleoedd lleoliad gwaith, prentisiaethau a chyfleoedd dysgu eraill seiliedig ar waith a gynigir gan gyflogwyr y sector cyhoeddus. Mae’n ymddangos bod awdurdodau lleol wedi canolbwyntio ar y sector cyhoeddus oherwydd ei bod yn haws iddynt weithredu newid yn eu hadrannau eu hunain na dylanwadu ar gyflogwyr sector preifat, er bod eu cydweithwyr Adfywio a Datblygu Economaidd yn cydnabod bod yr olaf yn un o’u targedau. Roedd trafodaethau cwmpasu cynnar wedi’u cynnal mewn rhai awdurdodau lleol i symud gwaith yn ei flaen yn y maes hwn (er enghraifft, Ynys Môn, Powys a Bro Morgannwg). Mae’n ymddangos bod rhai awdurdodau lleol wedi gwneud mwy o gynnydd. Er enghraifft, yn Nhorfaen, mae rhaglen beilot flwyddyn o hyd sy’n cynnig lleoliadau

gwaith yn yr awdurdod lleol i nifer fach o bobl ifanc wedi'i chymeradwyo a bydd gwaith yn dechrau'n fuan i'w sefydlu. Disgwylir i brosiect peilot tebyg ddechrau yng Ngwynedd hefyd. Nid oedd unrhyw awdurdodau lleol wedi datgan yn eu cynlluniau gweithredu nac adrodd yn eu cyfweliadau bod cynyddu cyfleoedd lleoliad gwaith gyda chyflogwyr preifat, gan gynnwys cwmnïau bach a chanolig, yn flaenoriaeth.

4.80 Roedd llawer o awdurdodau lleol hefyd wedi cynnwys amcan yn eu cynllun gweithredu YEPF i sicrhau bod targedau hyfforddiant a chyflogaeth yn cael eu cynnwys mewn contractau caffael a chytundebau adran 106 i gefnogi cyflogaeth leol. Mewn rhai awdurdodau lleol, roedd y gwaith hwn wedi dechrau cyn yr YEPF a bydd yn parhau i gael ei ddatblygu. Er enghraifft, roedd cynllun 'Mwy Na Brics a Morter' Abertawe yn cael ei hyrwyddo'n weithredol gan y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu er mwyn sicrhau bod gan ddealltwriaeth dda o'r cyfleoedd y mae'n ei gynnig.

4.81 Ym mis Chwefror 2015, nid oedd llawer o enghreifftiau o awdurdodau lleol a Gyrfa Cymru yn canolbwyntio ar wella eu gwasanaethau allgymorth a'u cynnig i bobl ifanc mewn swyddi heb hyfforddiant, er bod yr holl bobl ifanc mewn swyddi heb hyfforddiant yn cael llythyr i'w hysbysu am y wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd a'r cyfleoedd hyfforddiant a oedd ar gael iddynt trwy Gyrfa Cymru. Mae'n bosibl bod hyn oherwydd nad ydynt yn cael eu hamlygu a'u holrhain ar ôl 16 oed.

4.82 Nid oedd enghreifftiau ychwaith o awdurdodau lleol ac ysgolion yn cydweithio i wella'r ddarpariaeth Gyrfaoedd a Byd Gwaith. Adroddodd cynrychiolydd o Gyrfa Cymru y byddai gwell gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd yn cael eu darparu yn ystod y tymor ysgol olaf o 2015 ymlaen ar gyfer y rhai hynny sy'n bwriadu symud i gyflogaeth.

4.83 Er nad oedd unrhyw brosiectau cyflogadwyedd newydd wedi'u datblygu o dan yr YEPF at ei gilydd, rhoddodd awdurdodau lleol a phartneriaid enghreifftiau o fentrau sydd eisoes yn bodoli sy'n rhoi cyfleoedd profiad gwaith a lleoliad gwaith i bobl ifanc, y byddant yn eu cynnal neu'n ceisio eu hymestyn yn 2015/16. Mae'r rhain yn cynnwys:

- academi sgiliau a sefydlwyd gan fenter gymdeithasol leol yn Ynys Môn (gweler y blwch isod)
- yng Nghonwy, wythnos brentisiaid pryd y mae darparwyr a chyflogwyr yn ymweld ag ysgolion i hyrwyddo cyfleoedd am brentisiaethau

- ysgolion mewn rhai awdurdodau lleol sy'n gwneud cytundebau'n uniongyrchol â chyflogwyr lleol ynglŷn â sut y byddant yn cefnogi gwell sgiliau cyflogadwyedd trwy ffug gyfweliadau, lleoliadau gwaith a phrosiectau seiliedig ar waith, er enghraifft.

**Datblygu sgiliau cyflogadwyedd: Ynys Môn**

Yn Ynys Môn, mae cynllun profiad gwaith uwch wedi'i ddatblygu yn yr awdurdod lleol ar gyfer pobl ifanc yr amlygwyd eu bod mewn perygl o ymddieithrio. Bwriedir iddo ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd, darparu dysgu achrededig a helpu pobl ifanc i amlygu meysydd galwedigaethol i symud iddynt ar ôl yr ysgol.

Mae ysgol uwchradd wedi gweithio mewn partneriaeth â thîm Cymunedau yn Gyntaf Ynys Môn, a adwaenir fel Môn CF, i gyflwyno'r cynllun. Mae disgyblion 14-16 oed yn treulio un neu ddau ddiwrnod yr wythnos yn gweithio'n wirfoddol gyda mentor Môn CF yn un o'u safleoedd. Mae enghreifftiau'n cynnwys: gweithio ar brosiectau gwella'r amgylchedd mewn safleoedd cymunedol o amgylch Caergybi; gwaith saer yn yr academi sgiliau cymunedol; a gwaith adeiladu yn rhan o brosiect i adnewyddu safleoedd gwag yng nghanol y dref. Caiff pobl ifanc y cyfle i gael cydnabyddiaeth am y sgiliau y maent wedi'u hennill yn rhan o'r rhaglen[19]. Mae hefyd yn ofynnol i'r holl wirfoddolwyr ddilyn hyfforddiant craidd mewn iechyd a diogelwch, codi a chario a chymorth cyntaf. Cynigir dilyniant trwy leoliadau Twf Swyddi Cymru. Mae staff Môn CF yn gweithredu fel canolwyr yn ogystal ag eiriolwyr yn aml yn ystod y cyfweliad swydd er mwyn cynorthwyo pobl ifanc isel eu hyder.

Adroddodd rhanddeiliaid fod pobl ifanc yn teimlo mwy o ysgogiad yn yr ysgol o ganlyniad i'r cynllun profiad gwaith uwch. Ystyrir bod hyn yn rhannol oherwydd eu bod yn gallu gweld perthnasedd llythrennedd a rhifedd, er enghraifft, yn fwy eglur. Hyd yma, mae tua 50 o bobl ifanc wedi sicrhau lleoliadau Twf Swyddi Cymru gyda mwy na deg ar hugain o gyflogwyr.

Dechreuodd y fenter cyn yr YEPF ond mae ei hamcanion yn cyd-fynd yn dda â'r YEPF. Ers cyflwyno'r fframwaith, mae'r awdurdod lleol yn ystyried ymestyn y cynllun i gynnwys mwy o bobl ifanc.

Cyflwynir astudiaeth achos lawn o'r camau a gymerwyd i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn Atodiad 2.

[19] Unedau cymwysterau yw'r rhain a ddarperir gan Agored Cymru a'r Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd ymhlith sefydliadau dyfarnu eraill.

4.84 Mae'r arolwg rhanddeiliaid yn dangos bod ychydig yn llai na thri chwarter (72 y cant o 170 o unigolion) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr holl bartneriaid allweddol yn cydweithio i gefnogi gwell sgiliau cyflogadwyedd ymhlith pobl ifanc, ond dim ond dwy ran o bump (43 y cant o 171 o ymatebwyr) oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr awdurdod lleol yn ymgysylltu â chyflogwyr yn effeithiol i wella sgiliau cyflogadwyedd pobl ifanc ac roedd yr un gyfran (43 y cant o 168 o ymatebwyr) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr awdurdod lleol yn arwain ymagwedd strategol at gyfleoedd profiad gwaith a gwirfoddoli i bobl ifanc. Roedd cyfran uchel o unigolion (rhwng pumed a thraean) wedi ymateb 'ddim yn gwybod' i'r cwestiynau hyn.

*Yr hyn sy'n gweithio'n dda*

4.85 Roedd rhai awdurdodau lleol o'r farn bod yr YEPF wedi helpu i ffurfio cysylltiadau gwaith agosach rhwng gwasanaethau awdurdodau lleol (addysg, ieuenctid, adfywio) er mwyn creu cyfleoedd i bobl ifanc drosglwyddo i gyflogaeth a dewisiadau priodol, yn ogystal â helpu i wella cyfraniad y sector gwirfoddol a chymunedol at ymdrechion strategol i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET. Maent o'r farn y dylai hyn helpu i wella cyfleoedd ar gyfer lleoliadau a gwirfoddoli i bobl ifanc.

*Heriau*

4.86 Adroddodd rhai awdurdodau lleol, yn enwedig y rhai hynny mewn ardaloedd gwledig, fod diffyg trafnidiaeth gyhoeddus dda yn ei gwneud hi'n anodd cynnig cyfleoedd lleoliad gwaith a phrofiad gwaith ymarferol i rai pobl ifanc.

4.87 Mewn awdurdodau lleol lle nad yw'r Uwch Swyddog Atebol yn arwain yn strategol neu lle nad yw rheolwr strategol wedi'i ddynodi'n gyfrifol am yr YEPF, mae'n ymddangos nad oes cysylltiadau wedi'u gwneud eto â grwpiau strategol cyflogadwyedd a sgiliau priodol. Mae'r rhain yn hanfodol er mwyn datblygu'r maes hwn.

*Crynodeb*

**Tabl 4.5 Ystyried dulliau awdurdodau lleol o weithredu elfen cyflogadwyedd yr YEPF**

| **Disgwylir** | **Yr hyn sy'n gweithio'n dda** | **Heriau** |
|---|---|---|
| **Dylunio a chynllunio cychwynnol**<br><br>Bod ffrydiau cyllid awdurdod lleol yn cael eu hamlygu sy'n gallu cefnogi'r gwaith hwn.<br><br>Bod tystiolaeth o fentrau blaenorol yn cael ei hadolygu.<br><br>Bod trefniadau gweithredol yn cael eu sefydlu i integreiddio mentrau cyflogadwyedd yn yr YEPF. | Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi cynnwys Twf Swyddi Cymru a darpariaeth cyflogadwyedd arall yn eu map darpariaeth drafft. | Yn gyffredinol, ychydig o gamau a gynlluniwyd neu a gymerwyd i amlygu mentrau cyflogadwyedd ac integreiddio â nodau'r YEPF.<br><br>Mae trefniadau gweithredol yn llai datblygedig nag ar gyfer meysydd eraill. |
| **Datblygu a hyfforddi**<br><br>Bod Gyrfa Cymru yn adolygu ac asesu effeithiolrwydd y dull presennol o gynorthwyo ysgolion i gyflwyno'r rhaglen Gyrfaoedd a Byd Gwaith.<br><br>Bod Gyrfa Cymru yn adolygu'r dull presennol o amlygu a chynorthwyo pobl ifanc sydd mewn swyddi heb hyfforddiant a bod dull newydd/ diwygiedig yn cael ei ddatblygu os oes angen. | Mae rhai Cydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu sydd wedi'u lleoli mewn adrannau adfywio economaidd awdurdodau lleol wedi gallu sicrhau bod targedau ar gyfer addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn cael eu cynnwys mewn contractau caffael a chytundebau Adran 106. | Yn gyffredinol, nid yw awdurdodau lleol a Gyrfa Cymru wedi canolbwyntio ar wella gwasanaethau allgymorth a'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc sydd mewn swyddi heb hyfforddiant. Nid yw'r bobl ifanc hyn yn cael eu holrhain. |

| Disgwylir | Yr hyn sy’n gweithio’n dda | Heriau |
|---|---|---|
| Bod awdurdodau lleol yn adolygu’r cysylltiadau â Twf Swyddi Cymru ac yn sicrhau bod y rhaglen yn cael ei defnyddio i ddarparu dilyniant ar gyfer cynifer o bobl ifanc â phosibl. | | |
| **Gweithredu a mireinio**<br><br>Bod gwell gwaith partneriaeth gydag ysgolion a chyflogwyr i gyflwyno Gyrfaoedd a Byd Gwaith.<br><br>Yr ymgysylltir â chyflogwyr yn effeithiol.<br><br>Bod gwerthusiad ffurfiannol yn cael ei gynnal o’r cam gweithredu cynnar. Bod y canfyddiadau’n cael eu defnyddio i fireinio’r broses weithredu. | Ni chyrhaeddwyd y cam hwn eto. | |
| **Darpariaeth barhaus**<br>Bod pob maes gweithgarwch yn cael eu monitro a’u gwerthuso. | Ni chyrhaeddwyd y cam hwn eto. | |

### Atebolrwydd

*Yr hyn sy’n digwydd*

4.88 Mae pob awdurdod lleol wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd â Llywodraeth Cymru i drafod cynnydd wrth roi cynllun gweithredu’r YEPF ar waith. Bu cyfathrebu mynych a rheolaidd rhwng cyfarfodydd hefyd. Mae awdurdodau lleol wedi darparu’r wybodaeth a geisiwyd gan

Lywodraeth Cymru at ei gilydd neu, os nad oeddent yn gallu ei darparu, maent wedi rhoi'r rhesymau dros hyn.

4.89 Mae pob awdurdod lleol wedi dechrau derbyn data misol gan Gyrfa Cymru ar nifer y bobl ifanc 16-18 oed ym mhob un o haenau'r model pum haen. Fel y trafodwyd yn yr adrannau 'adnabod yn gynnar' ac 'olrhain' 'uchod, mae'r rhai hynny sydd â chytundebau lleol neu Brotocolau Rhannu Gwybodaeth a gymeradwywyd gan WASPI yn gallu derbyn data a enwyd ar bobl ifanc unigol; mae'r rhai hynny nad oes ganddynt gytundebau neu Brotocolau o'r fath yn derbyn data cyfanredol, dienw. Caiff y data hwn ei ddadansoddi a'i gyflwyno i grwpiau llywio strategol mewn nifer gynyddol o awdurdodau lleol er mwyn hwyluso'r broses o fonitro cynnydd tuag at gynyddu cyfran y bobl ifanc 16-18 oed sydd yn haenau 4 a 5.

4.90 Fel y trafodwyd yn adran 0 ar drefniadau rheoli strategol, mae llawer o awdurdodau lleol hefyd wedi sefydlu trefniadau llywodraethu strategol sy'n cynnwys ystod eang o bartneriaid er mwyn ceisio meithrin cyfrifoldeb ac atebolrwydd a rennir am ganlyniadau pobl ifanc ar lefel leol. Adroddodd rhanddeiliaid cenedlaethol (fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a Cholegau Cymru) fod gweithredu'r YEPF yn cael ei drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rhanbarthol hefyd.

4.91 Mae'r arolwg rhanddeiliaid yn dangos bod mwy na thri chwarter (76 y cant o 195 o ymatebwyr) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n dda rhwng partneriaid ar ôl cyflwyno'r Fframwaith. Mae hyn yn cymharu â 43 y cant (85 o 196 o ymatebwyr) a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf cyn cyflwyno'r YEPF, sef cynnydd 33 pwynt canran. Roedd mwy na dwy ran o dair (71 y cant o 195 o ymatebwyr) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod awdurdodau lleol yn rhannu tystiolaeth o gynnydd â'r holl randdeiliaid allweddol ar ôl cyflwyno'r YEPF.

*Yr hyn sy'n gweithio'n dda*

4.92 Roedd llawer o staff awdurdod lleol a phartneriaid o'r farn y bu gwelliant o ran atebolrwydd am bobl ifanc sy'n NEET neu sydd mewn perygl o fynd yn NEET o ganlyniad i'r YEPF. Er bod strwythurau llywodraethu strategol yn dal i esblygu mewn rhai achosion, roedd llawer o randdeiliaid o'r farn bod y strwythurau sydd ar waith yn sicrhau cyfrifoldebau a rennir rhwng partneriaid allweddol ar y cyfan. Roedd arwyddion eglur bod data'n cael ei rannu'n fwy effeithiol rhwng

partneriaid ac amlygodd sawl un fod derbyn data pum haen misol er mwyn i'r holl bartneriaid graffu arno yn gam pwysig ymlaen.

*Heriau*

4.93 Roedd rhai awdurdodau lleol a phartneriaid yn pryderu y gallai ymrwymiad rhanddeiliaid bylu dros amser oherwydd mai arweiniad anstatudol yw'r YEPF.

4.94 Roedd rhai awdurdodau lleol hefyd yn teimlo bod y cyfrifoldeb am y grŵp oedran 19-24 oed yn llai diffiniedig a bod angen iddo gael ei egluro.

*Crynodeb*

| |
|---|
| **Carreg Filltir 11: Mawrth 2014 – Mae awdurdodau lleol yn datblygu eu cynllun cyffredinol ar gyfer ymgysylltu a datblygu ieuenctid, a'i rannu â Llywodraeth Cymru**<br><br>**Cynnydd yn erbyn y garreg filltir:** CYFLAWNWYD. Mae pob awdurdod lleol wedi rhannu cynllun â Llywodraeth Cymru. |

| |
|---|
| **Carreg Filltir 12: Ebrill 2014 – Cynnal yr adolygiad chwemisol cyntaf rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol**<br><br>**Cynnydd yn erbyn y garreg filltir:** CYFLAWNWYD. |

**Tabl 4.6 Ystyried dulliau awdurdodau lleol o weithredu elfen atebolrwydd yr YEPF**

| Disgwyliad | Yr hyn sy'n gweithio'n dda | Heriau |
|---|---|---|
| **Cam 1**<br>Bod arweinyddiaeth strategol gan yr awdurdod lleol – uwch arweinydd yn cymryd cyfrifoldeb.<br><br>Bod Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu ag awdurdodau lleol i gytuno | Mae pob awdurdod lleol wedi penodi Uwch Swyddog Atebol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar brosesau ar gyfer | Systemau aneglur ar gyfer monitro cynlluniau gweithredu'n systematig mewn awdurdodau lleol.<br><br>Nid yw awdurdodau lleol wedi datblygu cynlluniau eglur ar gyfer cynnwys rhieni a phobl |

| Disgwyliad | Yr hyn sy'n gweithio'n dda | Heriau |
|---|---|---|
| ar broses ar gyfer monitro cynnydd cynlluniau gweithredu lleol.<br><br>Bod awdurdodau lleol yn datblygu dull priodol o gynnwys pobl ifanc a rhieni mewn datblygu'r YEPF. | monitro gydag awdurdodau lleol. | ifanc mewn datblygu'r YEPF.<br><br>Ychydig o enghreifftiau a gafwyd o gasglu safbwyntiau pobl ifanc yn systematig i lywio cynllunio a gweithredu. |
| **Cam 2**<br>Bod awdurdodau lleol yn rhannu eu cynllun gweithredu â Llywodraeth Cymru.<br><br>Bod awdurdodau lleol yn archwilio ac asesu cyfleoedd i weithio gydag awdurdodau lleol eraill mewn cytundebau dwyochrog neu gonsortiwm.<br><br>Bod gwaith partneriaeth cryf rhwng awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Bod pwynt cyswllt o fewn Llywodraeth Cymru yn cael ei neilltuo i bob awdurdod lleol. | Mae pob awdurdod lleol wedi rhannu eu cynllun gweithredu â Llywodraeth Cymru.<br><br>Ceir enghreifftiau o waith partneriaeth da rhwng awdurdodau lleol a rhai trefniadau consortiwm yng ngogledd Cymru.<br><br>Mae pob awdurdod lleol yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd â Llywodraeth Cymru. Mae swyddogion cyswllt wedi'u neilltuo i bob awdurdod lleol.<br><br>Ceir cyfathrebu mynych a rheolaidd rhwng cyfarfodydd. | Mae rhai partneriaid a rhanddeiliaid o'r farn bod cyfrifoldeb ac atebolrwydd am gamau gweithredu ar gyfer pobl ifanc hŷn na 18 oed yn aneglur. |
| **Cam 3**<br>Bod Gyrfa Cymru yn cyhoeddi data monitro ar lefel awdurdod lleol.<br><br>Bod awdurdodau lleol yn | Mae pob awdurdod lleol wedi dechrau derbyn data pum haen misol ac yn gallu gweld ei werth. | Nid yw data monitro'n cael ei ddefnyddio o reidrwydd i asesu tueddiadau a pherfformiad. |

| Disgwyliad | Yr hyn sy'n gweithio'n dda | Heriau |
|---|---|---|
| dadansoddi data Gyrfa Cymru a'i ddefnyddio i addasu'r broses weithredu leol. | | |
| **Cam 4**<br>Bod trafodaethau chwemisol yn cael eu cynnal rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ar gynnydd wrth weithredu'r fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid.<br><br>Bod tystiolaeth o gynnydd yn cael ei rhannu â chymunedau lleol a safbwyntiau pobl ifanc yn cael eu ceisio ar newidiadau sy'n angenrheidiol. | Mae trafodaethau chwemisol yn cael eu cynnal. | |

### Cyfranogiad pobl ifanc

4.95 Roedd bron pob awdurdod lleol heb ymgynghori â phobl ifanc ar yr YEPF na chynnwys pobl ifanc wrth ddatblygu cynlluniau. Adroddodd rhai awdurdodau lleol eu bod wedi casglu adborth yn anffurfiol trwy weithwyr arweiniol sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Roedd eraill yn bwriadu sefydlu fforwm YEPF i bobl ifanc neu weithio trwy ddulliau sydd eisoes yn bodoli (fel arolygon a gynhelir yn rheolaidd neu gynghorau a fforymau ieuenctid sydd eisoes yn bodoli), ond nid ydynt wedi dechrau gweithio ar hyn eto. Yn gyffredinol, roedd awdurdodau lleol yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio dull cyfranogol o gynllunio a darparu'r YEPF, ond roeddent o'r farn bod angen dewisiadau arnynt o ran yr hyn y gallant ei gynnig cyn y gellir cynnal ymgynghoriad ystyrlon. Roedd awdurdodau lleol a oedd wedi ceisio adborth a chyfraniad systematig gan bobl ifanc yn cynnwys:

- Sir Fynwy, a ddefnyddiodd fforwm ieuenctid a oedd eisoes yn bodoli i gael adborth gan bobl ifanc ar yr YEPF. Cyflwynwyd

cynllun gweithredu'r awdurdod lleol i bobl ifanc yn ystod gwersyll haf a hwylusodd y swyddog cyfranogiad drafodaethau i gael adborth

- yng Nghonwy a Sir Ddinbych, roedd y prosiect Llwybrau Ymgysylltu Blaengar (PEP), yn rhan o'r ymarfer mapio darpariaeth, wedi ymgynghori â phobl ifanc trwy ddulliau cyfranogol (bythau fideo lle y gallai pobl ifanc ffilmio eu hunain) ynglŷn â'u safbwyntiau ar ddarpariaeth leol. Disgrifir y prosiect hwn yn y blwch isod.

**Cyfranogiad pobl ifanc mewn ymarfer mapio a dadansoddi darpariaeth: Conwy a Sir Ddinbych**

Yng Nghonwy a Sir Ddinbych, roedd Llwybrau Ymgysylltu Blaengar (PEP) yn brosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop a gomisiynwyd gan y Bwrdd Strategol Lleol. Ei nod oedd gwella cyfleoedd i bobl ifanc 19-24 oed a oedd wedi ymddieithrio ar draws y ddau awdurdod lleol. Elfen allweddol o'r prosiect oedd mapio'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer pobl ifanc 19-24 oed er mwyn amlygu bylchau a dyblygu. Er y datblygwyd y prosiect cyn i'r YEPF gael ei lansio ym mis Hydref 2013, ni chafodd ei gyflwyno tan ar ôl hynny, ac felly fe'i cynhaliwyd yn gyfochrog â cham gweithredu cynnar yr YEPF yng Nghonwy a Sir Ddinbych.

Ochr yn ochr â chasglu gwybodaeth wrth ddesg, cymerodd 61 o bobl ifanc ran mewn gweithdai i gasglu eu safbwyntiau ar ddarpariaeth leol. Rhoddodd rhai pobl ifanc adborth trwy holiadur hefyd. Er mwyn annog pobl ifanc i gymryd rhan:

- gweithiodd y rheolwr prosiect yn agos gyda staff rheng flaen a oedd eisoes wedi datblygu perthynas â phobl ifanc
- defnyddiodd hwyluswyr medrus wahanol dechnegau trafod i annog pobl ifanc i leisio'u barn
- defnyddiwyd dulliau arloesol i alluogi pobl ifanc i gyflwyno eu safbwyntiau. Er enghraifft, roedd bythau fideo yn caniatáu i bobl ifanc roi adborth ar lafar, a gynorthwyodd i oresgyn problemau llythrennedd; a
- thalwyd costau teithio a chynigiwyd bwyd yn y digwyddiadau fel cymhellion.

Dyma'r hyn a ddysgwyd o'r prosiect am gyfranogiad pobl ifanc wrth gynllunio gwasanaethau:

- roedd cynnwys pobl ifanc yn yr ymarfer mapio darpariaeth wedi rhoi dealltwriaeth bwysig o ansawdd a phriodoldeb y ddarpariaeth bresennol ac roedd y rhanddeiliaid o'r farn ei fod o fudd i'r prosiect
- mae angen i gynlluniau prosiect gynnwys trefniadau ar gyfer lledaenu canfyddiadau o ymgynghoriadau â phobl ifanc. Mae rhoi adborth i bobl ifanc a gymerodd ran yn ysgogol iddynt ac yn dangos bod eu

safbwyntiau'n cael eu gwerthfawrogi ac yn bwysig i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau

- mae hefyd yn bwysig rhannu canfyddiadau â phartneriaid. Roedd y rhai hynny a oedd yn gyfrifol am ffurfio darpariaeth o'r farn bod y canfyddiadau o'r ymgynghoriad â phobl ifanc yn arbennig o ddefnyddiol a darbwyllol wrth sicrhau ymrwymiad partneriaid i addasu gwasanaethau er mwyn bodloni anghenion yn well.

Defnyddiwyd yr ymarfer mapio darpariaeth a'r ymgynghoriad â phobl ifanc i ddatblygu gwaith o dan yr YEPF. Mae'r canfyddiadau'n cael eu defnyddio i lywio cynigion rhanbarthol i Gronfa Gymdeithasol Ewrop a fydd yn sicrhau cyllid i ddarparu ar gyfer y bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio fwyaf yng ngogledd Cymru. Mae'r partneriaethau a ddatblygwyd yn rhan o'r prosiect wedi'u cynnal ac yn datblygu agweddau eraill ar yr YEPF. Bu gwaith partneriaeth agosach hefyd rhwng y Ganolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru a'r awdurdod lleol o ganlyniad i'r prosiect.

Cyflwynir astudiaeth achos lawn o fapio darpariaeth yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn rhan o'r prosiect PEP yn Atodiad 2.

4.96 Mae'r arolwg rhanddeiliaid yn dangos bod ychydig yn llai na hanner yr ymatebwyr (47 y cant) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod dulliau priodol ar waith i geisio barn pobl ifanc er mwyn llywio'r broses o ddatblygu a darparu gwasanaethau ar ôl cyflwyno'r YEPF; ychydig yn well na'r sefyllfa cyn cyflwyno'r YEPF, lle'r oedd 39 y cant o unigolion yn cytuno neu'n cytuno'n gryf. Ychydig iawn o unigolion oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod dulliau priodol ar waith i geisio barn rhieni wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau hyd yn oed ar ôl cyflwyno'r YEPF (22 y cant, sef 42 o 195 o unigolion).

**Y cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru**

4.97 Yn gyffredinol, roedd staff awdurdod lleol, partneriaid a rhanddeiliaid cenedlaethol yn canmol tîm yr YEPF am fod yn rhagweithiol, yn hygyrch ac mewn cysylltiad rheolaidd ag awdurdodau lleol. Ar y cyfan, roeddent o'r farn bod y cyfarfodydd â swyddogion cyswllt yn gyfle defnyddiol i geisio eglurhad, adolygu cynnydd a chael arweiniad a chymorth gan Lywodraeth Cymru. Adroddodd sawl un y buont mewn cysylltiad â swyddogion cyswllt rhwng y cyfarfodydd ffurfiol hefyd a'u bod yn derbyn ymatebion cyflym i gwestiynau fel arfer.

4.98 Roedd safbwyntiau ar ddogfennau canllaw ynglŷn ag elfennau penodol o'r YEPF yn fwy cymysg. Adroddodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol fod y canllawiau ar adnabod yn gynnar yn eglur a defnyddiol ac adroddodd sawl un eu bod wedi defnyddio'r canllawiau i ddatblygu eu

systemau. Roedd rhai awdurdodau lleol eraill yn llai cadarnhaol ynglŷn â'r cyfarwyddiadau ar gyfer mapio darpariaeth ac yn teimlo y gallasent wedi bod yn fwy eglur er mwyn osgoi camddealltwriaeth ddiangen.

4.99 Yn gyffredinol, roedd awdurdodau lleol a phartneriaid yn credu bod y gweithgorau rhanbarthol yn ddefnyddiol. Roeddent o'r farn ei bod yn bwysig iddynt gael y cyfle i rannu profiadau a'r hyn a ddysgwyd ag awdurdodau lleol eraill. Crybwyllodd rhai awdurdodau lleol yn arbennig y cawsant gyfle i rannu eu barn ynglŷn â fformat y grŵp a'r pynciau y dylid eu trafod. Roeddent yn teimlo y 'gwrandawyd arnynt' a bod tîm y rhaglen wedi bod yn 'ymatebol iawn'. Adroddodd awdurdodau lleol a oedd wedi gwneud mwy o gynnydd yn erbyn y camau gweithredu yn yr YEPF cyn ei gyflwyno'n swyddogol ym mis Hydref 2013 eu bod yn cael llai o werth o'r grwpiau. Er eu bod yn fodlon rhannu eu profiadau ag awdurdodau lleol a chanddynt brosesau llai datblygedig, dywedasant y byddent hefyd yn hoffi trafodaethau a oedd yn canolbwyntio mwy ar eu hanghenion penodol. Mynegodd rhai cyfweleion bryder bod y gweithgorau rhanbarthol wedi tyfu a'u bod bellach yn rhy fawr.

4.100 Ystyriwyd bod y grant £50,000 yn ddefnyddiol iawn wrth gynorthwyo awdurdodau lleol i ddechrau gweithredu'r YEPF yn brydlon. Roedd rhai awdurdodau lleol wedi defnyddio'r grant i benodi Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu, tra bod eraill wedi'i ddefnyddio i brynu meddalwedd neu blatfform System Gwybodaeth Reoli i gefnogi adnabod yn gynnar. Roedd awdurdodau lleol yn croesawu'r flwyddyn ychwanegol o gyllid y cytunwyd arni ar gyfer 2015/16.

### Negeseuon allweddol

***Adnabod yn gynnar***

- Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eisoes yn gweithredu system adnabod yn gynnar ar gyfer pobl ifanc yn yr ysgol (iau nag 16 oed) yr oedd angen ei datblygu, neu roeddent wedi datblygu a phrofi system ers lansio'r YEPF.
- Er bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi canolbwyntio ar adnabod yn gynnar, mae'r gwaith hwn wedi llithro y tu ôl i'r amserlen mewn sawl awdurdod lleol. Ym mis Chwefror 2015, roedd 20 awdurdod lleol wedi datblygu cynlluniau; roedd dau heb wneud hynny.
- Mae 17 o'r 20 awdurdod lleol wedi dechrau gweithredu eu systemau. Mae sawl un yn ymestyn eu systemau i gynnwys plant

ym Mlynyddoedd 9 a 10.

- Mae'n ymddangos bod awdurdodau lleol sydd wedi datblygu system newydd wedi mabwysiadu proses ddatblygu gadarn, sy'n cynnwys ymgynghori ag ystod o bartneriaid a chael adborth ganddynt, gan gynnwys ysgolion. Mae partneriaid yn gwerthfawrogi'r system newydd ac o'r farn ei bod yn ddefnyddiol. Mae rhanddeiliaid wedi adrodd ar welliannau ers mis Hydref 2013.
- Yr her allweddol o ran systemau adnabod yn gynnar cyn-16 yw sicrhau bod pob ysgol yn defnyddio'r system yn gyson ac yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen. Mae problemau technegol, fel diffyg platfform gwybodaeth reoli unigol ar gyfer ysgolion a'r awdurdod lleol, wedi cyfrannu at oedi mewn rhai awdurdodau lleol.
- Yn gyffredinol, mae prosesau ar gyfer adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio yn llai datblygedig ar gyfer y grŵp oedran 16-18, ond gwnaed cynnydd arwyddocaol ers canol 2014.
- Mae 13 awdurdod lleol wedi datblygu cynlluniau ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed ac mae 10 o'r rhain yn eu rhoi ar waith; nid oedd gan y gweddill gynlluniau ym mis Chwefror 2015
- Mae'n anodd i lawer o awdurdodau lleol a staff Gyrfa Cymru dderbyn hysbysiadau systematig gan bob darparwr ôl-16 am bobl ifanc sy'n ymddieithrio o gwrs neu'n tynnu'n ôl yn ffurfiol. Mae Gyrfa Cymru wedi defnyddio cyfarfodydd adolygu partneriaeth blynyddol fel dull o wella prosesau.

***Broceriaeth***

- Mae tua dwy ran o dair o awdurdodau lleol wedi datblygu cynlluniau a threfniadau ar gyfer gwaith arweiniol. O ran pobl ifanc iau nag 16 oed, mae 12 awdurdod lleol wedi gweithredu'r rhain ac mae tri wedi cytuno ar gynlluniau ar gyfer gwaith arweiniol newydd/cryfach. Mewn tri o'r awdurdodau lleol eraill, mae trefniadau cymharol gadarn eisoes ar waith ar gyfer pobl ifanc iau nag 16 oed a fydd yn parhau. Ni wnaed unrhyw gynnydd yn y gweddill.
- O ran pobl ifanc iau nag 16 oed, mae rhai awdurdodau lleol yn defnyddio paneli ysgol fel fforwm i neilltuo gweithiwr arweiniol ac adolygu cynnydd, tra bod gan eraill fforymau ardal neu awdurdod lleol. Yn achos pobl ifanc 16-18 oed, mae llawer o awdurdodau lleol yn defnyddio grwpiau ymarferwyr amlasiantaethol ar lefel awdurdod lleol neu is-awdurdod lleol. Yn gyffredinol, nid yw awdurdodau lleol

wedi datblygu cynlluniau ar gyfer rheoli achosion yn llawn ac nid yw hyfforddiant wedi'i gynnal ar gyfer gweithwyr arweiniol ar y cyfan.

- Mae ystod o heriau'n gysylltiedig â gweithredu gwaith arweiniol, gan gynnwys: oedi wrth sefydlu Protocolau Rhannu Gwybodaeth, sy'n atal broceriaeth effeithiol; anawsterau wrth drosglwyddo'r neges bod gwaith arweiniol eisoes yn digwydd ac nad yw'n ddull newydd; y bwlch rhwng disodli adnoddau Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer gwaith arweiniol yn ystod cyfnodau pan oedd cyllidebau'n cael eu lleihau; heriau wrth sefydlu a chyfleu proses eglur ar gyfer adnabod yn gynnar a broceriaeth; ac anawsterau wrth annog yr holl bartneriaid i gymryd rhan mewn grwpiau gweithredol i hwyluso broceriaeth. Mae'r awdurdodau lleol sydd wedi gweithredu trefniadau ar gyfer gwaith arweiniol wedi goresgyn y rhan fwyaf o'r rhain.

***Olrhain***

- Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol sydd â system adnabod yn gynnar a arweinir gan ddata ar gyfer pobl ifanc cyn-16 yn yr ysgol, wedi sefydlu prosesau ar gyfer gwaith dilynol ac adolygu unwaith y tymor o leiaf. Mae system o'r fath ar waith mewn 14 awdurdod lleol o leiaf.

- Ceir enghreifftiau o ymdrechion ar lefel leol i gryfhau olrhain ar yr adeg drosglwyddo. Mae'r rhain yn cynnwys: defnyddio grwpiau ymarferwyr i wella rhannu gwybodaeth rhwng darparwyr cyn ac ôl-16; neilltuo tiwtoriaid mewn colegau i weithredu fel cyswllt ag ysgolion penodol; defnyddio gweithiwr arweiniol cyn-16 i barhau i ddarparu cymorth yn ystod y tymor cyntaf mewn darpariaeth ôl-16.

- Ceir enghreifftiau hefyd o awdurdodau lleol yn cryfhau eu trefniadau ar gyfer amlygu pobl ifanc Haen 1, fel defnyddio gweithwyr ieuenctid datgysylltiedig i ymweld ag aelwydydd er mwyn cael gwybod am statws person ifanc. Mae grwpiau ymarferwyr amlasiantaethol ar lefel awdurdod lleol hefyd yn cael eu defnyddio i amlygu pobl ifanc yn Haen 1.

- Yn gyffredinol, mae llai o Brotocolau Rhannu Gwybodaeth ôl-16 ar waith ac felly mae awdurdodau lleol a phartneriaid wedi'i chael yn fwy anodd olrhain y grŵp 16-18 oed. Ar y cyfan, roedd awdurdodau lleol a phartneriaid yn gadarnhaol iawn ynglŷn â derbyn data pum haen misol gan Gyrfa Cymru, hyd yn oed pan fo hwnnw ar gael mewn fformat cyfanredol, dienw yn unig. Mae rhanddeiliaid o'r farn bod hyn yn welliant mawr.

- Ceir pryderon o hyd nad yw rhai ysgolion/colegau/darparwyr dysgu seiliedig ar waith yn darparu gwybodaeth amserol a chyson er mwyn galluogi olrhain. Nid yw'r colegau wedi datblygu system adrodd gyffredin eto.
- Mewn awdurdodau lleol sydd â Phrotocolau Rhannu Gwybodaeth ar waith, ceir enghreifftiau o grwpiau ymarferwyr amlasiantaethol yn olrhain pobl ifanc 16-18 oed yn fisol, sy'n ymddangos fel petai'n gweithio'n dda i atal ymddieithrio a darparu cymorth ychwanegol lle y bo'r angen.
- Ychydig o awdurdodau lleol sydd wedi cymryd unrhyw gamau i wella'r trefniadau ar gyfer olrhain a darparu cymorth i bobl ifanc hŷn na 19 oed a'u trosglwyddo i gymorth arall gan y Ganolfan Byd Gwaith.

***Darpariaeth***

- Mae pob awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd wrth fapio'r ddarpariaeth yn erbyn y model pum haen yn unol â chanllawiau gan Lywodraeth Cymru. Yn y rhan fwyaf o achosion, y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu a arweiniodd y gwaith o gydgysylltu hyn a chysylltu â phartneriaid. Ym mhob awdurdod lleol, mae map darpariaeth drafft wedi'i gynhyrchu sy'n gymharol gynhwysfawr ym marn rhanddeiliaid.
- Er bod sawl awdurdod lleol a phartner yn gwerthfawrogi'r wybodaeth a gawsant o'r ymarfer, mae'n ymddangos y bu dryswch mewn rhai awdurdodau lleol ynglŷn â'r broses a'r diben. Profodd llawer o awdurdodau lleol anawsterau wrth gael gwybodaeth gywir ac amserol gan bob darparwr.
- Ychydig iawn o enghreifftiau a geir o awdurdodau lleol sydd wedi cynnal yr ymarfer mapio darpariaeth ochr yn ochr â dadansoddiad o wybodaeth am y farchnad lafur. O ganlyniad, ychydig o enghreifftiau o geir o ddadansoddi'r ddarpariaeth yn systematig o gymharu ag anghenion pobl ifanc a chyflogwyr.
- Adroddodd sawl awdurdod lleol eu bod wedi amlygu bylchau yn y ddarpariaeth trwy'r ymarfer mapio darpariaeth. Angen cyffredin a amlygwyd ar draws sawl awdurdod lleol yw diffyg darpariaeth Haen 2, a hynny ynghyd â dyblygu darpariaeth Haen 3 mewn rhai achosion.
- Ceir enghreifftiau o fyrddau strategol yr YEPF yn ymateb i fapiau darpariaeth a gwaith grwpiau gweithredol er mwyn dod o hyd i

ddarpariaeth a cheisio llenwi bylchau. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, nid yw'n ymddangos bod unrhyw gynlluniau eglur ar waith ar gyfer sut i fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth a amlygwyd trwy'r ymarfer mapio a sut y bydd y mapiau'n cael eu diweddaru.

- O ran y Broses Ymgeisio Gyffredin, y prif rwystr rhag gweithredu yw sicrhau ymrwymiad ysgolion. Adroddodd staff awdurdod lleol, partneriaid ac ysgolion nad yw llawer o ysgolion yn gweld gwerth yn y cais ar-lein i fodloni'r Warant Ieuenctid.

***Cyflogadwyedd***

- Nid yw awdurdodau lleol wedi canolbwyntio ar yr elfen hon o'r YEPF at ei gilydd, ac felly nid oes llawer o gamau gweithredu newydd wedi'u cymryd ers mis Hydref 2013 o ganlyniad i'r YEPF. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol a'u partneriaid yn cytuno nad yw'r elfen hon o'r YEPF wedi'i datblygu digon ar hyn o bryd.
- Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi cynnwys Twf Swyddi Cymru, Sgiliau Gwaith a darpariaeth cyflogadwyedd arall yn eu map darpariaeth ac yn bwriadu sicrhau bod yr holl weithwyr arweiniol yn ymwybodol o'r cyfleoedd dilyniant sydd ar gael trwy'r rhaglenni hyn.
- Mae llawer o awdurdodau lleol wedi cyfyngu eu cynlluniau gweithredu YEPF i gynyddu nifer y cyfleoedd am leoliadau gwaith, prentisiaethau a chyfleoedd eraill ar gyfer dysgu seiliedig ar waith a gynigir gan gyflogwyr y sector cyhoeddus. Mae hyn yn gwmpas gweithgarwch eithaf cyfyngedig. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae trafodaethau cwmpasu wedi'u cynnal i ddatblygu ystod ehangach o weithgareddau a defnyddio'r ymarfer mapio darpariaeth i gyfrannu at gynlluniau prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop.
- Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn ceisio sicrhau bod pobl ifanc sydd mewn cyflogaeth heb hyfforddiant yn cael eu holrhain a'u cynorthwyo i ddilyn addysg a hyfforddiant.
- Er nad oes unrhyw brosiectau cyflogadwyedd newydd wedi'u datblygu o dan yr YEPF at ei gilydd, rhoddodd awdurdodau lleol a phartneriaid enghreifftiau o fentrau presennol sy'n rhoi gwybodaeth i bobl ifanc am gyfleoedd gyrfaoedd a phrofiad gwaith, y byddant yn eu cynnal neu'n ceisio eu hymestyn.

***Atebolrwydd***

- Yn unol â'r cynllun gweithredu cenedlaethol, mae pob awdurdod lleol wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd â Llywodraeth Cymru i drafod cynnydd wrth roi eu cynllun gweithredu YEPF ar

waith. There has also been frequent and regular communication between meetings.

- Mae pob awdurdod lleol wedi dechrau derbyn data misol gan Gyrfa Cymru ar nifer y bobl ifanc 16-18 oed sydd ym mhob un o haenau'r model pum haen. Caiff y data hwn ei ddadansoddi a'i gyflwyno i grwpiau llywio strategol mewn nifer gynyddol o awdurdodau lleol i hwyluso'r broses o fonitro cynnydd wrth gynyddu cyfran y bobl ifanc 16-18 oed sydd yn haenau 4 a 5.

- Ychydig o awdurdodau lleol sydd wedi gosod unrhyw dargedau lleol ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc NEET. Y rheswm am hyn, yn gyffredinol, yw nad yw'r systemau data ar waith i osod meincnodau a thargedau ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed.

***Cyfranogiad pobl ifanc mewn datblygu a darparu'r YEPF***

- Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi ymgynghori â phobl ifanc ynglŷn â'r YEPF eto. Maent o'r farn bod angen i'r broses weithredu ddatblygu ymhellach cyn y gellir cynnal ymgynghoriad ystyrlon.

***Y cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru***

- Yn gyffredinol, roedd awdurdodau lleol a phartneriaid o'r farn bod y cyfathrebu, y cyfleoedd rhwydweithio a'r cymorth a ddarperir gan dîm rhaglen YEPF Llywodraeth Cymru yn amserol ac yn ddefnyddiol. Roedd yr unig bryder yn ymwneud â'r canllawiau ar fapio darpariaeth.

- Croesawyd y grant a'i estyniad hyd at 2015/16 ac mae wedi galluogi awdurdodau lleol i weithredu'r YEPF, gan gynnwys ariannu Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu.

## 5. Asesu cynnydd

5.1 Mae'r adran hon yn dwyn ynghyd y canfyddiadau a'r dadansoddiad a gyflwynwyd yn yr adrannau blaenorol i gyflwyno casgliadau mewn perthynas ag amcanion allweddol yr astudiaeth. Mae'n mynd ymlaen i wneud argymhellion er mwyn cynorthwyo Bwrdd y Rhaglen a staff polisi Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r Fframwaith a gwella eu harweiniad a'u cymorth i awdurdodau lleol yn ogystal â'r hyn y gellid ei wneud gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i oresgyn problemau a chyflymu gweithgareddau.

**Casgliadau**

*Sail resymegol cynlluniau gweithredu YEPF lleol*

5.2 Yr heriau o ran gweithredu'r YEPF yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol oedd:

- parhau i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET yn 16 oed (tuag at ddileu)
- cynyddu cymwyseddau a lefelau cyrhaeddiad pobl ifanc i gyfateb i anghenion y farchnad lafur a gofynion dilyniant addysg a hyfforddiant fel bod llai o bobl ifanc hŷn nag 16 oed yn NEET
- mynd i'r afael â'r lefelau uwch o lawer o bobl ifanc 17 oed a hŷn sy'n NEET sy'n cyfrannu at ddiweithdra cymharol uchel ymhlith pobl ifanc 18-24 oed
- dileu unrhyw wahaniaethau economaidd-gymdeithasol a demograffig.

5.3 Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn a chyflawni'r targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, byddem felly'n disgwyl cynlluniau gweithredu sy'n cydbwyso gweithgareddau i leihau'r problemau a wynebir gan y rhai hynny sy'n 16 oed (a ddylai leihau cyfran y bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf) â gweithgareddau i leihau nifer y bobl ifanc 17 oed a hŷn sy'n NEET ar hyn o bryd wrth iddynt symud ymlaen mewn addysg a hyfforddiant a chael cyflogaeth.

5.4 Mae'r cynlluniau a'r camau gweithredu a ddatblygwyd gan awdurdodau lleol yn awgrymu'r canlynol, yn gyffredinol:

- eu bod yn canolbwyntio ar leihau nifer a chyfran y bobl ifanc sy'n NEET yn 16 oed fel sail i leihau nifer y rhai hŷn sy'n NEET

- eu bod yn dechrau mynd i’r afael â sut y gallant leihau nifer y bobl ifanc sy’n dod yn NEET yn 17 a 18 oed trwy ddarpariaeth, arweiniad ar ddewisiadau, adnabod yn gynnar a broceriaeth, ac olrhain
- nad ydynt eto’n mynd i’r afael yn eglur â sut y byddant yn cynyddu sgiliau cyflogadwyedd a pharod am waith mewn ysgolion a darparwyr ôl-16 er mwyn darparu sylfaen gadarn i bobl ifanc pan fyddant yn cwblhau addysg a hyfforddiant fel y gallant leihau’r rhai hynny sy’n NEET yn 19-24 oed
- o’r hyn yr ydym ni wedi’i weld, nad yw cynlluniau’n cael eu diwygio’n rheolaidd i ystyried a datblygu cynlluniau gweithredu newydd er mwyn symud y broses o weithredu’r Fframwaith yn ei blaen. Byddai’n helpu petai’r cynlluniau’n cael eu hadolygu a’u diweddaru’n flynyddol o leiaf.

*Rheolaeth awdurdodau lleol o’r YEPF*

5.5 Roedd trefniadau rheolaeth strategol ar gyfer yr YEPF a ddatblygwyd ers mis Hydref 2013 yn cyrraedd pwynt lle’r oeddent wedi’i sefydlu’n dda yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol. Roedd pob awdurdod lleol wedi penodi Prif Swyddog Atebol ac roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi sefydlu grŵp llywio strategol ar gyfer yr YEPF. Roedd llawer wedi gallu ychwanegu at drefniadau presennol a’u diweddaru, a oedd wedi helpu i sefydlu trefniadau llywodraethu cadarn. Mae’n ymddangos bod aelodaeth grwpiau’n gymharol gynhwysfawr, er bod rhai awdurdodau lleol wedi adrodd ar fylchau mewn aelodaeth y maent yn ceisio eu llenwi. Er bod y sylfeini wedi’u paratoi yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, roedd rhai nad oeddent wedi sefydlu trefniadau llywio digonol.

5.6 Er ei bod yn rhy gynnar i asesu effeithiolrwydd trefniadau llywio’n llawn – ychydig o weithiau yn unig yr oedd rhai grwpiau wedi cyfarfod – roedd enghreifftiau’n dod i’r amlwg o arweinyddiaeth gref gan Uwch Swyddogion Atebol mewn rhai awdurdodau lleol. Roedd aelodau grwpiau strategol hefyd yn gadarnhaol ynglŷn â’r trefniadau ac yn credu eu bod yn cyfrannu at waith partneriaeth a rhannu gwybodaeth cryfach er mwyn sefydlu elfennau’r Fframwaith.

5.7 Roedd rhai awdurdodau lleol wedi amlygu lleihau nifer y bobl ifanc sy’n NEET fel blaenoriaeth yn eu Cynllun Integredig Sengl ac, yn yr awdurdodau lleol hyn, mae grŵp strategol yr YEPF yn adrodd yn uniongyrchol i’r Bwrdd Gwasanaethau Lleol neu is-grŵp. Cydnabuwyd

bod hyn yn fodd o sicrhau bod yr YEPF yn faes strategol blaenoriaethol a bod lefel uwch o graffu ac atebolrwydd yn yr awdurdod lleol ac ymhlith ei bartneriaid.

5.8 Mewn llawer o awdurdodau lleol, roedd ad-drefnu parhaus yn mynd rhagddo o ganlyniad i newidiadau i gyllid. Mewn rhai achosion, roedd hyn wedi oedi datblygiad trefniadau llywodraethu, lleihau cyfranogiad ac arwain at newidiadau mewn presenoldeb. Mae hyn yn risg bosibl i weithredu'r YEPF.

*Dulliau awdurdodau lleol o weithredu'r YEPF*

5.9 Risg fawr i weithredu'r YEPF yw'r ffaith nad oedd awdurdodau lleol yn defnyddio dull rheoli prosiect cadarn. Nid yw cynlluniau gweithredu'n amlinellu'n ddigonol yr allbynnau, y camau gweithredu, y cerrig milltir a'r adnoddau sy'n angenrheidiol ar gyfer darparu. Yn allweddol, nid yw'r cynlluniau gweithredu'n amlinellu 'llwybr hollbwysig' ychwaith – sef disgwyliad ynghylch dilyniant camau gweithredu a'r gyd-ddibyniaeth rhyngddynt. Mae hyn yn gwneud monitro cynnydd ac adnabod risgiau'n anodd iawn. O ganlyniad, mae angen dull rheoli prosiect cadarn ar awdurdodau lleol er mwyn goruchwylio'r broses o weithredu'r YEPF ac ailffurfio cynlluniau gweithredu ar gyfer monitro strategol effeithiol.

5.10 Mae'n galonogol bod Cydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu wedi'u penodi ym mhob awdurdod lleol a bod y rhan fwyaf o randdeiliaid yn credu eu bod yn gwneud gwahaniaeth. Mae rhai awdurdodau lleol wedi cynnwys cyfrifoldebau datblygu gweithredol a strategol y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu mewn un rôl, tra bod eraill wedi rhannu cyfrifoldebau rhwng gwahanol rolau. Lle nad yw cyfrifoldebau strategol a gweithredol wedi'u rhannu, ceir mwy o berygl nad yw cynlluniau'n cael eu monitro a'u cydgysylltu ac na fydd y broses o weithredu trefniadau ar gyfer adnabod ac olrhain yn gynaliadwy. Gallai hyn ddod yn fwyfwy heriol pan fydd y Fframwaith yn cael ei ymsefydlu mewn arferion safonol ac y disgwylir i'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu ddatblygu elfennau'r Fframwaith sy'n weddill.

5.11 Mae hefyd yn galonogol bod mwy o Brotocolau Rhannu Gwybodaeth ar waith, ond nid yw hyn wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y chwe mis diwethaf. Dylai awdurdodau lleol nad oes ganddynt Brotocol Rhannu Gwybodaeth eto ganolbwyntio ar hyn fel blaenoriaeth oherwydd bod methiant i sefydlu Protocol Rhannu Gwybodaeth yn rhwystro cynnydd o ran adnabod yn gynnar, olrhain a broceriaeth.

5.12 Mae rhai awdurdodau lleol wedi defnyddio'r grantiau £50,000 gan Lywodraeth Cymru i dalu cyflog Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu. Er bod hyn wedi helpu i gychwyn y broses weithredu, mae'n achos pryder nad yw rhai awdurdodau lleol wedi amlygu cyllid parhaus ar gyfer y rôl hon eto. Mae gweithredu effeithiol yn dibynnu ar arweinyddiaeth a chydgysylltiad gan awdurdodau lleol, felly mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt gynlluniau tymor canolig i dymor hir cadarn ar waith ar gyfer swyddogaethau Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu.

*Y cynnydd a wnaed gan awdurdodau lleol ar bob un o'r elfennau*

*(a) Adnabod yn gynnar*

5.13 Nid yw'r cerrig milltir yn y cynllun gweithredu cenedlaethol yn ymwneud ag adnabod yn gynnar wedi'u cyflawni'n llawn, ond mae cynnydd yn cael ei wneud tuag atynt. Nid yw rhai awdurdodau lleol wedi'u sefydlu ar gyfer cyn-16 ac ôl-16, sy'n achos pryder.

5.14 Mae systemau ar gyfer amlygu pobl ifanc cyn-16 sydd mewn perygl o ymddieithrio wedi'u sefydlu'n gymharol dda. Erbyn hyn, mae gan oddeutu dri chwarter yr awdurdodau lleol systemau ar waith a arweinir gan ddata ond sy'n caniatáu ar gyfer cyfraniad gan ymarferwyr; yn dilyn ymarfer seiliedig ar dystiolaeth ac yn cynnwys dangosyddion craidd ymddygiad, presenoldeb a chyrhaeddiad. Fodd bynnag, nid oedd gan chwarter yr awdurdodau lleol system adnabod yn gynnar cyn-16 a arweinir gan dda. Mae angen i awdurdodau lleol hefyd barhau i wneud ymdrech i gynnwys pob ysgol yn y broses adnabod yn gynnar oherwydd nid yw eu cyfranogiad yn y trefniadau gweithredol a'u cyfraniad atynt yn gyson ar draws ysgolion ar hyn o bryd.

5.15 Roedd y prosesau ar gyfer amlygu pobl ifanc ôl-16 yn cael eu datblygu'n well, er bod 9 awdurdod lleol heb ddatblygu cynlluniau.

5.16 Er bod enghreifftiau o ddarparwyr ôl-16 (colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith yn ogystal ag ysgolion) a chanddynt eu systemau mewnol eu hunain ar gyfer adnabod yn gynnar, nid oedd y rhain ar waith gan bob darparwr nac wedi'u sefydlu i ymgysylltu â chyflogwyr sy'n recriwtio pobl ifanc yn uniongyrchol ac nad ydynt yn darparu hyfforddiant. Dylai adnabod yn gynnar ôl-16 barhau i wella wrth i fwy o Brotocolau Rhannu Gwybodaeth gael eu sefydlu. Roedd awdurdodau lleol a oedd eisoes wedi sefydlu Protocol Rhannu Gwybodaeth wedi dechrau gweld y manteision a ddaw yn sgil y gallu i rannu data ar bobl

ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio rhwng asiantaethau a chynnwys ymarferwyr mewn trafodaethau. Fodd bynnag, ni fydd Protocol Rhannu Gwybodaeth ar ei ben ei hun yn ddigon i sicrhau gwelliannau yn y maes hwn. Mae'r ymrwymiad gan ddarparwyr ôl-16 i ddarparu a rhannu gwybodaeth mewn fforymau amlasiantaethol ôl-16 yn amrywiol.

*(b) Broceriaeth*

5.17 Mae hyn yn awgrymu bod gwaith arweiniol ar gyfer pobl ifanc iau nag 16 oed yn ymddangos fel petai wedi'i ddatblygu'n gymharol dda ar y cyfan, gyda llawer o enghreifftiau o baneli amlasiantaethol ar lefel awdurdod lleol neu ysgol ar waith i neilltuo gweithwyr arweiniol a broceru pecyn cymorth. Roedd rhai awdurdodau lleol wedi datblygu canllawiau ysgrifenedig a diagramau proses i gynorthwyo'r holl randdeiliaid i ddeall eu rôl yn y broses.

5.18 Nid oedd gwaith arweiniol a broceriaeth ar gyfer pobl ifanc hŷn nag 16 oed wedi'i ddatblygu cystal, ond roedd cynnydd arwyddocaol wedi'i wneud yn 2014 i sefydlu a gweithredu'r rhain.

5.19 Roedd ychydig dros chwarter yr awdurdodau lleol heb wneud cynlluniau i gyflwyno broceriaeth a gwaith arweiniol ar gyfer pobl ifanc cyn-16 ac ôl-16. Mae hefyd yn annhebygol y byddant yn gwneud hynny erbyn mis Hydref 2015 gan eu bod yn tueddu i fod yn awdurdodau lleol sydd heb Brotocolau Rhannu Gwybodaeth na bwriad i enwi staff yn weithwyr arweiniol o fewn adnoddau presennol.

5.20 Nid oedd hyfforddiant ar gyfer gweithwyr arweiniol wedi'i sefydlu ac nid oedd cynlluniau ar gyfer rheoli achosion wedi'u cytuno.

*(c) Olrhain*

5.21 Roedd y prosesau ar gyfer olrhain pobl ifanc iau nag 16 oed wedi'u datblygu'n gymharol dda. Roedd ysgolion a chanddynt system gadarn ar waith ar gyfer adnabod yn gynnar hefyd yn tueddu i fod â phroses wedi'i sefydlu ar gyfer adolygu cynnydd yn rheolaidd. Mae'r rhai hynny nad ydynt yn defnyddio system adnabod yn gynnar eto'n tueddu i fonitro cynnydd yn llai systematig. Mae'r un her sy'n ymwneud â sicrhau bod pob ysgol yn cymryd rhan mewn adnabod yn gynnar yn berthnasol i olrhain hefyd.

5.22 Mae'r prosesau ar gyfer olrhain ar yr adeg trosglwyddo o ddarpariaeth cyn-16 i ôl-16 yn amrywio'n sylweddol rhwng awdurdodau lleol. Roedd gan rai awdurdodau lleol brosesau ar gyfer rhannu gwybodaeth a data

adnabod yn gynnar cyn-16 â darparwyr ôl-16 a oedd wedi'u sefydlu cyn yr YEPF neu a ddatblygwyd ers ei lansio.

5.23 Roedd prosesau ar gyfer olrhain pobl ifanc 16-18 oed yn cael eu rhoi ar waith mewn rhai awdurdodau lleol yn gyffredinol lle'r oedd Protocol Rhannu Gwybodaeth a gweithwyr arweiniol wedi'u sefydlu. Y ddau rwystr allweddol rhag olrhain ôl-16 oedd: darparwyr ôl-16 yn methu â hysbysu Gyrfa Cymru'n brydlon am y rhai a oedd yn tynnu'n ôl a diffyg Protocol Rhannu Gwybodaeth cadarn ar waith i alluogi rhannu gwybodaeth. Roedd enghreifftiau o arferion yn y maes hwn i oresgyn y problemau hyn, ond nid oeddent wedi'u cyflwyno'n gyson eto gan bob darparwr. Nid oedd rhai awdurdodau lleol, yn enwedig y rhai hynny nad oeddent wedi rhoi systemau adnabod yn gynnar ôl-16 safonedig ar waith, wedi cymryd unrhyw gamau i wella olrhain ôl-16.

5.24 Nid oedd olrhain ôl-18 wedi bod yn flaenoriaeth i awdurdodau lleol yn gyffredinol. At ei gilydd, nid oedd pobl ifanc ôl-18 yn cael eu holrhain ac nid oedd trefniadau cadarn ar waith wrth drosglwyddo o gymorth Gyrfa Cymru i gymorth gan y Ganolfan Byd Gwaith. Gallai hyn elwa ar arweiniad a chymorth gan Lywodraeth Cymru.

*(ch) Darpariaeth*

5.25 Roedd y garreg filltir yn y cynllun gweithredu cenedlaethol i awdurdodau lleol ddatblygu map llinell sylfaen drafft o'r ddarpariaeth erbyn mis Mawrth 2014 wedi'i chyflawni (er bod y mapiau drafft wedi'u cwblhau yn ystod yr haf 2014 yn bennaf). Mae'n ymddangos bod Cydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu wedi arwain y broses ar gyfer casglu gwybodaeth gan ddarparwyr yn effeithiol ac roedd ystod eang o bartneriaid wedi cyfrannu gwybodaeth. Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid o'r farn bod y rhain yn gymharol gynhwysfawr.

5.26 Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oedd awdurdodau lleol wedi symud ymlaen i'r cam nesaf, sef dadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd yn systematig a chymryd camau i lenwi bylchau a amlygwyd yn y ddarpariaeth. Hyd yma (Chwefror 2015), roedd rhai awdurdodau lleol wedi amlygu nodweddion cyffredinol (er enghraifft, efallai eu bod wedi adrodd ar fwlch mewn darpariaeth Haen 2), ond nid oedd asesiad manwl o'r ddarpariaeth bresennol yn erbyn anghenion pobl ifanc ac anghenion y farchnad lafur leol wedi'i gynnal. Er mwyn paratoi ar gyfer y Broses Ymgeisio Gyffredin, mae angen sefydlu proses ar gyfer diweddaru'r mapiau darpariaeth hefyd.

5.27 O ran cynnydd â'r Broses Ymgeisio Gyffredin, y prif beth sy'n rhwystro awdurdodau lleol rhag ei gweithredu'n llwyddiannus yw sicrhau ymgysylltiad ysgolion. Ar hyn o bryd, nid yw llawer o ysgolion yn ymrwymo i ddefnyddio'r broses ymgeisio ar-lein a'i hyrwyddo ymhlith pobl ifanc.

*(d) Cyflogadwyedd*

5.28 Mae angen i awdurdodau lleol ganolbwyntio ar y maes cyflogadwyedd oherwydd nid oes llawer o gamau gweithredu wedi'u cynnal sydd â chysylltiad agos â'r YEPF gan fod y pwyslais wedi bod ar feysydd eraill. Mae'r rhain yn angenrheidiol bellach er mwyn lleihau'r graddau y bydd pobl ifanc mewn perygl o fod yn NEET.

*(dd) Atebolrwydd*

5.29 Yn gyffredinol, roedd elfen atebolrwydd yr YEPF yn cael ei datblygu mewn rhannau. Fel yr amlygwyd yn y drafodaeth ynglŷn â threfniadau rheolaeth strategol, roedd Uwch Swyddogion Atebol wedi'u penodi ac roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi sefydlu grwpiau llywio strategol newydd neu ddiweddaru grwpiau a oedd eisoes yn bodoli. Ystyriwyd bod hyn wedi cyfrannu at well atebolrwydd.

5.30 Fodd bynnag, roedd meysydd arwyddocaol i'w gwella:

- sicrhau bod dulliau priodol ar waith i bobl ifanc a rhieni gyfrannu at ddatblygu'r YEPF trwy roi adborth a safbwyntiau
- sefydlu systemau, targedau a data i roi cyfrif am gynnydd a pherfformiad i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid lleol (trwy'r SIP)
- sefydlu atebolrwydd mwy eglur am ganlyniadau i bobl ifanc hŷn na 18 oed.

*Yr arweiniad a'r cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru*

5.31 Yn gyffredinol, roedd awdurdodau lleol yn gwerthfawrogi'r arweiniad a'r cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ac roeddent o'r farn bod y cyfarfodydd â swyddogion cyswllt a'r cyfarfodydd gweithgor rhanbarthol yn ddefnyddiol. Roedd y rhan fwyaf o'r farn bod y dogfennau canllaw'n ddefnyddiol, ond roedd rhai'n credu bod yr arweiniad ar fapio darpariaeth yn aneglur. Maes i'w wella yw sicrhau bod gweithgorau rhanbarthol yn bodloni anghenion yr holl awdurdodau lleol, gan

gynnwys y rhai hynny sydd wedi gwneud y cynnydd mwyaf o ran camau gweithredu allweddol.

5.32 Roedd awdurdodau lleol yn croesawu'r grantiau £50,000 i gefnogi'r broses o weithredu hyd at ddiwedd mis Mawrth 2016. Roedd cyllid ar gyfer gwasanaethau awdurdod lleol sy'n ymwneud â gweithredu'r YEPF, fel gwasanaethau ieuenctid, yn cael ei leihau at ei gilydd ac roedd hyn yn cael rhywfaint o effaith ar yr ymateb trefniadaethol yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol. Roedd yn ymddangos bod rhai'n ymdopi'n well nag eraill i ad-drefnu staff a chyllid er mwyn darparu broceriaeth, er enghraifft.

5.33 Nid oedd rhai gweithgareddau a arweinir gan Lywodraeth Cymru wedi cefnogi cynnydd yn unol â cherrig milltir yr YEPF, er nad oedd y rhain wedi bod yn allweddol i ddatblygu trefniadau adnabod yn gynnar, broceriaeth ac olrhain. Roeddent yn cynnwys:

- datblygu'r ffurflen ymgeisio gyffredin ar-lein a'r Broses Ymgeisio Gyffredin
- datblygu'r arolwg cyrchfan i gasglu gwybodaeth am gyrchfannau pobl ifanc 17 a 18 oed mewn colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith
- cyflymder datblygu prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer cyfnod rhaglen 2014-20.

5.34 Mae'n ymddangos fel petai llawer o'r rhwystrau rhag cynnydd yn ymwneud â'r graddau y mae awdurdodau lleol a'u partneriaid wedi blaenoriaethu a datblygu gweithgareddau a fyddai'n rhoi'r YEPF ar waith (Protocolau Rhannu Gwybodaeth, grwpiau strategol a gweithredol, cydweithredu ac ymgysylltu gan ysgolion a cholegau, systemau data ysgolion ac yn y blaen). Er bod awdurdodau lleol unigol yn gallu esbonio eu cynnydd cymharol a darparu rhesymau dros beidio â datblygu mor gyflym ag eraill, mae'n amlwg yn amrywiol ac yn dod yn ddargyfeiriol.

5.35 Mae'n amheus a fyddai gofyniad statudol yn ychwanegol at newidiadau i'r fframwaith atebolrwydd ar gyfer ysgolion a cholegau (defnyddio canlyniadau cyrchfan) yn gwneud gwahaniaeth i gyflymder cynnydd o ran gweithredu. Yn ddiweddarach, pan fydd y llywodraeth yn canolbwyntio llai ar y rhaglen ac na fydd cyllid grant ar gael ar gyfer Cydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu, mae'n bosibl y gallai arweiniad statudol ddiogelu'r cynnydd a wnaed.

*Mesur effaith yr YEPF*

5.36 Mae'r asesiad o'r dulliau posibl o gynnal gwerthusiad gyda sefyllfa wrthffeithiol yn awgrymu na fyddai dull lled-arbrofol yn briodol oherwydd ni fyddai'n bosibl sefydlu grŵp cymharu yng Nghymru nac mewn man arall.

5.37 Mae'n bosibl dadansoddi tueddiadau lle mae data dangosydd ar gael cyn i'r YEPF gael ei lansio ac yn parhau'n ddigyfnewid yn ystod y rhaglen (dros bum mlynedd) ac i fesur y pellter a deithiwyd (dull cyn ac ar ôl) lle mae dangosyddion ar gael fel llinell sylfaen a thrwy gyfnod y rhaglen a thu hwnt. Byddai angen asesu ychwanegolrwydd y Fframwaith ar gyfer y dull hwn.

5.38 O ran y dangosyddion sy'n angenrheidiol i gynnal gwerthusiad o'r YEPF i fesur ei lwyddiant (ar gyfer allbynnau yn ogystal â chanlyniadau ac effeithiau), gellir mesur llawer gan ddefnyddio data eilaidd a reolir gan Lywodraeth Cymru a chyrff cenedlaethol eraill (gan gynnwys Gyrfa Cymru, yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chomisiwn y Deyrnas Unedig dros Gyflogaeth a Sgiliau). Byddai'n rhaid casglu data o gronfa ddata IO Gyrfa Cymru ar gyfnodau penodol gan ei bod yn gronfa ddata fyw.

5.39 I rai, byddai'n golygu:

- bod awdurdodau lleol yn casglu data yn eu cynlluniau gweithredu YEPF y byddai angen ei ddilysu gan werthuswyr mewn rhai achosion trwy ymchwil ansoddol
- cysylltu data (fel rhwng y gronfa ddata IO a data cyflogaeth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi gan ddefnyddio rhifau yswiriant gwladol; neu'r gronfa ddata IO a data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru/Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion); ac
- ymchwil wreiddiol atodol yn arolygu pobl ifanc a rhanddeiliaid.

5.40 Manylir ar y rhain mewn adroddiad ar wahân ar asesiad o'r effaith. Os cymerir camau yn ystod gweddill 2015 a rhan gyntaf 2016 i lenwi bylchau, byddai hyn yn cryfhau gwerthusiad o'r effaith y gellid ei gynnal rhwng diwedd 2016 a chanol 2017 er mwyn casglu canlyniadau tymor canolig a thymor hwy disgwyliedig yr YEPF.

**Argymhellion**

*Dulliau awdurdodau lleol o reoli'r YEPF*

5.41 Dylai tîm y rhaglen:

- fonitro cynnydd yn ofalus o ran trefniadau llywodraethu strategol yn yr awdurdodau lleol hynny lle nad ydynt wedi'u sefydlu eto. Os oes angen, dylai arweinwyr y rhaglen drafod unrhyw rwystrau gydag Uwch Swyddogion Atebol a darparu cymorth i'w goresgyn
- sicrhau bod cyfarfodydd un i un yn cael eu cynnal ag Uwch Swyddogion Atebol yn rhan o'r cyfarfodydd adolygiad blynyddol chwemisol. Dylai hyn sicrhau bod yr YEPF yn parhau i fod yn flaenoriaeth i uwch reolwyr, eu bod yn ymwneud â darparu arweinyddiaeth strategol, a'u bod yn cymryd camau i ddatblygu'r broses weithredu
- cynnal adolygiadau'n gynt yn yr awdurdodau lleol lle mae cynnydd ar adnabod yn gynnar, broceriaeth ac olrhain ymhell y tu ôl i'r amserlen
- cynghori Uwch Swyddogion Atebol a Chydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu bod yn rhaid i gynlluniau gweithredu ymdrin â datblygu a gweithredu pob elfen o'r YEPF dros ddwy i dair blynedd, cael eu diwygio, bod mewn ffurf sy'n galluogi monitro strategol, a chynnwys canlyniadau a thargedau a fyddai'n sicrhau craffu ac atebolrwydd ar gyfer y cynllun ar lefel uwch gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid.

*Dulliau awdurdodau lleol o weithredu'r YEPF*

5.42 Dylai tîm y rhaglen:

- barhau i weithio'n agos gyda staff yn adran Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) er mwyn sicrhau bod Protocolau Rhannu Gwybodaeth yn cael eu cymeradwyo cyn gynted â phosibl. Os amlygir unrhyw gamgymeriadau neu broblemau cyffredin mewn Protocolau Rhannu Gwybodaeth drafft, dylid rhannu'r rhain ag awdurdodau lleol sydd wrthi'n llunio Protocolau Rhannu Gwybodaeth fel y gallant osgoi'r un camgymeriadau ac y gellir cyflymu'r broses

- amlygu hyfforddiant a chymorth perthnasol i awdurdodau lleol ar fethodoleg rheoli prosiect os nad yw hyn ar gael iddynt. Dylai hyn arwain at well cynlluniau gweithredu sy'n amlygu llwybr hollbwysig, cerrig milltir eglur a'r adnoddau sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni. Dylai hyn helpu awdurdodau lleol i fonitro eu cynnydd eu hunain a rheoli risgiau
- datblygu canllawiau ar elfen cyflogadwyedd y fframwaith a fyddai'n galluogi awdurdodau lleol a phartneriaid i ddatblygu ymatebion mwy cydlynol i ofynion y Fframwaith
- parhau i weithio'n agos ac yn gydweithrediadol â phartneriaid cenedlaethol fel Colegau Cymru, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a Chyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol. Dylai'r partneriaid hyn barhau i annog eu haelodau a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli i gymryd rhan yn llawn mewn gweithredu'r YEPF. Cyn belled ag y bo'n bosibl, dylai gweithredu'r YEPF fod yn eitem flaenoriaeth mewn cyfarfodydd lleol a rhanbarthol
- yn ystod 2015/16, sefydlu sut mae awdurdodau lleol yn bwriadu datblygu a chefnogi unrhyw weithgareddau gweithredu sy'n weddill (gan gynnwys yr adnoddau staffio ar gyfer yr YEPF) er mwyn sicrhau y cyrhaeddir targedau'r Llywodraeth ac i asesu a fyddai arweiniad statudol yn lleihau risg methiant.

*Gweithredu'r chwe elfen*

5.43 Dylai tîm y rhaglen geisio darparu cymorth wedi'i deilwra i awdurdodau lleol, cyn belled ag y bo'n bosibl, mewn perthynas â phob un o'r chwe elfen. Mae dull mwy penodol yn debygol o fod yn fwy defnyddiol ac effeithiol ar y cam hwn nag arweiniad a chymorth mwy cyffredinol. Gellid darparu hyn trwy gyfarfodydd amlach â swyddogion cyswllt a monitro detholus, ond hefyd trwy gynnig broceru cymorth/arweiniad gan awdurdodau lleol eraill.

5.44 Dylai tîm y rhaglen:

*(a) Adnabod yn gynnar*

- Sicrhau bod awdurdodau lleol nad oes ganddynt systemau adnabod yn gynnar canolog, safonedig ar gyfer y grwpiau oedran cyn-16 ac ôl-16 yn canolbwyntio ar hyn fel blaenoriaeth.

- Sicrhau bod awdurdodau lleol, ochr yn ochr â Gyrfa Cymru, yn gweithio tuag at sicrhau bod yr holl ysgolion, colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith yn darparu gwybodaeth gyson i fonitro'r holl rai 16-18 oed.

*(b) Broceriaeth ac olrhain*

- Sicrhau bod awdurdodau lleol nad oes ganddynt Brotocolau Rhannu Gwybodaeth yn sefydlu'r rhain erbyn diwedd mis Mehefin 2015.
- Defnyddio gweithgorau rhanbarthol i ganolbwyntio ar amlygu a rhannu gwersi a ddysgwyd o froceriaeth a chreu a defnyddio swyddogion arweiniol.
- Annog awdurdodau lleol, trwy ysgolion a darparwyr ôl-16 eraill, i ddarparu cymorth trosglwyddo ar gyfer pobl ifanc 16 oed.
- Amlygu sut y gall Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru gefnogi'r broses drosglwyddo ar gyfer pobl ifanc 19 oed yn well, a pha un a all y Ganolfan Byd Gwaith gynorthwyo'r rhai hynny sy'n hŷn na 19 oed.

*(c) Darpariaeth*

- Datblygu arweiniad arfer gorau ar y ffordd fwyaf effeithiol o ddadansoddi, diweddaru a defnyddio'r wybodaeth a gesglir. Dylai hyn, er enghraifft, ddarparu arweiniad ar asesu'r ddarpariaeth yn erbyn tystiolaeth o anghenion pobl ifanc; dadansoddi'r ddarpariaeth yng nghyd-destun anghenion y farchnad lafur leol; a chymryd camau i lenwi bylchau a dileu dyblygu.
- Parhau â'i ymdrechion i sicrhau ymgysylltiad ysgolion â'r YEPF ac, yn arbennig, sicrhau ymrwymiad i ddefnyddio'r broses ymgeisio ar-lein sy'n sail i'r Broses Ymgeisio Gyffredin er mwyn bodloni'r Warant Ieuenctid. Er enghraifft, dylid cynnal mwy o gyfarfodydd â phenaethiaid ysgolion a rhoi cyflwyniadau ychwanegol iddynt. Mae newidiadau diweddar i fesurau atebolrwydd ysgolion yng Nghyfnod Allweddol 4 a gynlluniwyd i 'ailgydbwyso'r pwyslais gormodol sydd wedi ymddangos ar y radd C mewn TGAU' yn gyfrwng posibl o sicrhau ymrwymiad gan fod pobl ifanc iau nag 16 oed sydd yn haen 4 yn grŵp

targed posibl ar gyfer y ddwy fenter bolisi. Dylid gwneud y cysylltiadau hyn mewn unrhyw drafodaethau â phenaethiaid.

*(ch) Cyflogadwyedd*

- Defnyddio'r gweithgorau rhanbarthol fel fforwm i rannu arfer da mewn perthynas â gwella sgiliau cyflogadwyedd a pharod am waith mewn ysgolion a darparwyr ôl-16 a bodloni anghenion pobl ifanc sydd mewn cyflogaeth heb hyfforddiant. Gallai hyn fod o Gymru a gwledydd eraill y Deyrnas Unedig. Dylid cynorthwyo awdurdodau lleol i amlygu cyfleoedd a heriau o ran gweithredu dulliau tebyg yn eu cyd-destunau eu hunain.
- Gellir defnyddio'r bwletin (a chyflwyniadau'r gweithgorau rhanbarthol) yn seiliedig ar yr adroddiad hwn i ddatblygu negeseuon ar gyfer awdurdodau lleol ynglŷn â'r hyn sydd ar goll yn eu cynlluniau a chyflymu cynnydd.

*Paratoadau ar gyfer asesiad o'r effaith*

5.45 Dylai tîm y rhaglen a chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru:

- gymryd camau i wella'r data a gesglir gan awdurdodau lleol yng nghynlluniau gweithredu'r YEPF ac yr adroddir arno ar gyfer monitro
- sefydlu pa ddata i'w gasglu o gronfa ddata IO Gyrfa Cymru
- ystyried yr ymarferion cysylltu data y gellid eu cynnal
- cynllunio ar gyfer gwerthusiad terfynol o'r effaith a fydd yn cynnwys rhywfaint o ymchwil wreiddiol ac ymchwil ansoddol i gadarnhau'r cynnydd a wnaed gan awdurdodau lleol rhwng diwedd 2016 a chanol 2017.

## Atodiad A Fframwaith model rhesymeg

| Elfen y fframwaith | Dylunio a chynllunio cychwynnol | Datblygu a phrofi | Gweithredu a mireinio | Darpariaeth barhaus | Canlyniadau ac effeithiau[20] |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adnabod yn gynnar** | Llywodraeth Cymru'n rhoi arweiniad ac arweinyddiaeth eglur i awdurdodau lleol, gan gynnwys cyhoeddi safonau craidd ar gyfer adnabod yn gynnar<br><br>Awdurdodau lleol yn penodi Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu i oruchwylio'r broses<br><br>Awdurdodau lleol yn adolygu'r systemau cyn-16 ac ôl-16 presennol ac yn dadansoddi cryfderau a gwendidau | Awdurdodau lleol yn datblygu cynllun gweithredu – cyfrifoldeb am gamau gweithredu wedi'i ddynodi'n eglur a sail resymegol eglur ar gyfer y cynllun<br><br>Mae awdurdodau lleol a phartneriaid yn penderfynu ar y dangosyddion a'r trothwyon terfynol i'w defnyddio wrth asesu risg ar bob lefel: y blynyddoedd cynnar, cynradd, uwchradd ac ôl-16. Mae'r rhain wedi'u seilio ar ddangosyddion craidd | Asesiad systematig o ba un a yw awdurdodau lleol yn cyflawni'r buddiannau disgwyliedig<br><br>Addasiadau i'r broses yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o'r cam gweithredu cynnar (yr holl randdeiliaid)<br><br>Gwaith partneriaeth ac ystyried safbwyntiau'r holl randdeiliaid yn barhaus, gan gynnwys pobl ifanc<br><br>Rhannu'r hyn a ddysgwyd rhwng | Mae'r holl bartneriaid yn defnyddio'r system adnabod yn gynnar wrth roi cymorth i bobl ifanc – defnydd cyson gan ddarparwyr cyn-16 ac ôl-16<br><br>Integreiddio prosesau adnabod yn gynnar yr YEPF yn dda â phrosesau adnabod a ddefnyddir yn y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, cymorth Anghenion Addysgol Arbennig a systemau a gwasanaethau cymorth eraill mewn ysgolion | Mae gan awdurdodau lleol broses asesu ac arweiniad eglur ar waith ar gyfer blaenoriaethu risg, a ddefnyddir yn gyson gan ddarparwyr cyn-16 ac ôl-16<br><br>Mae pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET yn cael eu hamlygu'n gynharach ac yn fwy systematig, sy'n arwain at leihau nifer y bobl ifanc sydd mewn perygl o beidio â chyfranogi mewn darpariaeth cyn-16 ac ôl-16 |

[20] Yn rhan o ddatblygu'r fframwaith gwerthuso effaith, byddwn yn gwahaniaethu rhwng canlyniadau ac effeithiau

| Elfen y fframwaith | Dylunio a chynllunio cychwynnol | Datblygu a phrofi | Gweithredu a mireinio | Darpariaeth barhaus | Canlyniadau ac effeithiau[20] |
|---|---|---|---|---|---|
| | Awdurdodau lleol yn dadansoddi data hanesyddol ar bobl ifanc sy'n NEET neu sydd mewn perygl o fod yn NEET<br><br>Awdurdodau lleol yn ymgynghori â darparwyr (ysgolion, addysg bellach, darparwyr dysgu seiliedig ar waith) ynglŷn â dangosyddion/ ffactorau risg a throthwyon priodol<br><br>Awdurdodau lleol yn archwilio sut y gall system adnabod yn | presenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad<br><br>Ceir cysylltiadau eglur â model pum haen Gyrfa Cymru a phrosesau ar gyfer bwydo gwybodaeth iddo<br><br>Mae'r offeryn asesu risg yn cael ei dreialu / profi gyda darparwyr<br><br>Dulliau wedi'u sefydlu ar gyfer sicrhau bod gwybodaeth darparwyr yn gallu bwydo i'r broses yn ogystal â defnyddio data | awdurdodau lleol | Awdurdodau lleol yn goruchwylio'r broses adolygu, monitro a gwerthuso<br><br>Awdurdodau lleol yn darparu cymorth parhaus i Gyrfa Cymru, y Gwasanaeth Ieuenctid a darparwyr i ddefnyddio'r system newydd (fel y bo'r angen)<br><br>Darparwyr ôl-16 yn rhoi diweddariadau rheolaidd i Gyrfa Cymru ac mae Gyrfa Cymru'n diweddaru statws y person ifanc yn y model pum haen<br><br>System adnabod yn | |

| Elfen y fframwaith | Dylunio a chynllunio cychwynnol | Datblygu a phrofi | Gweithredu a mireinio | Darpariaeth barhaus | Canlyniadau ac effeithiau[20] |
|---|---|---|---|---|---|
| | gynnar ar lefel uwchradd gael ei chysylltu â'r lefel cynradd a'r blynyddoedd cynnar ac ychwanegu at system adnabod yn gynnar Gyrfa Cymru<br><br>Awdurdodau lleol a phartneriaid yn defnyddio arweiniad gan Lywodraeth Cymru a thystiolaeth ehangach o'r hyn sy'n gweithio o ran adnabod yn gynnar<br><br>Awdurdodau lleol yn sefydlu grwpiau strategol a gweithredol ac yn datblygu trefniadau partneriaeth | | | gynnar yng Nghyfnod Allweddol 4 yn cael ei chysylltu â Chyfnod Allweddol 3 a'r blynyddoedd cynnar<br><br>Data a gesglir ar ddangosyddion allweddol yn cael ei ddefnyddio gan yr holl randdeiliaid er mwyn sicrhau bod pecyn priodol o gymorth ar gael ar gyfer pobl ifanc unigol h.y. bwydo'n effeithiol i froceriaeth | |

| Elfen y fframwaith | Dylunio a chynllunio cychwynnol | Datblygu a phrofi | Gweithredu a mireinio | Darpariaeth barhaus | Canlyniadau ac effeithiau[20] |
|---|---|---|---|---|---|
| | â Gyrfa Cymru, y Gwasanaeth Ieuenctid a darparwyr a mentrau eraill fel Teuluoedd yn Gyntaf | | | | |
| Broceriaeth | Llywodraeth Cymru yn gosod disgwyliadau eglur ar gyfer y swyddogaeth froceriaeth, gan gynnwys manyleb eglur ar gyfer y swyddogaeth gweithiwr arweiniol<br><br>Awdurdodau lleol yn adolygu adnoddau a dulliau cyllido presennol y gellid eu defnyddio i gynorthwyo gweithwyr arweiniol i weithio mewn partneriaeth â | Awdurdodau lleol yn datblygu cynllun gweithredu – cyfrifoldeb am gamau gweithredu wedi'i ddynodi'n eglur a sail resymegol eglur ar gyfer y cynllun<br><br>Awdurdodau lleol yn amlygu gofynion hyfforddi a datblygu ar gyfer gweithwyr arweiniol; sefydlu darpariaeth addas; a darparu hyfforddiant<br><br>Ceir prosesau eglur ar gyfer neilltuo gweithiwr | Asesiad systematig o ba un a yw awdurdodau lleol yn cyflawni'r buddiannau disgwyliedig<br><br>Gweithwyr arweiniol a'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu yn casglu data systematig ar anghenion pobl ifanc<br><br>Addasiadau i'r broses yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o'r cam gweithredu cynnar (yr holl randdeiliaid) | System genedlaethol o weithwyr arweiniol wedi'i sefydlu ac yn gweithio'n effeithiol (mae gweithwyr proffesiynol priodol yn ymgymryd â'r rôl gweithiwr arweiniol ac yn cydgysylltu pecyn cymorth wedi'i deilwra i'r unigolyn)<br><br>Gweithwyr arweiniol yn cydgysylltu'r cymorth i berson ifanc, yn gweithredu fel eiriolwyr ac yn adrodd yn ôl yn ffurfiol i'r Cydgysylltydd | Ceir gwell cydgysylltiad rhwng ystod o wasanaethau cymorth i bobl ifanc, yn enwedig ar yr adeg trosglwyddo ôl-16<br><br>Gostyngiadau mewn ymddieithrio ôl-16<br><br>Gwasanaethau wedi'u teilwra i'r unigolyn yn cael eu targedu'n well tuag at y rhai hynny y mae angen cymorth arnynt |

| Elfen y fframwaith | Dylunio a chynllunio cychwynnol | Datblygu a phrofi | Gweithredu a mireinio | Darpariaeth barhaus | Canlyniadau ac effeithiau[20] |
|---|---|---|---|---|---|
| | rhanddeiliaid lleol<br><br>Defnyddir tystiolaeth o arfer effeithiol ym maes gwaith arweiniol o gyd-destunau eraill<br><br>Mae'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu yn arwain y broses o archwilio trefniadau ar gyfer rhannu data rhwng gwahanol bartneriaid darparu<br><br>Awdurdodau lleol a Gyrfa Cymru yn datblygu cynlluniau cychwynnol ar gyfer sut y bydd gweithwyr arweiniol yn cael eu hamlygu a'u neilltuo | arweiniol y cytunwyd arnynt rhwng yr holl randdeiliaid. Rheolir y broses gan y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu<br><br>Prosesau eglur ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth a data rhwng partneriaid darparu – mae'r holl randdeiliaid yn deall eu rôl<br><br>Ceir protocol eglur ar gyfer sut mae gwybodaeth o'r elfen adnabod yn gynnar yn llywio'r broses o neilltuo gweithiwr arweiniol | Gwaith partneriaeth ac ystyried safbwyntiau'r holl randdeiliaid yn barhaus, gan gynnwys pobl ifanc<br><br>Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau arfer da ac yn cynorthwyo awdurdodau lleol i'w gweithredu<br><br>Rhannu'r hyn a ddysgwyd rhwng awdurdodau lleol | Ymgysylltu a Datblygu ar ba un a yw'r cymorth i'r person ifanc yn effeithiol<br><br>Mae'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu yn rheoli'r broses o neilltuo gweithwyr arweiniol, yn broceru trafodaethau rhwng asiantaethau cymorth allweddol ac yn ailasesu penderfyniadau neilltuo fel y bo'r angen<br><br>Rhannu'r hyn a ddysgwyd rhwng awdurdodau lleol<br>Hyfforddiant parhaus i weithwyr arweiniol | |

| Elfen y fframwaith | Dylunio a chynllunio cychwynnol | Datblygu a phrofi | Gweithredu a mireinio | Darpariaeth barhaus | Canlyniadau ac effeithiau[20] |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Llywodraeth Cymru i ddarparu arweiniad newydd a ddiweddarwyd ar hyfforddiant dysgu yn ogystal ag arweiniad ar gymorth ôl-18 | |
| Olrhain | Llywodraeth Cymru yn gosod disgwyliadau eglur ar gyfer olrhain, gan gynnwys arweiniad ar drefniadau a phrotocolau rhannu data<br><br>Llywodraeth Cymru yn datblygu gwaith partneriaeth â Gyrfa Cymru, y Ganolfan Byd Gwaith ar gyfer olrhain ôl-18, a Cholegau Cymru | Awdurdodau lleol yn datblygu cynllun gweithredu – cyfrifoldeb am gamau gweithredu wedi'i ddynodi'n eglur a sail resymegol eglur ar gyfer y cynllun<br><br>Awdurdodau lleol yn cynorthwyo ysgolion i adolygu eu systemau olrhain lefel ysgol ac ymsefydlu arfer da. Arweinyddiaeth strategol gref gan y pennaeth/Uwch Dîm | Treialu unrhyw brosesau newydd a sefydlwyd<br><br>Prosesau wedi'u haddasu yn seiliedig ar unrhyw wersi a ddysgwyd o dreialon/y cam gweithredu cynnar<br><br>Ymgynghori'n barhaus â'r holl randdeiliaid er mwyn cynnwys safbwyntiau a phrofiadau. Rhoddir cyfle i ysgolion | Ysgolion yn rhoi data olrhain rheolaidd i'r awdurdod lleol, yn gysylltiedig â'r system adnabod yn gynnar<br><br>Ysgolion, awdurdodau lleol ac unrhyw randdeiliaid perthnasol eraill yn cyfarfod yn rheolaidd (o leiaf unwaith y tymor) i asesu cynnydd<br><br>Defnyddir data olrhain gan athrawon i | Olrhain pobl ifanc yn systematig ar draws pob ysgol yng Nghymru<br><br>Gwell ymddygiad, presenoldeb a chyrhaeddiad ymhlith pobl ifanc<br><br>Gwell darpariaeth i bobl ifanc sy'n ymateb i anghenion |

| Elfen y fframwaith | Dylunio a chynllunio cychwynnol | Datblygu a phrofi | Gweithredu a mireinio | Darpariaeth barhaus | Canlyniadau ac effeithiau[20] |
|---|---|---|---|---|---|
| | Awdurdodau lleol yn arwain y broses o archwilio sut i gysylltu data lefel ysgol â data'r awdurdod lleol ar adnabod yn gynnar<br><br>Awdurdodau lleol yn adolygu tystiolaeth o arfer effeithiol (fel enghreifftiau o adolygiad yr Uned Safonau Ysgolion a Chyflawni)<br><br>Llywodraeth Cymru yn adolygu prosesau ar gyfer rhannu data rhwng darparwyr a Gyrfa Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n dda | Rheoli<br><br>Mae'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu yn datblygu trefniadau gweithio ag ysgolion e.e. cyfarfod tymhorol i asesu a yw pobl ifanc yr amlygwyd eu bod mewn perygl yn gwneud cynnydd; prosesau ar gyfer casglu data lefel ysgol o ysgolion; prosesau ar gyfer dadansoddi ac asesu data lefel ysgol<br><br>Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn datblygu Proses Ymgeisio Gyffredin a Phrosbectws Ardal Leol | gyfrannu'r hyn a ddysgwyd<br><br>Rhannu'r hyn a ddysgwyd rhwng awdurdodau lleol<br><br>Cymorth parhaus gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid fel Colegau Cymru i weithredu systemau olrhain<br><br>Prosbectws Ardal Leol a Phroses Ymgeisio Gyffredin ar gael yn www.gyrfacymru.com | ddarparu addysg wedi'i gwahaniaethu/teilwra i'r unigolyn i ddysgwyr<br><br>Darparwyr ôl-16 yn rhoi diweddariadau rheolaidd i Gyrfa Cymru ar bresenoldeb pobl ifanc<br><br>Dadansoddir data'r Broses Ymgeisio Gyffredin i amlygu pobl ifanc y mae angen cymorth ychwanegol arnynt yn ystod yr adeg trosglwyddo o addysg cyn-16 i ôl-16<br><br>Gyrfa Cymru yn parhau i arwain y gwaith o olrhain pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed. Arolwg | |

| Elfen y fframwaith | Dylunio a chynllunio cychwynnol | Datblygu a phrofi | Gweithredu a mireinio | Darpariaeth barhaus | Canlyniadau ac effeithiau[20] |
|---|---|---|---|---|---|
| | Awdurdodau lleol a phartneriaid yn archwilio ffyrdd o olrhain pobl ifanc 'anhysbys' sy'n NEET – gan gynnwys rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodau lleol, sefydliadau'r sector gwirfoddol a chymunedol a chyrff eraill. Defnyddir enghreifftiau o arfer da<br><br>Awdurdodau lleol yn arwain y gwaith o sefydlu grwpiau llywio strategol a grwpiau gweithredol<br><br>Llywodraeth Cymru, Gyrfa Cymru a | Llywodraeth Cymru yn sefydlu trefniadau i Gyrfa Cymru ddarparu adroddiadau ar statws y garfan 16-18 oed yn erbyn y model pum haen i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru<br><br>Arolwg Cyrchfan newydd Gyrfa Cymru wedi'i sefydlu a'i brofi | | cyrchfan newydd ar gyfer carfan lawn (y rhai sy'n gadael yr ysgol, addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith) wedi'i sefydlu a data'n cael ei ddadansoddi er mwyn cefnogi'r broses olrhain<br><br>Pobl ifanc ôl-18 yn cael eu holrhain yn barhaus – cysylltiadau rhwng Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith yn cael eu hwyluso gan Lywodraeth Cymru<br><br>Gyrfa Cymru yn darparu adroddiadau chwarterol i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru ar statws pobl ifanc yn erbyn y model pum | |

| Elfen y fframwaith | Dylunio a chynllunio cychwynnol | Datblygu a phrofi | Gweithredu a mireinio | Darpariaeth barhaus | Canlyniadau ac effeithiau[20] |
|---|---|---|---|---|---|
| | phartneriaid yn archwilio dichonoldeb ymestyn Arolwg Cyrchfannau Gyrfa Cymru i gynnwys y rhai hynny sydd mewn addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith. | | | haen<br><br>Gyrfa Cymru yn darparu adroddiadau misol i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru ar statws pobl ifanc yn erbyn y model pum haen | |
| Darpariaeth | Arweinyddiaeth gan y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu<br><br>Grŵp llywio wedi'i sefydlu/ gweithgor wedi'i benodi gyda chysylltiadau da â'r rhwydwaith 14-19<br><br>Ymgynghorir â'r holl randdeiliaid allweddol | Awdurdodau lleol yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol yn llwyddiannus mewn ymarfer mapio (ar draws awdurdodau lleol, y trydydd sector a'r sector preifat) ac maent hwy'n darparu gwybodaeth am y ddarpariaeth bresennol (graddfa, natur, | Awdurdodau lleol yn gweithio gyda rhwydweithiau 14-19 i addasu'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau cynnig mwy cytbwys i bobl ifanc. Comisiynir darpariaeth newydd i lenwi bylchau; datgomisiynir darpariaeth ddyblyg | Awdurdodau lleol yn monitro a gwerthuso a yw'r ddarpariaeth yn parhau i fodloni anghenion neu a yw anghenion pobl ifanc wedi newid<br><br>Gyrfa Cymru yn casglu data ar ddilyniant pobl ifanc rhwng haenau ac yn rhannu hyn yn fisol | Mae'r gymysgedd o ddarpariaeth addysg, hyfforddiant ac ailymgysylltu sydd ar gael yn bodloni anghenion yr holl bobl ifanc. Mae hyn yn arwain at gynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n ymgysylltu â darpariaeth ac yn aros ynddi<br><br>Gwell lefelau cyrhaeddiad |

| Elfen y fframwaith | Dylunio a chynllunio cychwynnol | Datblygu a phrofi | Gweithredu a mireinio | Darpariaeth barhaus | Canlyniadau ac effeithiau[20] |
|---|---|---|---|---|---|
| | er mwyn cytuno ar y dull gorau o fapio<br><br>Awdurdodau lleol yn defnyddio data/ gwybodaeth a gasglwyd yn systematig o'r broses adnabod yn gynnar a broceriaeth i sefydlu beth yw anghenion pobl ifanc | defnydd, lleoliad daearyddol, darparwr, tystiolaeth o ganlyniadau ac effeithiolrwydd). Cofnodir gwybodaeth yn systematig<br><br>Awdurdodau lleol yn mapio'r ddarpariaeth leol yn erbyn model pum haen Gyrfa Cymru ac yn erbyn data ar anghenion lleol. Diffinnir llwybrau dilyniant a dulliau atgyfeirio rhwng haenau. Cyflwynir y map darpariaeth llinell sylfaen hwn i Lywodraeth Cymru<br><br>Dadansoddir tystiolaeth o'r ymarfer mapio i | Awdurdodau lleol yn dylanwadu ar golegau addysg bellach, darparwyr dysgu seiliedig ar waith, chweched dosbarthiadau ysgolion a darparwyr y trydydd sector i addasu'r ddarpariaeth, a'u darbwyllo i wneud hynny<br><br>Awdurdodau lleol yn addasu dulliau a throthwyon atgyfeirio fel y bo'r angen<br><br>Awdurdodau lleol yn gweithio gyda rhwydweithiau 14-19 i gydgrynhoi mapio lleol i lefel ranbarthol er mwyn | ag awdurdodau lleol<br><br>Map darpariaeth llinell sylfaen yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol<br><br>Sicrheir bod y Prosbectws Gwarant Ieuenctid o'r holl ddarpariaeth ar gael i rieni a phobl ifanc. Mae pobl ifanc yn cwblhau eu ceisiadau ar-lein<br><br>Caiff data o'r Broses Ymgeisio Gyffredin ei ddadansoddi a chynigir cymorth wedi'i dargedu i bobl ifanc nad ydynt wedi derbyn cynnig addas | Gwell llwybrau dilyniant i bobl ifanc sy'n NEET a'r rhai hynny sydd mewn perygl o fod yn NEET (y ceir tystiolaeth ohono trwy lai o gyrsiau ailadroddus) |

| Elfen y fframwaith | Dylunio a chynllunio cychwynnol | Datblygu a phrofi | Gweithredu a mireinio | Darpariaeth barhaus | Canlyniadau ac effeithiau[20] |
|---|---|---|---|---|---|
| | | amlygu bylchau, dyblygu, anghenion heb eu bodloni<br><br>Llywodraeth Cymru ac asiantaethau'n gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i adolygu a yw rhaglenni cenedlaethol yn cyd-fynd ag anghenion lleol<br><br>Llywodraeth Cymru, Gyrfa Cymru a phartneriaid yn rheoli datblygiad cronfeydd data/meddalwedd sy'n angenrheidiol er mwyn i'r prosbectws a'r broses ymgeisio fod ar gael yn electronig<br><br>Ysgolion yn cynyddu | caniatáu ar gyfer dadansoddi anghenion yn ehangach<br><br>Llywodraeth Cymru, Gyrfa Cymru a phartneriaid yn gwneud addasiadau technegol i gronfeydd data/ meddalwedd fel y bo'r angen<br><br>Ysgolion yn cynorthwyo pobl ifanc i gwblhau ceisiadau ar-lein | | |

| Elfen y fframwaith | Dylunio a chynllunio cychwynnol | Datblygu a phrofi | Gweithredu a mireinio | Darpariaeth barhaus | Canlyniadau ac effeithiau[20] |
|---|---|---|---|---|---|
| | | ymwybyddiaeth o broses y Warant Ieuenctid | | | |
| Cyflogadwyedd | Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â phartneriaid strategol allweddol<br><br>Grŵp Llywio wedi'i sefydlu gydag aelodau priodol<br><br>Archwilio ffrydiau cyllido a all gefnogi'r gwaith hwn<br><br>Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn adolygu'r rhaglen profiad gwaith bresennol ar gyfer Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 | Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn datblygu prosiect strategol ar gyfer ymgysylltu â chyflogwyr ac yn cyflwyno cais i Gronfa Gymdeithasol Ewrop<br><br>Gyrfa Cymru yn adolygu ac asesu effeithiolrwydd y dull presennol o gynorthwyo ysgolion i gyflwyno'r rhaglen Gyrfaoedd a Byd Gwaith<br><br>Gyrfa Cymru yn adolygu'r dull presennol o amlygu a chynorthwyo pobl ifanc | Gweithredu prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop (penodi staff a chanddynt y sgiliau priodol, diffinio canlyniadau a thargedau'r prosiect yn eglur, ymgysylltu â'r holl randdeiliaid perthnasol)<br><br>Gwell gwaith partneriaeth ag ysgolion a chyflogwyr i gyflwyno Gyrfaoedd a Byd Gwaith. Ymgysylltu'n effeithiol â chyflogwyr<br><br>Gwerthusiad ffurfiannol o'r cam gweithredu cynnar. Defnyddir y | Monitro a gwerthuso pob maes gweithgarwch | Cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n symud i gyflogaeth fedrus<br><br>Cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n symud i addysg uwch<br><br>Cynnydd yn nifer y bobl ifanc sydd mewn cyflogaeth barhaus |

| Elfen y fframwaith | Dylunio a chynllunio cychwynnol | Datblygu a phrofi | Gweithredu a mireinio | Darpariaeth barhaus | Canlyniadau ac effeithiau[20] |
|---|---|---|---|---|---|
| | Adolygu tystiolaeth o fentrau blaenorol (fel hyfforddeiaethau a Llwybrau Dysgu) | sydd mewn swyddi heb hyfforddiant, a dull newydd/diwygiedig yn cael ei ddatblygu os oes angen<br><br>Bagloriaeth Cymru yn parhau i gael ei datblygu gan Lywodraeth Cymru<br><br>Llywodraeth Cymru yn arwain y broses o lunio rhaglen lefel mynediad newydd ar gyfer dysgwyr 14-16 oed (yn seiliedig ar dystiolaeth o arfer effeithiol mewn cyd-destunau eraill; cynnwys priodol)<br><br>Llywodraeth Cymru yn arwain y broses o | canfyddiadau i fireinio'r broses weithredu | | |

| **Elfen y fframwaith** | **Dylunio a chynllunio cychwynnol** | **Datblygu a phrofi** | **Gweithredu a mireinio** | **Darpariaeth barhaus** | **Canlyniadau ac effeithiau**[20] |
|---|---|---|---|---|---|
| | | ymestyn y rhaglen brentisiaethau<br><br>Awdurdodau lleol yn adolygu cysylltiadau â Twf Swyddi Cymru ac yn sicrhau bod y rhaglen yn cael ei defnyddio i ddarparu dilyniant i gynifer o bobl ifanc â phosibl | | | |
| Atebolrwydd | Arweinyddiaeth strategol gan awdurdodau lleol – uwch arweinydd yn cymryd cyfrifoldeb<br><br>Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol i gytuno ar broses ar gyfer monitro cynnydd cynlluniau gweithredu | Awdurdodau lleol yn rhannu eu cynllun gweithredu â Llywodraeth Cymru<br><br>Awdurdodau lleol yn archwilio ac asesu cyfleoedd i weithio gydag awdurdodau lleol eraill mewn cytundebau dwyochrog neu gonsortiwm | Gyrfa Cymru yn cyhoeddi data monitro ar lefel awdurdod lleol. Defnyddir hyn gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a darparwyr i wneud addasiadau i brosesau fel y bo'r angen<br><br>Gyrfa Cymru yn cyhoeddi data cyrchfan | Trafodaeth chwemisol rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ar gynnydd wrth weithredu'r fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid<br><br>Rhannu tystiolaeth o gynnydd â chymunedau lleol a cheisio barn pobl ifanc ar newidiadau sy'n | Gostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy'n NEET |

| Elfen y fframwaith | Dylunio a chynllunio cychwynnol | Datblygu a phrofi | Gweithredu a mireinio | Darpariaeth barhaus | Canlyniadau ac effeithiau[20] |
|---|---|---|---|---|---|
| | lleol<br><br>Arweiniad, safonau a disgwyliadau eglur gan Lywodraeth Cymru ar rôl y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu<br><br>Awdurdodau lleol yn datblygu dull priodol ar gyfer cynnwys pobl ifanc a rhieni yn y broses o ddatblygu'r YEPF | Gwaith partneriaeth cryf rhwng awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Neilltuir pwynt cyswllt i bob awdurdod lleol o fewn Llywodraeth Cymru. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd ac ystyrir bod y cymorth a ddarperir yn ystod y cyfarfodydd hyn yn ddefnyddiol<br><br>Llywodraeth Cymru, Estyn ac awdurdodau lleol yn cytuno ar sut y bydd camau gweithredu lleol yn cael eu harolygu a'u hasesu'n ffurfiol<br><br>Llywodraeth Cymru a | ynglŷn â phobl ifanc 16, 17 a 18 oed ar gyfer pob darparwr<br><br>Awdurdodau lleol yn dadansoddi data Gyrfa Cymru a'i ddefnyddio i addasu dulliau gweithredu lleol<br><br>Treialu mesurau cyrchfan newydd ar lefel darparwr | angenrheidiol | |

| Elfen y fframwaith | Dylunio a chynllunio cychwynnol | Datblygu a phrofi | Gweithredu a mireinio | Darpariaeth barhaus | Canlyniadau ac effeithiau[20] |
|---|---|---|---|---|---|
| | | phartneriaid yn archwilio dichonoldeb datblygu mesurau cyrchfan ar lefel darparwr | | | |

## Atodiad B Astudiaethau achos

**Adnabod yn Gynnar a Broceriaeth Cyn-16 (Merthyr Tudful)**

**Cyd-destun**

Gwnaed adran addysg yr awdurdod lleol yn destun mesurau arbennig yn gynnar yn 2013. Asesiad cyffredinol Estyn o wasanaeth addysg Merthyr Tudful oedd:

- bod safonau ar gyfer dysgwyr yn anfoddhaol ym mhob cyfnod allweddol
- bod cyfraddau gwahardd yn rhy uchel, bod gormod o bobl ifanc yn NEET a bod cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion cynradd yn annerbyniol o isel
- bod cymorth ar gyfer gwella ysgolion a hybu cynhwysiant cymdeithasol a lles yn anfoddhaol
- nad yw effaith gwasanaethau cymorth ieuenctid yn cael ei gwerthuso i wirio bod y ddarpariaeth yn mynd i'r afael ag anghenion; a
- bod methiant arweinwyr i weithredu systemau i amlygu cryfderau a gwendidau mewn ysgolion wedi arwain at ddiffyg her a gwelliant annigonol mewn safonau.

Mae hyn yn dangos yr amodau anodd ym Merthyr Tudful ar gyfer pobl ifanc cyn cyflwyno'r YEPF, er gwaethaf y gyfradd isel o bobl ifanc a oedd yn NEET yn 16 oed (roedd 1.9% o ymadawyr Blwyddyn 11 yn NEET yn 2013[21]).

**Camau a gymerwyd ers lansio'r YEPF**

Cyn cyflwyno'r YEPF, nid oedd unrhyw strwythurau cydgysylltiedig wedi'u sefydlu ar gyfer adnabod pobl ifanc a oedd mewn perygl o ddod yn NEET na'u holrhain. Nid oedd gwasanaethau broceru'n bodoli. Roedd adnabod yn gynnar yn cael ei wneud gan yr ysgolion, ac nid oedd y wybodaeth o reidrwydd yn cael ei rhannu â'r awdurdod lleol na rhanddeiliaid eraill.

Sefydlwyd gweithgor i ddatblygu offeryn adnabod yn gynnar, a oedd yn cynnwys unigolion o'r gwasanaeth addysg, y gwasanaethau cymdeithasol, Gyrfa Cymru, y Tîm Troseddau Ieuenctid a'r tîm adfywio.

Datblygwyd yr offeryn trwy gymryd y modelau a oedd ar waith yn Abertawe a Blaenau Gwent a'u haddasu i weddu i anghenion Merthyr Tudful. I ddechrau,

[21] Cyrchfannau Disgyblion o Ysgolion yng Nghymru, Gyrfa Cymru, 2013

roedd y model yn cynnwys ystod eang o ddangosyddion y gellid eu defnyddio i amlygu a oedd person ifanc mewn perygl o ddod yn NEET. Roedd y rhain yn cynnwys: cyflawniad, presenoldeb yn yr ysgol, ethnigrwydd, cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim, anghenion Saesneg fel Iaith Ychwanegol, gwaharddiadau ac ymddygiad, a gofynion ar gyfer darpariaeth Derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol, plant sy'n derbyn gofal, ymddygiad troseddol, teithwyr, problemau tai a lefel isel o gymorth gan rieni. Arbrofodd y grŵp â phwysoliadau ar gyfer y newidynnau hyn, a dileu llawer ohonynt, gan gynnwys yr holl newidynnau na ellid eu newid trwy ddarparu gwasanaeth (e.e. ethnigrwydd a chymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim).

Allbwn y model yw gradd Coch, Ambr a Gwyrdd ar gyfer pob disgybl, gyda choch yn dynodi disgyblion sydd angen cymorth dwys, ambr yn dynodi'r rhai sydd angen rhywfaint o gymorth ac arsylwi ychwanegol, a gwyrdd yn golygu nad oes angen unrhyw gamau ychwanegol. Yr ysgolion sy'n gyfrifol am lenwi'r model adnabod yn gynnar â gwybodaeth o'u systemau.

Caiff y wybodaeth o'r offeryn adnabod yn gynnar ei chasglu a'i harchwilio'n fisol gan grŵp gweithredol NEET sydd newydd ei gyflwyno. Mae'n cynnal cyfarfodydd misol oherwydd bod disgyblion yn gallu symud rhwng grwpiau'n gyflym. Mynychir y grŵp gweithredol NEET gan y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu, y gwasanaethau addysg, y gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaethau adfywio, y Tîm Troseddau Ieuenctid, Gyrfa Cymru, y gwasanaethau ieuenctid a'r cydgysylltydd 14-19. Yn y cyfarfod hwn, trafodir broceriaeth ar gyfer pobl ifanc y rhoddwyd gradd goch iddynt a neilltuir gweithwyr arweiniol. Mae'r grŵp yn trafod pwy sydd yn y sefyllfa orau i weithredu fel gweithiwr arweiniol, yn dibynnu ar anghenion y person ifanc. Daw gweithwyr arweiniol o'r holl sefydliadau sy'n cymryd rhan yn y grŵp, gan gynnwys y gwasanaethau ieuenctid, Teuluoedd yn Gyntaf, Timau Troseddau Ieuenctid ac ysgolion. O ran pobl ifanc y rhoddwyd gradd ambr iddynt, caiff hyfforddwr dysgu (sy'n gweithio yn eu hysgol) ei neilltuo iddynt fel gweithiwr arweiniol.

Mae cyflwyno'r grŵp gweithredol NEET wedi bod o fudd i'r holl sefydliadau sy'n cymryd rhan. Cyn datblygu'r grŵp, nid oedd unrhyw gyfarfodydd strwythuredig rhwng y gwahanol sefydliadau sy'n darparu cymorth i bobl ifanc, sy'n golygu y gallai cymorth gael ei ddyblygu trwy ddiffyg ymwybyddiaeth. Bellach, trafodir y cymorth ar gyfer pob person ifanc sydd mewn perygl yn y cyfarfodydd, a neilltuir gweithiwr arweiniol i'r person ifanc i gydgysylltu'r holl gymorth y mae arno ei angen.

**Yr hyn sydd wedi galluogi cynnydd**

Y ffactor pwysicaf ar gyfer gweithredu'r offeryn adnabod yn gynnar yn llwyddiannus oedd parodrwydd yr holl bartïon i ddatblygu a defnyddio'r offeryn. Gallai pob ysgol a phartner weld y budd o gael offeryn cyson ar draws ardal yr awdurdod lleol yr oedd yr holl bartïon perthnasol yn gallu cael mynediad ato. Mynegwyd pryder y gallai'r ysgolion fod yn amharod i gymryd rhan, gan y byddai'n creu gwaith ychwanegol iddynt. Fodd bynnag, ni ddigwyddodd hyn, gan fod y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu wedi dangos buddion yr offeryn yn llwyddiannus i ysgolion a'u cynnwys yn y broses ddatblygu.

Ystyriwyd bod rôl y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu yn allweddol i lwyddiant y broses o ddatblygu a gweithredu'r offeryn. Defnyddiodd y Cydgysylltydd berthynas gref ag ysgolion uwchradd i sicrhau eu cefnogaeth ac roedd yn gyfrifol am arwain y gwaith. Heb rôl benodol y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu, mae'n debygol na fyddai'r offeryn wedi cael ei ddatblygu.

Roedd yr ymgysylltiad â'r holl sefydliadau sy'n ymwneud ag adnabod a broceriaeth yn golygu nad oedd unrhyw un ohonynt yn teimlo bod rhywbeth newydd yn cael ei orfodi arnynt, ac roedd ganddynt ymdeimlad o berchenogaeth o'r prosesau newydd.

**Beth fu'r heriau?**

Nid oedd unrhyw heriau arwyddocaol o ran datblygu na chyflwyno'r offeryn. Disgwyliwyd her wrth sicrhau cefnogaeth gan ysgolion, gan eu bod hwy'n gyfrifol am gasglu data ac y byddai hyn yn cynyddu eu llwyth gwaith. Nid yw'r pryder hwn wedi'i wireddu.

Bu her o ran broceriaeth yn sgil diwedd rhaglen Pre-Vent Cronfa Gymdeithasol Ewrop, a ddarparodd weithwyr allweddol mewn ysgolion uwchradd ym Merthyr Tudful. Roedd pwyslais yr YEPF a'r buddion a ddaeth yn sgil y gweithwyr allweddol Pre-Vent wedi helpu i ddarbwyllo'r awdurdod lleol i ddarparu cyllid parhaus ar gyfer gweithwyr allweddol, er bod nifer y gweithwyr allweddol sy'n darparu cymorth wedi lleihau. Mae cyfarfodydd misol y grŵp gweithredol NEET yn neilltuo pobl ifanc sydd mewn perygl i weithwyr arweiniol o amrywiaeth o asiantaethau, gan gynnwys y gweithwyr allweddol.

**Canlyniadau**

Mae'r adborth gan ysgolion a staff awdurdod lleol ar gyflwyno'r offeryn adnabod yn gynnar yn gadarnhaol. Teimlwyd bod cyflwyno offeryn safonol ar

gyfer yr awdurdod lleol cyfan ‘wedi helpu i atal rhai pobl ifanc rhag syrthio trwy’r rhwyd gan ei fod yn amlygu rhai pobl ifanc na fyddent wedi cael eu hystyried yn rhai a oedd mewn perygl yn flaenorol’ (cyfwelai awdurdod lleol).

Mae cyflwyno’r grŵp gweithredol NEET i drafod y bobl ifanc yr amlygwyd eu bod mewn perygl wedi lleihau dyblygu gwasanaethau a gwella cydgysylltiad rhwng asiantaethau. Mae hefyd wedi gwella atebolrwydd, gan fod asiantaethau’n adrodd yn ôl i’r grŵp ar eu cynnydd gyda phobl ifanc.

Mae pobl ifanc yn gadarnhaol iawn ynglŷn â’r cymorth a gânt, ac yn enwedig eu perthynas â gweithwyr arweiniol. Maent yn teimlo na fyddent wedi cyflawni eu cymwysterau heb gymorth y gweithwyr arweiniol ac y gallent fod ‘ar y strydoedd yn yfed, ar y dôl… yn mynd i drafferth.’ (person ifanc a gyfwelwyd)

**Adnabod yn gynnar a broceriaeth cyn-16 (Bro Morgannwg)**

**Trefniadau rheoli**

Ym Mro Morgannwg, mae Grŵp Strategol yr YEPF yn goruchwylio adnabod yn gynnar a broceriaeth cyn-16 a phob elfen arall o’r YEPF. Mae’n gyfrifol am gyflawni targedau ar gyfer lleihau cyfran y bobl ifanc cyn-16 ac ôl-16 sy’n NEET. Cyn cyflwyno’r YEPF, Grŵp Strategaeth NEET yr awdurdod lleol oedd hwn. O ganlyniad i’r YEPF, mae cylch gorchwyl y grŵp wedi’i ddiweddaru i adlewyrchu blaenoriaethau’r YEPF, gan gynnwys gwell trefniadau ar gyfer adnabod a broceriaeth cyn-16. Mae Grŵp Strategol yr YEPF yn adrodd i’r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau, sef un o’r pum partneriaeth sy’n gweithio o dan ambarél y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i gyflawni nodau allweddol Strategaeth Gymunedol y Fro ar gyfer 2011-2021.

Swyddog arweiniol yr awdurdod lleol ar gyfer ieuenctid a dysgu cymunedol yw’r arweinydd strategol ar gyfer gweithredu’r YEPF. Mae’n gyfrifol am ddatblygu trefniadau adnabod yn gynnar a broceriaeth cyn-16. Sefydlodd weithgor i gefnogi’r broses o ddatblygu trefniadau adnabod yn gynnar, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr ysgolion, Gyrfa Cymru a gwasanaethau ieuenctid yr awdurdod lleol.

Cefnogwyd yr arweinydd strategol i ddatblygu trefniadau adnabod yn gynnar a broceriaeth cyn-16 gan swyddog YEPF, sef y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu. Mae hi’n gyfrifol am gydgysylltu trefniadau gweithredol ag ysgolion, Gyrfa Cymru a phartneriaid yn y sector ieuenctid gwirfoddol.

**Pa gamau gweithredu a gymerwyd mewn perthynas ag adnabod yn gynnar a broceriaeth cyn-16?**

*Adnabod yn gynnar cyn-16*

Cyn cyflwyno'r YEPF, nid oedd proses safonedig a systematig ar waith ar gyfer adnabod yn gynnar cyn-16 ym Mro Morgannwg. Roedd gan y rhan fwyaf o ysgolion ryw fath o broses fewnol ar waith ar gyfer adnabod yn gynnar, ond nid oedd yn cael ei harwain gan ddata ym mhob achos ac roedd pob ysgol yn dilyn proses wahanol. Roedd gwaith partneriaeth â'r awdurdod lleol a phartneriaid mewn perthynas ag adnabod yn gynnar cyn-16 yn anghyson ac nid oedd pob ysgol yn cyfranogi'n gyfartal.

Er mwyn cryfhau adnabod yn gynnar cyn-16, datblygodd yr awdurdod lleol offeryn adnabod yn gynnar newydd a arweiniwyd gan ddata. Defnyddiwyd tystiolaeth ymchwil o'r hyn sy'n gweithio wrth adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio i ddatblygu'r offeryn, fel papur ymchwil gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg a phapur ymchwil gan Lywodraeth Cymru. Cynullwyd y gweithgor i ddiffinio a chytuno ar y dangosyddion, y pwysoliadau a'r trothwyon ar gyfer ymyrraeth. Yna profwyd y model 'drafft'. Gwnaed hyn trwy edrych ar ddata o dair blynedd yn ôl ar ddangosyddion allweddol ar gyfer 60 o bobl ifanc a oedd mewn addysg neu hyfforddiant bryd hynny ond yr oeddent wedi'u hamlygu'n NEET ar hyn o bryd, er mwyn gweld a fyddai'r model wedi rhagfynegi y byddai'r bobl ifanc yn mynd yn NEET. Yna treialwyd y model yn ystod gwanwyn 2014 gyda dwy ysgol. Dewiswyd y ddwy ysgol beilot oherwydd bod ganddynt niferoedd uchel o bobl ifanc sy'n NEET wrth adael Blwyddyn 11 ac oherwydd bod gan yr awdurdod lleol berthynas gref â'r penaethiaid. Yna cyflwynwyd y model i weddill yr ysgolion yn yr awdurdod lleol yn ystod haf 2014.

Mae'r model a ddatblygwyd yn cael ei arwain gan ddata ond caiff ei lywio gan wybodaeth ymarferwyr am bobl ifanc. Cynhelir y broses ganlynol ar ddechrau pob tymor:

- mae'r offeryn yn coladu data ar ddisgyblion ym Mlynyddoedd 9, 10 ac 11 a gyflenwir gan ysgolion ar gyfer y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion mewn perthynas â Derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (e.e. Unedau Cyfeirio Disgyblion), statws prydau ysgol am ddim, anghenion addysgol arbennig, cyflawniad mewn llythrennedd a rhifedd, presenoldeb, ymddygiad a phlant sy'n derbyn gofal
- mae rhaglen a ysgrifennwyd gan dîm addysg yr awdurdod lleol yn rhoi

sgôr i ddisgyblion mewn perthynas â phob un o'r dangosyddion hyn, gyda phwysoliad ar gyfer dangosyddion allweddol. Ystyrir bod y rhai hynny sy'n derbyn sgôr o 1 neu uwch yn ymgysylltu'n dda; ystyrir bod y rhai hynny sydd â sgôr is mewn perygl

- yna rhennir rhestr a gynhyrchir yn awtomatig ag ysgolion er mwyn iddynt ei hadolygu. Gofynnir iddynt gategoreiddio'r bobl ifanc yn unol â'u lefel risg. Defnyddir graddau Coch, Ambr a Gwyrdd. Athrawon sy'n penderfynu ar gategoreiddio'r risg yn goch, ambr neu wyrdd – disgwylir iddynt ddefnyddio eu gwybodaeth am y person ifanc a'i amgylchiadau i wneud eu hasesiad 'rydym am iddynt roi'r stori wrth wraidd y data' (cyfwelai awdurdod lleol).

Dechreuodd yr awdurdod lleol weithio ar yr offeryn adnabod yn gynnar ym mis Awst 2013, deufis cyn lansio'r YEPF. Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod cyflwyno'r YEPF wedi hynny yn ategu eu hymdrechion ac yn helpu i sicrhau ymrwymiad i'r broses gan bartneriaid. Mae'r arweiniad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar adnabod yn gynnar wedi bod yn ddefnyddiol hefyd. Adolygwyd yr offeryn a ddatblygwyd i wirio ei fod yn dilyn yr arfer gorau a gyflwynwyd yn yr arweiniad. O ganlyniad i'r camau a gymerwyd gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid, cyflawnwyd y garreg filltir yn y cynllun gweithredu cenedlaethol o gyflwyno system newydd ar gyfer adnabod yn gynnar cyn-16 sy'n dilyn arweiniad arfer effeithiol.

*Broceriaeth cyn-16*

Cyn lansio'r YEPF ym mis Hydref 2013, nid oedd broceriaeth cyn-16 wedi'i datblygu'n ddigonol. Nid oedd prosesau ffurfiol a systematig ar gyfer neilltuo gweithwyr arweiniol a enwyd a monitro cynnydd pobl ifanc a chanddynt weithwyr arweiniol. Yn flaenorol, byddai rhai ysgolion yn penodi gweithwyr arweiniol ac yn gweithio gyda phartneriaid fel y gwasanaeth ieuenctid i froceru darpariaeth arall er mwyn cefnogi gwell ymgysylltiad a dilyniant ar gyfer pobl ifanc. Nid ystyriwyd bod ymarfer yn gyson ar draws ysgolion ac nid oedd prosesau ar gyfer monitro cynnydd yn systematig. Ers lansio'r YEPF ac ar ôl i'r offeryn adnabod yn gynnar gael ei gwblhau, mae'r awdurdod lleol wedi canolbwyntio ar ddatblygu gwell prosesau ar gyfer broceriaeth cyn-16.

Erbyn hyn, pan fydd y rhestr o bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio (y rhai hynny yr amlygwyd bod ganddynt statws 'coch' gan yr offeryn adnabod yn gynnar) wedi'i chytuno rhwng yr ysgol a'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu, mae'r Cydgysylltydd yn casglu gwybodaeth ychwanegol am y rhwystrau sy'n wynebu'r bobl ifanc. Ystyrir ei bod yn bwysig casglu'r

wybodaeth hon fel sail i froceru darpariaeth a chymorth.

Ceir pwynt cyswllt dynodedig ym mhob ysgol sy’n cyflawni swyddogaeth gweithiwr arweiniol, er na ddefnyddir y label ‘gweithiwr arweiniol’ yn gyffredin. Mae’r rôl sy’n ymgymryd â’r swyddogaeth hon yn amrywio o ysgol i ysgol ac fe allai fod yn bennaeth blwyddyn, aelod o’r staff bugeiliol neu weithiwr ieuenctid sy’n gyfrifol am gyflwyno darpariaeth cyn-16.

Mae’r dulliau ar gyfer broceru darpariaeth a chymorth yn amrywio o ysgol i ysgol.

- mewn rhai ysgolion, yn enwedig y rhai hynny lle y ceir niferoedd uchel o bobl ifanc yr amlygwyd eu bod mewn perygl, trefnir cyfarfod panel amlasiantaethol yn yr ysgol. Yn nodweddiadol, cadeirir y cyfarfod hwn gan arweinydd yr awdurdod lleol ar gyfer ymddygiad a phresenoldeb ac mae’r mynychwyr eraill yn cynnwys y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu, cynrychiolwyr y gwasanaeth ieuenctid, y dirprwy bennaeth neu’r pennaeth, pennaeth blwyddyn a Gyrfa Cymru. Yng nghyfarfod y panel, mae gweithwyr proffesiynol yn trafod a chytuno ar becyn cymorth ar gyfer y person ifanc
- mewn ysgolion eraill, bydd y pwynt cyswllt dynodedig/gweithiwr arweiniol yn gweithio’n uniongyrchol gyda’r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu. Bydd y Cydgysylltydd yn ymchwilio i ddarpariaeth sy’n addas i fodloni anghenion pobl ifanc ac yn helpu i gydgysylltu trefniadau rhwng y darparwr a’r ysgol.

Ers dechrau’r YEPF, mae’r mathau o ddarpariaeth a frocerwyd yn cynnwys:

- cwricwlwm amgen achrededig a arweinir gan weithwyr ieuenctid a ddarperir mewn ysgolion i grwpiau o bobl ifanc. Gellir teilwra’r rhaglen i fodloni anghenion unigolion ac, yn nodweddiadol, mae’n cynnwys profiadau blasu galwedigaethol, llythrennedd a rhifedd a gweithgareddau ymarferol a gynlluniwyd i wella sgiliau cyfathrebu a gwaith tîm a hyder
- rhyddhau pobl ifanc unigol am un neu ddau ddiwrnod yr wythnos i ymgymryd â chymhwyster galwedigaethol yn y coleg neu gyda darparwr dysgu seiliedig ar waith
- darpariaeth amgen a ddarperir gan Ymddiriedolaeth y Tywysog y tu allan i’r ysgol
- addysg llythrennedd a rhifedd ychwanegol a ddarperir mewn lleoliad

cymunedol

- profiad gwaith mewn llyfrgell leol am un diwrnod yr wythnos ar gyfer person ifanc ym Mlwyddyn 10, a ddarperir gan dîm dysgu cymunedol yr awdurdod lleol.

Mae'n ofynnol i bwynt cyswllt dynodedig yr ysgol/y gweithiwr arweiniol roi diweddariad tymhorol ar gynnydd i'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu. Mae templed adrodd syml wedi'i ddatblygu, sy'n gofyn am wybodaeth am ymddygiad, presenoldeb a chyrhaeddiad mewn llythrennedd a rhifedd cyn ac ar ôl i'r pecyn cymorth gael ei froceru.

**Beth sydd wedi galluogi cynnydd?**

Dyma'r prif ffactorau sydd wedi galluogi cynnydd wrth wella adnabod yn gynnar a broceriaeth cyn-16:

- **y trefniadau rheolaeth strategol.** Mae'r ffaith bod grŵp strategol yr YEPF yn gysylltiedig â'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau lefel uchel yn helpu i sicrhau bod uwch arweinwyr ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn ymwybodol o bwysigrwydd yr YEPF a sut y gall gyfrannu at amcanion strategol lleol
- **rhannu swyddogaeth y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu** rhwng arweinydd strategol (arweinydd yr awdurdod lleol ar gyfer ieuenctid a dysgu cymunedol) a swyddog gweithredol (swyddog YEPF)
- **defnyddio tystiolaeth ymchwil, data ac ymgynghori â phartneriaid allweddol i ddatblygu'r offeryn adnabod yn gynnar.** Oherwydd bod partneriaid wedi'u cynnwys yn y broses o'r dechrau, mae hyn wedi creu ymdeimlad o berchenogaeth ac wedi helpu i feithrin ymrwymiad i ddefnyddio'r offeryn. Mae defnyddio cyfuniad o dystiolaeth wedi helpu i sicrhau bod yr offeryn mor effeithiol â phosibl hefyd
- **cynnwys hyblygrwydd yn y broses ar gyfer broceriaeth.** Mae'r awdurdod lleol yn gweithio mewn ffyrdd ychydig yn wahanol gydag ysgolion gwahanol yn dibynnu ar eu hamgylchiadau a'u dewisiadau. Mae hyn yn helpu i annog ysgolion i gymryd rhan yn y broses
- **gweithio gydag ystod eang o bartneriaid i froceru pecyn priodol o gymorth.** Trwy weithio'n agos gyda darparwyr dysgu seiliedig ar waith, y coleg a sefydliadau'r sector ieuenctid gwirfoddol, mae'r awdurdod lleol wedi gallu cynnig dewis ychwanegol i bobl ifanc cyn-16,

gyda mwy o gyfleoedd ar gyfer dysgu galwedigaethol.

**Beth fu'r heriau a sut y'u goresgynnwyd?**

Mae cyfranogiad yn y broses adnabod yn gynnar yn dal i fod yn amrywiol, gyda rhai ysgolion yn cymryd rhan yn rhagweithiol ac eraill yn llai ymatebol. Er enghraifft, mae dwy ysgol wedi gwrthod cymryd rhan yn y broses froceru a arweinir gan yr awdurdod lleol. Mewn un neu ddwy ysgol lle y brocerwyd cymorth ychwanegol ar gyfer pobl ifanc, bu'n anodd cael adroddiadau amserol ar gynnydd pobl ifanc gan ysgolion. Mae arweinydd strategol yr awdurdod lleol yn gweithio gydag ysgolion i oresgyn hyn. Cyfeiriodd at yr angen i ailadrodd pwysigrwydd yr YEPF ac esbonio prosesau'n barhaus.

Er bod Protocol Rhannu Gwybodaeth ar waith a gymeradwywyd gan Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI), mae rhai partneriaid yn dal i fod yn amharod i rannu gwybodaeth. Fe all gymryd amser i newid arferion ac agweddau a bydd angen i'r awdurdod lleol egluro prosesau a gofynion yn barhaus.

**Canlyniadau gwaith yr awdurdod lleol ar adnabod yn gynnar a broceriaeth cyn-16**

Mae cryfhau prosesau adnabod yn gynnar a broceriaeth cyn-16 wedi bod yn sail i wella prosesau ar yr adeg trosglwyddo ac ôl -16 'yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf cymerwyd camau mawr ymlaen o ran cydgyfrifoldeb. Erbyn hyn, mae gennym ni sylfaen dda y gellir ei ffurfio a'i thyfu' (cyfwelai awdurdod lleol). Er enghraifft, gan fod yr offeryn adnabod yn gynnar yn casglu gwybodaeth yn systematig am bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio, mae prosesau'n cael eu sefydlu i sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei rhannu'n systematig â darparwyr ôl-16. Mae'r awdurdod lleol yn arwain wrth sefydlu paneli amlasiantaethol ôl-16 ar gyfer pobl ifanc risg uchel fel fforwm i rannu gwybodaeth rhwng sefydliadau cyn-16 ac ôl-16, neilltuo gweithwyr arweiniol a broceru cymorth.

Mae'r gwaith i ddatblygu adnabod yn gynnar a broceriaeth cyn-16 wedi arwain at fuddion eglur i bobl ifanc ac ysgolion hefyd. Mae'r offeryn wedi llwyddo i amlygu pobl ifanc a fyddai'n elwa ar gymorth ychwanegol. Yn flaenorol, nid oedd sicrwydd y byddent yn cael eu hamlygu gan fod prosesau'n fwy ad hoc. Dywedodd un cynrychiolydd ysgol uwchradd, er eu bod yn ymwybodol yn gyffredinol o bobl ifanc a oedd mewn perygl o ymddieithrio, 'roedd y daenlen wedi amlygu rhai myfyrwyr newydd nad oeddem wedi'u hystyried' (athro a gyfwelwyd).

Mae'r cyfweliadau hefyd yn awgrymu bod y cwricwlwm amgen a ddarperir

gan y gwasanaeth ieuenctid i bobl ifanc cyn-16 yn fuddiol. Roedd gweithiwr ieuenctid, dirprwy bennaeth a disgyblion oll o'r farn bod y cwricwlwm amgen wedi helpu i wella ymddygiad, presenoldeb, hunan-barch ac ysgogiad ymhlith disgyblion. Mae'r gweithiwr ieuenctid yn priodoli hyn i'r 'dull mwy hamddenol, anffurfiol' sydd, yn ei barn hi, yn helpu i 'roi llawer mwy o hyder iddynt y gallant gyflawni rhywbeth'. Roedd y dirprwy bennaeth yn cytuno a dywedodd nad oedd unrhyw fyfyrwyr a oedd yn gweithio gyda gweithiwr ieuenctid ym Mlwyddyn 11 wedi cael eu gwahardd, bod eu holl raddau wedi gwella a bod pob un ohonynt yn symud ymlaen i'r chweched dosbarth neu'r coleg ar ôl yr ysgol. Amlygodd hefyd fod ganddynt well syniad am y dewisiadau gyrfaol sydd ar gael iddynt, a bod 'y gweithiwr ieuenctid wedi rhoi cyfle iddynt gredu ynddynt eu hunain ac yn yr hyn y gallant ei wneud'. Heb froceru'r ddarpariaeth amgen, roedd hi'n credu y byddai mwy o fyfyrwyr wedi cael eu gwahardd am gyfnod penodol. Dywedodd pobl ifanc eu bod yn mwynhau'r cwricwlwm amgen '[Mae'n] llawer gwell na gwersi eraill' (person ifanc a gyfwelwyd). Roedd ffordd y gweithiwr ieuenctid o weithio, a nodweddir gan barch ac empathi, yn bwysig iddynt: '[Mae'r Gweithiwr Ieuenctid] yn deall eich sefyllfa […] nid yw athrawon eraill yn deall ac maen nhw'n disgwyl i chi wybod popeth' (person ifanc a gyfwelwyd). Dywedodd rhai myfyrwyr nad oeddent yn gorfod aros ar ôl ysgol mor aml bellach, a dywedodd y rhan fwyaf o fyfyrwyr eu bod yn teimlo'n hapusach yn yr ysgol ar ôl gweithio gyda Gweithiwr Ieuenctid a'u bod eisiau ymdrechu'n galetach mewn gwersi: 'mae wedi gwneud i ni i gyd newid' (person ifanc a gyfwelwyd).

**Adnabod yn gynnar a broceriaeth ar yr adeg trosglwyddo ac ôl-16 (Torfaen)**

**Cyd-destun**

Mae adran addysg Torfaen wedi bod yn destun mesurau arbennig ers mis Mawrth 2013 oherwydd canfu Estyn fod cynnydd annigonol wedi'i wneud ers arolygiad blaenorol yn 2011. O ganlyniad, mae'r YEPF wedi'i gyflwyno ar yr un pryd ag y mae'r awdurdod yn mynd i'r afael ag argymhellion gan Estyn. Mae rhanddeiliaid o'r farn bod yr YEPF wedi darparu fframwaith defnyddiol ar gyfer trefnu a monitro camau gwella.

Mae Cynllun Integredig Sengl y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn cynnwys amcan eglur i leihau cyfran y bobl ifanc 16-25 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Y Grŵp Llwybrau Cadarnhaol yw'r grŵp partneriaeth amlasiantaethol strategol sy'n gyfrifol am arwain gwaith i leihau nifer y bobl ifanc ôl-16 sy'n NEET. Fe'i sefydlwyd cyn i'r YEPF gael ei

gyflwyno ym mis Hydref 2013, ac ers hynny mae wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb am weithredu'r YEPF.

**Pa gamau gweithredu a gymerwyd o ran adnabod yn gynnar a broceriaeth ôl-16?**

Asesodd tîm arweinyddiaeth Torfaen rôl y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu a phenderfynodd fod ei swyddogaethau'n rhy eang ac amrywiol i'w cynnwys o fewn un rôl. Gwnaethant amlygu tair prif swyddogaeth ar gyfer y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu:

- datblygu perthnasoedd strategol
- coladu a dadansoddi data
- rheoli achosion a sgyrsiau manwl am bobl ifanc

O ganlyniad, maent wedi ymsefydlu gwahanol swyddogaethau'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu mewn rolau sydd eisoes yn bodoli. Mae'r Pennaeth Sgiliau a Chyflogaeth yn gyfrifol am arweinyddiaeth strategol, gan gynnwys gwaith partneriaeth; mae secondai o Gyrfa Cymru wedi'i benodi i arwain y broses o gasglu a dadansoddi data; ac mae cydgysylltydd NEET yr awdurdod lleol yn gyfrifol am oruchwylio'r broses o neilltuo gweithwyr arweiniol, goruchwylio rheoli achosion ac arwain trefniadau gweithredol.

Mae'r prosesau canlynol wedi'u sefydlu o ran adnabod yn gynnar a broceriaeth wrth drosglwyddo o addysg cyn-16 i ôl-16:

- Mis Ionawr: gofynnir i ysgolion roi data i'r awdurdod lleol ar gyrchfannau bwriadedig pobl ifanc ym Mlwyddyn 11 trwy lenwi ffurflen syml. Mae'r ffurflen hefyd yn gofyn am wybodaeth am bresenoldeb a chyrhaeddiad pobl ifanc. Caiff y data ei goladu a'i wirio yn erbyn data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion er mwyn sicrhau nad oes unrhyw bobl ifanc wedi cael eu hepgor o'r rhestr. Ers cyflwyno'r YEPF, cesglir gwybodaeth am bobl ifanc ym Mlynyddoedd 12 a 13 hefyd. Ystyrir bod y ffurflen hon yn fesur dros dro hyd nes y bydd y Broses Ymgeisio Gyffredin ar waith
- Mis Ebrill: llunnir rhestr o bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio a sicrheir ei bod ar gael i'r holl randdeiliaid yn y grŵp Cadw mewn Cysylltiad. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys yr awdurdod lleol, ysgolion a Gyrfa Cymru. Neilltuir gweithiwr arweiniol i bobl ifanc y mae arnynt angen cymorth, gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd ychwanegol wrth drosglwyddo i ddarpariaeth ôl-16. Yn nodweddiadol, neilltuir gweithiwr arweiniol o'r tîm ymgysylltu a datblygu ieuenctid i bobl ifanc yr amlygir

eu bod yn y perygl mwyaf (y rhai hynny sydd â statws coch). Bydd y gweithiwr ieuenctid yn aros yn weithiwr arweiniol trwy gydol y cyfnod trosglwyddo. Caiff cynghorydd Gyrfa Cymru ei neilltuo’n weithiwr arweiniol i bobl ifanc nad oes ganddynt broblemau presenoldeb neu gyrhaeddiad ond nad oes ganddynt ychwaith gynllun eglur ar gyfer addysg neu hyfforddiant ôl-16

- Mis Mehefin: mae’n ofynnol i bob ysgol roi gwybodaeth wedi’i diweddaru i’r awdurdod lleol am gyrchfannau amcanol pobl ifanc ym Mlwyddyn 11
- Mis Medi: mae’n ofynnol i ysgolion, colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith ddiweddaru’r rhestr hon yn seiliedig ar yr union gofrestriadau
- Diwedd mis Hydref: cynhelir arolwg cyrchfannau Gyrfa Cymru, sy’n darparu gwybodaeth am yr union gyrchfannau.

O fis Hydref ymlaen, ar ôl trosglwyddo i addysg a hyfforddiant ôl-16, cynhelir trafodaethau misol o leiaf â darparwyr ôl-16 (ysgolion, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a cholegau) i amlygu a thrafod pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio (y rhai hynny yn Haen 2) neu sydd mewn perygl o ymddieithrio (Haen 4) ac i neilltuo gweithiwr arweiniol. Ar hyn o bryd, y grŵp Cadw mewn Cysylltiad sy’n gyfrifol am hyn, ond mae’r awdurdod lleol yn bwriadu treialu defnyddio is-grŵp llai i neilltuo gweithiwr arweiniol. Gobeithir y bydd hyn yn hwyluso rhannu gwybodaeth ac yn sicrhau bod trafodaethau’n canolbwyntio mwy ar bobl ifanc unigol, eu hanghenion a’r hyn y gellir ei wneud i gefnogi eu cynnydd. Mae’r grŵp Cadw mewn Cysylltiad hefyd yn gyfrifol am bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ond sy’n anhysbys i wasanaethau (Haen 1).

Mae cyflwyno’r YEPF hefyd wedi cefnogi ymdrechion y coleg addysg bellach leol i leihau nifer y bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed sy’n NEET. Roedd y coleg yn y broses o lunio strategaeth ar gyfer pobl ifanc NEET pan gyflwynwyd yr YEPF. Roedd yr arweinydd ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc sy’n NEET wedi ail-lunio’r strategaeth i adlewyrchu blaenoriaethau ac arfer da’r YEPF. Elfen allweddol o strategaeth adnabod yn gynnar ôl-16 y coleg yw system adnabod yn gynnar a arweinir gan ddata, sy’n defnyddio data ar bresenoldeb, cymhwyster sylfaenol ar yr adeg mynediad (llythrennedd a rhifedd yn benodol), cyrhaeddiad a phryd y cofrestrodd y myfyriwr â’r darparwr fel dangosyddion risg. Roedd hyn ar waith cyn yr YEPF ond fe’i defnyddiwyd yn fwy cyson ers i’r YEPF gael ei gyflwyno.

Mae gweithwyr arweiniol yn y gwasanaeth ieuenctid a darparwyr ôl-16 wedi cydgysylltu pecynnau cymorth ar gyfer pobl ifanc, sydd wedi cynnwys gwell darpariaeth sgiliau cyflogadwyedd a gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd.

**Beth sydd wedi galluogi llwyddiant?**

Cytunwyd bod cyflwyno'r YEPF wedi cryfhau ac ategu dulliau a oedd eisoes yn bodoli ar gyfer adnabod yn gynnar a broceriaeth ôl-16 yn Nhorfaen.

Dyma'r ffactorau allweddol sydd wedi galluogi cynnydd o ran adnabod yn gynnar a broceriaeth ôl-16:

- **rhannu rôl y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu.** Yn arbennig, bu'n ddefnyddiol cael swydd benodol i arwain y broses o gasglu a dadansoddi data gan ysgolion a darparwyr ôl-16 ar bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio. Mae wedi galluogi rhannu gwybodaeth yn fwy systematig a phrydlon ac wedi helpu i gynyddu gwaith partneriaeth rhwng yr awdurdod lleol, Gyrfa Cymru a darparwyr ôl-16
- **arweinyddiaeth strategol gref.** Mae amcan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol o leihau cyfran y bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed sy'n NEET, ynghyd â fframwaith strategol eglur yr YEPF, wedi creu amgylchedd galluogol. Mae uwch reolwyr yn y prif sefydliadau partner yn ymrwymedig i agenda'r YEPF ac yn sbarduno newidiadau. Mae'r Grŵp Llwybrau Cadarnhaol yn strwythur effeithiol ar gyfer dwyn partneriaid ynghyd ac mae'n ymddangos fel petai'n arwain a llywodraethu'r broses o roi'r YEPF ar waith yn weithredol
- **cydweithio rhwng partneriaid gweithredol.** Yn gyffredinol, mae ysgolion, colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith yn ymrwymedig i wella'r trefniadau adnabod yn gynnar a throsglwyddo o addysg cyn-16 i ôl-16 ac yn ystod addysg ôl-16. Cyflawnwyd hyn yn rhannol trwy ddull ymgynghorol a thryloyw a arweiniwyd gan yr awdurdod lleol. Er enghraifft, ymgynghorwyd ag ysgolion wrth ddatblygu'r ffurflen ar gyrchfannau bwriadedig a phennu'r amser ar gyfer darparu gwybodaeth a neilltuo gweithwyr arweiniol
- **mae profiadau a'r hyn a ddysgwyd o brosiect Pre-Vent Cronfa Gymdeithasol Ewrop** wedi llywio'r broses o weithredu'r YEPF, yn enwedig o ran broceriaeth wrth drosglwyddo i addysg ôl-16. Ariannwyd gweithwyr arweiniol Pre-Vent trwy rownd ddiwethaf cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Cynhaliodd yr awdurdod lleol y cyllid ar gyfer y swyddi ar ôl i werthusiad o'r rôl newydd ddangos y buddion o ran gwell

ymgysylltiad a datblygiad pobl ifanc.

**Beth fu'r heriau a sut y'u goresgynnwyd?**

Y peth allweddol a ddysgwyd o flwyddyn gyntaf gweithredu'r YEPF yw bod cyfarfodydd darparwyr mawr yn helpu i ddatblygu perthnasoedd rhwng sefydliadau ond efallai nad honno yw'r sefyllfa orau i drafod achosion unigol, neilltuo gweithwyr arweiniol a monitro cynnydd. I ddechrau, roedd y grŵp gweithredol Cadw mewn Cysylltiad yn Nhorfaen, a oedd yn cynnwys nifer fawr o ddarparwyr, yn gyfrifol am froceru a throsglwyddo ôl-16. Mae'r broses hon yn cael ei haddasu fel y bydd y grŵp gweithredol Cadw mewn Cysylltiad yn cael ei gynnal fel rhwydwaith o ddarparwyr, ond bydd is-grŵp llai yn cael ei gynnull i neilltuo gweithwyr arweiniol a monitro cynnydd pobl ifanc.

Amlygwyd y gall fod yn anodd weithiau mewn sefydliadau mawr i ymgysylltu pob aelod o staff yng nghamau gweithredu'r YEPF. Er enghraifft, gallai rhai tiwtoriaid ac athrawon fethu â darparu gwybodaeth amserol am bobl ifanc y maent yn gweithio gyda hwy. I wella hyn, adroddodd uwch reolwyr yn y sefydliad darparu eu bod wedi ceisio pwysleisio pwysigrwydd yr YEPF a chamau cysylltiedig yn gyson ac i sicrhau bod methiant i gydymffurfio'n cael ei reoli'n briodol.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw strwythurau ffurfiol i ysgolion rannu gwybodaeth am bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio â darparwyr ôl-16 er mwyn sicrhau bod cymorth priodol yn gallu parhau. Amlygwyd hyn fel cam nesaf pwysig i'w ddatblygu er mwyn symud ymlaen â'r camau sydd eisoes wedi'u cymryd i wella adnabod yn gynnar.

**Canlyniadau**

O ganlyniad i'r camau a gymerwyd ers cyflwyno'r YEPF, yn ogystal â chryfhau trefniadau presennol, bu gwelliant o ran cydgysylltu a chydweithio rhwng partneriaid. Ystyrir bod partneriaid yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i rannu gwybodaeth fel bod pobl ifanc yn cael eu hamlygu'n gynnar ac yna'n cael cymorth priodol a gydgysylltir gan weithiwr arweiniol. Roedd sylwadau nodweddiadol yn cynnwys 'Rwy'n credu ein bod ni'n achub y blaen o ran partneriaeth a'r ffordd y mae pobl yn gweithio gyda'i gilydd'. (cynrychiolydd Gyrfa Cymru) Adroddodd nifer o randdeiliaid fod adnabod yn gynnar wedi gwella a bod prosesau ar gyfer broceriaeth wedi'u diffinio'n fwy eglur bellach.

Roedd y cyfweliadau â phobl ifanc hefyd yn dangos bod y cymorth a frocerwyd gan weithiwr arweiniol yn gwneud gwahaniaeth. Roedd pobl ifanc a gwblhaodd yr elfen ymgysylltu â hyfforddeiaeth gyda darparwr dysgu seiliedig ar waith lleol wedi disgrifio eu profiadau. Neilltuwyd cynghorydd Gyrfa Cymru

iddynt fel gweithiwr arweiniol yn ystod Blwyddyn 11 neu ar ôl gadael yr ysgol, a oedd wedi'u cynorthwyo i sicrhau lle ar y rhaglen hyfforddeiaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfweleion yn cydnabod eu bod wedi cael trafferth gyda chyfathrebu a hyder personol cyn cymryd rhan yn y rhaglen. Er enghraifft, esboniodd un person ifanc, 'Fe ddes i yma i gael help gan 'mod i ddim yn gallu siarad â phobl yn dda iawn' (person ifanc). Roedd pobl ifanc yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gawsant ar y rhaglen i ddysgu am wahanol broffesiynau, cymryd rhan mewn gweithgareddau meithrin tîm a gwibdeithiau a gwella eu sgiliau llythrennedd a rhifedd mewn amgylchedd cefnogol. Dywedodd un cyfranogwr, 'fe wnaeth fy ngwthio i wneud pethau na fuaswn yn eu gwneud fy hun…y prif beth oedd eu bod nhw [y darparwr dysgu seiliedig ar waith] yn gallu creu lefel o gysur gyda'r rhai oedd o'ch cwmpas cyn eich rhoi chi mewn sefyllfa anghyfarwydd' (person ifanc). I lawer, un o nodweddion allweddol y cymorth gwaith arweiniol a'r ddarpariaeth oedd 'cael eich trin fel oedolyn, nid fel yn yr ysgol'. O ganlyniad i gael gweithiwr arweiniol wedi'i neilltuo iddynt a chymryd rhan mewn darpariaeth a frocerwyd ar eu cyfer, adroddodd y bobl ifanc fod hynny wedi gwella eu hyder a'u helpu i ddiffinio eu diddordebau ar gyfer addysg bellach a chyflogaeth 'Oni bai am hyn, dwi ddim yn credu y buaswn i wedi ceisio cael swydd hyd yn oed...buaswn yn ei wneud eto petawn i'n gallu' (person ifanc)

**Adnabod yn gynnar a broceriaeth ôl-16 (Rhondda Cynon Taf)**

**Pa gamau gweithredu a gymerwyd i roi trefniadau adnabod yn gynnar a broceriaeth ôl-16 ar waith?**

*Trefniadau rheoli*

Mae'r trefniadau rheolaeth strategol ar gyfer adnabod yn gynnar a broceriaeth ôl-16 yr un fath ag ar gyfer holl elfennau eraill yr YEPF.

- Y Pennaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad yw'r Uwch Swyddog Atebol; mae'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu yn adrodd yn uniongyrchol i'r Uwch Swyddog Atebol.
- Y grŵp Cefnogi Ymgysylltiad ag Addysg a Hyfforddiant (SEET) yw'r grŵp llywio strategol ar gyfer yr YEPF. Mae aelodau'r grŵp hwn yn uwch reolwyr yn y sefydliadau partner allweddol gan gynnwys yr awdurdod lleol, Gyrfa Cymru, ysgolion, colegau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a sefydliadau'r sector gwirfoddol. Mae'r grŵp SEET yn gyfrifol am sicrhau bod y broses o ddatblygu a gweithredu'r YEPF yn cyd-fynd â'r amcanion blaenoriaeth a osodwyd yn y strategaeth a

chynllun gweithredu SEET.

- Mae'r grŵp SEET yn atebol i Fframwaith, sef y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn Rhondda Cynon Taf.

*Adnabod yn gynnar ôl-16*

Mae system adnabod yn gynnar yr awdurdod lleol yn amlygu pobl ifanc ym Mlwyddyn 11 sydd mewn perygl o ymddieithrio. O ran pobl ifanc cyn-16, mae'r ysgol yn ymgymryd â'r rôl gweithiwr arweiniol trwy ddarparu cymorth ychwanegol i bobl ifanc. Arweinir hyn gan Swyddog Datblygu Disgyblion fel arfer. Mae hyn yn cynnwys: broceru lleoliadau gwaith ychwanegol er mwyn helpu pobl ifanc i wneud penderfyniadau ynglŷn â'u camau nesaf mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth a chynnig darpariaeth arall sydd wedi'i theilwra i ddull dysgu pobl ifanc.

Mae Protocol Rhannu Gwybodaeth wedi'i lofnodi sydd, mewn egwyddor, yn caniatáu i wybodaeth gael ei rhannu â darparwyr ôl-16 ar yr adeg trosglwyddo. Hyd yma, mae hyn wedi bod yn digwydd mewn modd ad hoc yn hytrach nag yn systematig. Disgwylir y bydd y Protocol Rhannu Gwybodaeth, a ategir gan ddulliau newydd fel cyfarfodydd trosglwyddo rheolaidd rhwng staff yr awdurdod lleol, ysgolion a darparwyr ôl-16, yn gwella'r broses drosglwyddo. Dylai hyn rybuddio darparwyr ôl-16 yn gynnar am bobl ifanc y mae angen cymorth ychwanegol arnynt (h.y. sydd yn Haen 4).

Mae darparwyr ôl-16 yn monitro presenoldeb pobl ifanc ac os bydd yn gostwng, maent yn rhoi gwybod i staff bugeiliol y disgwylir iddynt ymyrryd i gael gwybod pam mae presenoldeb wedi dirywio a darparu cymorth priodol (er enghraifft cyfeirio at wasanaethau ehangach, atgyfeirio i Gyrfa Cymru am wybodaeth a chyfarwyddyd manylach).

*Darparu gwaith arweiniol*

Cyn cyflwyno'r YEPF ym mis Hydref 2013, ad-drefnodd Rhondda Cynon Taf ei Wasanaeth Ieuenctid. Cyfunwyd dau wasanaeth, sef y Gwasanaeth Presenoldeb a Lles a'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid, i ffurfio Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad newydd. Ceir tri math o staff yn y gwasanaeth newydd hwn:

- Swyddogion Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid, sy'n gyfrifol am amlygu pobl ifanc ôl-16 yn Haen 1 sy'n anhysbys i wasanaethau. Maent hefyd yn cyflwyno darpariaeth ymgysylltu cyn-16 ac ôl-16. Yn nodweddiadol, bydd swyddog Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid yn gweithio gyda chwech neu saith person ifanc ar unrhyw un adeg. Caiff

yr enwau eu gwirio yn erbyn systemau eraill (fel y system gwybodaeth reoli ysgolion) i gadarnhau nad yw'r bobl ifanc eisoes yn cael eu cynorthwyo gan wasanaethau eraill. Mae'r Swyddogion Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid yn defnyddio dull rhagweithiol o amlygu pobl ifanc, gan gynnwys ymweld â'u cartrefi a gweithio mewn partneriaeth agos â gwasanaethau eraill

- Gweithwyr Cymorth Trosglwyddo ôl-16, sy'n gyfrifol am bobl ifanc yn Haen 2. Ariennir yr aelodau staff hyn trwy'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ac maent yn darparu cymorth dwys a hyblyg i bobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys ymweld â phobl ifanc gartref, trefnu apwyntiad Gyrfa Cymru iddynt a mynd gyda hwy i'r cyfweliad os dymunir hynny, a'u cynorthwyo i wneud trefniadau teithio ar gyfer addysg a hyfforddiant a magu hyder i deithio'n annibynnol. Yn nodweddiadol, mae gan Weithwyr Cymorth Trosglwyddo lwyth achosion o 30 o bobl ifanc

- Swyddogion Presenoldeb a Lles, sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol i ddwyn achos llys, os oes angen, yn erbyn absenoldeb parhaus o'r ysgol. Mae'r Swyddog Presenoldeb a Lles yn darparu cymorth i ysgolion, disgyblion a rhieni er mwyn sicrhau presenoldeb rheolaidd a mynd i'r afael â phroblemau yn ymwneud ag absenoliaeth. Mae'r Swyddogion Presenoldeb a Lles yn gweithio'n bennaf gyda phobl ifanc iau nag 16 oed.

Gall yr holl aelodau staff hyn weithredu fel gweithwyr arweiniol ôl-16 ac mae gwaith arweiniol wedi'i gynnwys yn eu swydd-ddisgrifiadau. Neilltuir achosion i staff gan y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu, gan ddefnyddio'r wybodaeth pum haen a gânt gan Gyrfa Cymru. Neilltuir achosion i staff am gyfnod chwe wythnos i ddechrau a disgwylir iddynt ddarparu cymorth yn ystod y cyfnod hwnnw i helpu person ifanc i symud ymlaen i'r haen nesaf. Er hynny, ceir hyblygrwydd i weithiwr arweiniol ddarparu cymorth am gyfnod hwy na chwe wythnos os oes angen.

Mae'r awdurdod lleol wedi buddsoddi mewn systemau gwybodaeth reoli i gefnogi trefniadau mwy effeithiol ar gyfer adnabod yn gynnar a broceriaeth ôl-16. Bydd y system newydd, y disgwylir iddi fod yn barod ym mis Mehefin 2015, yn awtomeiddio'r broses proffilio lefel risg cyn-16. Dylai hyn ei gwneud yn haws trosglwyddo gwybodaeth i ddarparwyr ôl-16 ar yr adeg trosglwyddo o addysg cyn-16 er mwyn eu galluogi i ddarparu cymorth wedi'i deilwra a'i dargedu ar gyfer pobl ifanc newydd sy'n ymuno y mae arnynt angen cymorth ychwanegol. Bydd y system newydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am bobl ifanc 16-19 oed sydd mewn chweched dosbarth ysgol. Bydd hyn yn caniatáu

ar gyfer monitro eu cynnydd o addysg cyn-16 i ôl-16 yn fwy effeithiol.

**Beth sydd wedi galluogi cynnydd?**

Roedd yr holl gyfweleion o'r farn bod y trefniadau rheolaeth strategol cadarn wedi galluogi cynnydd. Mae'r ffaith bod grŵp llywio'r YEPF yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn sicrhau bod proffil uchel yn cael ei gynnal i'r fframwaith a bod ei amcanion yn aros yn flaenoriaeth ymhlith sefydliadau rhanddeiliaid. Ceir arweinyddiaeth ragweithiol gan yr Uwch Swyddog Atebol ac adroddodd aelodau'r grŵp Cefnogi Ymgysylltiad ag Addysg a Hyfforddiant (SEET) fod y grŵp yn gweithredu'n effeithio. Mae presenoldeb yn dda ac mae'r aelodau'n cyfranogi'n rhagweithiol.

Mae pennu cyfnod diffiniedig o chwe wythnos ar gyfer symud pobl ifanc ymlaen i'r haen nesaf wedi galluogi cynnydd. Ystyrir bod hyn yn 'ysgogol, ac mae'n helpu i dargedu gwaith a chyflawni canlyniadau*'* (uwch reolwr awdurdod lleol). Mae'r rhai hynny sy'n gysylltiedig yn awgrymu bod hyn yn atal gwaith digyfeiriad gyda pherson ifanc nad yw'n ei helpu i wneud cynnydd. Yn yr un modd, maent o'r farn bod symud i ffwrdd oddi wrth fodel gweithiwr allweddol – lle mae un gweithiwr allweddol yn aros gyda'r person ifanc – i fodel lle mae gweithwyr yn arbenigo ym mhob rhan o'r llwybr, wedi bod yn llwyddiannus, gan ganiatáu i weithwyr ganolbwyntio ar eu harbenigedd a'u cryfderau proffesiynol.

**Beth fu'r rhwystrau a sut y'u goresgynnwyd?**

Mae sicrhau bod y data a gofnodir ar systemau gwybodaeth reoli yn gywir yn her barhaus. Cydnabyddir bod data cywir yn dylanwadu ar y math o ymgysylltiad â phobl ifanc, ei ansawdd a'i raddau, oherwydd 'mae'r hyn rydych chi'n ei wneud yn seiliedig ar adroddiadau ond cystal â'r data sy'n dod i mewn' (uwch reolwr awdurdod lleol). Mae'r awdurdod lleol wedi cydgysylltu ac arwain gwaith cynyddu ymwybyddiaeth ac arweiniad, ac mae wedi cymryd camau pendant i gynorthwyo partneriaid er mwyn helpu i wella ansawdd a chywirdeb data.

Mae wedi cymryd amser i ddatblygu trefniadau partneriaeth rhwng yr awdurdod lleol a'r Ganolfan Byd Gwaith, a bu heriau gweinyddol. Mae gweithio ar y cyd rhwng staff y Ganolfan Byd Gwaith a'r awdurdod lleol ar brosiectau bach sy'n darparu cyflogadwyedd i bobl ifanc yn Haen 2 wedi gwella'r cyfathrebu rhwng y sefydliadau hyn, yn ogystal â phartneriaid y sector gwirfoddol, a defnyddir ffurflen cofrestru ac atgyfeirio gyffredin ar hyn o bryd sy'n galluogi rhannu data.

**Canlyniadau**

O ganlyniad i'r camau a gymerwyd ers cyflwyno'r YEPF, cyflawnwyd nifer o welliannau mewn perthynas ag adnabod a broceriaeth ôl-16:

- mae'r awdurdod lleol wedi ad-drefnu'r gwasanaethau y mae'n eu cynnig i bobl ifanc yn llwyddiannus ar yr un pryd â sicrhau bod y bobl ifanc fwyaf agored i niwed yn parhau i dderbyn cymorth ac yn derbyn gwell cymorth. Mae'r gwasanaeth wedi'i resymoli; symudwyd i ffwrdd oddi wrth wasanaeth ieuenctid cyffredinol a oedd yn cyflogi nifer fawr o weithwyr rhan-amser mewn amrywiaeth o rolau i un sy'n canolbwyntio ar amlygu pobl ifanc y mae arnynt angen cymorth i symud ymlaen a chyflawni, a gweithio'n ddwys gyda hwy
- mae aelodau staff mewn rolau newydd yn dangos cymhelliad uchel ac yn cefnogi'r trefniadau newydd, sy'n caniatáu ar gyfer mwy o hyblygrwydd yn ogystal â gwaith dwysach fel y bo'r angen ar froceru
- mae nifer yr unigolion a gategoreiddiwyd yn amhriodol yn Haen 1 neu Haen 2 wedi gostwng. Amlygodd adolygiad systematig nifer sylweddol o unigolion a gategoreiddiwyd yn Haen 1 neu Haen 2 yn anghywir, yn gyffredinol oherwydd eu bod wedi symud allan o'r ardal (er enghraifft, i fynd i'r brifysgol). Mae hyn wedi rhyddhau adnoddau i'w defnyddio i gynorthwyo pobl ifanc Haen 2.

Mae gwaith partneriaeth wedi cynyddu, yn enwedig ar gyfer broceriaeth ôl-16. Mae partneriaethau wedi'u sefydlu â'r Ganolfan Byd Gwaith, y trydydd sector, darparwyr dysgu seiliedig ar waith, a'r holl golegau yn yr ardal. Ategir hyn gan well trefniadau rhannu gwybodaeth rhwng yr awdurdod lleol, Gyrfa Cymru a'r colegau, a ysgogir gan y Protocol Rhannu Gwybodaeth newydd. Mae hefyd wedi caniatáu i'r awdurdod lleol barhau i gyflwyno ei raglen gyflogadwyedd wedi'i thargedu, sef Your Future First, i nifer fach o bobl ifanc ôl-16. Ni fyddai hynny wedi bod yn gost-effeithiol heb ewyllys da a chydweithrediad partneriaid.

**Mapio'r ddarpariaeth (Sir Benfro)**

**Cyd-destun**

Yn Sir Benfro, dechreuodd gwaith ar fapio'r ddarpariaeth cyn yr YEPF. Yn 2010, newidiodd yr awdurdod lleol a Choleg Sir Benfro i gydgynllunio a chydgomisiynu darpariaeth ôl-16 mewn ysgolion a cholegau ar draws y sir. Sbardunwyd hyn yn bennaf gan yr agenda bolisi Llwybrau Dysgu 14-19 yn ogystal â gostyngiadau mewn cyllid a olygodd fod angen mwy o gydweithredu. Gan gydnabod yr angen am ddull mwy strategol, mapiwyd y

ddarpariaeth ôl-16 a oedd eisoes yn bodoli (heblaw am ddarpariaeth dysgu seiliedig ar waith). Amlygwyd dyblygu a bylchau yn y ddarpariaeth wrth ddadansoddi'r map darpariaeth cychwynnol hwnnw. Mewn ymateb i hyn, arweiniodd yr awdurdod lleol gamau i sefydlu dulliau ar gyfer cynllunio a chyflwyno darpariaeth ôl-16 yn fwy cydweithrediadol a lleihau cystadleuaeth rhwng darparwyr. Mae rhanddeiliaid o'r farn y bu hyn yn llwyddiannus ac adroddwyd ei fod wedi lleihau dyblygu a galluogi pynciau a chanddynt niferoedd cymharol isel o fyfyrwyr i barhau i gael eu darparu.

Roedd cyflwyno'r YEPF wedi sbarduno darn o waith i adolygu a diweddaru'r map darpariaeth a'i ymestyn i gynnwys hyfforddeiaethau, prentisiaethau a dysgu seiliedig ar waith masnachol. Y nod oedd y byddai rhanddeiliaid strategol yr YEPF yn ystyried y canfyddiadau ac yn gweithio ar y cyd i gytuno ar newidiadau angenrheidiol i'r ddarpariaeth dysgu seiliedig ar waith er mwyn gwella'r hyn a gynigir i bobl ifanc.

**Pa gamau gweithredu a gymerwyd ers lansio'r YEPF?**

***Sut y cynhaliwyd y gwaith mapio darpariaeth***

Yn Sir Benfro, roedd y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu, sy'n arweinydd strategol ar gyfer addysg 14-19, wedi arwain ymarfer mapio darpariaeth yr YEPF. Mae'r gwaith mapio darpariaeth yn gysylltiedig â chamau gweithredu yng Nghynllun Gwella'r awdurdod lleol yn ogystal â Chynllun Integredig Sengl y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Mae hyn yn golygu bod unigolion allweddol sy'n gwneud penderfyniadau yn yr awdurdod lleol wedi herio a chraffu ar y broses.

Cefnogwyd y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu gan swyddog data a gasglodd wybodaeth am y ddarpariaeth gan ddarparwyr, cofnodi'r wybodaeth ar daenlen a'i dadansoddi. Er na sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen ffurfiol, gweithredodd Rhwydwaith Sgiliau Sir Benfro, sy'n cynnwys yr holl ddarparwyr ôl-16, fel gweithgor yn ystod y broses i gytuno ar sut y dylai'r ymarfer mapio darpariaeth gael ei gynnal a thrafod y canfyddiadau.

Crëwyd map darpariaeth drafft gan ddefnyddio'r templed a'r data a roddwyd gan Lywodraeth Cymru. Dosbarthwyd hwn ymhlith darparwyr ôl-16, y gofynnwyd iddynt wirio cywirdeb y wybodaeth a'i hategu â gwybodaeth ychwanegol am raddfa, grŵp targed, canlyniadau dysgu bwriadedig ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth. Rhannwyd y drafft ag aelodau'r Rhwydwaith 14-19 hefyd.

Wedi hynny, cynhaliwyd gweithdai â darparwyr ôl-16 i gadarnhau'r wybodaeth a llenwi unrhyw fylchau a oedd yn weddill. Arweiniodd hyn at fap

cwricwlwm ar gyfer pob darparwr – taenlen a oedd yn rhestru'r ddarpariaeth a oedd ar gael yn erbyn sectorau blaenoriaeth allweddol.

***Sut y defnyddiwyd y map darpariaeth***

Arweiniodd y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu y broses o ddadansoddi'r data a'r wybodaeth a gasglwyd yn y mapiau darpariaeth gyda'r nod o amlygu bylchau a dyblygu. Roedd y dadansoddiad yn cynnwys adolygiad o wybodaeth am y farchnad lafur yn yr ardal leol a ddarparwyd gan y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau. Roedd hyn yn galluogi'r dadansoddiad i weld 'yr hyn rydym ni'n ei gynnig o gymharu â'r hyn y dylem ni fod yn ei gynnig'. Ystyriwyd gwybodaeth ychwanegol am y galw gan bobl ifanc hefyd. Roedd hyn yn cynnwys, er enghraifft, gwybodaeth o gronfa ddata IO Gyrfa Cymru am sectorau y mae pobl ifanc yn bwriadu ymgeisio am swyddi ynddynt neu wedi ymgeisio am swyddi ynddynt, a gwybodaeth ansoddol gan swyddogion derbyniadau mewn darparwyr ôl-16.

Lluniodd y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu adroddiad a oedd yn crynhoi cryfderau a chyfyngiadau'r ddarpariaeth 16-18 oed bresennol. Dyma'r prif fylchau a amlygwyd gan y dadansoddiad:

- darpariaeth gyfyngedig i gefnogi'r twf amcanol yn y sector amaethyddol, yn enwedig mewn crefftau amaethyddol medrus a chrefftau cysylltiedig
- darpariaeth Lefel 3 gyfyngedig ym meysydd ynni a'r amgylchedd; amaethyddiaeth; manwerthu a masnachol; gwasanaethau ariannol; paratoi am fywyd a gwaith
- nid yw pob sector yn cynnig dewis galwedigaethol bach (cyfwerth ag un Safon Uwch) i alluogi dysgwyr i gael mynediad at gwricwlwm cyffredinol-alwedigaethol cymysg
- diffyg darpariaeth addysg fenter
- cyfleoedd cyfyngedig i gael mynediad at addysg ddwyieithog neu gyfrwng Cymraeg
- mynediad cyfyngedig at gyfleoedd lefel Mynediad a Lefel 1 amser llawn
- cyfleoedd cyfyngedig i gamu ymlaen o hyfforddeiaethau mewn rhai sectorau allweddol, gan gynnwys twristiaeth; a
- chyfleoedd cyfyngedig ar gyfer prentisiaethau yn y gwyddorau bywyd

(sector twf yn yr is-ranbarth ehangach).

Roedd yr ymarfer mapio darpariaeth hefyd yn awgrymu angen cyffredinol i gynyddu nifer y dyddiadau dechrau treigl sydd ar gael.

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r grŵp strategol NEET yn Sir Benfro yn ogystal â Rhwydwaith Sgiliau Sir Benfro. Ar adeg ymchwil yr astudiaeth achos, roedd y partneriaid yn y grwpiau hyn yng ngham olaf cytuno ar yr adroddiad a'i gymeradwyo.

Mae prosesau i ymateb i'r bylchau a amlygwyd wedi'u cychwyn. Er enghraifft, mae'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu wedi cydgysylltu ac arwain trafodaethau â darparwyr dysgu seiliedig ar waith ac maent hwy'n ymateb i lenwi bylchau mewn darpariaeth lefel mynediad a darpariaeth garddwriaeth. Mae trafodaethau cydgynllunio ychwanegol yn mynd rhagddynt, gan ddisgwyl y bydd newidiadau dilynol i'r ddarpariaeth.

Sicrhawyd bod y map darpariaeth ar gael yn electronig i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Mae un o reolwyr Gyrfa Cymru sy'n aelod o'r grŵp strategol NEET wedi rhannu'r wybodaeth â'i staff, ac adroddodd eu bod yn ei defnyddio mewn trafodaethau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd gyda phobl ifanc.

Nesaf, bwriedir i gyfleoedd gwirfoddoli gael eu hychwanegu at y map darpariaeth yn ogystal â rhagor o fanylion am y lleoliadau daearyddol y mae'r ddarpariaeth ar gael ynddynt.

Bwriedir i'r map darpariaeth gael ei ddiweddaru'n flynyddol. Gan fod y templedi a'r prosesau wedi'u sefydlu bellach, mae'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu o'r farn y dylai hyn fod yn ddidrafferth.

**Beth sydd wedi galluogi cynnydd?**

Dyma'r prif ffactorau sydd wedi galluogi cynnydd:

- **arweinyddiaeth gref** gan yr awdurdod lleol i gydgysylltu'r ymarfer mapio a sicrhau ymrwymiad partneriaid i ymateb i fylchau a dyblygu yn y ddarpariaeth. Mae'r grŵp strategol NEET (a adwaenir fel y grŵp SEET) wedi bod yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith a chymeradwyo'r adroddiad terfynol ar yr ymarfer mapio darpariaeth. Arweiniwyd y gwaith gan uwch reolwr yn yr awdurdod lleol sydd wedi ymroi cryn dipyn o amser i hysbysu sefydliadau partner am amcanion yr ymarfer a hwyluso trafodaethau rhyngddynt i gytuno ar newidiadau i'r ddarpariaeth

- **cynnal dadansoddiad cadarn sy'n defnyddio ystod o ffynonellau tystiolaeth.** Mae defnyddio gwybodaeth a data gan ddarparwyr, gwybodaeth am y farchnad lafur a gwybodaeth am y galw am ddarpariaeth o gronfa ddata Gyrfa Cymru wedi cyfrannu at y llwyddiant. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod canfyddiadau'r ymarfer mapio'n gadarn ac yn gredadwy ym marn rhanddeiliaid
- **parodrwydd ymhlith partneriaid i weithio ar y cyd.** Cyfeiriodd y cyfweleion at barodrwydd a oedd yn dod i'r amlwg ymhlith darparwyr dysgu seiliedig ar waith i gydweithredu i gynllunio darpariaeth. Galluogwyd hyn yn rhannol gan arweiniad strategol yr awdurdod lleol, sydd wedi dangos i ddarparwyr bod addasu'r ddarpariaeth er mwyn llenwi bylchau ac osgoi dyblygu yn arwain at fuddion i ddarparwyr yn ogystal â phobl ifanc. Mae angen ailadrodd ac enghreifftio'r neges hon er mwyn helpu i sicrhau ymrwymiad darparwyr
- **arweiniad gan Lywodraeth Cymru.** Adroddwyd bod y templed, y data ar ddarpariaeth a'r nodyn cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn ddefnyddiol.

**Beth fu'r heriau a sut y'u goresgynnwyd?**

O safbwynt yr awdurdod lleol, y brif her yw'r amser a'r adnoddau sy'n angenrheidiol i arwain a chydgysylltu'r gwaith mapio ac yna cynllunio ac ad-drefnu'r ddarpariaeth. Mae angen amser a sgiliau rheolwr strategol sydd â chysylltiadau da â phartneriaid strategol yn ogystal â chymorth gweinyddol a dadansoddi data.

Mae lleihau'r gystadleuaeth rhwng darparwyr ôl-16 yn her fawr arall. Gall arweinyddiaeth strategol gan yr awdurdod lleol atal darparwyr rhag gweithio ar wahân i gynllunio darpariaeth a threfnu o amgylch eu cyllidebau a'u hadnoddau eu hunain yn hytrach nag anghenion pobl ifanc. Yn Sir Benfro, mae'r Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu wedi treulio llawer o amser yn pwysleisio bod gwell cydgysylltu o fudd i ddarparwyr yn ogystal â phobl ifanc, yn enwedig mewn sefyllfa lle mae llai o gyllid ar gael. Mae proses dryloyw a chadarn ar gyfer casglu a chofnodi gwybodaeth wedi helpu i ennyn ymgysylltiad darparwyr hefyd. Trwy gyflwyno gwybodaeth gynhwysfawr mewn ffordd eglur a hygyrch, mae'r sail resymegol dros wneud newidiadau i'r ddarpariaeth yn fwy eglur i'r holl randdeiliaid.

**Canlyniadau**

O ganlyniad i'r gwaith mapio darpariaeth a gynhaliwyd o dan yr YEPF:

- mae gan yr awdurdod lleol wybodaeth gadarn i lywio cynigion rhanbarthol i Gronfa Gymdeithasol Ewrop er mwyn sicrhau bod bylchau yn y ddarpariaeth yn cael eu llenwi a bod dyblygu'n caei ei osgoi
- mae gwaith partneriaeth rhwng darparwyr wedi'i gryfhau. Dywedodd un rhanddeiliad: 'Nid ydym bellach yn siarad am dynnu'n ôl o ddarpariaeth [ar gyfer person ifanc], rydym yn siarad am drosglwyddo, darpariaeth arall, rydym yn siarad am hawl o dan y Warant Ieuenctid. Mae'r rhwydwaith yn mynd o nerth i nerth – mae'n ymwneud â mwy na'r coleg a phobl ifanc yn unig' (staff coleg)
- bu cynnydd tuag at gynnig darpariaeth 16-18 oed fwy cytbwys gyda mwy o ddewis i bobl ifanc yn Sir Benfro. Deellir y bylchau'n well erbyn hyn. Mae rhai addasiadau eisoes wedi'u gwneud ac mae eraill yn cael eu cynllunio a'u datblygu ar hyn o bryd. Dywedodd un rhanddeiliad 'roedd tuedd i gyflwyno'r un ddarpariaeth o flwyddyn i flwyddyn – mae'n fwy ymatebol yn awr' (staff a rheolwyr coleg)
- dywedodd rhanddeiliaid, oherwydd bod gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc well gwybodaeth am y farchnad lafur leol a darpariaeth, 'mae pobl ifanc yn fwy gwybodus am gyfleoedd nag erioed o'r blaen' (Gyrfa Cymru)
- mae gan yr awdurdod lleol y rhan fwyaf o'r wybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer y prosbectws Proses Ymgeisio Gyffredin.

**Mapio'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc 19-24 oed (Conwy a Sir Ddinbych)**

Yng Nghonwy a Sir Ddinbych, roedd y prosiect Llwybrau Blaengar i Feithrin Cysylltiadau (PEP) yn brosiect a ariannwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop ac a gomisiynwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Ei nod oedd gwella cyfleoedd i bobl ifanc 19-24 a oedd wedi ymddieithrio ar draws y ddau awdurdod lleol. Yn benodol, roedd yn ceisio datblygu dull mwy deallus o gomisiynu gwasanaethau, cyflwyno cydgysylltu strategol rhwng gwasanaethau ac annog mwy o gydweithredu. Elfen allweddol o'r prosiect oedd mapio'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer pobl ifanc 19-24 oed er mwyn amlygu bylchau a dyblygu. Er y datblygwyd y prosiect cyn i'r YEPF gael ei lansio ym mis Hydref 2013, fe'i cyflwynwyd am 12 mis o fis Tachwedd 2013 ac felly fe'i cynhaliwyd yn gyfochrog â cham gweithredu cynnar yr YEPF yng

Nghonwy a Sir Ddinbych.

**Sail resymegol a chyd-destun**

Cychwynnwyd y prosiect gan staff yng Ngrŵp Llandrillo Menai a Gyrfa Cymru mewn ymateb i bryderon bod llawer o'u dysgwyr 19-24 oed yn wynebu rhwystrau rhag ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Roeddent wedi sylwi ar fwy o effeithiau tlodi ymhlith eu dysgwyr, gan gynnwys mwy o achosion o broblemau iechyd meddwl. Yn ogystal, roedd ganddynt dystiolaeth anecdotaidd o ddyblygu gwasanaethau, gydag adroddiadau am bobl ifanc a chanddynt sawl gweithiwr achos ond nad oeddent yn symud ymlaen mewn addysg a hyfforddiant. Ategwyd hyn gan yr ystadegau lleol am bobl ifanc sy'n NEET, nad oeddent wedi gwella. Cyflwynodd uwch reolwyr o'r coleg a Gyrfa Cymru y broblem i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, y mae ymgysylltiad a datblygiad pobl ifanc 19-24 oed yn flaenoriaeth strategol iddo. 'Mae'r grŵp hwn yn flaenoriaeth allweddol i ni. Fe'i hystyriwn yn genhedlaeth goll y mae angen i ni ei helpu' (aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol). Gwnaethant ofyn am gyllid i gynnal ymarfer mapio strategol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o raddfa a natur y broblem. Roedd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn cefnogi'r prosiect ac yn ei ystyried yn 'gyfle i gael gwybod yn union beth oedd y materion' (aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol). Llwyddodd y coleg i sicrhau cyllid o Gronfa Gymdeithasol Ewrop, a gyfatebwyd gan gyllid oddi wrth yr awdurdodau lleol.

**Sut y rheolwyd a chyflwynwyd y prosiect?**

Sefydlwyd Bwrdd Prosiect strategol amlasiantaethol i oruchwylio a llywio'r prosiect. Aelodau'r Bwrdd oedd prif weithredwr y coleg, cadeirydd y Bwrdd Gwasanaeth Lleol, uwch reolwyr o'r awdurdodau lleol a rheolwr rhanbarthol o'r Adran Gwaith a Phensiynau. Sefydlwyd grŵp gweithredol llai, a arweiniwyd gan reolwr prosiect penodedig, i gyflwyno'r prosiect ac adrodd ar gynnydd i'r Bwrdd Prosiect strategol.

Lluniwyd templed i gasglu gwybodaeth gan ddarparwyr am eu gwasanaethau i bobl ifanc 19-24 oed. Fe'i dosbarthwyd ar ffurf bapur ac ar y we. Yna, dilyswyd y data trwy ffonio darparwyr i holi ynghylch bylchau yn y templed ac unrhyw wybodaeth aneglur.

Amlygodd yr ymarfer mapio fwy na 250 o sefydliadau a oedd yn gweithio gyda phobl ifanc. Dyma'r canfyddiadau allweddol o'r dadansoddiad o'r ddarpariaeth:

- roedd y ddarpariaeth yn cael ei dyblygu mewn rhai ardaloedd

daearyddol tra bod bylchau mewn eraill

- nid oedd yn eglur faint o bobl ifanc oedd yn cael mynediad at wasanaethau
- nid oedd ansawdd ac effaith gwasanaethau'n cael eu mesur yn systematig
- roedd y lefel uchel o fuddsoddiad ariannol yn anghymesur â'r niferoedd cymharol fach yn y grŵp targed a'r cynnydd yr oeddent wedi'i wneud mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant o ganlyniad i'r buddsoddiad.

Ochr yn ochr â chasglu gwybodaeth wrth ddesg, cynhaliwyd 13 gweithdy prosiect i gasglu safbwyntiau pobl ifanc ar y ddarpariaeth leol. Cymerodd 61 o bobl ifanc ran yn y gweithdai, a gynhaliwyd mewn ystod o leoliadau cymunedol. Rhoddodd rhai pobl ifanc adborth trwy holiadur hefyd. Roedd yr adborth gan bobl ifanc yn eang ac yn cynnwys y ffaith 'y gallwch gael eich trosglwyddo o un sefydliad i'r llall drosodd a throsodd' (partner yn y sector gwirfoddol) a bod 84 y cant yn credu y byddai'n ddefnyddiol mynd i un man i gael cyngor a chymorth.

Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori â sefydliadau darparu hefyd i gael barn staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc sydd wedi ymddieithrio ar ddarpariaeth leol.

Mae'r bartneriaeth strategol amlasiantaethol wedi bod yn ymateb i'r problemau a amlygwyd yn yr ymarfer mapio darpariaeth. Hyd yma, gwnaed hyn trwy:

- gydweithio i ddatblygu cynnig rhanbarthol gan ogledd Cymru i Gronfa Gymdeithasol Ewrop er mwyn llenwi bylchau yn y ddarpariaeth a chynnig gwasanaeth mwy cydgysylltiedig i bobl ifanc. Yn rhan o'r broses o ddatblygu'r cynnig, mae'r wybodaeth am ddarpariaeth leol yn cael ei hasesu yng ngoleuni gwybodaeth am y farchnad lafur leol
- treialu proses atgyfeirio newydd rhwng Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith er mwyn gwella'r trefniadau i bobl ifanc 19-24 oed drosglwyddo i gymorth gan y Ganolfan Byd Gwaith. Mae ffurflen newydd wedi'i datblygu a gwblheir gan y Ganolfan Byd Gwaith (a sefydliadau atgyfeirio eraill), sy'n cofnodi gwybodaeth am statws addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, anghenion a diddordebau canfyddedig a chaniatâd. Yn ogystal, mae cynghorwyr Gyrfa Cymru yn cael eu cydleoli mewn Canolfannau Gwaith am gyfnod prawf. Mae hyn yn cael

ei fonitro'n ofalus ac, os bydd yn llwyddiannus, fe allai gael ei ymestyn i Ganolfannau Gwaith eraill

- diweddaru cynllun gweithredu a gwella'r YEPF trwy ddiffinio camau gweithredu o dan y chwe elfen sydd i'w harwain ar y cyd gan y partneriaid strategol.

**Beth sydd wedi galluogi cynnydd?**

Dyma'r prif ffactorau sydd wedi galluogi cynnydd:

- **gwaith amlasiantaethol ymrwymedig.** Dywedodd sawl cyfwelai fod y cydweithio rhwng y Ganolfan Byd Gwaith, yr awdurdod lleol a'r coleg wedi cyfrannu at y llwyddiant. Mae'r gwaith partneriaeth hwn yn gymharol newydd, yn enwedig gyda'r Ganolfan Byd Gwaith. Mae'r ffaith bod y grŵp llywio'n cynnwys uwch aelodau staff sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau yn eu sefydliadau, a bod yr unigolion hynny'n rhagweithiol ac yn ymrwymedig i ddull partneriaeth newydd, wedi helpu i ffurfio perthnasoedd yn gyflym. Mae hefyd wedi helpu i sicrhau bod y prosiect yn cynnal proffil uchel ac yn parhau i gyd-fynd â blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. 'Mae'r prosiect hwn wedi dangos pa mor gynhyrchiol y gall grŵp strategol amlasiantaethol fod' (rheolwr o'r Ganolfan Byd Gwaith)
- **dulliau rhagorol o alluogi pobl ifanc i leisio eu barn am y ddarpariaeth leol.** Ystyriwyd bod cynnwys pobl ifanc yn yr ymarfer mapio'n hollbwysig. Dywedodd un gweithiwr proffesiynol rheng flaen: 'mae'n rhwydd iawn gwneud tybiaethau a chredu eich bod chi'n gwybod beth yw barn pobl ifanc, ond fe wnaethon nhw roi agoriad llygad i ni'. Cytunodd uwch reolwr, gan ddweud, 'mae'n ymarfer da iawn i gael tystiolaeth uniongyrchol. Mae clywed yn uniongyrchol gan bobl ifanc wedi ein gwneud ni'n llawer mwy penderfynol'
- **digwyddiadau lledaenu ar gyfer rhanddeiliaid i ystyried canfyddiadau a diffinio camau gweithredu.** Cynhaliwyd digwyddiad y gwahoddwyd yr holl randdeiliaid iddo, gan gynnwys pobl ifanc. Rhannwyd yr hyn a ddysgwyd o'r prosiect. Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod hyn wedi helpu i sicrhau bod y partneriaid yn ymrwymedig i ymateb i'r problemau a amlygwyd
- **ystyriwyd bod rheolwr prosiect penodedig** a gefnogir gan grŵp gweithredol bach yn hollbwysig hefyd. Gan fod y grŵp gweithredol yn fach, roedd yn gallu gweithio'n gyflym ac yn ymatebol. Roedd hefyd yn

bwysig bod y grŵp gweithredol a’r grŵp strategol yn cyfathrebu’n fynych, gyda’r grŵp gweithredol yn dwyn unrhyw faterion neu rwystrau i sylw Bwrdd y Prosiect fel y bo’r angen er mwyn iddo allu hwyluso datrysiadau.

**Beth oedd y rhwystrau a sut y’u goresgynnwyd?**

Cydnabu’r partneriaid ei bod wedi cymryd peth amser ar y dechrau i roi gwahaniaethau a rhwystrau sefydliadol o’r neilltu. Roedd trafodaethau rheolaidd ac agored rhwng uwch reolwyr mewn sefydliadau partner allweddol wedi galluogi cynnydd.

Cafwyd cyfradd ymateb isel ar y cychwyn i geisiadau am wybodaeth gan ddarparwyr. I oresgyn hyn, gwnaeth staff y prosiect alwadau ffôn dilynol i ddarparwyr. Roedd angen gwaith dilynol parhaus a mynych i gysylltu â sefydliadau a chael y wybodaeth yr oedd ei hangen. Mewn sawl achos, rhoddodd darparwyr wybodaeth o ansawdd gwael. Dywedodd staff y prosiect fod hyn naill ai o ganlyniad i ddulliau gwael o gadw cofnodion neu bryderon ynglŷn â rhannu data masnachol. Roedd y sgyrsiau ffôn dilynol wedi helpu i oresgyn y broblem hon i raddau. Yn ogystal, cysylltodd rheolwr y prosiect â chyllidwyr y darparwyr yn uniongyrchol i gael y wybodaeth am y ddarpariaeth.

Canfu’r prosiect ei bod hi’n anodd darbwyllo pobl ifanc a oedd wedi ymddieithrio i roi adborth ystyrlon ar y ddarpariaeth. I oresgyn hyn, gweithiodd rheolwr y prosiect yn agos gyda staff rheng flaen a oedd eisoes wedi datblygu perthynas â phobl ifanc, gan gynnwys staff Gyrfa Cymru a sefydliadau’r sector gwirfoddol, gan ofyn iddynt hyrwyddo’r gweithdai ac annog pobl ifanc i’w mynychu. Dysgwyd hefyd bod angen hwyluswyr medrus i gynnal y gweithdai a allai ddefnyddio gwahanol dechnegau sgwrsio i annog pobl ifanc i leisio eu barn. Yn ogystal, defnyddiwyd dulliau arloesol o gynorthwyo pobl ifanc i gyfrannu eu safbwyntiau. Er enghraifft, roedd bythau fideo yn caniatáu i bobl ifanc roi adborth ar lafar, a gynorthwyodd i oresgyn problemau llythrennedd. Ystyriwyd bod cynnig costau teithio a bwyd fel cymhelliad wedi helpu hefyd.

**Canlyniadau**

O ganlyniad i fapio’r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc 19-24 oed a newidiadau dilynol i atgyfeiriadau, adroddodd rhanddeiliaid am well prosesau atgyfeirio o’r Ganolfan Byd Gwaith i Gyrfa Cymru a gwelliant o ran rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid. Ystyrir bod ‘atgyfeiriadau’n fwy didrafferth yn awr’ (cyfwelai Gyrfa Cymru) a bod pobl ifanc yn cael eu hatgyfeirio i Gyrfa Cymru yn fwy systematig. Adroddodd y coleg am gynnydd mewn atgyfeiriadau a

chofrestriadau ar ddarpariaeth ymhlith y grŵp oedran hwn, ac roedd yn hyderus bod llawer yn cynnal eu presenoldeb.

Ceir gwell gwaith partneriaeth ar lefel strategol rhwng partneriaid allweddol hefyd. Cynhaliwyd hyn ar ôl y prosiect Llwybrau Blaengar i Feithrin Cysylltiadau ac mae partneriaid strategol bellach yn diffinio a datblygu camau eraill yng nghynllun gweithredu'r YEPF, fel cynllunio darpariaeth newydd ar gyfer pobl ifanc 19-24 oed.

**Datblygu sgiliau cyflogadwyedd pobl ifanc (Ynys Môn)**

**Pa gamau gweithredu a gymerwyd i wella sgiliau cyflogadwyedd?**

Mae'r mesurau sydd ar waith i wella sgiliau cyflogadwyedd pobl ifanc yn cynnwys:

- **mae cynllun profiad gwaith uwch** wedi'i ddatblygu yn yr awdurdod lleol ar gyfer pobl ifanc yn yr ysgol yr amlygwyd eu bod mewn perygl o ymddieithrio. Treialwyd y cynllun gyda nifer fach o ddisgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio ac mae'r awdurdod lleol wrthi'n ystyried ei ymestyn i gynnwys mwy o bobl ifanc ar hyn o bryd. Mae partneriaeth wedi datblygu rhwng ysgol Caergybi a thîm Cymunedau yn Gyntaf Ynys Môn, a adwaenir fel Môn CF, i wella sgiliau cyflogadwyedd pobl ifanc cyn-16 ac ôl-16. Elusen gofrestredig yw Môn CF sy'n cyflogi oddeutu 20 aelod o staff mewn swyddfeydd yng Nghaergybi a Llangefni, meithrinfa yng Nghaergybi ac Academi Sgiliau Galwedigaethol Cymunedol. Diben y cynllun profiad gwaith uwch yw datblygu sgiliau cyflogadwyedd, darparu dysgu achrededig a helpu pobl ifanc i amlygu meysydd i symud ymlaen iddynt ar ôl yr ysgol. Esboniodd aelod o staff, 'nid oes unrhyw gymwysterau gan y rhan fwyaf o'r oedolion sy'n dod atom am gymorth, felly diben y prosiect hwn yw gwneud yn siwr nad yw'r plant hyn yn diweddu yn yr un sefyllfa' (cyfweliad â chynrychiolydd Cymunedau yn Gyntaf). Mae disgyblion 14-16 oed yn treulio un neu ddau ddiwrnod yr wythnos yn gweithio'n wirfoddol gyda mentor Môn CF yn un o'u safleoedd. Mae enghreifftiau'n cynnwys: gweithio ar brosiectau gwella'r amgylchedd mewn safleoedd cymunedol o amgylch Caergybi; gwaith saer yn yr academi sgiliau cymunedol; a gwaith adeiladu yn rhan o brosiect i adnewyddu safleoedd gwag yng nghanol y dref. Caiff pobl ifanc y cyfle i gyflawni cymwysterau Agored Cymru, y Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd ac NVQ Gofal Plant yn rhan o'r rhaglen. Mae hefyd yn

ofynnol i'r holl wirfoddolwyr ddilyn hyfforddiant craidd mewn iechyd a diogelwch, codi a chario a chymorth cyntaf. Cynigir dilyniant trwy leoliadau Twf Swyddi Cymru. Mae staff Môn CF yn gweithredu fel canolwyr yn ogystal ag eiriolwyr yn aml yn ystod y cyfweliad swydd er mwyn cynorthwyo pobl ifanc isel eu hyder. Hyd yma, mae tua 50 o bobl ifanc wedi sicrhau lleoliadau Twf Swyddi Cymru gyda mwy na deg ar hugain o gyflogwyr

- cynllunio strategol ar gyfer y prosiect Ynys Ynni, sydd wedi cynnwys **dadansoddi anghenion presennol y farchnad lafur a thueddiadau a gofynion yn y dyfodol** a chynnwys yr awdurdod lleol, cyflogwyr, darparwyr ac ysgolion yn y broses. Mae grŵp strategol Ynys Ynni yn canolbwyntio ar sut i sicrhau bod pobl leol yn meddu ar y sgiliau i allu manteisio ar gyfleoedd am swyddi a ddaw yn sgil datgomisiynu gorsaf bŵer niwclear Wylfa a datblygu cyfleuster niwclear newydd ar Ynys Môn. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol, y Ganolfan Byd Gwaith, Prifysgol Bangor, Grŵp Llandrillo-Menai, yr Asiantaeth Ddatblygu, sawl Cyngor Sgiliau Sector a Horizon

**Beth sydd wedi galluogi cynnydd?**

Roedd rhanddeiliaid o'r farn mai un o ffactorau llwyddiant y rhaglen profiad gwaith uwch yw bod cyfranogi'n wirfoddol a bod amgylchedd a diwylliant y cynllun yn wahanol i'r ysgol; ceir mwy o bwyslais ar ddewis a chaiff y cyfranogwyr eu 'trin fel oedolion ac yn rhan o'r tîm' (person ifanc). Cadarnhaodd cyfweliadau â phobl ifanc fod hyn yn agwedd bwysig ar y rhaglen. Roedd pobl ifanc wedi canmol staff Môn CF yn arbennig, a chyfeiriodd staff o'r ysgol a Môn CF at y bartneriaeth dda a oedd wedi datblygu fel ffactor allweddol i lwyddiant y cynllun.

**Beth fu'r rhwystrau a sut y'u goresgynnwyd?**

Roedd amlygu a darparu dewisiadau amgen da i ddisgyblion a oedd mewn perygl o gael eu gwahardd yn heriol i ysgol Caergybi. Mae'r cynllun profiad gwaith uwch wedi darparu dewis amgen o'r fath i rai disgyblion, gyda staff o'r ysgol a Môn CF yn cydweithio'n agos i ddatblygu'r cynllun. Mae cyllid ychwanegol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion hefyd wedi galluogi'r ysgol i ddarparu cymorth i'r disgyblion yn yr ysgol. Adroddodd Môn CF fod y cyfle i ymgysylltu â phobl ifanc iau (cyn-16) wedi eu galluogi i oresgyn rhai o'r rhwystrau rhag gweithio mewn ffordd fwy ataliol.

Un her a amlygwyd gan yr awdurdod lleol oedd sut i ymestyn y cynllun ar yr un pryd â sicrhau bod cyflogwyr wedi'u paratoi'n dda i gynorthwyo pobl ifanc

sydd mewn perygl trwy brofiad gwaith uwch neu leoliadau gwaith hwy. Tynnodd Môn CF sylw at y posibilrwydd o gynyddu'r pecyn cymwysterau a gynigir yn ystod y profiad gwaith uwch er mwyn darparu cymhwyster cyfwerth â TGAU i'r cyfranogwyr.

Rhwystr parhaus yw diffyg gwybodaeth am yr ystod lawn o ddarpariaeth cyflogadwyedd sydd ar gael. Amlygodd yr awdurdod lleol yr angen i adolygu a mireinio'r map darpariaeth er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gynhwysfawr ar gael am ddarpariaeth cyflogadwyedd.

**Camau nesaf**

Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid yn ystyried sut i ychwanegu at y gwaith presennol ar sgiliau cyflogadwyedd ar gyfer pobl ifanc a'i ddatblygu. Bydd cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn y dyfodol yn allweddol ar gyfer hyn. Bwriedir y bydd prosiect Anelu'n Uchel Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn cael ei ddefnyddio i dreialu gwahanol ddulliau o sicrhau ymgysylltiad cyflogwyr â sgiliau cyflogadwyedd.

**Canlyniadau**

Adroddodd rhanddeiliaid fod pobl ifanc yn teimlo mwy o ysgogiad yn yr ysgol o ganlyniad i'r cynllun profiad gwaith uwch. Ystyrir bod hyn yn rhannol oherwydd eu bod yn gallu gweld perthnasedd llythrennedd a rhifedd, er enghraifft, yn fwy eglur. Dywedodd un aelod o staff: 'Gall rhai sesiynau gwaith saer lle'r oeddent yn gallu mesur pethau ddangos iddynt y cysylltiad rhwng hyn â'r byd go iawn' (cynrychiolydd Cymunedau yn Gyntaf). Gall ysgolion ysgogi pobl ifanc hefyd trwy osod ymddygiad a phresenoldeb da yn yr ysgol fel amod i gymryd rhan yn y profiad gwaith.

Roedd y bobl ifanc a gyfwelwyd a oedd wedi cymryd rhan yn y rhaglen profiad gwaith uwch yn gadarnhaol ynglŷn â'u profiad. Roedd rhai 'wedi disgwyl iddo fod yn ddiflas' ond roeddent yn falch o weld 'ei fod wedi bod yn ddifyr iawn'. Roedd dau o'r disgyblion a gyfwelwyd hefyd yn teimlo bod ganddynt syniad mwy eglur o lawer bellach o'r hyn yr hoffent ei wneud ar ôl gadael yr ysgol. Dywedodd un: 'Yr adeg hon y llynedd, 'doedd gen i ddim syniad beth oeddwn i am ei wneud, ond nawr galla' i weld llwybr gwaith ar ôl yr ysgol' (person ifanc).

**Datblygu sgiliau cyflogadwyedd cyn-16 ac wrth drosglwyddo (Ceredigion)**

**Cyd-destun a threfniadau rheoli**

Bu ymrwymiad i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET yng Ngheredigion ers cryn amser. Mae dogfennau strategol allweddol yr awdurdod lleol, sef y Cynllun Integredig Sengl, y Strategaeth Gorfforaethol a'r Cynllun Gwella, oll yn cynnwys cyfeiriadau at leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET. Mae'r Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer 2013-2107 yn datgan uchelgais i 'nifer y bobl ifanc sy'n NEET fod yr isaf yng Nghymru'. Yn 2013, cyflawnwyd y ffigur isaf yng Nghymru ar gyfer pobl ifanc 16 oed. Mae Strategaeth NEET yr awdurdod lleol yn hyrwyddo dull ataliol ac ymrwymiad i ddarparu cymorth wedi'i dargedu i bobl ifanc sydd yn y perygl mwyaf o ymddieithrio. Ers mis Hydref 2013, mae'r strategaeth wedi'i diweddaru i adlewyrchu blaenoriaethau'r YEPF.

Mae trefniadau rheolaeth weithredol eglur ar waith hefyd i ategu'r broses o gyflawni amcanion strategol yr awdurdod lleol. Ceir grwpiau ymarferwyr amlasiantaethol cyn-16 ac ôl-16 ar wahân sy'n cyfarfod yn fisol i rannu gwybodaeth am bobl ifanc yr amlygwyd eu bod mewn perygl, er mwyn neilltuo gweithwyr arweiniol a broceru pecyn priodol o gymorth. Mae'r ddau grŵp yn cyfarfod i rannu llwythi achosion ar adegau allweddol o'r flwyddyn er mwyn cynorthwyo pobl ifanc i drosglwyddo o addysg cyn-16 i ôl-16.

**Pa gamau gweithredu a gymerwyd mewn perthynas â sgiliau cyflogadwyedd cyn-16 ac wrth drosglwyddo?**

Roedd y mesurau allweddol sydd ar waith yng Ngheredigion i gefnogi gwelliant o ran sgiliau cyflogadwyedd pobl ifanc cyn-16 wedi'u sefydlu cyn 2013 yn gyffredinol. Y rhain yw:

- **darpariaeth alwedigaethol i ddysgwyr cyn-16 er mwyn ehangu dewis a chyfleoedd.** Mae'r coleg a'r darparwr dysgu seiliedig ar waith lleol yn cynnig cymwysterau galwedigaethol i bobl ifanc o oed ysgol. Er enghraifft, mae gan Goleg Ceredigion bartneriaeth ffurfiol â dwy ysgol uwchradd ac mae'n cynnig ystod o gyrsiau galwedigaethol i fyfyrwyr Blwyddyn 10 ac 11. Mae rhwng 50 a 60 o ddisgyblion o'r ysgolion hyn yn cael mynediad at 'ddarpariaeth cyswllt ag ysgolion' ar safle'r coleg. Maent yn treulio un diwrnod yr wythnos yn y coleg yn ymgymryd â chwrs galwedigaethol. Ar hyn o bryd, mae cyrsiau cerbydau modur, adeiladu a gwallt a harddwch ar gael. Mae'r holl bobl ifanc yn yr ysgolion hyn yn cael gwybod ym Mlwyddyn 9 am y dewis i ymgymryd â dysgu mwy galwedigaethol ochr yn ochr â chyrsiau TGAU eraill. Mae staff y coleg yn mynd i noson ddewisiadau cyn-16 yr ysgol, y gwahoddir rhieni a phobl ifanc iddi, yn ogystal â digwyddiadau a gynhelir gan Gyrfa Cymru i roi gwybod i bobl ifanc am y ddarpariaeth

sydd ar gael. Nid oes darpariaeth alwedigaethol debyg ar gael i ddisgyblion Blwyddyn 9 yng ngogledd yr awdurdod lleol

- **cwricwlwm cyn-16 amgen.** Defnyddiwyd cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop i ddatblygu cwricwlwm amgen ar gyfer pobl ifanc nad oeddent yn cyrraedd eu potensial llawn. Cynhaliwyd hyn oherwydd bu’n llwyddiannus iawn wrth ennyn ymgysylltiad a datblygiad pobl ifanc. Ar hyn o bryd, mae oddeutu 60 o bobl ifanc 14-16 oed yn cael mynediad at y ddarpariaeth hon, a gyflwynir gan y gwasanaeth ieuenctid. Mae’n cynnig ystod eang o gyrsiau blasu galwedigaethol, sgiliau byw’n annibynnol a gweithgareddau awyr agored. Cynigir elfen o ddewis, i’r graddau a ganiateir gan yr amserlen. Mae’r cwrs yn cael ei achredu ac mae disgyblion yn cyflawni BTEC Lefel 1. Y llynedd, cyflawnodd yr holl ddisgyblion a gymerodd ran gymwysterau cyfwerth ag 1 neu 2 TGAU

- **darpariaeth ieuenctid uwch ar gyfer pobl ifanc yn yr ysgol y mae arnynt angen cymorth ychwanegol.** Mae rhai ysgolion yn dewis peidio â defnyddio’r cwricwlwm angen ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl cymedrol o ymddieithrio (y rhai hynny sydd â ‘statws ambr’ yn y system adnabod yn gynnar). Yn lle hynny, mae gweithiwr ieuenctid yn gweithio gyda phobl ifanc am ddau ddiwrnod yr wythnos yn yr ysgol, gan gyflwyno gweithgareddau crefft ac ymarferol. Ceir pwyslais ar sicrhau bod gweithwyr ieuenctid yn creu perthynas gadarnhaol â phobl ifanc a gweithio tuag at gymwysterau sgiliau allweddol a sgiliau bywyd Asdan neu BTEC Lefel 1

- **darpariaeth ymgysylltu ar gyfer pobl ifanc yr amlygwyd eu bod mewn perygl uchel o ymddieithrio.** Mae gan y coleg a’r darparwr dysgu seiliedig ar waith ddarpariaeth ymgysylltu hefyd ar gyfer pobl ifanc cyn-16 sydd wedi cael eu haddysgu gartref, eu gwahardd o’r ysgol neu sydd wedi dadrithio llawer yn gyffredinol. Pobl ifanc yw’r rhain sydd â statws ‘coch’ ar raddfa Coch, Ambr a Gwyrdd y system adnabod yn gynnar. Mae oddeutu 20 dysgwr yn defnyddio’r ddarpariaeth hon ar hyn o bryd. Cynigir nifer o bynciau ar lefel mynediad, gan gynnig dilyniant i gyrsiau TGAU a darpariaeth prif ffrwd

- **darpariaeth sgiliau cyflogadwyedd Gyrfa Cymru.** Mae Gyrfa Cymru yn darparu ystod o gymorth datblygu sgiliau cyflogadwyedd, gan gynnwys: cyflwyniadau gan gyflogwyr mewn ysgolion; cynhyrchu ymarferion gwaith grŵp ynglŷn â dysgu seiliedig ar waith ar gyfer myfyrwyr blwyddyn 9; a rheoli cronfa ddata profiad gwaith mewn ysgolion y gall myfyrwyr gael mynediad ati i ddod o hyd i leoliadau

profiad gwaith tymor byr (mae'r holl gyflogwyr ar y gronfa ddata wedi'u gwirio gan Gyrfa Cymru). Mae Gyrfa Cymru hefyd yn cynnig 'gwiriad gyrfa' i ddisgyblion blwyddyn 10. Cynhaliwyd hwn am y tro cyntaf y llynedd. Gofynnir i fyfyrwyr gwblhau holiadur byr ynglŷn â'u cyrchfan bwriadedig a'r hyn y maent yn ei wybod am ble i gael gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd.

Ac ar gyfer datblygu sgiliau cyflogadwyedd wrth drosglwyddo, y rhain yw:

- **cymorth a monitro uwch gan Gyrfa Cymru.** Ar ôl y 'gwiriad gyrfa', mae Gyrfa Cymru yn rhoi gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd uwch i bobl ifanc yr amlygwyd nad oes ganddynt gynlluniau eglur neu sydd â gwybodaeth a sgiliau gwael o ran datblygu gyrfa. Adolygir cynnydd bob chwe wythnos o leiaf
- **cyrsiau sgiliau yn ystod yr haf.** Cynhaliodd y Gwasanaeth Ieuenctid raglen sgiliau wyth niwrnod yn ystod yr haf mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru a darparwyr ôl-16 lleol. Cynigiwyd amrywiaeth o gyrsiau blasu galwedigaethol i helpu pobl ifanc i ddiffinio eu diddordebau ac amlygu meysydd yr hoffent barhau i hyfforddi ynddynt o bosibl. Cymerodd dros 40 o bobl ifanc ran ac roedd y rhanddeiliaid o'r farn ei fod yn llwyddiannus iawn. Cyflawnwyd dros 100 o ganlyniadau dysgu achrededig. Yna, cynigiwyd y cyfle i bobl ifanc gymryd rhan mewn cwrs preswyl tridiau ar sgiliau cyflogadwyedd. Roedd hyn yn cyfuno gweithgareddau awyr agored â hyfforddiant ar ysgrifennu CV, sgiliau cyfweliad a hyfforddiant ar sgiliau cyflogadwyedd eraill
- **defnyddio hyfforddeiaethau.** Mae pobl ifanc yr amlygwyd eu bod mewn perygl o ymddieithrio ar yr adeg trosglwyddo wedi'u hatgyfeirio i elfen ymgysylltu hyfforddeiaethau.

Mae'r YEPF wedi annog yr awdurdod lleol i fireinio'r mesurau hyn a dod o hyd i gyllid ar gyfer rhai ohonynt fel y gallent barhau. Er mwyn datblygu'r agenda sgiliau cyflogadwyedd:

- datblygwyd **Grŵp Cymorth Cyflogwyr** yng Ngheredigion yn ddiweddar. Mae aelodau'r grŵp hwn yn cynnwys ystod o asiantaethau sy'n gweithio gyda chyflogwyr, megis: y Ganolfan Byd Gwaith; Cyngor Sir Ceredigion; Gyrfa Cymru; Prifysgol Aberystwyth; darparwyr dysgu seiliedig ar waith; Llywodraeth Cymru; sefydliadau allweddol yn y sector gwirfoddol a chymunedol; Busnes Cymru; Sgiliau Adeiladu a'r Siambr Fasnach. Cylch gorchwyl y grŵp yw dod o hyd i ddatrysiadau strategol i gyfleoedd recriwtio yn ardal Ceredigion. Bwriedir y bydd

rhannu gwybodaeth am anghenion cyflogwyr ar lefel strategol yn helpu i addasu'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant i fodloni anghenion cyflogwyr yn well

- **mae Penaethiaid Gwasanaeth yn yr awdurdod lleol wedi cadarnhau bod y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu yn gyfrifol am sicrhau bod cymalau buddion cymunedol yn cael eu cynnwys yn holl gontractau a chytundebau 106 perthnasol yr awdurdod lleol**

- **cynllunio a datblygu darpariaeth un i un ddwys newydd ar gyfer y bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio fwyaf.** Treialodd yr awdurdod lleol y Prosiect Marchnad Lafur Drosiannol a gynhaliwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn flaenorol. Roedd y prosiect hwn yn rhoi arian i sefydliadau'r trydydd sector a mentrau cymdeithasol er mwyn iddynt gynnig cyfleoedd cyflogaeth taledig â chymorth am dri mis gyda mentora a chymorth dwys. Roedd y prosiect yn arbennig o lwyddiannus wrth ymgysylltu â phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid. I ychwanegu at y gwaith hwn, mae'r awdurdod lleol yn ystyried defnyddio cyllid sydd ar ddod gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop i ddatblygu'r gwaith. Byddai swyddog dysgu cysylltiedig â gwaith yn cael ei gyflogi i gysylltu â chyflogwyr yn rhagweithiol a'u hannog a'u cynorthwyo i ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc.

**Beth sydd wedi galluogi cynnydd?**

Mae'r trefniadau rheolaeth strategol cadarn wedi sicrhau bod sgiliau cyflogadwyedd pobl ifanc iau nag 16 oed yn aros yn flaenoriaeth i'r awdurdod lleol a'i bartneriaid. Mae'n ymddangos bod arweinyddiaeth ragweithiol gan yr Uwch Swyddog Atebol ac uwch reolwyr eraill wedi bod yn allweddol i alluogi cynnydd. Er bod trefniadau ar waith cyn yr YEPF, 'mae'r YEPF wedi rhoi cyfeiriad eglur i ni. Mae'n llinyn euraid' (aelod o staff awdurdod lleol).

Gan gydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â daearyddiaeth wledig Ceredigion, mae darparwyr ôl-16 yn gweithredu'n hyblyg i gefnogi ymgysylltiad pobl ifanc. Er enghraifft, nid yw amserau dechrau a gorffen yn cael eu gorfodi'n llym gan fod darparwyr yn sylweddoli bod yn rhaid i bobl ifanc deithio'n bell i gyrraedd y darparwr.

**Beth fu'r rhwystrau a sut y'u goresgynnwyd?**

Er bod y trefniadau llywodraethu a rheolaeth strategol yng Ngheredigion yn gryf, cydnabyddir y gellid eu gwella hyd yn oed yn fwy trwy gynyddu cyfranogiad cyflogwyr mewn grwpiau strategol. Mae rheolwyr strategol yn

ystyried y ffordd orau o wneud hyn. Gallai is-grŵp o'r Grŵp Cymorth Cyflogwyr, y mae cyflogwyr yn aelodau ohono, gael ei sefydlu o bosibl.

Roedd uwch reolwyr yn cydnabod yr angen i ailadrodd amcanion yr YEPF er mwyn sicrhau bod yr holl bartneriaid yn ymwybodol o'r agenda a bod yr YEPF yn parhau i fod yn flaenoriaeth strategol. 'Mae'n cymryd amser i wneud yn siwr bod yr holl bartneriaid yn gwybod y diweddaraf. Mae staff yn newid hefyd, felly mae'n rhaid ei ailbwysleisio'n barhaus' (aelod o staff awdurdod lleol).

Adroddodd rhanddeiliaid fod aildendro darpariaeth dysgu seiliedig ar waith wedi amharu ar brosesau dros dro. Nid yw ysgolion a chynghorwyr gyrfaoedd wedi cael gwybodaeth lawn a chywir am ystod y ddarpariaeth ôl-16 a fydd ar gael o fis Ebrill 2015 ymlaen.

**Astudiaeth achos thematig ar y Gymraeg (Ceredigion, Gwynedd, Ynys Môn)**

Mae gan bob awdurdod lleol Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer 2014-17, sy'n cynnwys eu gweledigaeth a'u nodau ar gyfer cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg yn ogystal â chynlluniau gweithredu a thargedau ar gyfer cynyddu canran y bobl ifanc sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg (yn unol â Strategaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru). Roedd arweinwyr polisi awdurdod lleol a gyfwelwyd o'r farn bod gorgyffyrddiad rhwng cynlluniau strategol yr YEPF a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, er nad yw'r cysylltiadau strategol rhwng y rhain wedi'u datgan yn benodol ar y cyfan. Er enghraifft, nid yw'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a chynlluniau gweithredu'r YEPF yn croesgyfeirio ei gilydd yn benodol. Fodd bynnag, ceir cysylltiadau eglur rhwng y ddau ar lefel strategol, gydag Uwch Swyddogion Atebol yn Ynys Môn, Gwynedd a Cheredigion yn gyfrifol am addysg cyfrwng Cymraeg a'r YEPF. Yn ogystal, dywedodd staff awdurdod lleol a gyfwelwyd fod perthynas waith agos rhwng staff sy'n gyfrifol am addysg cyfrwng Cymraeg a'r YEPF.

Mae rhanddeiliaid o'r farn bod camau gweithredu a gymerwyd o dan yr YEPF yn cyfrannu at amcanion eu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Yng Ngheredigion, er enghraifft, canlyniad 3 y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yw cynyddu nifer y bobl ifanc 14-19 oed sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r awdurdod lleol wedi mabwysiadu dull strategol o ganolbwyntio ar gynyddu nifer y cyrsiau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg sydd ar gael a nifer y bobl ifanc sy'n eu dilyn, gyda phwyslais arbennig ar y

rhai hynny sydd mewn perygl o ymddieithrio. Anogir pobl ifanc i ddewis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, a hyrwyddir manteision gwneud hynny.

Ceir enghreifftiau o drefniadau rheolaeth weithredol sy'n helpu i sicrhau bod yr YEPF yn bodloni anghenion pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg a bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo gan y rhai hynny sy'n gweithredu'r YEPF. Er enghraifft, mae Partneriaeth Beca, sef partneriaeth rhwng yr awdurdod lleol, ysgolion a darparwyr ôl-16 yn ne Ceredigion, yn ystyried y cyflenwad a'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac yn gweithio ar y cyd i sicrhau bod y galw'n cael ei fodloni. Sefydlwyd y grŵp cyn i'r YEPF gael ei lansio'n swyddogol, ond mae ei gylch gorchwyl wedi cael ei ymestyn yn ddiweddar i ganolbwyntio ar gyflwyno darpariaeth alwedigaethol ar y cyd yng Nghyfnod Allweddol 4 a hyrwyddo cyfleoedd dilyniant i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg mewn sefydliadau darparwyr ôl-16. Er enghraifft, mae'r bartneriaeth yn gwneud trefniadau ar gyfer amserlennu ar y cyd a thrafnidiaeth rhwng darparwyr i ymestyn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gynigir i fwy o fyfyrwyr.

**Y galw am ddarpariaeth Gymraeg**

Yn gyffredinol, ar draws y tri awdurdod lleol a holwyd yn benodol ynglŷn â hyn, mae'r dystiolaeth ynghylch y galw ymhlith pobl ifanc a chyflogwyr am gymorth trwy gyfrwng y Gymraeg yn ansoddol ei natur ac nid yw'n cael ei fesur yn systematig.

Adroddodd staff awdurdod lleol a Gyrfa Cymru yng Ngheredigion fod mwy a mwy o gyflogwyr lleol yn hyrwyddo eu gallu i gynnal busnes yn Gymraeg i gwsmeriaid, ac felly ceir galw cynyddol am weithwyr sydd â sgiliau Cymraeg. Mewn ymateb i hyn, bu ymdrech gydgysylltiedig yng Ngheredigion i hyrwyddo gwerth sgiliau Cymraeg ymhlith pobl ifanc ac ysgogi'r galw am ddarpariaeth Gymraeg.

- mae'r awdurdod lleol wedi annog darparwyr ôl-16 i hyrwyddo eu darpariaeth Gymraeg mewn nosweithiau rhieni a gyrfaoedd. Mae hyn wedi cynnwys yr unig ysgol uwchradd Saesneg yn yr awdurdod lleol lle mae nifer sylweddol o ddisgyblion yn gallu siarad Cymraeg
- mae cynghorwyr Gyrfa Cymru yn esbonio buddion astudio trwy gyfrwng y Gymraeg i bobl ifanc a gwerth eu sgiliau Cymraeg yn y farchnad lafur leol
- mae'r coleg yn hyrwyddo'r buddion i ddysgwyr ar ddechrau eu cwrs er mwyn eu hannog i ystyried astudio rhan o'u cwrs yn Gymraeg.

Ar draws pob un o'r tri awdurdod lleol, mae'r galw am ddarpariaeth YEPF wedi'i thargedu cyn-16 yn amrywio rhwng ysgolion. Mewn rhai ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae'r galw'n uchel gyda'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gofyn am ddarpariaeth Gymraeg, tra bod darpariaeth ddwyieithog neu Saesneg yn arferol mewn ysgolion eraill. Fodd bynnag, nid yw'r galw am gymorth cyfrwng Cymraeg a nifer y bobl ifanc sy'n manteisio arno (e.e. broceriaeth) yn cael eu monitro'n systematig; yn hytrach, canolbwyntir ar y ddarpariaeth a'r cymorth a gynigir.

Ar draws pob un o'r tri awdurdod lleol, adroddodd rhanddeiliaid am ymdrechion i hyrwyddo gwerth sgiliau Cymraeg yn y farchnad lafur. Yng Ngwynedd, amlinellodd un swyddog awdurdod lleol eu rhesymeg dros hyrwyddo pwysigrwydd y Gymraeg fel sgìl sy'n cael ei werthfawrogi gan gyflogwyr, gan nodi bod llawer o bobl ifanc yn cymryd eu sgiliau Cymraeg yn ganiataol ac nad ydynt yn gweld eu gwerth economaidd. Dywedodd y swyddog hwn hefyd fod hyder yn gallu bod yn rhwystr yn aml, yn enwedig ymhlith pobl ifanc â gallu academaidd is: 'Mae llawer o gyfranogwyr yn teimlo nad yw eu sgiliau Cymraeg yn ddigon da mewn amgylchedd proffesiynol ac mae angen cynyddu eu hyder er mwyn iddynt weld bod eu sgiliau'n werthfawr.' (aelod o staff awdurdod lleol)

**Cyflenwad y ddarpariaeth Gymraeg**

Yn gyffredinol, adroddodd awdurdodau lleol nad ydynt wedi casglu gwybodaeth gynhwysfawr hyd yma am y ddarpariaeth sydd ar gael yn Gymraeg yn rhan o ymarfer mapio darpariaeth yr YEPF, yn enwedig cymorth a broceriaeth. Dywedodd staff awdurdodau lleol a darparwyr fod gwybodaeth am y ddarpariaeth addysgol sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith ar gael trwy ddata a ddelir gan ysgolion, darparwyr ac adrannau addysg awdurdodau lleol. Roedd staff awdurdodau lleol hefyd yn ymwybodol o'r cymorth Cymraeg sydd ar gael (e.e. gweithiwr arweiniol) mewn ysgolion, gwasanaethau ieuenctid a Gyrfa Cymru, ac roeddent o'r farn bod hyn ar gael yn rhwydd. Fodd bynnag, roeddent yn llai eglur ynglŷn â'r capasiti o ran y Gymraeg mewn rhai darparwyr sector gwirfoddol a chymunedol. Yng Ngwynedd, er enghraifft, cyfeiriodd rhanddeiliaid at ddarparwyr sector gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau Cymraeg cynhwysfawr (e.e. GISDA, CAIS). Fodd bynnag, dywedwyd hefyd ei bod yn aneglur i ba raddau y mae gan yr holl ddarparwyr allanol ddigon o gapasiti o ran y Gymraeg i fodloni anghenion pobl ifanc, yn enwedig sefydliadau mwy a gomisiynir yn genedlaethol.

Ar hyn o bryd, mae'r dystiolaeth ynglŷn â bylchau yn y ddarpariaeth a'r

cymorth sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yn anecdotaidd i raddau helaeth. Yn Ynys Môn, adroddodd staff awdurdod lleol fod diffyg ‘cyrsiau Lefel 1 cyn-NEET’, yn enwedig darpariaeth Gymraeg o’r math hwn. Dywedodd un rhanddeiliad nad oes llawer o gyrsiau ôl-16 trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael ar hyn o bryd sy’n addas i bobl ifanc, gyda bylchau yn arbennig o ran cyrsiau blasu byr a darpariaeth sy’n addas i’r grŵp NEET. Ategwyd hyn gan randdeiliaid yng Ngwynedd a Cheredigion. Adroddwyd ar fylchau yn y gwasanaethau cymorth cyfrwng Cymraeg arbenigol (e.e. Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed (CAMHS)) sydd ar gael hefyd, er nad oes tystiolaeth systematig i ategu hyn. Collir tystiolaeth o fylchau yn aml gan fod pobl ifanc yn barod i dderbyn cymorth Saesneg: ‘Mae pobl ifanc yn llai tebygol o gwyno am ddiffyg gwasanaeth Cymraeg pan fo rhestrau aros am gymorth yn gyffredinol.’ (aelod o staff awdurdod lleol)

Roedd staff awdurdodau lleol yn cytuno bod yr YEPF wedi helpu i feithrin trefniadau gweithio agosach â phartneriaid allweddol (e.e. y sector gwirfoddol) a bod hyn bellach yn rhoi’r sylfaen iddynt asesu’n fwy trylwyr gallu partneriaid i ddarparu cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd staff awdurdodau lleol o’r farn bod hyn yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer cam nesaf gweithredu’r YEPF. Disgwylir i gynlluniau gael eu datblygu yn ystod y flwyddyn i ddod ar sut i symud y gwaith hwn yn ei flaen.

Adroddodd awdurdodau lleol a Gyrfa Cymru ym mhob un o’r tri awdurdod lleol y cynigir y cyfle i bobl ifanc gael gweithiwr arweiniol sy’n siarad Cymraeg. Nododd awdurdodau lleol eu bod yn gallu cynnig y rhan fwyaf o wasanaethau arbenigol eraill yn Gymraeg hefyd (er enghraifft, cynhwysiant disgyblion, staff anghenion addysgol arbennig, cymorth ymddygiad). Adroddodd un y bu gwelliannau o ran nifer y nyrsys ysgol sy’n siarad Cymraeg.

Yng Ngheredigion, mae cwricwlwm amgen wedi’i ddatblygu ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 yn yr ysgol sydd mewn perygl o ymddieithrio. Mae hwn ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn rhai ysgolion, mae grwpiau cyfan o ddisgyblion yn dilyn rhaglen cwricwlwm amgen trwy gyfrwng y Gymraeg, tra’i bod yn cael ei darparu’n ddwyieithog neu yn Saesneg mewn ysgolion eraill, yn dibynnu ar anghenion a dewisiadau pobl ifanc. Yn gyffredinol, anogir pob disgybl i ddilyn y cwricwlwm amgen yn ddwyieithog fel eu bod yn gwella eu sgiliau Cymraeg. Mae’r awdurdod lleol wedi cyflogi gweithiwr ieuenctid Urdd Gobaith Cymru sy’n siarad Cymraeg i gyflwyno’r cwricwlwm amgen ac, yn rhan o hyn, i hyrwyddo’r Gymraeg a chyfleoedd i ymgymryd â chymwysterau ôl-16 trwy gyfrwng y Gymraeg. ‘Mae’n bosibl nad yw llawer o’r dysgwyr hyn yn sylweddoli bod eu sgiliau

Cymraeg yn werthfawr i gyflogwyr ac felly nid ydynt wedi gweld gwerth darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Gall y cymorth helpu i newid eu canfyddiad o werth y Gymraeg'. (aelod o staff awdurdod lleol)

Mewn addysg a hyfforddiant ôl-16, gall yr ymrwymiad i gynnig dewis i bobl ifanc astudio yn Gymraeg neu Saesneg greu heriau i ddarparwyr. Er enghraifft, nid yw pob pwnc neu faes galwedigaethol yn cael eu cynnig gan CBAC yng Nghymru (e.e. BTEC mewn Rheoli Ceffylau). Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ddarparwyr ôl-16 ddefnyddio byrddau arholi eraill ac, yn nodweddiadol, ceir adnoddau addysgol cyfyngedig trwy gyfrwng y Gymraeg i gefnogi'r broses o ddarparu'r cymhwyster. Mae'r diffyg adnoddau addysgu a dysgu yn Gymraeg yn creu pwysau ychwanegol i staff darparwyr y mae'n rhaid iddynt gyfieithu deunyddiau eu hunain. O ran rhai pynciau mwy newydd, adroddir hefyd am ddiffyg aseswyr allanol sy'n siarad Cymraeg, sy'n gallu creu heriau i ddarparwyr. Er enghraifft, mae'n rhaid cyfieithu portffolios gwaith cwrs i'r Saesneg ar gyfer aseswyr, sy'n gallu creu baich ychwanegol o ran gwirio cywirdeb y cyfieithiad.

Er mwyn helpu i oresgyn rhai o'r rhwystrau hyn, mae colegau wedi penodi Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd i helpu i gefnogi datblygiad darpariaeth Gymraeg. Roedd enghreifftiau o gymorth ychwanegol i'r rhai hynny sy'n astudio yn Gymraeg yn cynnwys:

- ymgynghorwyr y Gymraeg i gynorthwyo dysgwyr â'u gwaith ysgrifenedig trwy gyfrwng y Gymraeg neu helpu i gynyddu eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn amlach
- swyddogion lles a mentoriaid sy'n gallu cynnig eu gwasanaethau yn Gymraeg.

Yng Ngheredigion, ceir ymdrech hefyd i sicrhau bod modd cynnig lleoliadau profiad gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cylch gorchwyl swyddog profiad gwaith yr awdurdod lleol yn cynnwys amlygu cyflogwyr sy'n cynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n gwerthfawrogi sgiliau Cymraeg ac sy'n gallu cynnig profiad gwaith. Yng Ngwynedd, nododd rhanddeiliaid fod Clybiau Swyddi a gynhelir ar y cyd gan weithwyr ieuenctid yr awdurdod lleol, Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith yn ceisio annog cyfranogwyr 16-24 oed i weld gwerth eu sgiliau Cymraeg yn y farchnad lafur.

**Beth sydd wedi galluogi cynnydd?**

Ym mhob un o'r tri awdurdod lleol, dywedodd rhanddeiliaid fod ymdrechion ar waith cyn i'r YEPF gael ei lansio i gynyddu'r ddarpariaeth a'r cymorth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael er mwyn ysgogi'r galw. Fodd bynnag, dywedodd

rhanddeiliaid hefyd fod y cynnydd mewn cydweithredu rhwng darparwyr ers yr YEPF wedi rhoi mwy o bwyslais ar y cymorth Cymraeg sydd ar gael (e.e. capasiti darparwyr gwirfoddol a chymunedol). Mae’r pwyslais cynyddol ar adnabod yn gynnar a gwaith ataliol gyda’r rhai hynny sydd mewn perygl o fod yn NEET wedi’i gyfateb hefyd ag ymdrechion i gynyddu’r ddarpariaeth alwedigaethol sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Beth fu’r heriau a sut y’u goresgynnwyd?**

Er bod y rhan fwyaf o wasanaethau arbenigol ar gael yn ddwyieithog, ceir anawsterau’n aml wrth ddarparu gwasanaethau CAMHS yn Gymraeg. Mae hyn yn adlewyrchu mater ehangach yn ymwneud â’r galw uchel am wasanaethau CAMHS a’r diffyg capasiti ac adnoddau i ymateb i hyn. Dywedodd awdurdodau lleol hefyd ei bod yn anodd weithiau i recriwtio seicolegwyr addysg sy’n siarad Cymraeg. Yn yr un modd, mae hyn yn ymwneud â her gyffredinol o ran recriwtio staff arbenigol mewn ardaloedd gwledig.

Mewn lleoliadau addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith, dywedodd rhai darparwyr fod pobl ifanc sydd wedi cael profiadau negyddol mewn ysgol Gymraeg weithiau’n cysylltu eu profiad negyddol o’r ysgol â’r iaith Gymraeg, ac felly fe all fod yn anodd eu darbwyllo ynghylch buddion hyfforddi neu ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Adroddwyd bod sicrhau bod gweithwyr ieuenctid sy’n siarad Cymraeg ar gael sy’n datblygu perthynas gadarnhaol â phobl ifanc ac yn cynnig profiadau cadarnhaol sy’n cyferbynnu â’r ysgol yn gallu helpu i oresgyn y canfyddiadau negyddol hyn. Ystyriwyd hefyd bod hyrwyddo gwerth sgiliau Cymraeg yn y farchnad lafur (e.e. trwy brofiad gwaith gyda chyflogwyr sy’n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg) yn fodd effeithiol o annog pobl ifanc i ddewis darpariaeth Gymraeg.

**Gweithredu’r YEPF mewn hinsawdd ariannol heriol (Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg, Caerdydd a Gwynedd)**

**Yr heriau a wynebir gan awdurdodau lleol**

Adroddodd awdurdodau lleol fod eu cyllidebau hwy a’u partneriaid wedi’u lleihau ers cyn i’r YEPF gael ei lansio. Mae hyn wedi parhau ers cyflwyno’r YEPF ym mis Hydref 2013. Mae graddau’r gostyngiad yn amrywio rhwng awdurdodau lleol. Yn un o’r awdurdodau lleol, er enghraifft, adroddwyd bod cyllideb y gwasanaeth ieuenctid wedi haneri yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mewn eraill, adroddwyd bod gostyngiadau mewn gwasanaethau ieuenctid yn amrywio o 6 y cant i 13 y cant. Er bod cyllidebau gwasanaethau

ieuenctid a chymunedol wedi'u lleihau, mae cyllidebau addysg wedi'u diogelu.

Mae hyn yn golygu bod yr YEPF wedi'i gyflwyno ar adeg pan fo uwch reolwyr yn gwneud penderfyniadau anodd am wariant ac yn gorfod ad-drefnu gwasanaethau. Ar y cyfan, adroddodd cyfweleion fod gwasanaethau sy'n cefnogi'r YEPF wedi cael eu cynnal hyd yma ac y bu pwyslais ar effeithlonrwydd (cyflawni'r un canlyniadau gyda llai o gyllid) yn hytrach na lleihau gwasanaethau. Yn un o'r awdurdodau lleol astudiaeth achos lle'r oedd y cyllid a oedd ar gael ar gyfer gwasanaethau ieuenctid wedi'i leihau'n sylweddol, mae darpariaeth gwasanaeth ieuenctid wedi'i thargedu ar gyfer y bobl ifanc sydd yn y perygl mwyaf o ymddieithrio wedi'i blaenoriaethu dros ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer yr holl bobl ifanc, ac nid yw'r rhan fwyaf o agweddau ar ddarpariaeth ieuenctid gyffredinol ar gael mwyach.

O ganlyniad, mae'r YEPF wedi'i gyflwyno ar adeg o newidiadau sylweddol i'r gwasanaethau a ddarperir. Adroddodd awdurdodau lleol am ostyngiadau mewn staffio, sydd wedi golygu y bu'n rhaid i staff ymgymryd â mwy o gyfrifoldebau o fewn eu rolau. Mae newidiadau i drefniadau staffio wedi cyflwyno heriau i berthnasoedd gweithio ar gyfer gweithredu'r YEPF. Bu angen amser i ffurfio perthnasoedd newydd, diweddaru gwybodaeth staff ac ailsefydlu morâl. Canfyddir bod hyn wedi effeithio ar gyflymder cynnydd wrth weithredu gwahanol elfennau'r YEPF.

Roedd awdurdodau lleol yn yr ardal Gydgyfeirio hefyd wedi nodi bod diwedd cyllid rhaglen 2007-2013 Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn cyd-fynd â chyflwyno'r YEPF. O ganlyniad, bu'n rhaid iddynt ystyried sut y dylai cyllid yr awdurdod lleol gael ei ailddyrannu i gynnal rolau fel gweithwyr trosglwyddo a gweithwyr arweiniol sy'n allweddol i gyflwyno'r YEPF ac a ariannwyd yn flaenorol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

**Camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i'r heriau**

Roedd yr holl awdurdodau lleol yn cydnabod bod ymyrryd yn gynnar ac atal pobl ifanc rhag ymddieithrio yn fwy cost-effeithiol yn y tymor hir na buddsoddi adnoddau mewn gwasanaethau ailymgysylltu dwys a drud. Mae amcanion yr YEPF yn cyd-fynd yn eglur â'r dull ataliol. O ganlyniad, disgrifiodd yr awdurdodau lleol ystod o gamau gweithredu a gymerwyd ganddynt i oresgyn yr heriau ariannol yr adroddwyd arnynt ac i sicrhau bod y broses o weithredu'r YEPF yn symud ymlaen er gwaethaf gostyngiadau mewn cyllidebau a staff. Roedd y rhain yn cynnwys:

- **ailgynllunio gwasanaethau ieuenctid.** Mae dau o'r awdurdodau lleol wedi ailgynllunio eu gwasanaethau ieuenctid i fodloni amcanion yr

YEPF yn well ac mewn ymateb i heriau ariannol. Yn flaenorol, roeddent yn cynnig gwasanaethau ieuenctid cyffredinol, mynediad agored. O ganlyniad i ostyngiadau mewn cyllidebau, nid oedd hyn yn ddichonadwy mwyach a symudwyd i wasanaethau ieuenctid wedi'u targedu ar gyfer y bobl ifanc sydd yn y perygl mwyaf o ymddieithrio, 'nid ydym yn hyrwyddo ein hunain fel gwasanaeth ieuenctid bellach. Mae ein darpariaeth gyffredinol yn fach iawn. Dyna sut y bu'n rhaid iddi fod', (uwch reolwr awdurdod lleol). Mewn un awdurdod lleol, roedd yr ailgynllunio'n cynnwys lleihau swyddi rheoli a dargyfeirio adnoddau i staff cymorth ieuenctid rheng flaen sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc sydd mewn perygl

- **amlygu ystod o ffrydiau cyllido i gefnogi'r broses o gyflwyno'r YEPF.** Adroddodd awdurdodau lleol y bu'n rhaid iddynt 'feddwl yn llawer mwy creadigol nag o'r blaen' er mwyn amlygu ystod ehangach o ffrydiau cyllido i gefnogi'r broses o weithredu'r YEPF. Mae ffrydiau cyllido newydd sy'n cael eu defnyddio yn cynnwys Teuluoedd yn Gyntaf, y grant Addysg Oedolion a Chymunedol, a'r Grant Llwybrau Dysgu 14-19. Er enghraifft, yng Nghaerdydd, defnyddir cyllid Teuluoedd yn Gyntaf i ariannu hyfforddwyr dysgu, ac ym Mro Morgannwg fe'i defnyddiwyd i ariannu darpariaeth amgen deg wythnos i blant a phobl ifanc 8-16 oed er mwyn cefnogi gwell sgiliau llythrennedd, rhifedd a chyfathrebu a hunan-barch. Mae'r Grant Addysg Oedolion a Chymunedol yn cael ei ddefnyddio ym Mro Morgannwg i gyflwyno darpariaeth cyn-ymgysylltu i bobl ifanc 16 oed nad ydynt eto'n barod i ymgymryd â chymhwyster dysgu seiliedig ar waith Lefel 1

- **cryfhau gwaith partneriaeth.** Adroddodd awdurdodau lleol eu bod wedi ymroi amser uwch reolwyr i wella cydweithio â phartneriaid allweddol. Er enghraifft, maent wedi treulio amser yn sicrhau bod uwch reolwyr mewn sefydliadau partner, fel yr heddlu, y gwasanaethau cymdeithasol, addysg, troseddau ieuenctid, tai a'r sector gwirfoddol a chymunedol, yn deall perthnasedd yr YEPF i'w gwaith a sut y gall gyfrannu at eu hamcanion strategol eu hunain. Gwnaed hyn trwy drafodaethau a chyflwyniadau ffurfiol yn ogystal â thrwy sicrhau y gwahoddir y partneriaid i fynychu grŵp llywio strategol yr YEPF. Ystyrir bod hyn yn 'helpu i rannu'r baich ymhlith partneriaid', (uwch reolwr awdurdod lleol). Er enghraifft, mewn un awdurdod lleol, mae uwch reolwr wedi gweithio'n agos gyda darparwyr ieuenctid y sector gwirfoddol a ariennir gan y Loteri. Sicrhaodd eu bod yn ymwybodol o'r

YEPF ac yna cynigiodd ddefnydd o safleoedd yr awdurdod lleol iddynt i gyflwyno eu darpariaeth Haen 2, ar yr amod eu bod yn defnyddio eu cyllid i weithio gyda phobl ifanc a atgyfeiriwyd iddynt gan ei staff ef. Mae o'r farn bod y trefniant hwn yn fuddiol i'r ddwy ochr oherwydd bod y darparwyr sector gwirfoddol a chymunedol yn derbyn atgyfeiriadau heb orfod ymroi amser ac adnoddau a bod safleoedd darparu ar gael iddynt, tra bod yr awdurdod lleol yn cyfeirio buddion cyllid Loteri ar gyfer pobl ifanc at grŵp targed yr YEPF. Disgrifiodd hyn fel 'defnyddio arian yn fwy deallus i roi mwy o gyfleoedd ar gyfer dilyniant heb edrych am gyllid arall. Mae'n ymwneud â sicrhau bod eu harian yn cael ei dargedu at y bobl y mae gennyf i ddiddordeb ynddynt'. O ran sicrhau ymrwymiad partneriaid addysg, mae awdurdodau lleol wedi gwneud ymdrech i ddangos sut y gall cymorth i bobl ifanc y gellid ei ystyried fel 'hamdden' neu 'waith ieuenctid meddal' gyfrannu at 'ganlyniadau addysgol pendant'. Maent wedi defnyddio data ar bresenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad i ddarbwyllo ysgolion y dylent fod yn defnyddio eu Grant Amddifadedd Disgyblion at ddibenion o'r fath

- **rheoli perfformiad gwasanaethau'n well.** Adroddodd dau o'r awdurdodau lleol eu bod wedi canolbwyntio ar fonitro a rheoli perfformiad yn agosach er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mor effeithlon â phosibl. Mewn un awdurdod lleol, er enghraifft, mae staff ymgysylltu a datblygu ieuenctid yn gweithio gyda phobl ifanc am gyfnod o chwe wythnos, a ddilynir gan adolygiad o gynnydd. Disgwylir y bydd tystiolaeth o welliant a chynnydd o fewn y cyfnod chwe wythnos hwn. 'Os nad ydych wedi gwneud rhyw fath o wahaniaeth mewn chwe wythnos, nid chi yw'r unigolyn priodol neu rydych yn gwneud y peth anghywir' (uwch reolwr awdurdod lleol)
- **rhannu seilwaith.** Ceir enghreifftiau hefyd o rannu adnoddau rhwng awdurdodau lleol, fel safleoedd a systemau gwybodaeth reoli. Mae hyn yn helpu i leihau'r costau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r YEPF ac yn atal dyblygu ymdrechion.

**Beth sydd wedi galluogi cynnydd?**

Mae arweinyddiaeth gref wedi galluogi cynnydd. Mae arweinyddiaeth ragweithiol gan uwch reolwr strategol wedi helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o'r YEPF, sicrhau ymrwymiad partneriaid, cyfateb ffrydiau cyllido ac ymsefydlu ailgynllunio gwasanaethau. Heb hyn, mae'n debygol y byddai cynnydd wedi bod yn arafach o lawer neu ni fyddai wedi digwydd o gwbl.

Mae gwaith partneriaeth a arweinir gan yr awdurdod lleol rhwng adrannau

awdurdod lleol, gwasanaethau cyhoeddus eraill, Gyrfa Cymru a darparwyr y sector gwirfoddol a chymunedol wedi lliniaru'r pwysau ar wasanaethau unigol a sicrhau bod camau gweithredu cydgysylltiedig yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi'r broses o gyflawni amcanion yr YEPF. Roedd y cyfweleion yn cydnabod rôl bwysig y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu wrth roi diweddariadau i bartneriaid yn barhaus am y trefniadau gweithredol ar gyfer yr YEPF, a oedd yn arbennig o bwysig ar adeg o newid staff.

Yn achos ad-drefnu gwasanaethau, ffactor pwysig oedd sicrhau bod y broses ar gyfer newid yn dryloyw a bod cylch gorchwyl a sail resymegol y gwasanaeth newydd yn eglur.

Cytunodd y cyfweleion fod bodolaeth yr YEPF fel fframwaith trosgynnol ar gyfer yr holl bartneriaid sy'n gweithio gyda phobl ifanc sy'n NEET neu sydd mewn perygl o fod yn NEET wedi bod yn ddefnyddiol. Mae wedi helpu'n wleidyddol i sicrhau adnoddau ac ymrwymiad partneriaid ac 'wedi fy ngalluogi i ddylanwadu'n fwy effeithiol ar bartneriaid a rhanddeiliaid trwy fy nghaniatáu i fynd atynt a dweud dyma'r maes rwy'n credu y dylem fod yn arbenigo ynddo/ ei ddarparu'. *(*cyfweliadau â staff awdurdod lleol)

**Beth fu'r heriau a sut y'u goresgynnwyd?**

Roedd awdurdodau lleol a oedd wedi ailgynllunio gwasanaethau yn cydnabod na ellir gweithredu newid ar y raddfa hon yn gyflym. Mae'n cymryd amser i sefydlu prosesau newydd ac i staff ymgyfarwyddo â ffyrdd newydd o weithio ac, mewn rhai achosion, i gynyddu eu sgiliau i weithio mewn ffyrdd gwahanol. Mae colli staff wedi golygu colli sgiliau ac arbenigedd nad yw'n rhwydd eu hadennill.

Roedd awdurdodau lleol hefyd yn cydnabod er y buont yn llwyddiannus hyd yma wrth amlygu ffrydiau cyllido newydd i allu darparu'r YEPF, bod y ffrydiau cyllido hyn yn debygol o gael eu lleihau yn y dyfodol ac felly bydd angen ailystyried ac amlygu datrysiadau newydd yn y dyfodol. Mewn rhai awdurdodau lleol, adroddwyd y bydd casglu a defnyddio tystiolaeth o well canlyniadau addysgol o ganlyniad i weithgareddau ieuenctid yn allweddol i'r cynllun ar gyfer llunio'r achos busnes dros gyllid parhaus yn y dyfodol.

**Canlyniadau**

O ganlyniad i'r camau gweithredu a ddisgrifiwyd, adroddodd awdurdodau lleol eu bod wedi llwyddo i wneud cynnydd wrth weithredu'r YEPF heb ddefnyddio cyllid ychwanegol. Cytunwyd bod y cymorth ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio wedi gwella ers lansio'r YEPF ac y cyflawnwyd hyn heb gynyddu gwariant.